



Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

2023 dsc 3

Nodiadau Esboniadol

Historic Environment (Wales) Act 2023

2023 asc 3

Explanatory Notes

£34.20



Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

2023 dsc 3

Nodiadau Esboniadol

Historic Environment (Wales) Act 2023

2023 asc 3

Explanatory Notes

DEDDF YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU) 2023

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") a basiwyd gan Senedd Cymru ar 28 Mawrth 2023 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023. Fe'u lluniwyd gan Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.
2. Nid yw'r nodiadau hyn yn darparu disgrifiad cynhwysfawr o gynnwys y Ddeddf. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar ddarpariaeth yn y Ddeddf, nis rhoddir.

CRYNODEB A CHEFNDIR

3. Mae'r Ddeddf yn dwyn ynghyd y brif ddeddfwriaeth ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Fe'i trefnir yn saith Rhan.
 - a. Mae Rhan 1 yn darparu trosolwg o'r Ddeddf.
 - b. Mae Rhan 2 yn cynnwys y gyfraith sy'n ymwneud â henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig, a all amrywio o wasgariadau o offer cynhanesyddol neu safleoedd archaeolegol eraill i adfeilion sefydlog cestyll, abatai neu safleoedd diwydiannol diweddarach. Ymhlith pethau eraill, mae Rhan 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal y gofrestr o henebion y maent yn ystyried eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol (mae dros 4,200 ohonynt ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn) ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer awdurdodi a rheolaethu gwaith i henebion cofrestredig gan Weinidogion Cymru. Mae Rhan 2 hefyd yn cynnwys pwerau ar gyfer caffael henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig a gwarcheidiaeth henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol, sy'n darparu'r sail ar gyfer rheolaeth a chadwraeth llawer o'r henebion sydd yng ngofal Gweinidogion Cymru (yn ymarferol, Cadw, sy'n gweithredu ar eu rhan).

HISTORIC ENVIRONMENT (WALES) ACT 2023

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Historic Environment (Wales) Act 2023 (“the Act”), which was passed by Senedd Cymru on 28 March 2023 and received Royal Assent on 14 June 2023. They have been prepared by Cadw, the Welsh Government’s historic environment service, in order to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.
2. These notes do not provide a comprehensive description of the contents of the Act. Where a provision of the Act does not seem to require explanation or comment, none is given.

SUMMARY AND BACKGROUND

3. The Act brings together the principal legislation for the conservation of the historic environment in Wales. It is organised into seven Parts.
 - a. Part 1 provides an overview of the Act.
 - b. Part 2 contains the law relating to monuments of special historic interest, which may range from scatters of prehistoric tools or other archaeological sites to the standing ruins of castles, abbeys or later industrial sites. Amongst other things, Part 2 requires the Welsh Ministers to maintain the schedule of monuments that they consider to be of national importance (numbering over 4,200 at the time of writing these notes) and makes provision for the authorisation and control by the Welsh Ministers of works to scheduled monuments. Part 2 also includes powers for the acquisition and guardianship of monuments of special historic interest by the Welsh Ministers or local authorities, which provides the basis for the management and conservation of many of the monuments in the care of the Welsh Ministers (in practice, Cadw acting on their behalf).

- c. Mae Rhan 3 yn ymwneud â'r dros 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru sy'n dyddio o'r Oesoedd Canol i gyfnodau mwy diweddar. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru restru adeiladau sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer awdurdodi a rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar adeiladau cofrestredig. Yn wahanol i'r gofrestr o henebion, pan nad oes rhaid i bob heneb yr ystyrir ei bod o bwysigrwydd cenedlaethol fod ar y gofrestr, rhaid i bob adeilad yr ystyrir ei fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig gael ei gynnwys ar y rhestr. Rhennir y cyfrifoldeb am awdurdodi a rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig rhwng awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru, er mai'r awdurdodau cynllunio sy'n ymwneud fwyaf â gweinyddu'r system. Mae Rhan 3 hefyd yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio i gaffael adeilad. Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol hefyd ymgymryd â gwaith brys i ddiogelu adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
 - d. Mae Rhan 4 yn ymdrin ag ardaloedd cadwraeth ac yn darparu ar gyfer eu dynodi'n ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig gan awdurdodau cynllunio a'u hadolygu o bryd i'w gilydd. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae dros 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru. Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer rheolaethu gwaith dymchwel ac ar gyfer cyflawni gwaith brys mewn ardaloedd cadwraeth ac ar gyfer grantiau sy'n ymwneud â diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth.
 - e. Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau atodol sy'n ymwneud ag adeiladau o ddiddordeb arbennig ac ardaloedd cadwraeth. Maent yn ymdrin â materion megis arfer swyddogaethau gan awdurdodau cynllunio, achosion gerbron Gweinidogion Cymru a dilysrwydd penderfyniadau a chywiro penderfyniadau.
 - f. Mae Rhan 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal a chyhoeddi'r gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru, sydd ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn yn cynnwys bron i 400 o safleoedd, a'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru, sydd â bron i 700,000 o gofnodion. Mae Rhan 6 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, yn manylu ar yr hyn y mae rhaid i gofnod amgylchedd hanesyddol ei gynnwys ac yn nodi'r trefniadau y mae rhaid eu gwneud i sicrhau mynediad y cyhoedd i gofnodion, ymhlith materion eraill.
 - g. Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth gyffredinol sy'n ymwneud â materion yn y Ddeddf, megis cyflwyno dogfennau, pwerau i wneud gwybodaeth yn ofynnol, digollediad a diffiniadau a dehongli.
4. Y prif Ddeddfau a ddygir ynghyd yn yr ymarfer cydgrynhoi hwn yw:
- a. Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion Hynafol 1953 (p. 49)
 - b. Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p. 46)

- c. Part 3 relates to the more than 30,000 listed buildings in Wales dating from the Middle Ages to more recent times. It requires the Welsh Ministers to list buildings that are, in their view, of special architectural or historic interest, and makes provision for the authorisation and control of works affecting listed buildings. Unlike the schedule of monuments, where not all monuments considered to be of national importance have to be on the schedule, every building considered to be of special architectural or historic interest has to be included on the list. The responsibility for the authorisation and control of works affecting listed buildings is shared between planning authorities and the Welsh Ministers, although it is planning authorities who are most heavily involved in administering the system. Part 3 also provides powers for the Welsh Ministers or planning authorities to acquire a building. The Welsh Ministers or a local authority may also undertake urgent works to preserve a building of special architectural or historic interest.
 - d. Part 4 deals with conservation areas and provides for their designation as areas of special architectural or historic interest by planning authorities and their periodic review. At the time of writing these notes, there are over 500 conservation areas in Wales. This Part also includes provisions for the control of demolition and for urgent works in conservation areas and for grants relating to the preservation or enhancement of conservation areas.
 - e. Part 5 contains supplementary provisions relating to buildings of special interest and conservation areas. They cover matters such as the exercise of functions by planning authorities, proceedings before the Welsh Ministers and the validity and correction of decisions.
 - f. Part 6 requires the Welsh Ministers to maintain and publish the register of historic parks and gardens in Wales, which at the time of writing these notes includes nearly 400 sites, and the list of historic place names in Wales, which has almost 700,000 entries. Part 6 also requires the Welsh Ministers to maintain a historic environment record for each of the 22 local authorities in Wales, details what a historic environment record must contain and sets out the arrangements that must be made for public access to records, amongst other matters.
 - g. Part 7 makes general provision relating to matters in the Act, such as service of documents, powers to require information, compensation and definitions and interpretation.
4. The main Acts brought together in this consolidation are:
- a. the Historic Buildings and Ancient Monuments Act 1953 (c. 49)
 - b. the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 (c. 46)

- c. Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9)
 - d. Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (dccc 4).
5. Mae'r ymarfer cydgrynhoi hefyd yn ailddatgan darpariaethau sydd i'w cael ar hyn o bryd mewn Deddfau eraill sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol i wella hygyrchedd ac eglurder. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - a. Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)
 - b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)
 - c. Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5).
6. Mae cydgrynhoi hefyd wedi rhoi cyfle i ymgorffori darpariaethau perthnasol o is-ddeddfwriaeth yn y Ddeddf lle y bo'n briodol. Dilynir y llwybr hwn yn gyffredinol pan fydd yr is-ddeddfwriaeth wedi ei hen sefydlu ac nad yw'n debygol o fod angen ei diwygio'n aml.
7. Yn ogystal â chael ei hategu gan is-ddeddfwriaeth berthnasol, ategir y ddeddfwriaeth sylfaenol hefyd gan gyngor cynllunio technegol, yn arbennig *Polisi Cynllunio Cymru* (argraffiad 11, 2021) a *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* (2017) ("TAN 24"). Mae Cadw hefyd yn cyhoeddi nifer o ddogfennau canllaw arferion gorau anstatudol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Ymhlith pethau eraill, mae TAN 24 yn nodi'r meini prawf dethol a gymhwysir wrth benderfynu a ddylid cynnwys heneb yn y gofrestr o henebion (Rhan 2, Pennod 1) ac wrth benderfynu pa un a yw adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig at ddibenion y rhestr o adeiladau (Rhan 3, Pennod 1). Mae'r holl ddogfennau cyngor a chanllawiau hyn yn cyfeirio at *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* ("Egwyddorion Cadwraeth") a gyhoeddwyd gan Cadw, ar ran Gweinidogion Cymru, yn 2011. Gyda'i gilydd mae'r dogfennau hyn yn nodi mai ystyr "cadwraeth" yw rheoli newid yn ofalus i warchod a diogelu'r hyn sy'n arwyddocaol ac yn arbennig am asedau hanesyddol.

SYLWEBEAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 1 – Trosolwg

Adran 1 – Trosolwg

8. Mae'r trosolwg yn yr adran hon yn cynnwys datganiad yn is-adran (1) ynghylch statws y Ddeddf fel rhan o god o gyfraith Cymru. Mae'r datganiad hwn wedi ei gynnwys i wella hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru ac mae'n ddull a fydd yn cael ei fabwysiadu mewn Deddfau cydgrynhoi yn y dyfodol ac mewn unrhyw Ddeddfau diwygio sy'n cynnwys datganiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phwnc penodol.

*These notes refer to the Historic Environment (Wales) Act 2023 (asc 3)
which received Royal Assent on 14 June 2023*

- c. the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (c. 9)
 - d. the Historic Environment (Wales) Act 2016 (anaw 4).
5. The consolidation also restates provisions currently found in other Acts relevant to the historic environment to improve accessibility and clarity. These include:
- a. the Local Government Act 1972 (c. 70)
 - b. the Town and Country Planning Act 1990 (c. 8)
 - c. the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c. 5).
6. Consolidation has also provided an opportunity to incorporate relevant provisions from secondary legislation into the Act where appropriate. This course has generally been taken when the secondary legislation is well established and is not likely to require frequent amendment.
7. In addition to being supplemented by relevant secondary legislation, the primary legislation is also supplemented by technical planning advice, notably *Planning Policy Wales* (edition 11, 2021) and *Technical Advice Note 24: The Historic Environment* (2017) (“TAN 24”). Cadw also publishes a number of non-statutory, best-practice guidance documents relating to the historic environment. Among other things, TAN 24 sets out the selection criteria applied when determining whether to include a monument in the schedule of monuments (Part 2, Chapter 1) and when determining whether a building is of special architectural or historic interest for the purposes of the list of buildings (Part 3, Chapter 1). All of these advice and guidance documents make reference to the *Conservation Principles for the Sustainable Management of the Historic Environment in Wales* (“*Conservation Principles*”) published by Cadw, on behalf of the Welsh Ministers, in 2011. Together these documents set out that “conservation” means managing change carefully to protect and preserve what is significant and special about historic assets.

COMMENTARY ON SECTIONS

Part 1 – Overview

Section 1 – Overview

8. The overview in this section includes a statement in subsection (1) about the status of the Act as part of a code of Welsh law. This statement has been included to improve the accessibility of the law in Wales and is an approach that will be adopted in future consolidation Acts and in any reform Acts that contain a comprehensive statement of the primary legislation on a particular topic.

9. Bwriad y datganiad statws hwn yw helpu personau sydd â diddordeb yn y gyfraith ar bwnc penodol – yr amgylchedd hanesyddol yn yr achos hwn – i ddod o hyd iddi a'i dosbarthu'n haws. Mae'r cyfeiriad at statws y Ddeddf wedi ei gynnwys gyda'r nod y bydd is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf yn gwneud darpariaeth sy'n union yr un fath. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth drydyddol (canllawiau yn bennaf) yn cael eu categorioeddio a'u cyhoeddi fel codau cyfraith cydlynol yn y dyfodol.
10. Mae dosbarthu Deddfau yn y ffordd hon yn gyson ag argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru* (Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, 2016). Roedd yr adroddiad hwnnw yn cydnabod pwysigrwydd cynnal uniondeb y gyfraith er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn hygyrch. Bwriad rhoi statws cod i Ddeddf yw annog symud oddi wrth sefyllfa pan fo'r gyfraith ar bwnc penodol wedi ei gwasgaru dros nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ar wahân. Yn hytrach, y bwriad yw y bydd Deddfau'r Senedd yn y dyfodol yn cael eu deddfu a'u cynnal mewn ffordd sy'n caniatáu i'r sawl sy'n defnyddio'r ddeddfwriaeth ddod o hyd i gymaint â phosibl o'r gyfraith sy'n effeithio ar bwnc penodol drwy ddarllen un Ddeddf gan y Senedd neu is-ddeddfwriaeth a wneir odani.
11. Mae is-adran (2) yn nodi'r Deddfau presennol y mae darpariaethau yn y Ddeddf hon yn deillio ohonynt neu odanynt. Daw'r rhan fwyaf o gynnwys y Ddeddf o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p. 46) ("Deddf 1979") a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9) ("Deddf Adeiladau Rhestredig 1990").

Rhan 2 – Henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig

12. Mae degau o filoedd o safleoedd archaeolegol hysbys ledled Cymru, ac mae llawer mwy eto i'w darganfod sydd wedi eu claddu a'u cuddio o'r golwg. Mae'r mwyafrif llethol o'r safleoedd hysbys wedi eu cofnodi yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol statudol ar gyfer ardal pob awdurdod lleol, a chynhelir y rhain gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru (adran 194). Mae'r cysyniad o "heneb" yn ganolog i reoli a gwarchod y dreftadaeth archaeolegol hon. Gall henebion gynnwys ystod eang o safleoedd archaeolegol, gan gynnwys: arteffactau cynhanesyddol wedi eu gwasgaru; olion claddedig; henebion angladdol a henebion defodol cynhanesyddol a gwrthgloddiau amddiffynnol; ffyrdd, caerau a filâu Rhufeinig; ac abatai, cestyll ac aneddiadau canoloesol.
13. Mae'r term "heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig" bellach yn cael ei ffafrio dros "heneb hynafol" yr arferid ei ddefnyddio, i adlewyrchu'r ffaith bod llawer o henebion yr ystyrir eu bod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn dyddio o'r gorffennol mwy diweddar, megis olion diwydiant y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg neu amddiffynfeydd milwrol o'r ugeinfed ganrif.
14. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i lunio a chynnal cofrestr o henebion y maent yn ystyried eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol. Nid yw'r holl henebion neu safleoedd archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol ar y gofrestr ar hyn o bryd a gellir dod o hyd i safleoedd newydd ar hap neu o ganlyniad i arolygon archaeolegol systematig. Cyhoeddir y gofrestr gyflawn gyfredol ar Cof Cymru – Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru, y gronfa ddata ar-lein o asedau hanesyddol dynodedig yng Nghymru a gynhelir gan Cadw ("Cof Cymru").

9. This declaration of status is intended to help persons interested in the law on a particular topic – the historic environment in this instance – find and classify it more easily. The reference to the Act’s status has been included with a view to subordinate legislation made under the Act making identical provision. The Welsh Government’s intention is that primary, secondary and tertiary legislation (mostly guidance) will in future be categorised and published as coherent codes of law.
10. Classifying Acts in this way is consistent with recommendations made by the Law Commission in its report *Form and Accessibility of the Law Applicable in Wales* (Law Com No 366, 2016). That report acknowledged the importance for the accessibility of the law of maintaining the integrity of the law. Giving an Act the status of a code is intended to encourage a move away from a situation where the law on a particular topic is spread across a number of separate pieces of primary legislation. Rather, the intention is that future Senedd Acts are enacted and maintained in a way that allows users of the legislation to find as much of the law affecting a particular topic as possible by reading a single Senedd Act or subordinate legislation made under it.
11. Subsection (2) identifies the existing Acts from or under which provisions of this Act are derived. The majority of the content of the Act comes from the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 (c. 46) (“the 1979 Act”) and the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (c. 9) (“the 1990 Listed Buildings Act”).

Part 2 – Monuments of special historic interest

12. There are tens of thousands of known archaeological sites across Wales, and many more yet to be discovered that are buried and hidden from sight. The great majority of the known sites are recorded on the statutory historic environment records for each local authority area, maintained by the Welsh archaeological trusts on behalf of the Welsh Ministers (section 194). The concept of a “monument” is central to the management and protection of this archaeological heritage. Monuments can comprise a wide range of archaeological sites including: scatters of prehistoric artefacts; buried remains; prehistoric funerary and ritual monuments and defensive earthworks; Roman roads, forts and villas; and medieval settlements, abbeys and castles.
13. The term “monument of special historic interest” is now preferred to the previously used “ancient monument” to reflect the fact that many monuments considered to be of public interest date from the more recent past, such as the remains of eighteenth- and nineteenth-century industry or twentieth-century military defences.
14. The Welsh Ministers have a duty to compile and maintain a schedule of monuments that they consider to be of national importance. Not all nationally important monuments or archaeological sites are currently on the schedule and new sites can be found by chance or as the result of systematic archaeological surveys. The complete up-to-date schedule is published on Cof Cymru – National Historic Assets of Wales, the online database of designated historic assets in Wales maintained by Cadw (“Cof Cymru”).

15. Ategir y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â henebion a safleoedd archaeolegol gan bolisi cynllunio a chynghor a chanllawiau arferion gorau, yn arbennig TAN 24 a *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru* (2018). Mae'r dogfennau hyn yn egluro mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gofrestru henebion, ond y caiff y broses, yn ymarferol, ei rheoli gan Cadw sy'n gweithredu ar eu rhan.
16. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae 131 o henebion yng ngofal Gweinidogion Cymru, gan gynnwys henebion claddu Neolithig cynnar sydd dros 5000 o flynyddoedd oed, llawer o gestyll ac abatai mawr Cymru'r Oesoedd Canol a henebion o'n gorffennol diwydiannol mwy diweddar. Yn ymarferol, caiff yr henebion hyn eu cadw, eu cynnal a'u cyflwyno i'r cyhoedd gan Cadw a ran Gweinidogion Cymru. O'r 131 o henebion hynny, mae 108 o dan warcheidiaeth ar hyn o bryd. Mae hwn yn drefniant gwirfoddol lle y mae'r gwarcheidwad (Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn) yn cytuno i dderbyn cyfrifoldeb am reoli'r heneb ac yn caffael hawliau penodol dros yr eiddo ond nad yw'n cymryd perchnogaeth ohono.
17. Mae'r cysyniadau "heneb gofrestredig" a "gwarcheidiaeth" yn dyddio o'r ddeddfwriaeth gyntaf yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol i'w phasio ym Mhrydain Fawr ac Iwerddon, sef Deddf Gwarchod Henebion Hynafol 1882 (p. 73). Cafodd tair heneb gynhanesyddol yng Nghymru eu cynnwys yn y gofrestr gyntaf yn ym 1882. Ym mis Ebrill 2023, roedd 4,229 o henebion cofrestredig yng Nghymru. Yr heneb gyntaf yng Nghymru i gael ei chymryd i warcheidiaeth oedd yr heneb gladdu Neolithig ym Mhentre Ifan yng ngogledd Sir Benfro ym 1884, a'r diweddaraf oedd y castell canoloesol yng Nghaergwrle yn Sir y Fflint yn 2020.

Pennod 1 – Termau allweddol

18. Mae'r cydsyniad o "heneb" yn ganolog i'r ddeddfwriaeth ar gyfer dynodi, rheoli a gwarchod treftadaeth archaeolegol Cymru. Mae Pennod 1, felly, yn darparu diffiniadau sylfaenol sy'n ymwneud â henebion ar ddechrau'r Rhan.

Adran 2 – Ystyr "heneb" a "safle heneb"

19. Bydd y pum categori a ddiffinnir yn adran 2(1)(a) i (e) yn cynnwys ystod eang o "henebion" yn yr amgylchedd hanesyddol daearol a'r amgylchedd hanesyddol morol.
20. Ym mharagraffau (a) a (b), mae "gwaith" yn cyfeirio at unrhyw beth a adeilidir gan weithgarwch dynol neu o ganlyniad i weithgarwch dynol. Byddai hyn yn cynnwys gwrthgloddiau cynhanesyddol a hwyrach, megis Clawdd Offa'r canoloesoedd cynnar.
21. Mae paragraff (e) yn darparu y caniateir ystyried safle unrhyw beth neu unrhyw grŵp o bethau sy'n dystiolaeth o weithgarwch dynol blaenorol yn heneb (cyhyd nad yw eisoes wedi ei gwmpasu gan baragraff (b), (c) neu (d)). Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, safleoedd heb adeiladau neu waith lle y mae arteffactau wedi eu gwasgaru – offer fflint cynhanesyddol efallai neu, o gyfnodau mwy diweddar, eitemau wedi eu gwrthod o odynau crochenwaith neu brosesau diwydiannol eraill – gan gynnig tystiolaeth archaeolegol o weithgarwch dynol yn y gorffennol.

15. The legislation relating to monuments and archaeological sites is supported by planning policy and advice and best-practice guidance, notably TAN 24 and *Managing Scheduled Monuments in Wales* (2018). These documents explain that, while the Welsh Ministers are responsible for scheduling monuments, in practice the process is managed by Cadw acting on their behalf.
16. At the time of writing these notes, 131 monuments are in the care of the Welsh Ministers including early Neolithic burial monuments that are over 5,000 years old, many of the great castles and abbeys of medieval Wales and monuments from our more recent industrial past. In practice, these monuments are conserved, maintained and presented to the public by Cadw on behalf of the Welsh Ministers. Of those 131 monuments, 108 are currently in guardianship. This is a voluntary arrangement whereby the guardian (in this case the Welsh Ministers) agrees to accept responsibility for the management of the monument and acquires certain rights over the property but does not take on its ownership.
17. The concepts of “scheduled monument” and “guardianship” date from the first legislation relating to the historic environment to be passed in Great Britain and Ireland, the Ancient Monuments Protection Act 1882 (c. 73). Three prehistoric monuments in Wales were included in the very first schedule in 1882. As of April 2023, there were 4,229 scheduled monuments in Wales. The first monument in Wales to be taken into guardianship was the Neolithic burial monument at Pentre Ifan in north Pembrokeshire in 1884, and the most recent was the medieval castle at Caergwrlle in Flintshire in 2020.

Chapter 1 – Key terms

18. The concept of a “monument” is central to the legislation for the designation, management and protection of the archaeological heritage of Wales. Chapter 1 therefore provides fundamental definitions relating to monuments at the beginning of the Part.

Section 2 – Meaning of “monument” and “site of monument”

19. The five categories defined in section 2(1)(a) to (e) will accommodate a wide range of “monuments” in both the terrestrial and marine historic environments.
20. In paragraphs (a) and (b), “work” refers to anything constructed by or as a result of human activity. This would include prehistoric and later earthworks, such as the early medieval Offa’s Dyke.
21. Paragraph (e) provides that the site of any thing or group of things that evidences previous human activity may be considered a monument (as long as it is not already captured in paragraph (b), (c) or (d)). This could include, for example, sites without buildings or works where scatters of artefacts – perhaps prehistoric flint tools or, from more recent times, rejects from pottery kilns or other industrial processes – offer archaeological evidence of past human activity.

22. Mae is-adran (3) yn dileu unrhyw adeilad crefyddol a ddefnyddir at ddibenion crefyddol ar hyn o bryd o'r rhestr o bethau y caniateir eu hystyried yn henebion. Er na ellid barnu bod man addoli sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau yn heneb, gellid barnu bod man addoli adfeiliedig yn heneb.
23. Ni fyddai is-adran (3) yn atal arteffactau sydd wedi eu dwyn i mewn i fan addoli i'w gwarchod a'u harddangos rhag cael eu dosbarthu'n henebion os ydynt yn dod o fewn y diffiniad yn is-adran (1). Gallai'r arteffactau hyn fod yn groesau, yn gerrig arysgrifedig ac yn arteffactau eraill tebyg. Hyd yn oed os yw arteffact fel hyn yn sownd wrth lawr neu wal eglwys, caniateir ei gydnabod yn heneb os gellid ei symud ymaith heb aflonyddu gormod ar yr adeilad.
24. Mae is-adran (5) yn egluro bod "safle heneb" yn cynnwys y tir y mae'r heneb ynddo, arno neu odano, ond hefyd unrhyw dir arall sy'n hanfodol i gynnal a diogelu'r heneb. Naill ai Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol fyddai'n penderfynu a yw tir arall yn hanfodol at y diben hwn, gan ddibynnu ar ba un o'r ddau barti a oedd yn arfer swyddogaeth o dan y Rhan hon mewn perthynas â'r heneb. Gallai tir ychwanegol o'r fath, er enghraifft, ddarparu mynediad at yr heneb sy'n angenrheidiol i barhau i'w rheoli a'i chadw.
25. Mae is-adran (8) yn cadarnhau bod "olion" yn yr adran hon yn cynnwys unrhyw arlliw neu unrhyw arwydd o fodolaeth flaenorol y peth o dan sylw. Mae olion cynydu a ddarganfyddir yn ystod arolwg o'r awyr neu wybodaeth a geir o sganio laser 3-D (lidar), radar treiddio daear neu dechnegau gwyddonol eraill i arolygu safleoedd archaeolegol yn amlygu'n aml fodolaeth henebion nas datgelwyd fel arall.

Pennod 2 – Cofrestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol

26. Mae'r Bennod hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol. Yn ymarferol, caiff hon ei chynnal gan Cadw ar ran Gweinidogion Cymru. At ddibenion trosglwyddo o Ddeddf 1979 i'r Ddeddf hon, daw'r gofrestr o henebion a gynhelir ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru o dan adran 1 o Ddeddf 1979 yn gofrestr a gynhelir at ddibenion adran 3 o'r Ddeddf.
27. Wrth i heneb gael ei chynnwys ar y gofrestr – "cofrestru" – daw yn ddarostyngedig i'r drefn gydsynio, gweithdrefnau gorfodi a darpariaethau eraill sydd wedi eu cynnwys mewn Penodau tuag at ddiwedd y Rhan hon o'r Ddeddf.
28. Mae'r Bennod hon yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori cyn i Weinidogion Cymru ddiwygio'r gofrestr (adran 5) ac yn rhoi'r cyfle i berchnogion a meddianwyr i ofyn am adolygiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru i ychwanegu heneb neu ran ychwanegol o heneb at y gofrestr (adrannau 9 a 10). Mae hefyd yn cadarnhau bod heneb sy'n cael ei hystyried ar gyfer ei chofrestru, yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn cael gwarchodaeth interim fel pe bai eisoes yn heneb gofrestredig. Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â diwygio'r gofrestr, caiff person sydd â buddiant mewn heneb, ac sy'n dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad uniongyrchol i warchodaeth interim, hawlio digollediad oddi wrth Weinidogion Cymru (adrannau 6 i 8).

22. Subsection (3) removes from consideration as a monument any religious building that is currently used for religious purposes. While a place of worship being used for services could not be deemed a monument, a derelict or ruined place of worship could.
23. Subsection (3) would not prevent artefacts that have been brought into a place of worship for protection and display from being classed as monuments if they fall within the definition in subsection (1). These artefacts could be crosses, inscribed stones and other similar artefacts. Even if an artefact of this kind is fixed to a floor or wall of a church, it may be recognised as a monument if it could be removed with minimal disruption to the building.
24. Subsection (5) explains that the “site of a monument” includes not only the land in, on or under which the monument is situated, but any other land that is essential for the monument’s support and preservation. Whether other land is essential for this purpose would be determined either by the Welsh Ministers or a local authority, depending on which of the two parties was exercising a function under this Part in relation to the monument. Such additional land might, for instance, provide access to the monument necessary for ongoing management and conservation.
25. Subsection (8) establishes that in this section “remains” includes any trace or sign of the previous existence of the thing in question. Crop marks discovered during an aerial survey or information obtained from 3-D laser scanning (lidar), ground-penetrating radar or other scientific techniques for the survey of archaeological sites often reveal the existence of otherwise undetected monuments.

Chapter 2 – Schedule of monuments of national importance

26. This Chapter requires the Welsh Ministers to maintain a schedule of monuments of national importance. In practice, this is maintained by Cadw on behalf of the Welsh Ministers. For the purposes of the transition from the 1979 Act to this Act, the schedule of monuments currently maintained by the Welsh Ministers under section 1 of the 1979 Act will become the schedule maintained for the purposes of section 3 of the Act.
27. Inclusion of a monument on the schedule – “scheduling” – renders it subject to the consent regime, enforcement procedures and other provisions contained in later Chapters of this Part of the Act.
28. This Chapter requires consultation before the Welsh Ministers amend the schedule (section 5) and gives owners and occupiers the opportunity to request a review of the Welsh Ministers’ decision to add a monument or an additional part of a monument to the schedule (sections 9 and 10). It also establishes that, during the consultation period, a monument being considered for scheduling enjoys interim protection as if it were already a scheduled monument. If the Welsh Ministers decide not to amend the schedule, a person with an interest in a monument who suffers loss or damage as a direct result of interim protection may claim compensation from the Welsh Ministers (sections 6 to 8).

Adran 3 – Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi cofrestr o henebion

29. Mae adran 3(1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o henebion a rhaid iddynt gyhoeddi'r gofrestr gyfredol. Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r gofrestr gyfredol ar Cof Cymru.
30. Mae Gweinidogion Cymru yn defnyddio meini prawf dethol sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad A o TAN 24 i asesu a yw heneb o bwysigrwydd cenedlaethol a phenderfynu a yw cofrestru yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf hyn yn cwmpasu pob sefyllfa; yn hytrach maent yn ddangosyddion sy'n cyfrannu at ddyfarniad ehangach sy'n seiliedig ar amgylchiadau unigol pob achos. Er enghraifft, efallai nad cofrestru yw'r dull gorau ar gyfer safle sydd i'w gollu yn fuan i erydu arfordirol; mae'n debygol mai cloddio llawn yw'r unig ffordd i gofnodi pwysigrwydd yr ased hanesyddol. Felly, er bod adran 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o henebion y maent yn ystyried eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol, effaith is-adran (1) yw nad yw'n ofynnol iddynt gynnwys pob heneb sy'n bodloni'r meini prawf. Mae'n werth nodi hefyd bod Gweinidogion Cymru, pan fyddant yn cofrestru heneb, yn gallu cofrestru rhan o'r heneb, heb gofrestru'r heneb yn ei chyfanrwydd. Ac mae adran 2(6)(c) o'r Ddeddf yn darparu bod cyfeiriadau yn y Ddeddf at heneb yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw ran ohoni.
31. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cofnod yn y gofrestr gynnwys map a gynhelir gan Weinidogion Cymru sy'n nodi ardal yr heneb. Bydd map diffiniol yn cael ei gynnwys yn y cofnod a ddarperir pan fydd Gweinidogion Cymru yn bodloni'r gofynion hysbysu yn adran 4(3). Mae'r cofnod ar gyfer pob heneb ar Cof Cymru hefyd yn darparu mynediad at fap y gellir ei argraffu.
32. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, yn ogystal â chofrestru henebion ychwanegol o dan is-adran (1), ddileu heneb o'r gofrestr – "datgofrestru" – neu ddiwygio cofnod presennol. Gallai'r olaf, er enghraifft, olygu cynyddu neu leihau ardal gofrestredig heneb. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud unrhyw newidiadau eraill y gall fod angen eu gwneud i gofnod yn y gofrestr. Er enghraifft, pe bai ymchwiliadau archaeolegol neu hanesyddol yn darparu gwybodaeth newydd am heneb, gellid diwygio'r cofnod yn y gofrestr i adlewyrchu hyn. Caiff datgofrestru ei ystyried mewn achosion eithriadol yn unig. Gallai rhesymau dros ddatgofrestru gynnwys colli rhan sylweddol o heneb neu ei safle, efallai drwy erydu arfordirol.
33. Mae is-adran (5) yn cadarnhau bod cofnod yn y gofrestr sy'n cofnodi cynnwys heneb yn bridiant tir lleol. Bydd pridiant tir lleol yn tynnu sylw prynwr at y cyfyngiadau a osodir ar ddefnyddio'r tir drwy gofrestru'r heneb.

Adran 4 – Hysbysu perchennog etc. pan fo'r gofrestr wedi ei diwygio

34. Mae'r adran hon yn nodi sut y mae rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad ar ôl iddynt ddiwygio'r gofrestr drwy ychwanegu heneb, dileu heneb neu ddiwygio'r cofnod ar gyfer heneb. Rhaid cyflwyno hysbysiad i'r derbynwyr penodedig cyn gynted â phosibl ar ôl i ddiwygiad gael ei wneud er mwyn codi ymwybyddiaeth o'i oblygiadau – rhaid tynnu sylw perchnogion a meddianwyr, er enghraifft, at y ffaith bod cofrestru yn gosod gwaharddiadau penodol ar waith anawdurdodedig. Oni bai bod y diwygiad yn dileu heneb o'r gofrestr, rhaid i'r hysbysiad bennu'r dyddiad y gwnaeth Gweinidogion Cymru y diwygiad a rhaid iddo gael ei gyflwyno ar y cyd â chopi o'r cofnod neu'r cofnod diwygiedig yn y gofrestr.

Section 3 – Duty to maintain and publish schedule of monuments

29. Section 3(1) provides that the Welsh Ministers must maintain a schedule of monuments and must publish the up-to-date schedule. The Welsh Ministers publish the up-to-date schedule on Cof Cymru.
30. The Welsh Ministers use selection criteria contained in Annex A of TAN 24 to assess whether a monument is of national importance and determine if scheduling is appropriate. These criteria are not, however, definitive; rather they are indicators that contribute to a wider judgement based on the individual circumstances of a case. For example, scheduling may not be the best approach for a site soon to be lost to coastal erosion; full excavation is likely to be the only way to record the historic asset's importance. So, although section 3 requires the Welsh Ministers to maintain a schedule of monuments that they consider to be of national importance, the effect of subsection (1) is that they are not required to include all monuments that meet the criteria. It's also worth noting that, where the Welsh Ministers do schedule a monument, they are able to schedule part of the monument, without scheduling the monument in its entirety. And section 2(6)(c) of the Act provides that references in the Act to a monument include references to any part of it.
31. Subsection (2) requires every entry in the schedule to include a map maintained by the Welsh Ministers identifying the monument's area. A definitive map will be included in the entry provided when the Welsh Ministers fulfil the notification requirements in section 4(3). The entry for every monument on Cof Cymru also provides access to a printable map.
32. Subsection (3) provides that, in addition to scheduling additional monuments under subsection (1), the Welsh Ministers may remove a monument from the schedule – “descheduling” – or amend an existing entry. The latter could involve, for example, increasing or decreasing the scheduled area of a monument. The Welsh Ministers may also make any other changes that may be needed to an entry in the schedule. For example, if archaeological or historical investigations were to provide new information about a monument, the entry in the schedule could be amended to reflect this. Descheduling will only be considered in exceptional cases. Reasons for descheduling might include severe loss to a monument or its site, perhaps through coastal erosion.
33. Subsection (5) establishes that an entry in the schedule recording the inclusion of a monument is a local land charge. A local land charge will alert a purchaser to the restrictions imposed on the use of the land by the scheduling of the monument.

Section 4 – Notification of owner etc. where the schedule is amended

34. This section sets out how the Welsh Ministers must serve notice after they have amended the schedule by adding a monument, removing a monument or amending the entry for a monument. Notice must be served on the specified recipients as soon as possible after an amendment is made to raise awareness of its implications – owners and occupiers, for instance, need to be alerted that scheduling imposes certain prohibitions on unauthorised works. Unless the amendment removes a monument from the schedule, the notice must specify the date that the Welsh Ministers made the amendment and be accompanied by a copy of the entry or amended entry in the schedule.

Adran 5 – Ymgynghori cyn ychwanegu heneb at y gofrestr neu ddileu heneb o'r gofrestr

Adran 6 – Gwarchodaeth interim wrth aros am benderfyniad ar ddiwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r gofrestr

35. Mae adran 5 yn sefydlu strwythur ffurfiol ar gyfer ymgynghori ar gynigion Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r gofrestr. Mae'n darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o ddiwygiad arfaethedig i dderbynwyr penodedig a chaniatáu 28 o ddiwrnodau o leiaf i'r personau hynny gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.
36. Bydd cyflwyno hysbysiad o gynnig i ddiwygio'r gofrestr drwy ychwanegu heneb neu ychwanegu unrhyw beth fel rhan o heneb yn sbarduno gwarchodaeth interim o dan adran 6. Yn yr achos hwnnw, mae adran 5(4)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad egluro effaith gwarchodaeth interim a phennu'r dyddiad y mae gwarchodaeth interim yn cymryd effaith.
37. O'r adeg honno, a hyd nes y daw gwarchodaeth interim i ben yn unol ag adran 7, bydd y Rhan hon o'r Ddeddf yn cael effaith fel pe bai heneb sy'n cael ei hystyried i'w hychwanegu at y gofrestr eisoes wedi ei chofrestru neu fel pe bai diwygiad arfaethedig eisoes wedi ei wneud.
38. Pan fo heneb yn ddarostyngedig i warchodaeth interim, mae'n drosedd ymgymryd â gwaith iddi heb gydsyniad (adran 30) neu wneud difrod i'r heneb (adran 58). Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y byddai person sy'n cyflawni gwaith dymchwel heb gydsyniad mewn perthynas â heneb o dan warchodaeth interim yn cyflawni trosedd, oni bai bod amddiffyniad perthnasol ar gael i'r person. Nod gwarchodaeth interim yw rhoi gwarchodaeth i heneb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gall hyn fod yn warchodaeth, er enghraifft, rhag perchennog a allai fel arall fod â chymhelliant i ddifrodi neu ddinistrio ased hanesyddol yn fwriadol yn ystod y cyfnod ymgynghori mewn ymdrech i danseilio'r warchodaeth y byddai cofrestru wedi ei darparu fel arall.
39. Mae is-adran (4) o adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o henebion sy'n ddarostyngedig i warchodaeth interim a darparu copi o'r hysbysiad a gyflwynir o dan adran 5(2) i unrhyw berson sy'n gofyn am gopi. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r rhestr wedi ei chynnwys ar y dudalen "Hysbysiadau statudol ymgynghori heneb gofrestredig" yn yr adran "Henebion cofrestredig" ar wefan Cadw ac fe'i cynrychiolir hefyd fel categori penodol ar Cof Cymru.

Adran 7 – Pan ddaw gwarchodaeth interim i ben

Atodlen 1 – Diwedd gwarchodaeth interim ar gyfer henebion

40. Mae adran 7 yn nodi sut a phryd y daw gwarchodaeth interim i ben.
41. Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu ychwanegu heneb at y gofrestr neu ychwanegu rhan newydd i heneb bresennol yn y gofrestr, daw gwarchodaeth interim i ben ar ddechrau'r diwrnod a bennir yn yr hysbysiad y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei roi o dan adran 4 (gweler is-adrannau (1)(a) a (2)(a) o adran 7).

Section 5 – Consultation before adding or removing monument to or from the schedule

Section 6 – Interim protection pending decision on certain amendments relating to the schedule

35. Section 5 puts in place a formal structure for consultation on the Welsh Ministers' proposals to amend the schedule. It provides that the Welsh Ministers must serve a notice of a proposed amendment on specified recipients and allow those persons at least 28 days to make written representations.
36. The service of a notice of a proposal to amend the schedule by adding a monument or adding anything as part of a monument will trigger interim protection under section 6. In that case, section 5(4)(b) requires the notice to explain the effect of interim protection and specify the date on which interim protection takes effect.
37. From that time, and until interim protection ends in accordance with section 7, this Part of the Act will have effect as if a monument being considered for addition to the schedule were already scheduled or a proposed amendment were already made.
38. Where a monument is subject to interim protection it is an offence to undertake works to it without consent (section 30) or to damage the monument (section 58). This means, for example, that a person carrying out demolition works without consent in relation to a monument under interim protection would commit an offence, unless a relevant defence was available to the person. Interim protection is designed to afford protection to a monument during the consultation period. This may be protection, for instance, from an owner who could otherwise have an incentive to deliberately damage or destroy a historic asset during the consultation period in an effort to undermine the protection that scheduling would otherwise have provided.
39. Subsection (4) of section 6 requires the Welsh Ministers to publish a list of monuments subject to interim protection and provide a copy of the notice served under section 5(2) to any person who requests one. At the time of writing these notes, the list is included on the "Statutory scheduled monument consultation notices" page in the "Scheduled monuments" section of the Cadw website and is also represented as a distinct category on Cof Cymru.

Section 7 – When interim protection ends

Schedule 1 – End of interim protection for monuments

40. Section 7 sets out how and when interim protection comes to an end.
41. If the Welsh Ministers decide to add a monument to the schedule or add a new part to an existing monument in the schedule, interim protection ends at the beginning of the day specified in the notice that the Welsh Ministers are required to give under section 4 (see subsections (1)(a) and (2)(a) of section 7).

42. Os yw Gweinidogion Cymru, ar y llaw arall, yn penderfynu peidio ag ychwanegu heneb at y gofrestr neu ychwanegu rhan newydd i heneb bresennol yn y gofrestr, rhaid iddynt gyflwyno hysbysiad o'u penderfyniad i bob perchennog a meddiannydd a phob awdurdod lleol y mae'r heneb yn ei ardal. Bydd gwarchodaeth interim yn dod i ben ar ddechrau'r diwrnod a bennir yn yr hysbysiad hwnnw (gweler is-adrannau (1)(b), (2)(b) a (3))
43. Mae Atodlen 1 – a gyflwynir gan yr adran hon – yn gymwys pan ddaw gwarchodaeth interim i ben o ganlyniad i gyflwyno hysbysiad o dan adran 7(1)(b) neu (2)(b); mae'n nodi sut y mae'r ffaith bod gwarchodaeth interim yn dod i ben yn effeithio ar gamau amrywiol a gymerwyd tra oedd gwarchodaeth interim yn cael effaith (gan gynnwys camau gorfodi ac atebolrwydd troseddol).

Adran 8 – Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim

44. Os yw Gweinidogion Cymru yn cyflwyno hysbysiad o ddiwedd gwarchodaeth interim o dan adran 7(1)(b) neu (2)(b), sy'n nodi eu bod wedi penderfynu peidio â chofrestru heneb neu ran ychwanegol o heneb, caiff person a oedd â buddiant yn yr heneb pan gymerodd y warchodaeth interim effaith hawlio digollediad am unrhyw golledion neu ddifrod a ddioddefwyd y gellir eu priodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r warchodaeth interim. Mae'r adran hon yn nodi sut mae rhaid gwneud hawliad i Weinidogion Cymru.
45. Mae adran 202 yn gwneud darpariaeth ychwanegol ynghylch hawliadau am ddigollediad, ac yn arbennig yn caniatáu i Weinidogion Cymru estyn y cyfnod ar gyfer gwneud hawliad am ddigollediad mewn achos penodol os ydynt wedi eu bodloni bod rheswm da dros wneud hynny. Bydd unrhyw anghydfodau ynghylch digollediad o dan y Ddeddf hon yn cael eu hatgyfeirio at yr Uwch Dribiwnlys o dan adran 203. Mae Rheolau'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) yn gwneud darpariaeth ar gyfer atgyfeirio'r achos a'r modd yr ymdrinnir ag ef at y Tribiwnlys.

Adran 9 – Adolygu penderfyniad i ychwanegu heneb at y gofrestr etc.

Adran 10 – Darpariaeth atodol ynghylch adolygiadau

Atodlen 2 – Penderfyniad ar adolygiad gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru

Atodlen 6 – Achosion o dan Ran 2

46. Os yw Gweinidogion Cymru yn ychwanegu heneb at y gofrestr neu'n diwygio cofnod presennol yn y gofrestr i gynnwys rhan ychwanegol o heneb gofrestredig bresennol, mae adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi cyfle i unrhyw berchennog neu unrhyw feddiannydd ar yr heneb i ofyn am adolygiad o'u penderfyniad cofrestru.
47. Mae is-adran (2) o adran 9 yn darparu mai'r sail ar gyfer adolygiad yw nad yw'r heneb (neu ran o'r heneb, os gwnaed estyniad i gofnod presennol ar gyfer heneb) o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai pwysigrwydd cenedlaethol, o dan adran 3(1), yw'r sail ar gyfer cynnwys heneb yn y gofrestr gan Weinidogion Cymru. Mae is-adran (6) o adran 9 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu seiliau eraill ar gyfer adolygiad yn y dyfodol.

42. If, on the other hand, the Welsh Ministers decide not to add a monument to the schedule or add a new part to an existing monument in the schedule, they must serve notice of their decision on every owner and occupier and every local authority in whose area the monument is situated. Interim protection will cease at the beginning of the day specified in that notice (see subsections (1)(b), (2)(b) and (3))
43. Schedule 1 – which is introduced by this section – applies when interim protection comes to an end as a result of the service of a notice under section 7(1)(b) or (2)(b); it sets out how the end of interim protection affects various actions taken while interim protection was in effect (including enforcement action and criminal liability).

Section 8 – Compensation for loss or damage caused by interim protection

44. If the Welsh Ministers serve notice of the end of interim protection under section 7(1)(b) or (2)(b), indicating that they have decided not to schedule a monument or an additional part of a monument, a person who had an interest in the monument when the interim protection took effect may claim compensation for any loss or damage suffered that is directly attributable to the interim protection. This section sets out how a claim must be made to the Welsh Ministers.
45. Section 202 makes additional provision about claims for compensation, and in particular allows the Welsh Ministers to extend the period for making a claim for compensation in a particular case if they are satisfied that there is good reason for doing so. Any disputes about compensation under this Act will be referred to the Upper Tribunal under section 203. The Upper Tribunal (Lands Chamber) Rules make provision for the reference of a case to the Tribunal and its handling.

Section 9 – Review of decision to add monument to the schedule etc.

Section 10 – Supplementary provision about reviews

Schedule 2 – Decision on review by person appointed by the Welsh Ministers

Schedule 6 – Proceedings under Part 2

46. If the Welsh Ministers add a monument to the schedule or amend an existing entry in the schedule to include an additional part to an existing scheduled monument, section 9 requires them to afford any owner or occupier of the monument an opportunity to request a review of their scheduling decision.
47. Subsection (2) of section 9 provides that the ground for a review is that the monument (or part, if an extension to an existing entry for a monument has been made) is not of national importance. This reflects that, under section 3(1), national importance is the basis for the Welsh Ministers' inclusion of a monument in the schedule. Subsection (6) of section 9 provides that the Welsh Ministers may make regulations to specify other grounds for review in the future.

48. O dan is-adran (3) o adran 9, rhaid i Weinidogion Cymru benodi person i gynnal yr adolygiad ac i wneud penderfyniad arno. Fel rheol, un o arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (Arolygiaeth Gynllunio Cymru gynt) fydd hwn. Fodd bynnag, mae is-adran (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru bennu disgrifiadau o achosion pan fyddant hwy yn cynnal adolygiad ac yn gwneud penderfyniad arno eu hunain, yn hytrach na phenodi person i wneud hynny.
49. Mae adran 10 yn gwneud darpariaeth ynghylch gweinyddu adolygiadau o dan adran 9. Ategir hyn gan Atodlenni 2 a 6. Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau personau a benodir gan Weinidogion Cymru i gynnal adolygiadau. Mae'n cwmpasu gwahanol faterion gweinyddol, gan gynnwys penodi asesydd i gynorthwyo person a benodir a dirprwyo swyddogaethau gan berson a benodir i berson arall. Mae Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth sy'n caniatáu i bersonau a benodir gyflwyno gwysion mewn cysylltiad ag ymchwiliadau lleol a gynhelir at ddibenion yr adran hon ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag adennill neu dalu costau yr eir iddynt mewn cysylltiad â'r ymchwiliadau hynny neu unrhyw achos arall a gynhelir at ddibenion yr adran hon.

Pennod 3 – Rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig

50. Mae Pennod 3 yn nodi na chaniateir i fathau penodol o waith gael eu cyflawni i henebion cofrestredig oni bai bod y gwaith wedi ei awdurdodi (adran 11). Mae darpariaethau'r Bennod hon eu hunain yn rhoi awdurdodiad (yn adran 12 ac Atodlen 3) ar gyfer disgrifiadau penodol o waith. Mae'r Bennod (yn adran 13) hefyd yn darparu y caniateir i waith gael ei awdurdodi drwy roi cydsyniad heneb gofrestrdig.
51. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Bennod yn ymwneud â chydsyniad heneb gofrestrdig: y broses o wneud cais (adrannau 14 i 16), rhoi cydsyniad (adrannau 17 i 19) ac addasu a dirymu cydsyniad (adran 20 ac Atodlen 4). Mae adrannau clo'r Bennod yn ymdrin â'r digollediad y gellir ei hawlio o dan amgylchiadau penodol os gwrthodir cydsyniad heneb gofrestrdig, os y'i rhoddir yn ddarostyngedig i amodau neu os y'i haddesir neu y'i dirymir wedi hynny (adrannau 21 i 24).
52. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau, a adolygir yn gyson, i gefnogi'r gwaith o reoli henebion cofrestredig. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r canllawiau, *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru* (2018), yn nodi'r egwyddorion cyffredinol y mae rhaid eu dilyn wrth reoli henebion cofrestredig a gwneud newidiadau iddynt. Maent yn egluro sut i wneud cais am gydsyniad heneb gofrestrdig, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau perchnogion a Cadw.

Adran 11 – Gofyniad i waith gael ei awdurdodi

53. Mae'r adran hon yn darparu mai dim ond gydag awdurdodiad o dan y Bennod hon y caniateir i ystod eang o waith sy'n effeithio ar heneb gofrestrdig, sy'n amrywio o ddymchwel i atgyweirio, gael ei gyflawni. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol cael awdurdodiad i gyflawni bron unrhyw waith i heneb gofrestrdig – gan gynnwys gwaith a fydd o fudd i'r ased, megis atgyweirio gwaith maen, llenwi creithiau erydu neu gynnal ymchwiliadau archaeolegol. Caniateir rhoi awdurdodiad naill ai drwy gydsyniad heneb gofrestrdig o dan adran 13, neu, o dan amgylchiadau a ddiffinnir yn benodol iawn, fel gwaith sy'n dod o fewn disgrifiad o ddsbarth o waith o dan adran 12.

48. Under subsection (3) of section 9, the Welsh Ministers must appoint a person to carry out the review and make a decision on it. Ordinarily, this will be an inspector of Planning and Environment Decisions Wales (previously Planning Inspectorate Wales). However, subsection (4) provides that the Welsh Ministers may specify descriptions of cases in which they will conduct and decide a review themselves, instead of appointing a person to do so.
49. Section 10 makes provision about the administration of reviews under section 9. This is supplemented by Schedules 2 and 6. Schedule 2 makes provision about the functions of persons appointed by the Welsh Ministers to carry out reviews. It covers various administrative matters, including the appointment of an assessor to assist an appointed person and the delegation of functions by an appointed person to another person. Schedule 6 makes provision permitting appointed persons to issue summonses in connection with local inquiries held for the purposes of this section and gives the Welsh Ministers powers in relation to the recovery or payment of costs incurred in connection with those inquiries or any other proceedings held for the purposes of this section.

Chapter 3 – Control of works affecting scheduled monuments

50. Chapter 3 sets out that particular types of works may only be carried out to scheduled monuments if the works are authorised (section 11). The provisions of this Chapter themselves give authorisation (at section 12 and Schedule 3) for certain descriptions of works. The Chapter (at section 13) also provides that works may be authorised by grant of scheduled monument consent.
51. The bulk of the provisions in the Chapter are about scheduled monument consent: the application process (sections 14 to 16), the grant of consent (sections 17 to 19) and the modification and revocation of consent (section 20 and Schedule 4). The closing sections of the Chapter deal with the compensation that can be claimed in certain circumstances if scheduled monument consent is refused, granted subject to conditions or subsequently modified or revoked (sections 21 to 24).
52. The Welsh Ministers have published guidance, which is kept under review, to support the management of scheduled monuments. The guidance at the time of writing these notes, *Managing Scheduled Monuments in Wales* (2018), sets out the general principles to follow when managing and making changes to scheduled monuments. It explains how to apply for scheduled monument consent, including the roles and responsibilities of owners and Cadw.

Section 11 – Requirement for works to be authorised

53. This section provides that a wide range of works affecting a scheduled monument, extending from demolition to repair, may only be carried out with authorisation under this Chapter. In practice, this means that almost any works to a scheduled monument – including those that will benefit the asset, such as repairing masonry, filling in erosion scars or conducting archaeological investigations – will require authorisation. The authorisation may be either by scheduled monument consent under section 13, or, in certain narrowly defined circumstances, as works falling within a description of a class of works under section 12.

54. Mae is-adran (1) o'r adran hon yn datgan na chaiff person gyflawni'r gwaith perthnasol na pheri na chaniatáu i'r gwaith perthnasol gael ei gyflawni oni bai bod y gwaith hwnnw wedi ei awdurdodi. Yn ogystal â gwahardd person rhag ymgymryd â gwaith yn bersonol neu gomisiynu neu gyflogi eraill i'w gyflawni, mae'r ddarpariaeth hon yn atal person rhag caniatáu i waith fynd rhagddo heb gymryd camau i'w atal. Felly, ni chaiff tirlfeddiannwr anwybyddu gwaith anawdurdodedig yn fwriadol sy'n digwydd ar heneb gofrestrdig ar eiddo'r tirlfeddiannwr.
55. Os yw person yn cyflawni unrhyw waith i heneb gofrestrdig, neu'n peri neu'n caniatáu i unrhyw waith gael ei gyflawni i heneb gofrestrdig, yn groes i is-adran (1), mae'n drosedd o dan adran 30(1).

Adran 12 – Awdurdodi dosbarthau o waith

Atodlen 3 – Awdurdodiad ar gyfer dosbarthau o waith

56. Mae adran 12(1) yn awdurdodi gwaith i heneb gofrestrdig os yw'r gwaith yn dod o fewn disgrifiad o ddsbarth o waith yn y tabl yn Atodlen 3.
57. Mae Atodlen 3 yn ailddatgan, gydag addasiadau, ddsbarthau o gydsyniad o Orchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1994, OS 1994/1381. Drwy ymgorffori'r darpariaethau sefydledig hyn o is-ddeddfwriaeth, dygir ynghyd y ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch awdurdodi gwaith. Fodd bynnag, mae pwerau i wneud rheoliadau ym mharagraff 1 o Atodlen 3 yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r Atodlen.
58. Mae Atodlen 3 yn nodi wyth ddsbarth o waith a awdurdodir gan adran 12(1). Nid yw'r ddsbarthau hyn yn waith niweidiol fel arfer ac felly gall y gwaith fynd rhagddo heb fod angen ystyried y broses cydsyniad heneb gofrestrdig yn fanwl.
59. Mae Dosbarth 1 yn cynnwys gwaith amaethyddol, gwaith garddwriaethol a gwaith coedwigaeth o'r un math â gwaith a gyflawnwyd yn gyfreithlon yn yr un man o fewn y chwe mlynedd flaenorol. Drwy ganiatáu i'r un gweithgarwch ddigwydd yn yr un lle, bydd unrhyw darfu pellach ar yr heneb gofrestrdig yn sgil gwaith parhaus yn cael ei leihau i'r eithaf. Er enghraifft, pan fo safle heneb wedi cael ei aredig yn gyfreithlon o fewn y chwe mlynedd flaenorol, caiff gwaith aredig barhau ar yr amod nad yw'n mynd yn ddyfnach nag yr aeth yn ystod y cyfnod hwnnw o chwe mlynedd. Mae'r gwaith a bennir ym mharagraffau (a) i (f) o'r cofnod Dosbarth 1 oll wedi eu heithrio rhag cael eu hawdurdodi oherwydd y bygythiad y byddent yn ei achosi i archaeoleg heb ei aflonyddu ac olion sefydlog heneb gofrestrdig.
60. Os nad oes gwaith amaethyddol, gwaith garddwriaethol neu waith coedwigaeth wedi digwydd ar heneb gofrestrdig am dros chwe mlynedd, mae'r posibilrwydd o gael awdurdodiad o dan adran 12(1) yn darfod ac ni ellir ei adnewyddu. Wedi hynny byddai'n ofynnol cael cydsyniad heneb gofrestrdig o dan adran 13 ar gyfer gwaith o'r fath.
61. Mae Dosbarth 5 wedi ei gynnwys i ddarparu awdurdodiad pe bai Comisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion Lloegr (Historic England) yn ymgymryd â gwaith ar Glawdd Offa neu ar unrhyw heneb gofrestrdig drawsffiniol arall ac yn ymestyn y gwaith dros y ffin i Gymru yn anfwriadol neu drwy gytundeb ymlaen llaw.

54. Subsection (1) of this section states that a person must not carry out, cause or permit the relevant works to be carried out unless those works are authorised. In addition to prohibiting a person from undertaking works personally or commissioning or employing others to conduct them, this provision stops a person from allowing works to proceed without taking action to prevent them. A landowner cannot, therefore, deliberately turn a blind eye to unauthorised works taking place on a scheduled monument on the landowner's property.
55. If a person carries out, causes or permits any works to a scheduled monument in breach of subsection (1), it constitutes an offence under section 30(1).

Section 12 – Authorisation of classes of works

Schedule 3 – Authorisation for classes of works

56. Section 12(1) authorises works to a scheduled monument if the works fall within a description of a class of works in the table in Schedule 3.
57. Schedule 3 restates, with modifications, classes of consent from the Ancient Monuments (Class Consents) Order 1994, SI 1994/1381. The incorporation of these well-established provisions from secondary legislation brings together the relevant legislation about the authorisation of works. Regulation-making powers in paragraph 1 of Schedule 3, however, give the Welsh Ministers flexibility to amend the Schedule.
58. Schedule 3 sets out eight classes of works that are authorised by section 12(1). These works are not normally damaging and therefore can proceed without the need for the detailed consideration of the scheduled monument consent process.
59. Class 1 comprises agricultural, horticultural and forestry works of the same kind as works carried out lawfully on the same spot within the previous six years. By permitting the same activity to occur in the same place, any further disruption to the scheduled monument from the ongoing works will be minimised. For example, where a scheduled site has been lawfully ploughed within the previous six years, ploughing may continue provided it goes no deeper than it did during that six-year period. The works specified in paragraphs (a) to (f) of the Class 1 entry have all been excluded from authorisation because of the threats that they would pose to undisturbed archaeology or the standing remains of a scheduled monument.
60. If agricultural, horticultural or forestry works have not taken place on a scheduled monument for more than six years, the possibility of authorisation under section 12(1) lapses and it cannot be revived. Thereafter such works would require scheduled monument consent under section 13.
61. Class 5 has been included to provide authorisation should the Historic Buildings and Monuments Commission for England (Historic England) be undertaking works on Offa's Dyke or some other cross-border scheduled monument and inadvertently or by prior agreement carry the works across the border into Wales.

62. Mae Dosbarth 6 yn caniatáu i waith gwerthuso archaeolegol gael ei gyflawni gan neu ar ran rhywun sydd wedi gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestrdig. Bydd gwaith o'r fath yn gyfyngedig, er enghraifft tyllau prawf neu ffosydd prawf, ac yn cael ei gyflawni i asesu'r adnodd archaeolegol a photensial yr heneb er mwyn llywio'r penderfyniad ar y cais am gydsyniad heneb gofrestrdig. Rhaid cyflawni'r gwaith hwn yn unol â manyleb ysgrifenedig sydd wedi ei chymeradwyo gan Cadw.

Adran 13 – Awdurdodi gwaith drwy gydsyniad heneb gofrestrdig

63. Mae adran 13 yn darparu ar gyfer awdurdodi gwaith drwy roi cydsyniad heneb gofrestrdig.
64. Mae is-adran (1) yn nodi bod gwaith wedi ei awdurdodi os yw cydsyniad ysgrifenedig wedi ei roi gan Weinidogion Cymru ac os yw'r gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â thelerau'r cydsyniad, a all gynnwys amodau. Mae adrannau 18 a 19 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch amodau sydd ynghlwm wrth gydsyniadau henebion cofrestrdig. Yn ymarferol, Cadw, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, sy'n gweinyddu'r broses cydsyniad heneb gofrestrdig ac yn rhoi cydsyniad.
65. O dan is-adran (2), caiff Gweinidogion Cymru roi cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer gwaith anawdurdodedig sydd eisoes wedi ei gyflawni i heneb gofrestrdig neu i dir y mae heneb o'r fath ynddo, arno neu odano. Mewn achosion o'r fath, nid yw'r gwaith ond wedi ei awdurdodi o adeg rhoi'r cydsyniad. Mae unrhyw atebolrwydd troseddol posibl sy'n deillio o'r gwaith anawdurdodedig cyn y cysyniad yn parhau a gallai fod yn sail ar gyfer achosion dilynol. Yn ymarferol, anaml iawn y rhoddir cydsyniad yn ôl-weithredol, a hynny dim ond mewn achosion pan fo'r gwaith anawdurdodedig o fudd i'r heneb.

Adran 14 – Gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestrdig

66. Mae adran 14 yn sefydlu'r strwythur sylfaenol ar gyfer y broses o wneud cais am gydsyniad heneb gofrestrdig.
67. Mae'n rhagnodi sut y mae rhaid i gais gael ei wneud i Weinidogion Cymru, yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol ei gynnwys ynddo ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar agweddau eraill ar y broses o wneud cais (is-adrannau (1) i (3)).
68. Mae is-adrannau (4) a (5) yn caniatáu ar gyfer gweithdrefn syml ar gyfer gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestrdig pan mai mân waith sydd o dan sylw. Gallai gwaith o'r fath gynnwys: atgyweirio yn sgil erydu lleol, ailosod darnau byr o ffensys, ailosod cerrig rhydd, neu godi placiau neu arwyddion. Mewn achosion pan fydd mân waith arfaethedig yn cael effaith niwtral neu effaith gadarnhaol ar heneb, caiff Cadw gytuno i'r gwaith yn ystod ymweliad â'r safle a hepgor yr angen am gais ffurfiol. Ym mhob achos, hyd yn oed pan nad oes angen cais ysgrifenedig, ni fydd gwaith ond yn cael ei awdurdodi ar ôl cael cydsyniad heneb gofrestrdig ysgrifenedig, a roddir o dan adran 13(1).

62. Class 6 permits works of archaeological evaluation to be carried out by or on behalf of someone who has applied for scheduled monument consent. Such works will be limited, for instance test pits or trial trenches, and be carried out to assess the archaeological resource and potential of the monument in order to inform the determination of the scheduled monument consent. These works must be undertaken in accordance with a written specification approved by Cadw.

Section 13 – Authorisation of works by scheduled monument consent

63. Section 13 provides for the authorisation of works by the grant of scheduled monument consent.
64. Subsection (1) sets out that works are authorised if written consent has been granted by the Welsh Ministers and the works are carried out in accordance with the terms of the consent, which may include conditions. Sections 18 and 19 make further provision about conditions attached to scheduled monument consents. In practice, Cadw, acting on behalf of the Welsh Ministers, administers the scheduled monument consent process and grants consent.
65. Under subsection (2), the Welsh Ministers may grant written consent for unauthorised works already carried out to a scheduled monument or land in, on or under which there is such a monument. In such cases, the works are only authorised from the grant of the consent. Any potential criminal liability arising from the unauthorised works prior to the consent remains and could be the basis for subsequent proceedings. In practice, retrospective consent is rarely granted and only in cases where the unauthorised works are beneficial to the monument.

Section 14 – Applying for scheduled monument consent

66. Section 14 puts in place the fundamental structure for the scheduled monument consent application process.
67. It prescribes how an application must be made to the Welsh Ministers, sets out its required content and provides the Welsh Ministers with powers to make regulations on further aspects of the application procedure (subsections (1) to (3)).
68. Subsections (4) and (5) allow for a simplified application procedure for scheduled monument consent where works are of a minor nature. Such works might include: localised erosion repairs, replacing short stretches of fencing, re-bedding loose stones, or installing plaques or signs. In cases where proposed minor works will have a neutral or positive impact on a monument, Cadw may agree the works during a site visit and dispense with the need for a formal application. In all cases, even where a written application is not required, works will only be authorised on receipt of written scheduled monument consent, which is granted under section 13(1).

Adran 15 – Declarasiynau o berchnogaeth mewn cysylltiad â heneb

69. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wrthod ystyried cais am gydsyniad heneb gofrestredig os nad oes declarasiwn o berchnogaeth a lofnodwyd gan neu ar ran y ceisydd yn dod gydag ef. Mae'r declarasiwn yn ymwneud â pherchnogaeth yr heneb ar ddechrau'r cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dod i ben ar ddyddiad y cais. Rhaid iddo gadarnhau mai'r ceisydd oedd naill ai yr unig berchennog ar yr heneb ar y pryd, neu ei fod wedi rhoi hysbysiad i bob perchennog arall ar yr heneb neu wedi cymryd pob cam rhesymol i wneud hynny (is-adran (1)). Yn ymarferol, gall y ceisydd fod yn berchennog, yn feddiannydd, yn asiant neu'n berson arall.

Adran 17 – Y weithdrefn ar gyfer penderfynu ceisiadau ac effaith rhoi cydsyniad Atodlen 6 – Achosion o dan Ran 2

70. Mae adran 17, ynghyd ag Atodlen 6, yn rheoleiddio'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ceisiadau a rhoi cydsyniad heneb gofrestredig.
71. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, cyn penderfynu cais am gydsyniad heneb gofrestredig:
- a. peri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal;
 - b. penodi person i gynnal gwrandawriad;
 - c. penodi person i gael sylwadau ysgrifenedig ato; neu
 - d. defnyddio unrhyw gyfuniad o'r achosion hyn.
72. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, byddai Gweinidogion Cymru yn penodi un o arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i gynnal achos o'r fath.
73. Yn ymarferol, cymerir amryw o gamau anffurfiol cyn y gallai Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer o dan is-adran (2). Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Cadw yn rhoi cyngor cyn gwneud cais i'r darpar geisydd. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig pan fo'n debygol y bydd gofyniad i ymwneud ag arbenigwyr archeolegol. Ar ôl cael cais, fel arfer bydd Cadw (gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru) yn cyhoeddi llythyr penderfyniad interim, sy'n cynnwys manylion unrhyw amodau arfaethedig neu'r rhesymau dros unrhyw gynnig i wrthod y cais. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r ceisydd i gyflwyno sylwadau, a all gynnwys darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r cais. Bydd un o swyddogion Cadw yn cael y sylwadau hyn ac yn eu hystyried. Os oes materion heb eu datrys, dyna pryd y caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer o dan is-adran (2).
74. Mae is-adran (5) yn cadarnhau, oni bai bod ei delerau yn gwneud darpariaeth arall i'r gwrthwyneb, fod cydsyniad heneb gofrestredig yn cael effaith er budd yr heneb a phob person sydd â buddiant ynddi am y tro. Er enghraifft, pe bai perchnogaeth heneb gofrestredig yn newid tra bo gwaith y rhoddwyd cydsyniad iddo yn mynd rhagddo, ni fyddai angen i'r perchennog newydd wneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig newydd er mwyn parhau â'r gwaith (ar yr amod nad oedd darpariaeth i'r gwrthwyneb yn nhelerau'r cydsyniad).

Section 15 – Declarations of ownership in respect of monument

69. This section enables the Welsh Ministers to refuse to consider an application for scheduled monument consent if it is not accompanied by a declaration of ownership signed by or on behalf of the applicant. The declaration relates to the ownership of the monument at the beginning of the 21-day period that ends on the day of the application. It must confirm that the applicant either was then the sole owner of the monument, or has given notice to all other owners of the monument or taken all reasonable steps to do so (subsection (1)). In practice, the applicant can be an owner, occupier, agent or another person.

Section 17 – Procedure for determining applications and effect of grant of consent

Schedule 6 – Proceedings under Part 2

70. Section 17, with Schedule 6, regulates the procedure for determining applications and granting scheduled monument consent.
71. Subsection (2) provides that, before determining an application for scheduled monument consent, the Welsh Ministers may:
- a. cause a local inquiry to be held;
 - b. appoint a person to hold a hearing;
 - c. appoint a person to receive written representations; or
 - d. employ any combination of these proceedings.
72. At the time of writing these notes, the Welsh Ministers would appoint an inspector from Planning and Environment Decisions Wales to conduct such proceedings.
73. In practice, various informal actions are taken before the Welsh Ministers might exercise their power under subsection (2). In the majority of cases, Cadw will provide pre-application advice to the prospective applicant. This might be of particular importance where there is likely to be a requirement to engage archaeological expertise. Following receipt of an application, normally Cadw (acting on behalf of the Welsh Ministers) will issue an interim decision letter, which includes details of any proposed conditions or the reasons for any proposed refusal. This provides the applicant with the opportunity to make representations, which may include providing additional information relevant to the application. A Cadw officer will receive and consider these representations. It is at that point, if there are unresolved issues, that the Welsh Ministers may exercise their power under subsection (2).
74. Subsection (5) establishes that, unless its terms make some other contrary provision, a scheduled monument consent has effect for the benefit of the monument and all persons for the time being with an interest in it. If, for example, the ownership of a scheduled monument were to change while consented works were underway, the new owner would not need to apply for a new scheduled monument consent in order to continue the works (provided there were no provision to the contrary in the terms of the consent).

75. Mae Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth bod gwysion yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno tystiolaeth neu fod yn bresennol mewn ymchwiliadau lleol, ac yn ymdrin ag adennill neu dalu costau yr eir iddynt yn ystod ymchwiliadau neu wrandawiadau.

Adran 18 – Pŵer i roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau

Adran 19 – Amod ynghylch y cyfnod y mae rhaid i'r gwaith ddechrau ynddo

76. Mae adran 18 yn caniatáu i gydsyniadau henebion cofrestredig gael eu rhoi yn ddarostyngedig i amodau. Mae'r adran yn darparu dwy enghraifft o amodau, ond nid yw'r rhain yn hollgynhwysol. Caiff amodau ymwneud yn uniongyrchol â'r ffordd y cyflawnir gwaith neu cânt osod gofynion eraill, megis rhaglen o waith cofnodi ac adrodd archaeolegol neu gyhoeddi canlyniadau ar ôl cwblhau cloddiadau archaeolegol ac unrhyw waith dadansoddi angenrheidiol yn dilyn cloddiadau archaeolegol.
77. Mae adran 19(1) yn ei gwneud yn ofynnol i gydsyniad heneb gofrestredig gael ei roi yn ddarostyngedig i amod bod rhaid i'r gwaith ddechrau cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr amod. Os na fydd y gwaith y rhoddwyd cydsyniad iddo yn dechrau o fewn y cyfnod hwnnw, bydd y cydsyniad yn darfod. Pan fydd gwaith yn dechrau o fewn y cyfnod penodedig, bydd cydsyniad yn cael effaith fel y'i darperir gan adran 17(5).
78. Mae is-adran (2) yn nodi bod rhaid i'r gwaith ddechrau o fewn pum mlynedd i'r diwrnod y rhoddwyd y cydsyniad, os rhoddir cydsyniad heb amod sy'n pennu cyfnod y mae rhaid i waith ddechrau ynddo.
79. Mae is-adran (3) yn darparu nad yw'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â thri dosbarth o gydsyniad heneb gofrestredig:
- cydsyniadau henebion cofrestredig sy'n peidio â chael effaith ar ddiwedd cyfnod penodedig (ni waeth a yw gwaith wedi dechrau)
Mae cydsyniadau o'r fath yn ymwneud yn aml â digwyddiadau neu weithgareddau tymor byr ar safle heneb y gellir pennu cyfnod penodol iawn ar eu cyfer. Gellid pennu cyfnod cydsyniad hefyd, er enghraifft, er mwyn cyfyngu ar effaith gwaith ar rywogaethau a warchodir.
 - cydsyniadau henebion cofrestredig a roddir o dan adran 13(2) ar gyfer gwaith a gyflawnwyd cyn i gydsyniad gael ei roi
Gan fod y cydsyniad yn awdurdodi gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni, nid yw'n angenrheidiol cael gofyniad i waith ddechrau.
 - cydsyniadau henebion cofrestredig a roddir gan gytundeb partneriaeth heneb gofrestredig.
Gall cytundebau partneriaeth heneb gofrestredig barhau rhwng deg a phymtheg mlynedd ac mae'r cydsyniadau a roddir ganddynt yn parhau am oes y cytundebau, ni waeth pryd y bydd gwaith yn dechrau.

75. Schedule 6 makes provision for summonses to require evidence or attendance at local inquiries and about the recovery or payment of costs incurred during inquiries or hearings.

Section 18 – Power to grant consent subject to conditions

Section 19 – Condition about period within which works must start

76. Section 18 allows scheduled monument consents to be granted subject to conditions. The section provides two examples of conditions, but these are not exhaustive. Conditions may relate directly to the way in which works are carried out or they may impose other requirements, such as a programme of archaeological recording and reporting or the publication of results after the completion of archaeological excavations and any necessary post-excavation analysis.
77. Section 19(1) requires a scheduled monument consent to be granted subject to a condition that the works must start before the end of a period specified in the condition. If the consented works do not start within that period, the consent will lapse. Where works are started within the specified period, a consent will have effect as provided by section 17(5).
78. Subsection (2) sets out that if a consent is granted without a condition specifying a period within which works must begin, the works must begin within five years of the day on which consent was granted.
79. Subsection (3) provides that this section does not apply in relation to three classes of scheduled monument consents:
- a. scheduled monument consents that cease to have effect at the end of a specified period (irrespective of whether works have started)
Such consents often relate to short-term events or activities at a monument for which a very specific period may be defined. The period of a consent could also be specified, for instance, in order to limit the impact of works on protected species.
 - b. scheduled monument consents granted under section 13(2) for works carried out before consent was granted
Since the consent authorises works that have already been completed, a requirement for works to begin is unnecessary.
 - c. scheduled monument consents granted by a scheduled monument partnership agreement.
Scheduled monument partnership agreements may run for ten to fifteen years and the consents that they grant last for the lifetime of the agreements, irrespective of when works begin.

Adran 20 – Addasu a dirymu cydsyniad

Atodlen 4 – Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad heneb gofrestrdedig

Atodlen 6 – Achosion o dan Ran 2

80. Mae adran 20 yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau i ddirymu neu addasu cydsyniad heneb gofrestrdedig drwy orchymyn. Mae is-adran (2) yn nodi na chaniateir gwneud gorchymyn o dan yr adran hon i addasu neu ddirymu cydsyniad heneb gofrestrdedig a roddir naill ai ar gyfer cadw gwaith o dan adran 13(2) neu a roddir gan gytundeb partneriaeth heneb gofrestrdedig. Mae cytundebau partneriaeth henebion cofrestrdedig yn ymgorffori mecanweithiau ar wahân (adran 27 ac Atodlen 5) sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru derfynu'r cyfan neu ran o gytundeb, gan gynnwys cydsyniadau, drwy orchymyn.
81. Mae Atodlen 4 yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid ei dilyn wrth wneud gorchmynion, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal ymchwiliadau lleol neu wrandawiadau o dan amgylchiadau penodol. Mae Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth i wysion ei gwneud yn ofynnol cyflwyno tystiolaeth neu fod yn bresennol mewn ymchwiliadau lleol, ac yn ymdrin ag adennill neu dalu costau yr eir iddynt yn ystod ymchwiliadau neu wrandawiadau.

Adran 21 – Digollediad am wrthod cydsyniad heneb gofrestrdedig neu roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau

82. Mae adran 21 yn gwneud darpariaeth, yn ddarostyngedig i amodau penodol, ar gyfer talu digollediad pan fo person sydd â buddiant mewn heneb yn dioddef colled neu ddifrod os caiff cydsyniad heneb gofrestrdedig ei wrthod neu ei roi yn ddarostyngedig i amodau.
83. Mae is-adran (7) yn nodi dau fater sydd i'w hystyried wrth gyfrifo swm y golled neu'r difrod sy'n ddibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir (sy'n golygu i ba raddau y mae gwerth y buddiant yn lleihau i bob pwrpas o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar waith a osodir drwy wrthod cydsyniad heneb gofrestrdedig neu roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau).
- Mae i'w thybio y byddai unrhyw gais dilynol am gydsyniad heneb gofrestrdedig ar gyfer gwaith o ddisgrifiad tebyg yn cael ei benderfynu yn yr un ffordd gan Weinidogion Cymru.
 - Yn achos gwrthod cydsyniad, os ymrwymodd Gweinidogion Cymru, wrth wrthod y cydsyniad hwnnw, i roi cydsyniad ar gyfer gwaith arall sy'n effeithio ar yr heneb pe bai cais yn cael ei wneud, dylid ystyried yr ymrwymiad hwnnw. Gallai ymrwymiad ganiatáu ar gyfer rhyw ddefnydd ymarferol arall o'r tir, a byddai hynny'n lleihau'r dibrisiant at ddibenion cyfrifo swm y digollediad sy'n daladwy.

Adran 22 – Adennill digollediad a dalwyd o dan adran 21 ar ôl rhoi cydsyniad dilynol

84. Mae adran 22 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i adennill digollediad a dalwyd o dan adran 21 os ydynt wedyn yn rhoi cydsyniad ar gyfer amodau, neu'n addasu neu'n dileu amodau, a oedd yn effeithio ar y cyfan neu unrhyw ran o'r gwaith y cafodd digollediad ei dalu mewn cysylltiad ag ef.

Section 20 – Modification and revocation of consent

Schedule 4 – Procedure for orders modifying or revoking scheduled monument consent

Schedule 6 – Proceedings under Part 2

80. Section 20 provides the Welsh Ministers with powers to revoke or modify a scheduled monument consent by order. Subsection (2) sets out that an order under this section may not be made to modify or revoke a scheduled monument consent granted either for the retention of works under section 13(2) or by a scheduled monument partnership agreement. Scheduled monument partnership agreements incorporate separate mechanisms (section 27 and Schedule 5) that permit the Welsh Ministers to terminate all or part of an agreement, including consents, by order.
81. Schedule 4 sets out the procedure that must be followed in making orders, which includes provision for holding local inquiries or hearings in certain circumstances. Schedule 6 makes provision for summonses to require evidence or attendance at local inquiries and about the recovery or payment of costs incurred during inquiries or hearings.

Section 21 – Compensation for refusal of scheduled monument consent or grant of consent subject to conditions

82. Section 21 makes provision, subject to certain conditions, for the payment of compensation where a person with an interest in a monument suffers loss or damage if scheduled monument consent is refused or granted subject to conditions.
83. Subsection (7) identifies two matters to be considered in the calculation of the amount of loss or damage consisting of depreciation of the value of an interest in land (meaning the extent to which the value of the interest is effectively diminished by the limitations on works imposed by the refusal of scheduled monument consent or its grant subject to conditions).
- a. It is to be assumed that any subsequent application for scheduled monument consent for works of a similar description would be determined by the Welsh Ministers in the same way.
 - b. In the case of a refusal of consent, if the Welsh Ministers, on refusing that consent, undertook to grant consent for other works affecting the monument if an application were made, that undertaking should be taken into account. An undertaking might allow for some other viable use of the land, thereby reducing the depreciation for the purposes of calculating the amount of compensation payable.

Section 22 – Recovery of compensation paid under section 21 on subsequent grant of consent

84. Section 22 gives the Welsh Ministers powers to recover compensation paid under section 21 if they subsequently grant consent for, or modify or remove conditions that affected, any or all of the works in respect of which compensation was paid.

85. Nid yw'r adran hon ond yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno hysbysiad o dalu digollediad i'r cyngor ym mhob sir neu fwrdeistref sirol y mae'r heneb ynddi (is-adran (2)). Mae'r manylion y mae'n ofynnol eu cynnwys yn yr hysbysiad wedi eu nodi yn is-adran (5) ac mae is-adran (6) yn gwneud yr hysbysiad yn bridiant lleol.
86. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, wrth roi neu addasu cydsyniad heneb gofrestrdig mewn achos y mae'r adran hon yn gymwys iddo, bennu na chaiff gwaith y talwyd digollediad mewn cysylltiad ag ef fynd yn ei flaen hyd nes bod y "swm adenilladwy" (a ddiffinnir yn adran 23) wedi ei ad-dalu neu ei sicrhau yn foddhaol.

Adran 23 – Penderfynu'r swm sy'n adenilladwy o dan adran 22

87. Mae adran 23(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu "swm adenilladwy" y digollediad a delir o dan adran 21 wrth roi hysbysiad o'u penderfyniad i roi neu addasu cydsyniad heneb gofrestrdig mewn achos o dan adran 22.
88. Os yw person sydd â buddiant yn yr heneb yn dadlau ynghylch y swm a bennir gan Weinidogion Cymru, caiff y person hwnnw geisio penderfyniad ar y swm gan yr Uwch Dribiwnlys. Mae Rheolau'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) yn gwneud darpariaeth ar gyfer atgyfeirio cais i'r Tribiwnlys ac ar gyfer ymdrin â'r achos. Os caiff anghydfod ei atgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys, y swm adenilladwy fydd y swm y mae'r Tribiwnlys yn ei benderfynu (is-adrannau (2) a (3)).

Adran 24 – Digollediad pan fo gwaith sy'n effeithio ar heneb gofrestrdig yn peidio â chael ei awdurdodi

89. Mae'r adran hon yn darparu i ddigollediad gael ei dalu os yw gwaith a awdurdodwyd yn flaenorol yn peidio â chael ei awdurdodi felly. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff hyn ddigwydd:
- os yw awdurdodiad o dan adran 12 yn peidio â bod yn gymwys pan gaiff dosbarth o waith a bennir yn Atodlen 3 ei ddiwygio neu pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo nad yw adran 12(1) yn gymwys i heneb gofrestrdig;
 - os yw cydsyniad heneb gofrestrdig wedi ei addasu neu ei ddirymu drwy orchymyn a wneir o dan adran 20; neu
 - os caiff awdurdodiad ei ganslo yn dilyn cyflwyno hysbysiad o addasiad neu ddirymiad arfaethedig ar gyfer cydsyniad heneb gofrestrdig fel y'i nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 4.

85. This section only applies if the Welsh Ministers have served notice of the payment of compensation on the council of each county or county borough in which the monument is located (subsection (2)). The required details of the notice are set out in subsection (5) and subsection (6) makes the notice a local land charge.
86. Subsection (3) provides that when granting or modifying a scheduled monument consent in a case to which this section applies, the Welsh Ministers may specify that works for which compensation had been paid cannot proceed until the “recoverable amount” (defined in section 23) has been repaid or satisfactorily secured.

Section 23 – Determination of amount recoverable under section 22

87. Section 23(1) requires the Welsh Ministers to specify the “recoverable amount” of the compensation paid under section 21 when giving notice of their decision to grant or modify scheduled monument consent in a case under section 22.
88. If a person with an interest in the monument disputes the amount specified by the Welsh Ministers, that person may seek a determination of the amount from the Upper Tribunal. The Upper Tribunal (Lands Chamber) Rules make provision for the reference of a case to the Tribunal and its handling. If a dispute is referred to the Upper Tribunal, the recoverable amount will be the amount that it determines (subsections (2) and (3)).

Section 24 – Compensation where works affecting a scheduled monument cease to be authorised

89. This section provides for compensation to be paid if works previously authorised cease to be so authorised. Subsection (1) provides that this may happen if:
- a. an authorisation under section 12 ceases to apply when a class of works specified in Schedule 3 is amended or the Welsh Ministers direct that section 12(1) does not apply to a scheduled monument;
 - b. scheduled monument consent is modified or revoked by an order made under section 20; or
 - c. authorisation is cancelled following the service of a notice of proposed modification or revocation of scheduled monument consent as set out in paragraph 2 of Schedule 4.

90. Mae gan unrhyw berson a chanddo fuddiant yn yr heneb hawlogaeth, wrth wneud hawliad am ddigollediad i Weinidogion Cymru, i gael ei ddigolledu ganddynt am unrhyw wariant yr eir iddo wrth gyflawni gwaith a ddaw yn ofer oherwydd bod awdurdodiad wedi dod i ben neu unrhyw golled neu unrhyw ddifrod y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r ffaith bod yr awdurdodiad hwnnw wedi dod i ben. At ddibenion yr adran hon, mae gwariant yr eir iddo wrth gyflawni gwaith yn cynnwys gwariant ar faterion paratoi, a allai gynnwys arolygon safle, llunio planiau neu ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth neu lunio manylebau manwl o ddeunyddiau a methodolegau, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn (is-adrannau (2) a (4)).
91. Mae adrannau 202, 203 a 204 yn gwneud darpariaethau ychwanegol ynghylch hawliadau am ddigollediad o dan y Ddeddf hon.

Pennod 4 – Cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig

92. Mae'r Bennod hon yn darparu ar gyfer gwneud cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig. Cytundebau gwirfoddol yw'r rhain rhwng Gweinidogion Cymru, perchnogion henebion cofrestredig a phartïon eraill ar gyfer rheoli un neu ragor o henebion cofrestredig yn y tymor hir. Caiff cytundeb partneriaeth heneb gofrestrredig roi cydsyniad heneb gofrestrredig ar gyfer rhaglen waith y cytunwyd arni i'w chyflawni yn ystod oes y cytundeb. Gwneir darpariaeth ar gyfer cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig tebyg yn Rhan 3, Pennod 3.
93. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau, sy'n cael eu hadolygu'n gyson, i gefnogi'r dasg o lunio cytundebau partneriaethau treftadaeth gan gynnwys y rheini ar gyfer henebion cofrestredig. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r canllawiau, *Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yng Nghymru (2021)*, yn nodi'r elfennau y mae'n ofynnol eu cynnwys mewn cytundeb ac yn nodi'r arferion gorau i hyrwyddo cysondeb o ran gweithredu gwaith yn ogystal â monitro ac adolygu rheolaidd. Mae'r canllawiau yn cynnwys templed i ddarparu fframwaith ar gyfer cytundebau newydd.

Adran 25 – Cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig

94. Mae adran 25(1) yn pennu'r partïon hanfodol ar gyfer unrhyw gytundeb partneriaeth heneb gofrestrredig:
- a. Gweinidogion Cymru – fel yr awdurdod cydsynio perthnasol – a
 - b. unrhyw berchennog ar heneb gofrestrredig y mae'r cytundeb yn ymwneud â hi, neu
 - c. unrhyw berchennog ar unrhyw dir sy'n cydffinio â heneb o'r fath neu sydd yng nghyffiniau heneb o'r fath, y cyfeirir ato fel "tir cysylltiedig".
95. Caiff personau eraill a chanddynt fuddiant mewn heneb, fel y'u nodir yn is-adran (2), hefyd ymuno fel partïon i'r cytundeb.

90. Any person with an interest in the monument is entitled, on making a claim for compensation to the Welsh Ministers, to be paid compensation by them for any expenditure incurred in carrying out works which become abortive by the cessation of authorisation or any other loss or damage directly attributable to that cessation. For the purposes of this section, expenditure incurred on carrying out works includes expenditure on preparatory matters, which might include, but are not limited to, site surveys, the preparation of plans or a heritage impact statement or the production of detailed specifications of materials and methodologies (subsections (2) and (4)).
91. Sections 202, 203 and 204 make additional provisions about claims for compensation under this Act.

Chapter 4 – Scheduled monument partnership agreements

92. This Chapter provides for the making of scheduled monument partnership agreements. These are voluntary agreements between the Welsh Ministers, owners of scheduled monuments and other parties for the long-term management of one or more scheduled monuments. A scheduled monument partnership agreement may grant scheduled monument consent for an agreed programme of works to be carried out during the lifetime of the agreement. Provision is made for comparable listed building partnership agreements in Part 3, Chapter 3.
93. The Welsh Ministers have published guidance, which is kept under review, to support the preparation of heritage partnership agreements including those for scheduled monuments. The guidance at the time of writing these notes, *Heritage Partnership Agreements in Wales (2021)*, sets out the elements required in an agreement and identifies best practice to promote consistency in the implementation of works as well as regular monitoring and review. The guidance includes a template to provide a framework for new agreements.

Section 25 – Scheduled monument partnership agreements

94. Section 25(1) specifies the essential parties for any scheduled monument partnership agreement:
- a. the Welsh Ministers – as the relevant consenting authority – and
 - b. any owner of a scheduled monument to which the agreement relates, or
 - c. any owner of any land adjoining or in the vicinity of such a monument, referred to as “associated land”.
95. Other persons with an interest in a monument, as identified in subsection (2), may also join as parties to the agreement.

96. Caiff cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig roi cydsyniad heneb gofrestredig o dan adran 13(1) ar gyfer rhaglen waith y cytunwyd arni ac a bennir yn y cytundeb. Caiff y cydsyniad awdurdodi gwaith at ddiben symud ymaith neu atgyweirio heneb neu wneud unrhyw addasiadau iddi neu unrhyw ychwanegiadau ati (is-adrannau (3) a (7)). Bydd hyn yn caniatáu gwaith cynnal a chadw, gwaith cadwraeth neu waith rheoli a fydd o fudd i'r heneb neu'r henebion a gwmpeisir gan y cytundeb.
97. Ni chaiff cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig roi cydsyniad ar gyfer gwaith sy'n arwain at ddymchwel neu ddinistrio heneb nac at unrhyw ddifrod i heneb nac ar gyfer unrhyw weithrediadau i foddi tir neu weithrediadau tipio ar dir y mae heneb ynddo, arno neu odano (adran 11(2)(a) ac (c)). Byddai'n ofynnol cael cydsyniad heneb gofrestredig ar wahân ar gyfer y gwaith sydd wedi ei eithrio a geir drwy'r broses arferol o wneud cais (adrannau 14 i 19).
98. Nid yw cydsyniad heneb gofrestredig mewn cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn adran 19 ynghylch pryd y mae rhaid i waith ddechrau a bydd yn parhau'n ddilys ar hyd oes y cytundeb, a all fod rhwng 10 a 15 mlynedd.
99. Mae is-adran (5)(a) yn caniatáu i bartion i gytundeb bennu gwaith y byddai adran 11 yn gymwys iddo neu na fyddai'n gymwys iddo, ac felly y byddai'n ofynnol cael awdurdodiad ar ei gyfer neu na fyddai'n ofynnol cael awdurdodiad ar ei gyfer. Gallai hyn ganiatáu i'r bartion nodi mân waith penodol – er enghraifft, rhaglen y cytunwyd arni i glirio a rheoli llystyfiant – a allai fynd yn ei flaen heb awdurdodiad. Gallent hefyd bennu gwaith mwy sylweddol na ellid ei gynnwys yn y cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig ac felly a fyddai angen ystyriaeth lawn y weithdrefn cydsyniad heneb gofrestredig ar wahân.

Adran 26 – Darpariaeth bellach ynghylch cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig

100. Mae'r adran hon yn rhagnodi elfennau sy'n ofynnol ar gyfer cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig (is-adrannau (1) a (2)), yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ar gyfer yr ymgynghoriad y mae rhaid iddo gael ei gynnal a'r cyhoeddusrwydd y mae rhaid iddo gael ei roi cyn i gytundeb gael ei wneud neu ei amrywio (is-adrannau (5) a (6)) ac yn cyfyngu ar effaith cytundeb ac effaith unrhyw gydsyniad a roddir (is-adran (7)).
101. Mae is-adran (2)(e) yn ei gwneud yn ofynnol i gytundeb partneriaeth heneb gofrestredig wneud darpariaeth ar gyfer ei amrywio. Gan y bydd cytundeb yn parhau am flynyddoedd, mae'n debygol y bydd yn ofynnol gwneud addasiadau o bryd i'w gilydd. Rhaid i'r bartion, felly, ymgorffori yn y cytundeb drefniadau gweithio y cytunwyd arnynt ar gyfer cymeradwyo amrywiadau angenrheidiol. Mewn rhai achosion, bydd amrywiadau yn ddarostyngedig i'r gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd a ragnodir drwy reoliadau o dan is-adran (5).
102. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer terfynu'r cytundeb sy'n ofynnol gan is-adran (2)(f) yn galw am ddull ar gyfer terfynu drwy negodi pe na bai'r cytundeb yn gwasanaethu buddiannau cyffredin y bartion mwyach neu os yw wedi methu fel arall. Mae hyn yn wahanol i derfynu cytundeb neu ddarpariaeth mewn cytundeb drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 27.

96. A scheduled monument partnership agreement may grant scheduled monument consent under section 13(1) for an agreed programme of works specified in the agreement. The consent may authorise works for the purpose of removing or repairing a monument or making any alterations or additions to it (subsections (3) and (7)). This will permit maintenance, conservation or management works that will be beneficial for the monument or monuments covered by the agreement.
97. A scheduled monument partnership agreement cannot grant consent for works resulting in the demolition or destruction of, or any damage to, a monument or for any flooding or tipping operations on land in, on or under which a scheduled monument is situated (section 11(2)(a) and (c)). Any of these excluded works would require separate scheduled monument consent obtained through the routine application process (sections 14 to 19).
98. A scheduled monument consent contained in a scheduled monument partnership agreement is not subject to the provisions in section 19 about when works must start and will remain valid for the lifetime of the agreement, which may last for 10 to 15 years.
99. Subsection (5)(a) permits the parties to an agreement to specify works to which section 11 would or would not apply, and which, therefore, would or would not require authorisation. This might allow the parties to identify certain minor works – for example, an agreed programme of vegetation clearance and management – that could proceed without authorisation. They could also specify more substantial works that could not be accommodated within the scheduled monument partnership agreement and would therefore require the full consideration of the separate scheduled monument consent procedure.

Section 26 – Further provision about scheduled monument partnership agreements

100. This section prescribes required components for a scheduled monument partnership agreement (subsections (1) and (2)), requires the Welsh Ministers to make provision, by regulations, for the consultation and publicity that must take place before an agreement is made or varied (subsections (5) and (6)) and limits the effect of an agreement and of any consent granted (subsection (7)).
101. Subsection (2)(e) requires a scheduled monument partnership agreement to make provision for its variation. Since an agreement will last for years, it is likely that adjustments will be required from time to time. The parties, therefore, must incorporate in the agreement agreed working arrangements for approving necessary variations. In some instances, variations will be subject to the consultation and publicity requirements prescribed by regulations under subsection (5).
102. The provision for termination of the agreement required by subsection (2)(f) calls for a mechanism for a negotiated termination should the agreement no longer serve the mutual interests of the parties or it has otherwise broken down. This is distinct from any termination of an agreement or a provision of an agreement by order of the Welsh Ministers under section 27.

103. Mae is-adran (7) yn darparu na fydd cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig ond yn gosod rhwymedigaeth ar y partïon i'r cytundeb hwnnw. Ni fydd perchnogion ar yr heneb gofrestredig yn y dyfodol yn cael eu rhwymo gan gytundeb, ac ni fyddant ychwaith yn gallu elwa ar unrhyw gysyniad heneb gofrestredig a roddir gan y cytundeb. O ganlyniad, oni bai bod yr holl bartïon yn cytuno i barhau â chytundeb gyda pherchennog newydd, bydd cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig yn peidio â chael effaith wrth i berchnogaeth newid.

Adran 27 – Terfynu cytundeb neu ddarpariaeth mewn cytundeb

Atodlen 5 – Terfynu drwy orchymyn gytundeb partneriaeth heneb gofrestredig

Atodlen 6 – Achosion o dan Ran 2

104. Mae adran 27 yn caniatáu i Weinidogion Cymru derfynu cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath drwy orchymyn. Mae'n debygol na fydd hyn ond yn digwydd mewn achosion eithriadol, er enghraifft, os bydd gwaith anawdurdodedig yn digwydd a'r berthynas rhwng y partïon yn dirywio i'r fath raddau fel ei bod yn amhosibl terfynu drwy negodi. Fel arall, gallai darganfyddiadau archaeolegol arwyddocaol ei gwneud yn ofynnol i waith penodol ddod i ben yn groes i ddymuniadau perchennog ac ysgogi Gweinidogion Cymru i derfynu rhan o'r cytundeb drwy orchymyn.
105. Mae adran 27(4) yn darparu bod Atodlen 5 a pharagraff 1 o Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â gwneud gorchymynion o dan yr adran hon.
106. Mae Atodlen 5 yn sefydlu'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn i derfynu cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig neu ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath. Mae'r weithdrefn hon yn debyg iawn i'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn i addasu neu ddirymu cydsyniad heneb gofrestredig yn Atodlen 4.

Adran 28 – Digollediad mewn perthynas â therfynu

107. O dan adran 28, mae hawlogaeth gan unrhyw barti i gytundeb partneriaeth heneb gofrestredig a chanddo fuddiant mewn heneb neu dir cysylltiedig sy'n dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad uniongyrchol i waith yn dod i ben oherwydd i hysbysiad o derfyniad arfaethedig gael ei gyflwyno neu i orchymyn terfynu gael ei wneud, wrth wneud hawliad am ddigollediad i Weinidogion Cymru, i gael ei ddigolledu gan Weinidogion Cymru.
108. Caniateir gwneud hawliadau am wariant yr eir iddo ar waith y perir iddo fod yn ofer gan yr hysbysiad neu'r gorchymyn ac ar blaniau a materion eraill i baratoi ar gyfer y gwaith (is-adrannau (2)(a) a (3)). Gallai materion paratoi o'r fath gynnwys datblygu'r cynlluniau manwl y mae eu hangen ar gyfer cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig. Caniateir gwneud hawliadau hefyd am unrhyw golled arall neu unrhyw ddifrod arall a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r hysbysiad neu'r gorchymyn.
109. Mae adrannau 202 a 203 yn gwneud darpariaethau ychwanegol ynghylch hawliadau am ddigollediad o dan y Ddeddf hon (gweler paragraff 45 uchod).

103. Subsection (7) provides that a scheduled monument partnership agreement will only be binding on the parties to that agreement. Future owners of the scheduled monument will not be bound by an agreement, nor will they be able to benefit from any scheduled monument consent granted by the agreement. Consequently, unless all the parties agree to continue an agreement with a new owner, a scheduled monument partnership agreement will cease to have effect with a change of ownership.

Section 27 – Termination of agreement or provision of agreement

Schedule 5 – Termination by order of scheduled monument partnership agreement

Schedule 6 – Proceedings under Part 2

104. Section 27 allows the Welsh Ministers to terminate a scheduled monument partnership agreement or any provision of such an agreement by order. It is likely that this will only happen in exceptional cases, for instance, if unauthorised works take place and relations between the parties break down to such an extent that negotiated termination becomes impossible. Alternatively, significant archaeological discoveries might require the cessation of certain works against the wishes of an owner and prompt the Welsh Ministers to terminate a portion of an agreement by order.
105. Section 27(4) provides that Schedule 5 and paragraph 1 of Schedule 6 make provision in connection with making orders under this section.
106. Schedule 5 puts in place the procedure for making an order to terminate a scheduled monument partnership agreement or a provision of such an agreement. This procedure is very similar to the procedure for making an order to modify or revoke scheduled monument consent in Schedule 4.

Section 28 – Compensation in relation to termination

107. Under section 28, any party to a scheduled monument partnership agreement with an interest in a monument or associated land who suffers loss or damage as a direct result of the cessation of works caused by the service of a notice of proposed termination or the making of a termination order is, on making a claim for compensation to the Welsh Ministers, entitled to be paid compensation from the Welsh Ministers.
108. Claims may be made for expenditure incurred on works rendered abortive by the notice or order and on plans and other matters preparatory to the works (subsections (2)(a) and (3)). Such preparatory matters could include the development of the detailed plans needed for a scheduled monument partnership agreement. Claims may also be made for any other loss or damage suffered by the person that is directly attributable to the notice or order.
109. Sections 202 and 203 make additional provisions about claims for compensation under this Act (see paragraph 45 above).

Pennod 5 – Gorfodi rheolaethau sy'n ymwneud â henebion cofrestredig

110. Mae'r Bennod hon yn nodi ei bod yn drosedd cyflawni gwaith anawdurdodedig mewn perthynas â heneb gofrestrdedig, neu beri neu ganiatáu i waith anawdurdodedig gael ei gyflawni mewn perthynas â heneb gofrestrdedig (adran 30). Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad stop dros dro er mwyn rhoi terfyn ar unwaith ar waith sy'n torri naill ai adran 11 neu amod mewn cydsyniad (adrannau 31 i 34). Mae hefyd yn darparu ar gyfer hysbysiad gorfodi, y caniateir ei ddefnyddio i bennu'r camau i'w cymryd er mwyn unioni effeithiau gwaith anawdurdodedig, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad a'r hysbysiad yn cymryd effaith yn ogystal ag apêl yn ei erbyn (adrannau 35 i 41). Mae'r Bennod hefyd yn darparu ar gyfer gwaharddebau i atal achosion gwirioneddol neu ddisgwyliedig o dorri adran 11 neu fethiannau i gydymffurfio ag amodau mewn cydsyniad (adran 42).

Adran 30 – Y drosedd o gyflawni gwaith anawdurdodedig neu dorri amod mewn cydsyniad

111. Mae adran 30(1) yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflawni gwaith anawdurdodedig ar heneb gofrestrdedig, neu i beri neu i ganiatáu i waith o'r fath gael ei gyflawni. Caiff adran 12, sy'n awdurdodi dosbarthau penodol o waith, neu adran 13, sy'n darparu ar gyfer rhoi cydsyniad heneb gofrestrdedig gan Weinidogion Cymru, ddarparu awdurdodiad.
112. Os rhoddwyd cydsyniad heneb gofrestrdedig, mae is-adran (2)(b) yn darparu ei bod yn drosedd i berson fethu â chydymffurfio ag amod mewn cydsyniad wrth gyflawni gwaith, neu wrth beri neu ganiatáu i'r gwaith gael ei gyflawni. Bydd hyn yn gymwys i bob amod sy'n gysylltiedig â chydysyniad heneb gofrestrdedig, gan gynnwys, er enghraifft, yr amodau hynny sy'n ymwneud â chyhoeddi canlyniadau ar ôl cwblhau ymchwiliad archaeolegol.
113. Yn is-adrannau (1) a (2), ystyr "person" yw unrhyw un sy'n cyflawni gwaith ar heneb, pa un a yw'n berchennog neu'n feddiannydd ar heneb, yn contractiwr neu'n is-contractiwr neu'n drydydd parti arall.
114. Os cyflawnir gwaith heb awdurdodiad neu yn groes i amod, cyflawnir trosedd pa un a yw person:
- yn cyflawni'r gwaith hwnnw ei hun,
 - yn cyfarwyddo neu'n cyflogi rhywun arall i'w gyflawni, neu
 - yn caniatáu gwaith o'r fath.
115. Mae'r pwynt olaf yn golygu na all person anwybyddu'r hyn sy'n digwydd i heneb gofrestrdedig a methu â chymryd camau rhesymol i atal gwaith anawdurdodedig.
116. Mae is-adran (4) yn darparu amddiffyniad i berson mewn achos am drosedd o dan is-adran (1) yn ymwneud â heneb o dan warchodaeth interim pan fo'r person yn gallu profi nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod yr heneb yn ddarostyngedig i warchodaeth interim. Pan fo'r amddiffyniad yn cael ei godi gan berson y dylai hysbysiad fod wedi cael ei gyflwyno iddo o dan adran 5(2), yr erlyniad sydd i brofi i'r hysbysiad gael ei gyflwyno i'r person.

Chapter 5 – Enforcement of controls relating to scheduled monuments

110. This Chapter sets out that it is an offence to carry out, or cause or permit to be carried out, unauthorised works in relation to a scheduled monument (section 30). It provides the Welsh Ministers with the powers to issue a temporary stop notice to put an immediate halt to works that either breach section 11 or a condition of a consent (sections 31 to 34). It also provides for an enforcement notice, which may be used to specify steps to be taken to remedy the effects of unauthorised works and provision is made for the service and taking effect of a notice as well as for an appeal against it (sections 35 to 41). The Chapter also provides for injunctions to restrain actual or expected breaches of section 11 or failures to comply with scheduled monument consent conditions (section 42).

Section 30 – Offence of carrying out unauthorised works or breaching condition of consent

111. Section 30(1) makes it an offence for a person to carry out unauthorised works to a scheduled monument, or to cause or permit such works to be carried out. Authorisation may be provided by section 12, which authorises specific classes of works, or under section 13, which provides for the grant of scheduled monument consent by the Welsh Ministers.

112. If scheduled monument consent has been granted, subsection (2)(b) provides that it is an offence for a person to fail to comply with a condition of a consent in carrying out works, or in causing or permitting the works to be carried out. This will apply to all conditions attached to a scheduled monument consent, including, for instance, those for publication of the results after the completion of an archaeological investigation.

113. In subsections (1) and (2), a “person” may be anyone who undertakes works to a monument, be that an owner or occupier of a monument, a contractor or subcontractor or other third party.

114. If works are undertaken without authorisation or in breach of a condition, an offence is committed whether a person:

- a. carries out those works personally,
- b. instructs or employs someone else to undertake them, or
- c. permits such works.

115. The last point means that a person cannot turn a blind eye to what happens on a scheduled monument and fail to take reasonable steps to prevent unauthorised works.

116. Subsection (4) provides a person with a defence in proceedings for a subsection (1) offence relating to a monument under interim protection where the person can prove that the person did not know and could not reasonably have been expected to know that the monument was subject to interim protection. Where the defence is raised by a person on whom a notice should have been served under section 5(2), it is for the prosecution to prove that the notice was served on the person.

117. Dylai gwybodaeth am henebion o dan warchodaeth interim fod ar gael yn hawdd. Mae adran 5(2) i (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad os ydynt yn cynnig ychwanegu heneb i'r gofrestr neu ychwanegu at ardal heneb gofrestredig bresennol. Rhaid i'r hysbysiad, y mae rhaid ei gyflwyno i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr heneb ymhlith personau eraill, bennu'r dyddiad y mae gwarchodaeth interim yn dechrau ac egluro ei heffaith. Caiff rhestr o henebion o dan warchodaeth interim ei chyhoeddi ar wefan Cadw yn unol ag adran 6(4) (gweler paragraff 39 uchod) ac mae Cof Cymru hefyd yn nodi henebion o dan warchodaeth interim.
118. Mae is-adran (7) yn darparu amddiffyniad tebyg mewn achos am drosedd o dan yr adran hon am waith sydd wedi arwain at ddymchwel neu ddinistrio, neu unrhyw ddifrod i heneb gofrestredig neu foddi tir neu weithrediadau tipio ar dir y mae heneb gofrestredig ynddo, arno neu odano. Bydd amddiffyniad gan berson os yw'r person yn gallu profi ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol, cyn cyflawni'r gwaith, er mwyn canfod a oedd heneb gofrestredig yn yr ardal y byddai'r gwaith yn effeithio arni, ac nad oedd y person yn gwybod, ac nad oedd ganddo reswm dros gredu, fod yr heneb yn yr ardal, neu, yn ôl y digwydd, ei bod yn heneb gofrestredig.
119. Gallai camau rhesymol o'r fath gynnwys edrych ar Cof Cymru, lle mae gwybodaeth gywir a chyfredol am leoliad a rhychwant pob heneb gofrestredig yng Nghymru ar gael. Mae gwefannau eraill – er enghraifft Archwilio, sef porth ar-lein cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru, neu DataMapCymru – hefyd yn cynnwys gwybodaeth am henebion gofrestredig sy'n deillio o Cof Cymru.
120. Mae unrhyw un sydd wedi perchen ar heneb gofrestredig neu wedi ei meddiannu am dymor hir yn debygol o wybod am ei statws yn ogystal â gwybod beth yw ei rhychwant am fod wardeiniaid henebion maes Cadw yn ymweld â phob heneb gofrestredig yng Nghymru ar raglen dreigl er mwyn cofnodi eu cyflwr. Dylai perchnogion newydd gael gwybod eu bod wedi caffael heneb gofrestredig drwy chwiliad teitl trawsgludo, am fod cofnod yn y gofrestr yn bridiant tir lleol o dan adran 3(5).
121. Mae is-adran (8) yn darparu amddiffyniad i berson mewn achos am drosedd o dan yr adran hon os cyflawnwyd gwaith er mwyn mynd i'r afael ag anghenion iechyd a diogelwch brys. Fodd bynnag, nid yw'r amddiffyniad ar gael ac eithrio pan fo'r gwaith wedi ei gyfyngu i isafswm y mesurau sy'n angenrheidiol ar unwaith i sicrhau iechyd a diogelwch, a phan fo hysbysiad sy'n cyfiawnhau'r gwaith yn fanwl wedi cael ei roi i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
122. Mae is-adran (9) yn darparu mai dirwy ddiderfyn yw'r gosb am drosedd o dan yr adran hon, pa un a roddir euogfarn ddiannod neu euogfarn ar ddiad.

117. Information on monuments under interim protection should be readily available. Section 5(2) to (4) requires the Welsh Ministers to serve notice if they propose to add a monument to the schedule or add to the area of an existing scheduled monument. The notice, which must be served on every owner and occupier of the monument amongst other persons, has to specify the date upon which interim protection begins and explain its effect. A list of monuments under interim protection is published on the Cadw website in accordance with section 6(4) (see paragraph 39 above) and Cof Cymru also identifies monuments under interim protection.
118. Subsection (7) provides a similar defence in proceedings for an offence under this section for works that have resulted in the demolition or destruction of, or any damage to, a scheduled monument or flooding or tipping operations on land in, on or under which a scheduled monument is located. A person will have a defence if the person can prove that, prior to the works, the person took all reasonable steps to determine if a scheduled monument was in the area to be affected by the works and that the person did not know and had no reason to believe that the monument was in the area, or, as the case may be, that it was a scheduled monument.
119. Such reasonable steps might include checking Cof Cymru, where accurate and up-to-date information on the location and extent of all scheduled monuments in Wales is available. Other sites – for example, Archwilio, the online portal of the Welsh historic environment records, or DataMapWales – also incorporate information on scheduled monuments derived from Cof Cymru.
120. A long-term owner or occupier of a scheduled monument is likely to be aware of its status and extent because Cadw field monument wardens visit all scheduled monuments in Wales on a rolling programme to record their condition. New owners should discover their acquisition of a scheduled monument in the conveyancing title search, since an entry in the schedule is a local land charge under section 3(5).
121. Subsection (8) provides a person with a defence in proceedings for an offence under this section if works were undertaken to address urgent health and safety needs. However, the defence is only available where the works are limited to the minimum measures immediately necessary to secure health and safety and notice was given to the Welsh Ministers with detailed justification for the works as soon as reasonably practicable.
122. Subsection (9) provides that the penalty for an offence under this section is an unlimited fine, whether on summary conviction or conviction by indictment.

Adran 31 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad stop dros dro

Adran 32 – Hyd etc. hysbysiad stop dros dro

Adran 33 – Y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro

123. Mae adran 31 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad stop dros dro er mwyn rhoi terfyn ar unwaith ar unrhyw waith, neu'r holl waith ar heneb gofrestredig y maent yn ystyried ei fod yn anawdurdodedig neu'n torri amod mewn cydsyniad heneb gofrestredig. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud hynny oni bai eu bod yn ystyried y dylid rhoi terfyn ar y gwaith ar unwaith, gan roi sylw i effaith y gwaith ar yr heneb fel un sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.
124. Mae is-adrannau (2) i (5) yn pennu'r hyn y mae'n ofynnol i hysbysiad stop dros dro ei gynnwys ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad. Mae is-adrannau (3) a (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arddangos copi o'r hysbysiad ar yr heneb neu'r tir, neu, pan nad yw'n rhesymol ymarferol arddangos copi o'r hysbysiad ar yr heneb neu'r tir neu pe gellid difrodi'r heneb drwy wneud hynny, mewn man amlwg gerllaw. Mae is-adran (5) yn darparu y caniateir cyflwyno copi o'r hysbysiad i'r personau a nodir yn yr is-adran honno – gan gynnwys person y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn cyflawni'r gwaith neu'n peri neu'n caniatáu iddo gael ei gyflawni.
125. Er y bydd Gweinidogion Cymru yn ymdrechu i gyflwyno copïau unigol i bartion â buddiant o dan is-adran (5), drwy arddangos copi o'r hysbysiad stop dros dro yn gyhoeddus, gellir rhoi gwybod i bawb sy'n rhan o'r gwaith penodedig sy'n effeithio ar yr heneb gofrestredig fod rhaid i'r gwaith hwnnw gael ei atal dros dro, ar unwaith.
126. Mae adran 66 yn gwneud darpariaeth i berson awdurdodedig fynd ar dir er mwyn arddangos hysbysiad stop dros dro ac at ddibenion cysylltiedig.
127. Mae adran 32 yn nodi bod hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith pan gaiff copi ohono ei arddangos yn gyntaf yn unol ag adran 31, y bydd yn parhau i gael effaith am 28 o ddiwrnodau (oni bai bod cyfnod byrrach wedi ei bennu), ac y caiff Gweinidogion Cymru ei dynnu'n ôl cyn iddo ddod i ben.
128. Cyn gynted ag y bydd hysbysiad stop dros dro yn cael effaith, mae adran 33 yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflawni gwaith sydd wedi ei wahardd gan yr hysbysiad neu beri neu ganiatáu i berson arall wneud hynny.

Adran 34 – Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop dros dro

129. Mae adran 34 yn darparu y caiff unrhyw berson a chanddo fuddiant mewn heneb neu dir y mae hysbysiad stop dros dro yn ymwneud â hi neu ag ef fod â hawlogaeth i ddigollediad gan Weinidogion Cymru am golled neu ddifrod y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i effaith hysbysiad stop dros dro.
130. Mae is-adran (1) yn darparu nad yw digollediad ond yn daladwy:
- a. pan nad oedd y gwaith a bennir yn yr hysbysiad yn torri adran 11 ar yr adeg y cymerodd yr hysbysiad effaith (hynny yw, roedd naill ai wedi ei awdurdodi neu nid oedd yn ofynnol iddo gael ei awdurdodi); neu

Section 31 – Power of Welsh Ministers to issue temporary stop notice

Section 32 – Duration etc. of temporary stop notice

Section 33 – Offence of breaching temporary stop notice

123. Section 31 gives the Welsh Ministers powers to issue a temporary stop notice to put an immediate halt to any or all works to a scheduled monument that they consider to be unauthorised or to breach a condition of a scheduled monument consent. The Welsh Ministers may only do so if they consider that the works ought to be stopped immediately, having regard to the effect of the works on the monument as one of national importance.
124. Subsections (2) to (5) specify the required contents of a temporary stop notice and make provision for service of a notice. Subsections (3) and (4) require the Welsh Ministers to display a copy of the notice on the monument or land, or, where it is not reasonably practicable to display a copy of the notice on the monument or land or doing so could damage the monument, in a prominent location nearby. Subsection (5) then provides that a copy of the notice may be served on the persons identified in that subsection – including a person whom the Welsh Ministers consider is carrying out the works or causing or permitting them to be carried out.
125. While the Welsh Ministers will endeavour to serve individual copies on interested parties under subsection (5), public display of a copy of the temporary stop notice provides a mechanism for alerting all involved in the specified works affecting the scheduled monument that those works must be suspended immediately.
126. Section 66 makes provision for an authorised person to enter land to display a temporary stop notice and for related purposes.
127. Section 32 sets out that a temporary stop notice takes effect when a copy of it is first displayed in accordance with section 31, will remain in effect for 28 days (unless a shorter period is specified) and may be withdrawn by the Welsh Ministers before its expiry.
128. Once a temporary stop notice is in effect, section 33 makes it an offence for a person to undertake works prohibited by the notice or cause or permit another person to do so.

Section 34 – Compensation for loss or damage caused by temporary stop notice

129. Section 34 provides that any person with an interest in a monument or land to which a temporary stop notice relates may be entitled to compensation from the Welsh Ministers for loss or damage directly attributable to the effect of a temporary stop notice.
130. Subsection (1) provides that compensation is only payable where:
- a. the works specified in the notice did not breach section 11 at the time the notice took effect (that is, they were either authorised or did not require authorisation); or

- b. pan nad oedd y gwaith a bennir yn yr hysbysiad yn torri amod mewn cydsyniad heneb gofrestredig ar yr adeg y cymerodd yr hysbyseb effaith; neu
 - c. pan fo Gweinidogion Cymru wedi tynnu'n ôl yr hysbysiad stop dros dro ar ôl iddo gymryd effaith.
Fodd bynnag, mae is-adran (2) yn darparu ymhellach nad oes digollediad yn daladwy os yw Gweinidogion Cymru yn tynnu hysbysiad yn ôl ar ôl rhoi cydsyniad heneb gofrestredig a fydd yn caniatáu i'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad fynd rhagddo.
131. Mae is-adran (5) hefyd yn eithrio unrhyw hawliad am golled neu ddifrod y gellid bod wedi ei osgoi neu ei hosgoi pe bai'r hawlydd wedi darparu gwybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru ynghylch buddiannau yn y tir o dan adran 197, neu pe bai wedi cydweithredu fel arall â Gweinidogion Cymru.
132. Mae adrannau 202 a 203 yn gwneud darpariaethau ychwanegol ynghylch hawliadau am ddigollediad o dan y Ddeddf hon (gweler paragraff 45 uchod).

Adran 35 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad gorfodi

133. Mae adran 35 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad gorfodi i atal gwaith anawdurdodedig penodedig ar heneb gofrestredig a/neu ei gwneud yn ofynnol i gymryd camau er mwyn:
- a. adfer yr heneb neu'r tir i'w chyflwr neu ei gyflwr cyn i'r gwaith anawdurdodedig fynd rhagddo;
Byddai'r camau gofynnol yn debygol o gynnwys cynnal ymchwiliad archaeolegol priodol o'r ardal a ddifrodwyd er mwyn adennill a chofnodi tystiolaeth hanesyddol cyn i weithrediadau penodedig pellach fynd rhagddynt.
 - b. lleddfu effaith y gwaith, os nad yw'n rhesymol ymarferol neu yn ddymunol adfer yr heneb neu'r tir; neu
Pe bai difrod difrifol neu helaeth i heneb gofrestredig, gallai fod yn annichonadwy ei hadfer a gallai, mewn gwirionedd, achosi rhagor o ddifrod i'r dystiolaeth archaeolegol sydd wedi goroesi. Mewn achos o'r fath, byddai Gweinidogion Cymru yn pennu camau i sefydlogi'r heneb yn ei chyflwr newydd er mwyn ei gwarchod, ac er mwyn gwarchod yr wybodaeth y mae'n ei chynnwys at y dyfodol.
 - c. rhoi'r heneb neu'r tir yn y cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe cydymffurfiwyd â thelerau ac amodau cydsyniad heneb gofrestredig a roddwyd.
134. O dan is-adran (5) rhaid i Weinidogion Cymru gynnal rhestr gyfredol o hysbysiadau gorfodi henebion cofrestredig sydd ar waith. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r rhestr wedi ei chynnwys ar y dudalen "Hysbysiadau statudol ymgynghori heneb gofrestredig" yn yr adran "Henebion cofrestredig" ar wefan Cadw'.

Adran 36 – Cyflwyno hysbysiad gorfodi a'r hysbysiad yn cymryd effaith

135. Mae adran 36 yn nodi'r gofynion ar gyfer cyflwyno copi o hysbysiad gorfodi a phryd y mae hysbysiad gorfodi'n cymryd effaith.

- b. the works specified in the notice did not breach a condition of a scheduled monument consent at the time the notice took effect; or
 - c. the Welsh Ministers withdrew the temporary stop notice after it took effect. However, subsection (2) further provides that no compensation is payable if the Welsh Ministers withdraw a notice after granting a scheduled monument consent that will allow the works specified in the notice to proceed.
131. Subsection (5) also excludes any claim for loss or damage that might have been avoided if the claimant had provided information required by the Welsh Ministers regarding interests in the land under section 197 or had otherwise cooperated with the Welsh Ministers.
132. Sections 202 and 203 make additional provisions about claims for compensation under this Act (see paragraph 45 above).

Section 35 – Power of Welsh Ministers to issue enforcement notice

133. Section 35 gives the Welsh Ministers powers to issue an enforcement notice to stop specified unauthorised works to a scheduled monument and/or require steps to be taken to:
- a. restore the monument or land to its condition before the unauthorised works took place;
The steps required would be likely to include appropriate archaeological investigation of the damaged area to recover and record historical evidence before further specified operations proceed.
 - b. alleviate the effect of the works, if restoration is not reasonably practicable or desirable; or
In the event of serious or extensive damage to a scheduled monument, restoration might be unviable and could, in fact, cause further harm to surviving archaeological evidence. In such a case, the Welsh Ministers would specify steps to stabilise the monument in its altered state to protect it and the information it contains for the future.
 - c. put the monument or land in the condition it would have been in if the terms and conditions of a granted scheduled monument consent had been fulfilled.
134. Under subsection (5) the Welsh Ministers must maintain an up-to-date list of scheduled monument enforcement notices that are in effect. At the time of writing these notes, the list is included on the “Statutory scheduled monument consultation notices” page in the “Scheduled monuments” section of the Cadw website.

Section 36 – Service and taking effect of enforcement notice

135. Section 36 sets out the requirements for service of a copy of an enforcement notice and when a notice takes effect.

136. Mae is-adran (2) yn darparu y bydd hysbysiad gorfodi yn cymryd effaith ar ddechrau'r diwrnod a bennir yn yr hysbysiad. Pe bai apêl yn cael ei wneud i lys ynadon yn erbyn yr hysbysiad o dan adran 39, mae adran 39(4) yn darparu na fydd yr hysbysiad yn cymryd effaith hyd nes y caiff yr apêl ei phenderfynu neu ei thynnu'n ôl.
137. Mae is-adran (3) yn caniatáu i hysbysiad gorfodi bennu gwahanol gyfnodau ar gyfer atal gwaith gwahanol neu gymryd camau gwahanol. Mae hyblygrwydd o'r fath yn galluogi hysbysiad gorfodi i wneud darpariaeth briodol ar gyfer gofynion cadwraeth heneb. Er enghraifft, gellid nodi cyfres o gamau i'w cymryd yn raddol er mwyn sicrhau bod heneb a ddifrodwyd gan waith anawdurdodedig yn cael ei hadfer neu ei sefydlogi'n foddhaol.
138. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno copi o'r hysbysiad i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr heneb neu'r tir y mae'n ymwneud â hi neu ag ef, i unrhyw lesddeiliad (os yw'n briodol) ac i unrhyw berson arall sydd â buddiant yn yr heneb neu'r tir y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr hysbysiad yn effeithio'n sylweddol arni neu arno.
139. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno copi o'r hysbysiad cyn diwedd 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y'i dyroddwyd, ac o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y mae i gymryd effaith. Ystyr "dyroddwyd" yma yw'r adeg y cytunwyd ar yr hysbysiad gorfodi gan swyddog dirprwyol i Weinidogion Cymru.
140. Mae adran 66 yn gwneud darpariaeth i berson awdurdodedig fynd ar dir er mwyn cyflwyno hysbysiad gorfodi ac at ddibenion cysylltiedig.

Adran 38 – Effaith rhoi cydsyniad heneb gofrestredig ar hysbysiad gorfodi

141. Mae adran 38 yn darparu ar gyfer sefyllfa pan roddir cydsyniad heneb gofrestredig, ar ôl i hysbysiad gorfodi gael ei ddyroddi, i awdurdodi:
- a. gwaith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef a oedd wedi ei gyflawni yn groes i adran 11, neu
 - b. gwaith a oedd wedi torri amod mewn cydsyniad heneb gofrestredig blaenorol.
142. Mae is-adran (2) yn darparu bod camau a bennir yn yr hysbysiad sy'n anghyson â'r cydsyniad newydd yn peidio â chael effaith. Fodd bynnag, mae is-adran (3) yn nodi bod person yn parhau'n atebol am unrhyw drosedd gynharach sy'n deillio o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi, er bod rhan o'r hysbysiad neu'r hysbysiad cyfan yn peidio â chael effaith wedi hynny o dan yr adran hon. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi (adran 41) yn drosedd ar wahân i gyflawni gwaith anawdurdodedig (adran 30) a chaniateir mynd ar drywydd achosion am y troseddau yn annibynnol ar ei gilydd.

136. Subsection (2) provides that an enforcement notice will take effect at the beginning of the day specified in the notice. Should an appeal be made to a magistrates' court against the notice under section 39, section 39(4) provides that the notice will not take effect until the appeal is determined or withdrawn.
137. Subsection (3) allows an enforcement notice to set different periods for stopping different works or taking different steps. Such flexibility enables an enforcement notice to make appropriate provision for the conservation requirements of a monument. For instance, a phased series of steps might be set out to achieve the satisfactory restoration or stabilisation of a monument damaged by unauthorised works.
138. Subsection (4) requires a copy of the notice to be served on every owner and occupier of the monument or land to which it relates, to any lessee (if appropriate) and to any other person who has an interest in the monument or land which the Welsh Ministers consider to be materially affected by the notice.
139. Subsection (5) requires a copy of the notice to be served before the end of 28 days after the day on which it was issued, and at least 28 days before the date specified in the notice as the date on which it is to take effect. "Issued" here means when the enforcement notice was agreed by a delegated officer of the Welsh Ministers.
140. Section 66 makes provision for an authorised person to enter land to serve an enforcement notice and for related purposes.

Section 38 – Effect of granting scheduled monument consent on enforcement notice

141. Section 38 provides for a situation where, after an enforcement notice is issued, scheduled monument consent is granted to authorise:
 - a. works to which the notice relates that had been carried out in breach of section 11, or
 - b. works that had breached a condition of a previous scheduled monument consent.
142. Subsection (2) provides that steps specified in the notice that are inconsistent with the new consent cease to have effect. However, subsection (3) sets out that a person remains liable for any earlier offence arising from a failure to comply with an enforcement notice, even though part or all of the notice subsequently ceases to have effect under this section. Failing to comply with an enforcement notice (section 41) is a separate offence from carrying out unauthorised works (section 30) and proceedings for the offences may be pursued independently.

Adran 39 – Apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi

143. Mae adran 39 yn caniatáu i unrhyw un y cyflwynwyd copi o hysbysiad gorfodi iddo, neu unrhyw un a chanddo fuddiant yn yr heneb neu'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi neu ag ef, apelio i lys ynadon yn erbyn yr hysbysiad.
144. Mae is-adran (2) yn rhestru'r seiliau dros apêl ac mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i apêl gael ei gwneud cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y mae'r hysbysiad yn cymryd effaith. Mae is-adran (2)(b) yn darparu ar gyfer apêl ar y sail nad oedd y gwaith yn 'torri adran 11 neu amod mewn cydsyniad heneb gofrestredig. Efallai fod hyn oherwydd bod y gwaith wedi digwydd y tu allan i ardal yr heneb gofrestredig neu oherwydd ei fod, mewn gwirionedd, yn cydymffurfio ag awdurdodiad a ddarperir gan adran 12 neu 13 ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrtho.
145. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff y llys gadarnhau hysbysiad er gwaethaf methiant i'w gyflwyno i berson yr oedd yn ofynnol cyflwyno hysbysiad iddo, os yw wedi ei fodloni nad yw'r methiant wedi cael effaith andwyol sylweddol ar y person.

Adran 40 – Pwerau i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi

Adran 41 – Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi

146. Mae adran 40 yn darparu ar gyfer sefyllfa pan nad yw un o'r camau gofynnol wedi cael ei gymryd o fewn yr amser a bennir mewn hysbysiad gorfodi. Yn yr achos hwnnw, caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru fynd ar y tir, cymryd y cam hwnnw ac adennill y costau yr eir iddynt oddi wrth unrhyw berchennog neu lesddeiliad ar yr heneb neu'r tir. Mae hyn yn caniatáu i waith cadwraeth angenrheidiol a nodir yn yr hysbysiad gorfodi er mwyn sicrhau dyfodol yr heneb gofrestredig fynd rhagddo mewn modd amserol. Fel arall, gellid caniatáu i heneb a ddifrodwyd fynd i gyflwr gwael, gan arwain at ragor o ddifrod i'r heneb a cholli unrhyw wybodaeth archaeolegol sydd ynddi.
147. Os yw'r pŵer mynediad a nodir yn is-adran (1) i'w arfer ar dir sydd wedi ei feddiannu, mae is-adran 69(2)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i roi o leiaf 14 o ddiwrnodau o rybudd i bob meddiannydd.
148. Pe bai meddiannydd yn rhwystro perchennog rhag cyflawni gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi, mae is-adran (3) yn galluogi llys ynadon, ar gais gan y perchennog, i ddyroddi gwarant sy'n awdurdodi'r perchennog i fynd ar y tir a chyflawni'r gwaith. Mae'n bwysig i perchennog allu troi at y gyfraith yn y modd hwn gan fod adran 41(1) yn gosod unrhyw atebolrwydd am drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi ar perchennog yr heneb gofrestredig neu'r tir. Gallai fod gan perchennog amddiffyniad hefyd o dan adran 41(3) os yw meddiannydd, er gwaethaf pob ymdrech rhesymol i gymryd camau a nodir mewn hysbysiad gorfodi, yn ei rwystro rhag eu cymryd.
149. Mae adran 70 yn caniatáu i unrhyw berson â chanddo fuddiant mewn tir hawlio digollediad am unrhyw ddifrod i dir neu eiddo arall a achosir o ganlyniad i arfer pwerau o dan yr adran hon.

Section 39 – Appeal against enforcement notice

143. Section 39 permits anyone upon whom a copy of an enforcement notice has been served or with an interest in the monument or land to which the notice relates to appeal against the notice to a magistrates' court.
144. Subsection (2) lists the grounds for an appeal and subsection (3) requires that it is made before the date specified in the notice as the date on which the notice takes effect. Subsection (2)(b) provides for an appeal on the basis that the works did not constitute a breach of section 11 or of a condition of a scheduled monument consent. Perhaps this might be because the works occurred outside the area of the scheduled monument or they did, in fact, comply with an authorisation provided by section 12 or 13 and any attached conditions.
145. Subsection (6) provides that the court may uphold a notice in spite of a failure to serve the notice on a person who was required to be served, if it is satisfied that the person has not been significantly disadvantaged by the failure.

Section 40 – Powers to enter land and take steps required by enforcement notice

Section 41 – Offence of failing to comply with enforcement notice

146. Section 40 provides for a situation in which a required step has not been taken within the time prescribed in an enforcement notice. In that case, a person authorised in writing by the Welsh Ministers may enter the land, take that step and recover the costs incurred from any owner or lessee of the monument or land. This allows necessary conservation works to secure the future of the scheduled monument that are detailed in the enforcement notice to take place in a timely fashion. Otherwise, a damaged monument might be left to deteriorate, leading to further damage to the monument and the loss of any archaeological information that it contains.
147. If the power of entry in subsection (1) is to be exercised on occupied land, section 69(2)(a) requires at least 14 days' notice to be given to every occupier.
148. Should an occupier prevent an owner from undertaking works required by an enforcement notice, subsection (3) enables a magistrates' court, on application from the owner, to issue a warrant authorising the owner to enter the land and carry out the work. This provides important legal recourse for an owner since section 41(1) places any liability for an offence for a failure to comply with an enforcement notice on an owner of the scheduled monument or land. An owner may also have a defence under section 41(3) if, in spite of all reasonable efforts to take steps set out in an enforcement notice, an occupier obstructs their execution.
149. Section 70 allows any person with an interest in land to make a claim for compensation for any damage to land or other property caused by the exercise of powers under this section.

150. Mae adran 41 yn pennu y bydd perchennog yr heneb gofrestredig neu'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi neu ag ef yn euog o drosedd os nad yw'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad wedi dod i ben neu os nad yw un o'r camau gofynnol wedi cael ei gymryd ar ôl diwedd y cyfnod a nodir mewn hysbysiad gorfodi.

Adran 42 – Gwaharddeb i atal gwaith anawdurdodedig neu fethiant i gydymffurfio ag amod mewn cydsyniad

151. Mae adran 42 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud cais i'r Uchel Lys neu'r llys sirol am waharddeb i atal achosion gwirioneddol neu ddisgwyliedig o dorri adran 11 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi) neu achosion gwirioneddol neu ddisgwyliedig o fethu â chydymffurfio ag amod mewn cydsyniad heneb gofrestredig.

Pennod 6 – Caffael, gwarcheidiaeth a mynediad y cyhoedd

152. Mae'r Bennod hon yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i ddod â henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig i'w gofal.
153. Caniateir cymryd henebion i ofal drwy gaffael. Mae'r Bennod yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gaffael henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig naill ai drwy eu caffael yn orfodol neu drwy gytundeb neu rodd (adrannau 43 a 44), ac y caiff awdurdodau lleol gaffael henebion drwy gytundeb neu rodd (adran 44).
154. Caniateir cymryd henebion i ofal hefyd drwy warcheidiaeth; mae'r Bennod yn nodi trefniadau sy'n caniatáu i berson â chanddo fuddiant cyfreithiol cymhwysol mewn heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig benodi naill ai Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn warcheidwad yr heneb (adrannau 45 i 48). O dan y trefniadau gwirfoddol hyn, mae'r gwarcheidwad yn cytuno i dderbyn cyfrifoldeb am reoli'r heneb ac yn caffael hawliau penodol dros yr eiddo.
155. Mae adrannau eraill o'r Bennod hon yn ymwneud â thir yng nghyffiniau heneb sydd o dan warcheidiaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdodau lleol (adrannau 49 a 50), cytundebau rheoli sy'n ymwneud â henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig (adran 51) a'r trefniadau ar gyfer mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdodau lleol (adrannau 55 i 57).

Adran 43 – Caffael yn orfodol henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig

156. Mae adran 43 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gaffael yn orfodol heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig at ddibenion ei diogelu, pa un a yw'r heneb wedi ei chynnwys yn y gofrestr o henebion o dan adran 3 ai peidio. Diffinnir "heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig" yn adran 75(6) (gweler paragraff 242 isod).
157. Mae is-adran (2) yn darparu bod Deddf Caffael Tir 1981 (p. 67) ("Deddf 1981") yn gymwys i gaffaeliad gorfodol o dan yr adran hon. Un o'r effeithiau yw bod digollediad yn daladwy ar y caffaeliad. Mae is-adrannau (3) a (4) yn darparu ymhellach ei bod i'w thybio, wrth asesu digollediad am gaffael heneb sydd wedi ei chofrestru ar adeg y caffaeliad, na fyddai cydsyniad heneb gofrestredig yn cael ei roi ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n arwain neu a allai arwain at ddymchwel, dinistrio neu symud ymaith yr heneb neu unrhyw ran ohoni. Yr effaith yw y caiff y digollediad sy'n daladwy fod yn llai nag a fyddai fel arall.

150. Section 41 establishes that if, after the end of the period prescribed in an enforcement notice, works specified in the notice have not stopped or a required step has not been taken, an owner of the scheduled monument or land to which the notice relates will be guilty of an offence.

Section 42 – Injunction to restrain unauthorised works or failure to comply with condition of consent

151. Section 42 allows the Welsh Ministers to apply to the High Court or the county court for an injunction to restrain actual or expected breaches of section 11 (requirement for works to be authorised) or actual or expected failures to comply with a condition of a scheduled monument consent.

Chapter 6 – Acquisition, guardianship and public access

152. This Chapter provides powers for the Welsh Ministers and local authorities to bring monuments of special historic interest into their care.
153. Monuments may be taken into care through acquisition. The Chapter provides that the Welsh Ministers may acquire monuments of special historic interest either by compulsory acquisition or by agreement or gift (sections 43 and 44), and that local authorities may acquire monuments by agreement or gift (section 44).
154. Monuments may also be taken into care through guardianship; the Chapter sets out arrangements that allow a person with a qualifying legal interest in a monument of special historic interest to appoint either the Welsh Ministers or a local authority as guardian of the monument (sections 45 to 48). Under these voluntary arrangements, the guardian agrees to accept responsibility for the management of the monument and acquires certain rights over the property.
155. Further sections of this Chapter relate to land in the vicinity of a monument in the guardianship of the Welsh Ministers or local authorities (sections 49 and 50), management agreements relating to monuments of special historic interest (section 51) and the arrangements for public access to monuments under the control of the Welsh Ministers or local authorities (sections 55 to 57).

Section 43 – Compulsory acquisition of monuments of special historic interest

156. Section 43 allows the Welsh Ministers to acquire a monument of special historic interest by compulsory acquisition for the purpose of its preservation, whether the monument is included in the schedule of monuments under section 3 or not. “Monument of special historic interest” is defined in section 75(6) (see paragraph 242 below).
157. Subsection (2) provides that the Acquisition of Land Act 1981 (c. 67) (“the 1981 Act”) applies to a compulsory acquisition under this section. One of the effects is that compensation is payable on the acquisition. Subsections (3) and (4) further provide that when assessing compensation for the acquisition of a monument that is scheduled at the time of the acquisition, it is to be assumed that scheduled monument consent would not be granted for any work which would or might result in the demolition, destruction or removal of the monument or any part of it. The effect is that the compensation payable may be less than would otherwise be the case.

158. Nid oes yr un o'r henebion sydd o dan ofal Gweinidogion Cymru ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn wedi ei chaffael yn orfodol. Fodd bynnag, gallai Gweinidogion Cymru ystyried caffael heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig yn orfodol o dan amgylchiadau eithriadol, ond dim ond os nad oedd dulliau caffael eraill (drwy gytundeb neu rodd) neu warcheidiaeth wedi bod yn bosibl ac nad oedd unrhyw opsiynau eraill ar gael i'w diogelu. Mae *Llawlyfr Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG)* (2021), a adolygir yn gyson, yn cynnwys canllawiau ar gaffael yn orfodol.

Adran 44 – Caffael drwy gytundeb neu rodd henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig

159. Mae adran 44 yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i gaffael, drwy gytundeb neu rodd, heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Yn achos awdurdod lleol, mae'r pŵer i gaffael heneb drwy gytundeb wedi ei gyfyngu i henebion yn ei ardal neu yng nghyffiniau ei ardal (is-adran (2)). Yng Nghymru, caffaelwyd nifer o henebion gan Weinidogion Cymru drwy gytundeb neu rodd, gan gynnwys Abaty Nedd, Castell Dolforwyn a Gwaith Haearn Blaenafon. Yr un fwyaf diweddar yw Llys Rhosyr ar Ynys Môn, sef llys brenhinol canoloesol tywysogion Gwynedd, a gaffaelwyd yn 2023. Yn yr un modd, mae sawl awdurdod lleol wedi caffael henebion naill ai drwy rodd, megis Castell Caerdydd (Cyngor Dinas Caerdydd), neu gytundeb prynu, megis Castell Cil-y-coed (Cyngor Sir Fynwy).

Adran 45 – Pŵer i osod heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig o dan warcheidiaeth

160. Mae adran 45 yn galluogi person sydd â math penodol o fuddiant cyfreithiol mewn heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig i'w rhoi i warcheidiaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol (pan fo'r heneb yn ardal yr awdurdod lleol neu yn ei chyffiniau). Nodir y mathau o fuddiant cyfreithiol sy'n ofynnol yn is-adran (5). Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod henebion fel arfer yn cael eu rhoi i warcheidiaeth gan rydd-ddeiliad neu berson sy'n dal les hirdymor. Mae'r trafodiad yn cael ei wneud drwy gyflawni "gweithred warcheidiaeth".
161. Mae gwarcheidiaeth yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw ac am gadwraeth yr heneb, a rheolaeth eang ar reoli'r heneb, i'r gwarcheidwad. Gweler adran 47.
162. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, Gweinidogion Cymru yw'r gwarcheidwaid ar gyfer 108 o henebion, gan gynnwys llawer o'r henebion cynhanesyddol a chanoloesol mwyaf eithriadol yng Nghymru.

Adran 46 – Darpariaeth atodol ynghylch gweithredoedd gwarcheidiaeth

163. Mae adran 46(1) yn pennu mai pridiant tir lleol yw gweithred warcheidiaeth. Felly, bydd y teitl i'r eiddo yn hysbysu unrhyw brynwr am fodolaeth y weithred, a'r cyfyngiadau a osodir gan delerau'r weithred.
164. Mae is-adran (2) yn darparu ar gyfer sefyllfa pan fo teitl person A i heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig yn deillio o berson B sydd wedi cyflawni gweithred warcheidiaeth. Bydd person A wedi ei rwymo gan y weithred warcheidiaeth oni bai bod teitl person A i'r heneb yn deillio o warediad a wnaed gan berson B cyn i'r weithred warcheidiaeth gael ei chyflawni.

158. None of the monuments in the care of the Welsh Ministers at the time of writing these notes have been acquired by compulsory acquisition. However, the Welsh Ministers might consider compulsory acquisition of a monument of special historic interest in exceptional circumstances, but only if other methods of acquisition (through agreement or gift) or guardianship had not proved possible and no other options were available for its preservation. The Welsh Government's *Compulsory Purchase Order (CPO) Manual* (2021), which is kept under review, provides guidance on compulsory acquisition.

Section 44 – Acquisition by agreement or gift of monuments of special historic interest

159. Section 44 provides the Welsh Ministers and local authorities with the power to acquire, by agreement or gift, a monument of special historic interest. In the case of a local authority the power to acquire a monument by agreement is limited to monuments in, or in the vicinity of, its area (subsection (2)). In Wales, a number of monuments have been acquired by the Welsh Ministers through agreement or gift including Neath Abbey, Dolforwyn Castle and Blaenavon Ironworks. The most recent is the medieval royal court of the princes of Gwynedd, Llys Rhosyr on Anglesey, acquired in 2023. Several local authorities have similarly acquired monuments either through gift, such as Cardiff Castle (Cardiff City Council), or purchase agreement, such as Caldicot Castle (Monmouthshire County Council).

Section 45 – Power to place monument of special historic interest under guardianship

160. Section 45 enables a person with a particular type of legal interest in a monument of special historic interest to place it into the guardianship of the Welsh Ministers or a local authority (where the monument is in, or in the vicinity of, the local authority's area). The types of legal interest required are set out in subsection (5). In practice, this means that monuments are usually placed into guardianship by a freeholder or a person holding a long-term lease. The transaction is undertaken through the execution of a "guardianship deed".
161. Guardianship transfers responsibility for the maintenance and conservation of the monument, and wide-ranging control of the management of the monument, to the guardian. See section 47.
162. The Welsh Ministers are, at the time of writing these notes, the guardians for 108 monuments, including many of the most outstanding prehistoric and medieval monuments in Wales.

Section 46 – Supplementary provision about guardianship deeds

163. Section 46(1) establishes that a guardianship deed is a local land charge. The title to the property will therefore alert any purchaser of the existence of the deed, and the restrictions imposed by the terms of the deed.
164. Subsection (2) provides for a situation where person A derives title to a monument of special historic interest from person B who has executed a guardianship deed. Person A will be bound by the guardianship deed unless person A's title to the monument was derived from a disposal made by person B before the execution of the guardianship deed.

165. Mae is-adran (3) yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru nac awdurdod lleol ddod yn warcheidwaid heneb a feddiennir fel annedd, ac eithrio pan mai'r gofalwr neu aelod o deulu'r gofalwr yw'r meddiannydd.

Adran 47 – Swyddogaethau cyffredinol gwarcheidwaid

166. Mae adran 47 yn ei gwneud yn ofynnol i warcheidwad heneb ei chynnal a'i chadw. Caiff y gwarcheidwad wneud unrhyw beth yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol ar gyfer cynnal a chadw'r heneb (is-adran (1)). Mae hwn i bob pwrpas yn gyfrifoldeb eang i sicrhau bod yr heneb yn cael ei gwarchod, ei rheoli'n dda a'i chadw mewn cyflwr da.
167. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae'r adran yn rhoi pwerau eang i warcheidwad yr heneb i arfer swyddogaethau rheolaethu a rheoli ac i wneud popeth sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal a chadw'r heneb (is-adran (2)).
168. Mae is-adran (3) yn egluro bod y pwerau yn is-adrannau (1) a (2) yn cynnwys pŵer i wneud archwiliad o'r heneb, gan gynnwys drwy gloddio, neu i symud y cyfan neu ran o heneb ymaith i fan arall at ddibenion ei diogelu. Mewn llawer o achosion, mae angen wedi bod i ymgymryd â chloddiaid archaeolegol fel rhan o'r gofyniad i gynnal a chadw a sicrhau cadwraeth heneb sydd o dan warcheidiaeth. Mae'r pwerau hyn wedi cael eu defnyddio i adleoli rhannau o henebion sydd o dan warcheidiaeth i amgueddfeydd neu storfeydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu. Er enghraifft, mae hyn wedi cynnwys symud carreg fawr wedi ei hysgythru, sy'n rhan o'r heneb gladdu gynhanesyddol ym Mryn Celli Ddu, Ynys Môn, i amgueddfa lle mae'n cael ei diogelu rhag difrod.
169. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn glir bod y pŵer yn is-adran (2) yn cynnwys pŵer i'r gwarcheidwad godi tâl mewn cysylltiad â defnyddio heneb sydd o dan warcheidiaeth. Efallai y bydd angen hyn i ddarparu goruchwyliaeth a rheolaeth briodol yn ystod gweithgareddau neu ddigwyddiadau. Mae hyn yn aml wedi galluogi henebion sydd o dan warcheidiaeth i gael eu defnyddio fel "llwyfan" ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau megis ffilmio, theatr fyw a chyngherddau.

Adran 48 – Terfynu gwarcheidiaeth

170. Mae adran 48(1) yn darparu y caiff gwarcheidwad heneb, drwy gytundeb â'r personau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y weithred warcheidiaeth, derfynu gwarcheidiaeth y cyfan neu ran o'r heneb.
171. Mae is-adran (5) yn darparu na chaiff gwarcheidwad wneud cytundeb i derfynu gwarcheidiaeth oni bai bod y gwarcheidwad wedi ei fodloni bod trefniadau amgen ar waith ar gyfer diogelu'r heneb, neu nad yw'n ymarferol ei diogelu mwyach oherwydd y gost neu fel arall.
172. Mae Gweinidogion Cymru wedi terfynu gwarcheidiaeth o bryd i'w gilydd. Mae hyn wedi digwydd weithiau pan fo'r warcheidiaeth wedi ei disodli gan gaffaeliad drwy gytundeb neu rodd (adran 44). Roedd Abaty Nedd, er enghraifft, yn ddarostyngedig i weithred warcheidiaeth ym 1944, ond terfynwyd hon yn ddiweddarach pan gafodd ei newid yn weithred rodd ym 1949. Ar adegau eraill, mae Gweinidogion Cymru wedi gweithredu fel gwarcheidwaid dros dro ar heneb tra bod trefniadau eraill wedi eu rhoi ar waith i'w diogelu.

165. Subsection (3) provides that the Welsh Ministers or a local authority may not become guardians of a monument occupied as a dwelling, apart from where the occupier is the caretaker or a member of the caretaker's family.

Section 47 – General functions of guardians

166. Section 47 requires the guardian of a monument to maintain it. The guardian may do anything considered necessary for the maintenance of the monument (subsection (1)). This is effectively a wide-ranging responsibility to keep the monument conserved, well-managed and in good condition.
167. To comply with this duty, the section gives the guardian of the monument wide powers to exercise control and management and to do everything that is necessary for the monument's maintenance (subsection (2)).
168. Subsection (3) clarifies that the powers in subsections (1) and (2) include power to make an examination of the monument, including through excavations, or to remove all or part of a monument elsewhere for the purposes of preserving it. In many cases, there has been a need to undertake archaeological excavations as part of the requirement to maintain and conserve a monument in guardianship. These powers have been used to relocate parts of guardianship monuments into museums or stores to ensure their preservation. For example, this has included moving a large, engraved stone, which is part of the prehistoric burial monument at Bryn Celli Ddu, Anglesey, to a museum where it is protected from damage.
169. Subsection (4) makes clear that the power in subsection (2) includes power for the guardian to make a charge in connection with the use of a monument in guardianship. This may be required to provide appropriate supervision and control during activities or events. This has frequently enabled monuments in guardianship to be used as a "stage" for a variety of activities such as filming, live theatre and concerts.

Section 48 – Termination of guardianship

170. Section 48(1) provides that the guardian of a monument may, by agreement with the persons immediately affected by the guardianship deed, terminate the guardianship of all or part of the monument.
171. Subsection (5) provides that a guardian may not make an agreement to terminate a guardianship unless the guardian is satisfied that alternative arrangements are in place for the monument's preservation, or that it is no longer practicable, because of cost or otherwise, to preserve it.
172. The Welsh Ministers have, on occasion, terminated guardianship. This has sometimes occurred when the guardianship has been replaced by an acquisition through agreement or gift (section 44). Neath Abbey, for instance, was the subject of a guardianship deed in 1944, but this was subsequently terminated when it was converted into a deed of gift in 1949. On other occasions, the Welsh Ministers acted as temporary guardians of a monument while other arrangements were put in place for its preservation.

Adran 49 – Caffael a gwarcheidiaeth tir yng nghyffiniau heneb

173. Mae adran 49 yn caniatáu i dir sy'n cydffinio â heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig, neu sydd yn ei chyffiniau, gael ei gaffael neu ei gymryd i warcheidiaeth gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol o dan rai amgylchiadau. Dim ond os yw'r heneb ei hun wedi ei chymryd i warcheidiaeth, neu'n cael ei chymryd i warcheidiaeth, y caniateir cymryd tir i warcheidiaeth.
174. Mae is-adran (1) yn darparu bod cyfeiriadau at heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig – yn adrannau 43 i 46 – yn cynnwys unrhyw dir sy'n cydffinio â'r heneb neu sydd yn ei chyffiniau, os yw Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn ystyried bod angen y tir yn rhesymol at un neu ragor o'r dibenion a restrir yn is-adran (2), sy'n cynnwys cynnal a chadw'r heneb a hwyluso mynediad y cyhoedd iddi. Efallai bod llwybrau mynediad ar y tir cydffiniol neu lwybrau sy'n arwain at iardiau storio, meysydd parcio neu gyfleusterau i ymwelwyr.
175. Mae'r pwerau sy'n ymwneud â gwarcheidiaeth tir yng nghyffiniau heneb yn debyg i'r rhai ar gyfer gwarcheidiaeth yr heneb ei hun, gan gynnwys pwerau sy'n caniatáu rheolaethu a rheoli'n llawn (is-adran (5)) a phwerau mynediad (is-adran (6)).
176. Mae is-adrannau (7) ac (8) yn gwneud darpariaeth ar gyfer terfynu gwarcheidiaeth tir. Fe'i terfynir o dan yr un amgylchiadau â phan y terfynir gwarcheidiaeth heneb o dan adran 48, a hefyd pan derfynir gwarcheidiaeth yr heneb neu pan fydd yr heneb yn peidio â bodoli.

Adran 50 – Caffael hawddfrentiau a hawliau tebyg eraill dros dir yng nghyffiniau heneb

177. Mae adran 50 yn nodi pwerau i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i gaffael hawddfrentiau a hawliau eraill dros dir yng nghyffiniau heneb sydd naill ai o dan eu perchnogaeth neu o dan eu gwarcheidiaeth. Byddai hyn yn caniatáu defnyddio rhan o eiddo sy'n cydffinio at ddibenion penodol, megis i gyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnal a chadw'r heneb neu i hwyluso mynediad.

Adran 51 – Cytundebau ynghylch rheoli henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig a thir yn eu cyffiniau

178. Mae adran 51(1) i (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru neu awdurdodau lleol i wneud "cytundeb rheoli" gyda meddiannydd ar heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig neu dir sy'n cydffinio â heneb neu sydd yn ei chyffiniau. Caiff unrhyw berson arall sydd â buddiant yn yr heneb neu'r tir hefyd fod yn barti i'r cytundeb (is-adran (4)).
179. Caiff cytundebau rheoli wneud unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a restrir yn is-adran (5). Caiff cytundeb rheoli a wneir gan Cadw (ar ran Gweinidogion Cymru) roi cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu ddiogelu penodedig (a gosod amodau y mae'r cydsyniad yn ddarostyngedig iddynt). Yn gyffredinol, mae'r gwaith y rhoddir cydsyniad iddo yn fân waith cynnal a chadw ac atgyweirio er budd yr heneb, ac ni ellir ei ymestyn i waith dymchwel neu weithrediadau i fodd tir neu weithrediadau tipio. Caiff cytundebau rheoli eu creu'n aml i ganiatáu ar gyfer rheoli neu gadwraeth heneb neu i hwyluso mynediad y cyhoedd, ac fe'u defnyddir ar gyfer rhai o safleoedd Cadw sydd o dan warcheidiaeth a reolir ar y cyd a weithredir gan bartion eraill. Mae cytundebau rheoli fel arfer yn para am gyfnod penodol, sef cyfnod o rhwng 3 a 5 mlynedd fel rheol.

Section 49 – Acquisition and guardianship of land in the vicinity of a monument

173. Section 49 allows for land adjoining or in the vicinity of a monument of special historic interest to be acquired or taken into guardianship by the Welsh Ministers or local authorities in certain circumstances. Land may only be taken into guardianship if the monument itself has been, or is being, taken into guardianship.
174. Subsection (1) provides that references in sections 43 to 46 to a monument of special historic interest include any land adjoining it or in its vicinity if, in the estimation of the Welsh Ministers or a local authority, that land is reasonably required for one or more of the purposes listed in subsection (2), which include maintaining the monument and facilitating public access to it. The adjoining land might accommodate routes for access, storage yards, parking areas or visitor facilities.
175. The powers relating to the guardianship of land in the vicinity of a monument are similar to those for guardianship of the monument itself, including powers that allow full control and management (subsection (5)) and powers of entry (subsection (6)).
176. Subsections (7) and (8) make provision for termination of guardianship. It is terminated in the same circumstances as when guardianship of a monument is terminated under section 48, and also when guardianship of the monument is terminated or the monument ceases to exist.

Section 50 – Acquisition of easements and other similar rights over land in the vicinity of a monument

177. Section 50 sets out powers for the Welsh Ministers and local authorities to acquire easements and other rights over land in the vicinity of a monument that is either in their ownership or in their guardianship. This would allow the use of part of an adjoining property for certain purposes, such as to discharge duties relating to the maintenance of the monument or to facilitate access.

Section 51 – Agreements concerning management of monuments of special historic interest and land in their vicinity

178. Section 51(1) to (3) enables the Welsh Ministers or local authorities to make a “management agreement” with an occupier of a monument of special historic interest or of land adjoining or in the vicinity of a monument. Any other person with an interest in the monument or land may also be a party to the agreement (subsection (4)).
179. Management agreements may make any of the provisions listed in subsection (5). A management agreement entered into by Cadw (on behalf of the Welsh Ministers) may grant scheduled monument consent for specified works of maintenance or preservation (and attach conditions to which the consent is subject). The consented works are generally minor works of maintenance and repair for the benefit of the monument and cannot extend to demolition or flooding or tipping operations. Management agreements are frequently created to allow for the management or conservation of a monument or to facilitate public access, and are used for some of Cadw’s jointly managed guardianship sites operated by other parties. Management agreements are usually of a fixed duration, normally for a period of 3 to 5 years.

Adran 52 – Pwerau perchnogion cyfyngedig at ddibenion adrannau 45, 50 a 51

180. Mae adran 52 yn darparu y caiff person sefydlu gwarcheidiaeth henebion neu dir (adran 45), rhoi hawddfreintiau neu hawliau eraill dros dir yng nghyffiniau heneb (adran 50) neu wneud cytundeb rheoli (adran 51) er mai perchennog cyfyngedig ar yr heneb neu'r tir yw'r person.

Adran 55 – Mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus

181. Mae adran 55 yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i ddarparu mynediad i'r cyhoedd i henebion sydd o dan eu perchnogaeth neu eu gwarcheidiaeth yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r adran hon, unrhyw reoliadau neu unrhyw is-ddeddfau a wneir o dan adran 56 ac unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb a gynhwysir mewn cytundeb partneriaeth heneb gofrestrdig (adran 25), cytundeb rheoli (adran 51) neu weithred warcheidiaeth (adran 45 (is-adrannau (1) a (2))).

182. O dan yr adran hon, caiff Cadw (gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru) neu awdurdodau lleol, os ydynt yn berchnogion neu'n warcheidwaid heneb, wneud y canlynol:

- a. rheolaethu amseroedd agor (is-adran (4));
- b. cyfyngu ar fynediad y cyhoedd i'r cyfan neu ran o heneb er lles diogelwch, ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu gadwraeth neu ar gyfer cynnal gweithgareddau neu ddigwyddiadau (is-adran (5));
- c. gosod cyfyngiadau neu reolaethau eraill ar fynediad y cyhoedd (is-adran (6));
- d. codi tâl am fynediad (is-adran (7)); ac
- e. gwrthod mynediad os teimlir bod person yn fygythiad i'r heneb neu i fwynhad y cyhoedd o'r heneb (is-adran (8)).

183. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r rhan fwyaf o'r 131 o henebion sydd o dan ofal a rheolaeth Cadw yn safleoedd heb staff, nad ydynt yn codi tâl, gydag amseroedd agor a hysbyseb. Mae mynediad i rannau dan do safleoedd heb staff yn tueddu i fod yn fwy cyfyngedig am resymau diogelwch ac oherwydd y bygythiad o ddifrod a achosir gan fynediad y cyhoedd ar eu pen eu hunain. Codir tâl mynediad i lai na 30 o henebion Cadw.

184. Mae oddeutu 400 o henebion cofrestredig o dan berchnogaeth neu warcheidiaeth awdurdodau lleol. Maent yn amrywio o henebion cynhanesyddol i weddillion canoloesol i adeiladau o'r Chwyldro Diwydiannol.

Adran 56 – Pŵer i wneud rheoliadau ac is-ddeddfau mewn cysylltiad â mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus

185. Mae adran 56 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol reoleiddio mynediad i henebion sydd o dan eu perchnogaeth neu eu gwarcheidiaeth drwy wneud, yn ôl eu trefn, reoliadau (is-adran (1)) neu is-ddeddfau (is-adran (3)) sy'n gwahardd neu'n rheoleiddio unrhyw weithred neu unrhyw beth sy'n debygol o:

Section 52 – Powers of limited owners for purposes of sections 45, 50 and 51

180. Section 52 provides that a person may establish guardianship of monuments or land (section 45), grant easements or other rights over land in the vicinity of a monument (section 50) or make a management agreement (section 51) despite the person being a limited owner of the monument or land.

Section 55 – Public access to monuments under public control

181. Section 55 places a requirement on the Welsh Ministers and local authorities to provide public access to monuments in their ownership or guardianship subject to the provisions of this section, any regulations or byelaws made under section 56 and any provision to the contrary contained in a scheduled monument partnership agreement (section 25), a management agreement (section 51) or a guardianship deed (section 45) (subsections (1) and (2)).

182. Under this section, Cadw (acting for the Welsh Ministers) or local authorities, where they are the owners or guardians of a monument, may:

- a. control opening times (subsection (4));
- b. limit public access to all or part of a monument in the interests of safety, for maintenance or conservation works or for the holding of activities or events (subsection (5));
- c. impose other restrictions or controls on public access (subsection (6));
- d. charge admission (subsection (7)); and
- e. refuse admission if it is felt that a person poses a threat to the monument or to the public enjoyment of the monument (subsection (8)).

183. At the time of writing these notes, the majority of the 131 monuments under Cadw's care and control are unstaffed, non-charging sites with advertised opening times. Access to the indoor parts of unstaffed sites tends to be more restricted for safety reasons and due to the threat of damage posed by unaccompanied access. Admission is charged at fewer than 30 of Cadw's monuments.

184. Local authorities have around 400 scheduled monuments in their ownership or guardianship. They range from prehistoric monuments through medieval remains to buildings of the Industrial Revolution.

Section 56 – Power to make regulations and byelaws in connection with public access to monuments under public control

185. Section 56 provides that the Welsh Ministers and local authorities may regulate access to monuments in their ownership or guardianship by making, respectively, regulations (subsection (1)) or byelaws (subsection (3)) that prohibit or regulate any act or thing likely to:

- a. difrodi'r heneb neu ei hamwynderau, neu
 - b. tarfu ar y cyhoedd yn eu mwynhad ohoni.
186. Gellid defnyddio'r rheoliadau neu'r is-ddeddfau hyn i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis fandaliaeth neu bobl yn ymgynnull ar y safle y tu allan i oriau agor.
187. Mae is-adran (2) hefyd yn cymhwyso rheoliadau a wneir o dan is-adran (1) i henebion sy'n cael eu rheolaethu neu eu rheoli gan Weinidogion Cymru, ond nid yn rhinwedd eu perchnogaeth neu eu gwarcheidiaeth arnynt.
188. Mae methu â chydymffurfio â'r rheoliadau neu'r is-ddeddfau a wneir o dan yr adran hon yn drosedd sydd, ar euogfarn ddiannod, yn ddarostyngedig i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol (is-adrannau (4) a (5)).

Adran 57 – Darparu cyfleusterau i'r cyhoedd mewn cysylltiad â henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig

189. Mae adran 57(1) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddarparu cyfleusterau, gwybodaeth a gwasanaethau eraill i'r cyhoedd ar gyfer darparu mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan eu perchnogaeth neu eu gwarcheidiaeth neu sydd fel arall yn cael eu rheolaethu neu eu rheoli ganddynt.
190. Mae is-adran (2) yn rhoi pwerau tebyg i awdurdodau lleol ar gyfer henebion o dan eu perchnogaeth neu eu gwarcheidiaeth.
191. O dan is-adran (3), caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdodau lleol ddarparu'r cyfleusterau a'r gwybodaeth hyn i'r cyhoedd ar yr heneb ei hun neu ynddi neu ar unrhyw dir cysylltiedig. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer sefydlu ciosgau, caffis neu stondinau a allai werthu tywyslyfrau, lluniaeth neu gynhyrchion eraill, a chodi arwyddion a phaneli dehongli mewn cysylltiad â darparu mynediad y cyhoedd a gwella mwynhad a dealltwriaeth y cyhoedd o heneb. Gellid darparu gwasanaethau o'r fath ar dir cysylltiedig, megis mewn maes parcio neu adeilad cyfagos.

Pennod 7 – Cyffredinol

192. Mae'r Bennod hon yn ymdrin â materion amrywiol sy'n ymwneud â henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Mae sawl darpariaeth yn ymdrin â difrod i henebion (adrannau 58 i 60). Mae adrannau 62 i 64 yn ymdrin â gwariant ar henebion. Mae adrannau 65 i 71 yn ymdrin â phwerau mynediad ac mae adrannau 72 i 75 yn cynnwys darpariaethau atodol.

Adran 58 – Y drosedd o ddifrodi henebion penodol o ddiddordeb hanesyddol arbennig

193. Mae adran 58 yn darparu ei bod yn drosedd dinistrio neu ddifrodi heneb warchoddedig, fel y'i diffinnir yn is-adran (2), heb esgus cyfreithlon (is-adran (1)).

- a. damage the monument or its amenities, or
 - b. disturb the public in their enjoyment of it.
186. These regulations or byelaws could be used to address issues of antisocial behaviour, such as vandalism or out-of-hours gatherings on site.
187. Subsection (2) also applies regulations made under subsection (1) to monuments that are under the control or management of the Welsh Ministers, but not by virtue of their ownership or guardianship.
188. Failure to comply with the regulations or byelaws made under this section constitutes an offence that, on summary conviction, is subject to a fine not exceeding level 2 on the standard scale (subsections (4) and (5)).

Section 57 – Provision of facilities for the public in connection with monuments of special historic interest

189. Section 57(1) gives the Welsh Ministers powers to provide facilities, information and other services to the public in conjunction with providing public access to monuments in their ownership or guardianship or otherwise under their control or management.
190. Subsection (2) gives local authorities comparable powers for monuments in their ownership or guardianship.
191. Under subsection (3), the Welsh Ministers or local authorities may provide these public facilities and services in or on the monument itself or on any associated land. This allows for the establishment of kiosks, cafes or stalls that might sell guidebooks, refreshments or other products, and for the erection of signage and interpretation panels in connection with providing public access and enhancing the public enjoyment and understanding of a monument. Such services might be provided on associated land, such as in an adjacent car park or building.

Chapter 7 – General

192. This Chapter deals with miscellaneous matters relating to monuments of special historic interest. Several provisions treat damage to monuments (sections 58 to 60). Expenditure on monuments is covered under sections 62 to 64. Sections 65 to 71 treat powers of entry and supplementary provisions are included in sections 72 to 75.

Section 58 – Offence of damaging certain monuments of special historic interest

193. Section 58 provides that it is an offence to destroy or damage a protected monument, as defined in subsection (2), without a lawful excuse (subsection (1)).

194. Mae is-adran (1) yn sefydlu dau brawf i benderfynu a yw person sydd wedi dinistrio neu wedi difrodi heneb warchoddedig yn euog o drosedd. Mae'r prawf cyntaf yn gofyn a oedd y person yn gwybod, neu a ddylai'n rhesymol fod wedi gwybod bod yr heneb yn heneb warchoddedig. Mae gwybodaeth gywir a chyfredol am leoliad a rhychwant pob heneb gofrestredig yng Nghymru ar gael ar Cof Cymru.
195. Mae'r ail brawf yn gofyn a oedd y person yn bwriadu dinistrio neu ddifrodi'r heneb neu'n ddi-hid o ran a fyddai'r heneb yn cael ei dinistrio neu ei difrodi.
196. Mae'r diffiniad o "heneb warchoddedig" yn is-adran (2) yn cynnwys nid yn unig heneb gofrestredig (adran 3) ond hefyd heneb sydd o dan berchnogaeth neu warcheidiaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol. Mewn llawer o achosion, mae'r ardal sydd o dan berchnogaeth neu warcheidiaeth o'r fath yn ymestyn y tu hwnt i'r ardal sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr.
197. Mae is-adran (3) yn egluro bod yr adran hon yn gymwys i unrhyw beth a wneir gan neu o dan awdurdod y perchennog ac eithrio'r gwaith a eithrir sydd wedi ei ddiffinio yn is-adran (4). Yn achos heneb sydd o dan warcheidiaeth bydd y perchennog yn wahanol i'r gwarcheidwad.
198. Mae'r gwaith a eithrir yn is-adran (3) yn cynnwys gwaith a awdurdodir o dan Bennod 3 a gwaith y mae cydsyniad datblygu wedi ei roi iddo o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29) ("Deddf 2008"). Mae cydsyniad datblygu o dan Ddeddf 2008 yn ofynnol ar gyfer y categorïau o brosiectau a ddisgrifir yn Rhan 3 o'r Ddeddf honno. Nid yw pob categori yn cynnwys prosiectau yng Nghymru. Mae Adran 150 o Ddeddf 2008 yn galluogi gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu o dan Ddeddf 2008 i ddileu gofyniad am gydsyniadau penodol, sy'n cael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Partion a chanddynt Fuddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015, OS 2015/462), os yw'r corff cydsynio yn cytuno.

Adran 60 – Cyfyngiadau ar y defnydd o ddatgelyddion metel

199. Mae'r adran hon yn ymdrin â'r drosedd o ddefnyddio "datgelydd metel" (unrhyw ddyfais sydd wedi ei dylunio neu ei haddasu i ganfod neu leoli unrhyw fetel neu unrhyw fwyn yn y ddaear) heb gydsyniad ar fan gwarchoddedig. Diffinnir cydsyniad at ddibenion yr adran hon fel cydsyniad ysgrifenedig Gweinidogion Cymru. Diffinnir "man gwarchoddedig" yn is-adran (1) fel safle unrhyw heneb gofrestredig neu safle unrhyw heneb sydd o dan berchnogaeth neu warcheidiaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.
200. Yn ystod y degawdau diwethaf, mae'r defnydd heb ei awdurdodi o ddatgelyddion metel ar fannau gwarchoddedig, yn aml dan lenni'r nos pan gyfeirir ato'n aml fel "nighthawking", wedi dod yn fwyfwy cyffredin. Mae tystiolaeth archaeolegol a hanesyddol hynod bwysig yn cael ei cholli, wrth i wrthrychau o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol gael eu symud o'u cyd-destun archaeolegol claddedig yn sgil hynny.
201. Felly, nodir pedair trosedd ar wahân yn is-adrannau (2) i (5) y gall person sy'n defnyddio datgelydd metel eu cyflawni mewn man gwarchoddedig. Mae person a geir yn euog yn agored ar euogfarn ddiannod, neu euogfarn ar ddiad, i ddirwy, yn dibynnu ar natur y drosedd. Nodir y dirwyon hyn yn is-adrannau (8) a (9).

194. Subsection (1) establishes two tests to determine if a person who has destroyed or damaged a protected monument is guilty of an offence. The first is did the person know or ought the person reasonably to have known that the monument was a protected monument. Accurate and up-to-date information on the location and extent of all scheduled monuments in Wales is available on Cof Cymru.
195. The second test requires that the person intended to destroy or damage the monument or was reckless as to whether the monument would be destroyed or damaged.
196. Subsection (2) includes within the definition of a “protected monument” not just a scheduled monument (section 3) but also a monument under the ownership or guardianship of the Welsh Ministers or a local authority. In many cases the area under such ownership or guardianship extends beyond the area that is included in the schedule.
197. Subsection (3) clarifies that this section applies to anything done by or under the authority of the owner other than the excepted works that are defined in subsection (4). In the case of a monument under guardianship the owner will be different to the guardian.
198. The excepted works in subsection (3) include works authorised under Chapter 3 and works for which development consent has been granted under the Planning Act 2008 (c. 29) (“the 2008 Act”). Development consent under the 2008 Act is required for the categories of projects described in Part 3 of that Act. Not all categories include projects in Wales. Section 150 of the 2008 Act enables an order granting development consent under the 2008 Act to remove a requirement for certain consents, which are prescribed in secondary legislation (Infrastructure Planning (Interested Parties and Miscellaneous Prescribed Provisions) Regulations 2015, SI 2015/462), if the consenting body agrees.

Section 60 – Restrictions on use of metal detectors

199. This section deals with the offence of using a “metal detector” (any device designed or adapted for detecting or locating any metal or mineral in the ground) without consent on a protected place. Consent is defined for the purposes of this section as the written consent of the Welsh Ministers. A “protected place” is defined in subsection (1) as the site of any scheduled monument or the site of any monument under the ownership or guardianship of the Welsh Ministers or a local authority.
200. In recent decades, the unauthorised use of metal detectors on protected places, often under the cover of darkness when it is frequently referred to as “nighthawking”, has become increasingly common. The resulting removal of objects of archaeological or historical interest from their buried archaeological context leads to the loss of irreplaceable archaeological and historical evidence.
201. Four separate offences are therefore identified at subsections (2) to (5) which can be committed by a person using a metal detector in a protected place. A person found guilty on summary conviction or a conviction on indictment is liable to a fine, which depends on the nature of the offence. These fines are set out in subsections (8) and (9).

202. Mae is-adrannau (6) a (7) yn nodi'r amddiffyniadau sydd ar gael i berson os bydd unrhyw achos am drosedd o dan is-adrannau (2) neu (4). Mewn unrhyw achos am drosedd o dan is-adran (2) mae'n amddiffyniad i berson brofi bod y datgelydd metel wedi ei ddefnyddio at ddiben ac eithrio i ganfod neu leoli gwrthrychau o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol. At hynny, mewn unrhyw achos am drosedd o dan is-adran (2) neu (4) mae'n amddiffyniad i berson brofi bod pob cam rhesymol wedi ei gymryd i ganfod a oedd y man lle y defnyddiwyd y datgelydd metel yn fan gwarchodedig ac nad oedd yn gwybod, ac nad oedd ganddo unrhyw reswm dros gredu, bod y man yn fan gwarchodedig. Mae gwybodaeth am leoliad a rhychwant yr holl henebion cofrestredig ar gael ar Cof Cymru.

Adran 61 – Gwaith ar gyfer diogelu heneb gofrestrdedig mewn achosion brys

203. Mae adran 61 yn caniatáu i Weinidogion Cymru fynd i safle heneb gofrestrdedig a chyflawni unrhyw waith y mae'n ofynnol iddo gael ei awdurdodi o dan adran 11 ac y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol ar frys ar gyfer diogelu'r heneb. Fodd bynnag, rhaid iddynt fod wedi rhoi 7 niwrnod clir o rybudd ysgrifenedig o'u bwriad i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr heneb (is-adran (2)). Mae is-adran (4) yn darparu bod gwaith a gyflawnir o dan yr adran hon i'w drin fel pe bai wedi ei awdurdodi at ddibenion Pennod 3.
204. Os cyflawnir gwaith o dan yr adran hon i atgyweirio difrod i heneb gofrestrdedig, mae unrhyw orchymyn digolledu a wnaed yn flaenorol mewn cysylltiad â'r difrod o blaid rhywun ac eithrio Gweinidogion Cymru o dan Bennod 2 o Ran 7 o'r Cod Dedfrydu yn orfodadwy (i'r graddau na chydymffurfiwyd ag ef eisoes) fel pe bai wedi ei wneud o blaid Gweinidogion Cymru. Gallai sefyllfa o'r fath godi, er enghraifft, pe bai llys yn gwneud gorchymyn digolledu o blaid perchennog heneb ar ôl euogfarnu troseddwr am achosi difrod drwy yrru oddi ar y ffordd heb awdurdod. Pe bai Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y difrod yn gwneud gwaith brys yn angenrheidiol, a'u bod yn cyflawni'r gwaith hwnnw, byddai unrhyw ddigollediad sy'n ddyledus yn cael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru i dalu cost yr ymyriad brys.

Adran 62 – Gwariant ar gaffael a diogelu henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig etc.

205. Mae adran 62 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chaffael heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig (adran 75(6)) gan unrhyw berson, neu gyfrannu tuag at y costau hynny. Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol, ar gais perchennog, gynorthwyo hefyd gyda'r costau sy'n gysylltiedig â diogelu heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig, neu gyfrannu tuag at y costau hynny.
206. Mae Cadw, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yn cynnig grantiau yn rheolaidd tuag at gadwraeth a diogelu henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Bydd Cadw hefyd yn ystyried ceisiadau am gyfraniad tuag at gostau adleoli heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig i sicrhau y caiff ei diogelu yn y tymor hir.

202. Subsections (6) and (7) set out the defences available to a person in the event of any proceedings for an offence under subsections (2) or (4). In any proceedings for an offence under subsection (2) it is a defence for a person to prove that the metal detector was used for a purpose other than detecting or locating objects of archaeological or historical interest. Further, in any proceedings for an offence under subsection (2) or (4) it is a defence for a person to prove that all reasonable steps had been taken to find out whether the place in which the metal detector was used was a protected place and they did not know, and had no reason to believe that the place was a protected place. Information on the location and extent of all scheduled monuments is available on Cof Cymru.

Section 61 – Works for preservation of scheduled monument in cases of urgency

203. Section 61 permits the Welsh Ministers to enter the site of a scheduled monument and undertake any works requiring authorisation under section 11 that the Welsh Ministers consider to be urgently necessary for its preservation. They must, however, have given 7 clear days' written notice of their intention to every owner and occupier of the monument (subsection (2)). Subsection (4) provides that works carried out under this section are to be treated as authorised for the purposes of Chapter 3.
204. If works are carried out under this section to repair damage to a scheduled monument, any compensation order previously made in respect of the damage in favour of someone other than the Welsh Ministers under Chapter 2 of Part 7 of the Sentencing Code is enforceable (to the extent it has not already been complied with) as if it had been made in favour of the Welsh Ministers. Such a situation might arise, for instance, if a court were to make a compensation order in favour of a monument's owner after the conviction of an offender for causing damage by unauthorised off-road driving. If the Welsh Ministers considered that the damage made urgent works necessary and undertook those works, any outstanding compensation would be transferred to the Welsh Ministers to defray the cost of the emergency intervention.

Section 62 – Expenditure on acquisition and preservation of monuments of special historic interest etc.

205. Section 62 provides the Welsh Ministers with powers to meet or contribute towards the costs associated with the acquisition of a monument of special historic interest (section 75(6)) by any person. The Welsh Ministers or a local authority may, at an owner's request, also assist with, or contribute towards, the costs associated with preserving a monument of special historic interest.
206. Cadw, acting on behalf of the Welsh Ministers, regularly offers grants towards the conservation and preservation of monuments of special historic interest. Cadw will also consider requests for a contribution towards the costs of relocating a monument of special historic interest to secure its long-term preservation.

Adran 63 – Cyngor gan Weinidogion Cymru a goruchwyllo gwaith ganddynt

207. Mae adran 63 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyngor ynghylch trin unrhyw heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig (is-adran (1)) neu oruchwyllo unrhyw waith mewn cysylltiad â heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig os ydynt yn cael eu gwahodd i wneud hynny gan y perchennog (is-adran (2)). Fodd bynnag, rhaid iddynt oruchwyllo gwaith mewn cysylltiad â heneb gofrestredig, os ydynt yn ystyried bod hynny yn ddoeth (is-adran (3)). Mae Cadw, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yn cyflogi arolygwyr rhanbarthol henebion a wardeiniaid henebion maes sy'n ymweld yn rheolaidd i drafod a chynghori ar gadwraeth a rheoli henebion cofrestredig gyda'u perchennogion a/neu eu meddianwyr.
208. Er bod y darpariaethau yn caniatáu i Weinidogion Cymru adennill costau cyngor neu oruchwylloeth o'r fath (is-adran (4)), prin iawn y maent wedi gwneud hynny. Mae'r trafodaethau gydag arolygwyr a wardeiniaid henebion maes Cadw yn fwy tebygol o gynnwys cyngor ar y cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer unrhyw wariant gofynnol, gan gynnwys gan Weinidogion Cymru o dan adran 62.

Adran 64 – Gwariant gan awdurdodau lleol ar ymchwiliad archaeolegol

209. Mae adran 64 yn darparu pwerau i awdurdodau lleol i gynnal unrhyw ymchwiliadau archaeolegol o'r tir neu gynorthwyo mewn ymchwiliadau o'r fath, neu i dalu costau unrhyw ymchwiliadau archaeolegol neu gyfrannu tuag at y costau hynny, mewn ardal awdurdod neu yng nghyffiniau ei ardal.
210. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, dim ond nifer bach o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n cyflogi archaeolegwyr arbenigol, felly mae'r pŵer hwn fel arfer yn cael ei arfer drwy gontractwyr archaeolegol neu drwy un o ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. Rhaid ychwanegu manylion unrhyw ymchwiliadau archaeolegol a gynhelir o dan yr adran hon, a chanfyddiadau'r ymchwiliadau hynny, at gofnod yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol hwnnw (adran 194).

Adran 65 – Pwerau mynediad i arolygu henebion cofrestredig etc.

211. Mae'r adran hon yn darparu pwerau i berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru i fynd ar unrhyw dir i arolygu heneb gofrestredig at y dibenion a nodir yn yr adran.
212. Yn ymarferol, cynhelir arolygiadau o'r fath fel arfer naill ai gan staff arbenigol Cadw neu gan archaeolegwyr arbenigol sy'n gweithio i sefydliadau eraill, megis un o ymddiriedolaethau archaeolegol rhanbarthol Cymru.
213. Mae'r pwerau mynediad hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau atodol a nodir yn adran 69. Mae adran 69(1) yn darparu y caniateir arfer y pŵer mynediad ar unrhyw adeg resymol.
214. Mae eithriad i'r gofyniad i gael mynediad ar unrhyw adeg rhesymol wedi ei wneud yn adran 69(1) ar gyfer adran 65(5), sy'n darparu ar gyfer codi hysbysfyrdau a physt marcio. Fodd bynnag, mae adran 65(6) yn pennu mai dim ond gyda chytundeb pob perchennog a phob meddiannydd y caniateir arfer y pŵer yn adran 65(5).

Section 63 – Advice and supervision of work by Welsh Ministers

207. Section 63 allows the Welsh Ministers to provide advice about the treatment of any monument of special historic interest (subsection (1)) or to supervise any work in connection with a monument of special historic interest if invited to do so by the owner (subsection (2)). However, they must supervise work in connection with a scheduled monument, if they consider it advisable (subsection (3)). Cadw, acting behalf of the Welsh Ministers, employ regional inspectors of monuments and field monument wardens who undertake regular visits to discuss and advise on the management and conservation of scheduled monuments with their owners and/or occupiers.
208. Although the provisions allow the Welsh Ministers to recover the costs of such advice or supervision (subsection (4)), they have rarely done so. The discussions with Cadw inspectors and field monument wardens are more likely to include advice on the availability of financial support for any required expenditure, including from the Welsh Ministers under section 62.

Section 64 – Expenditure by local authorities on archaeological investigation

209. Section 64 provides powers to local authorities to carry out or assist in, or meet or contribute towards the costs of, any archaeological investigations in or in the vicinity of an authority's area.
210. At the time of writing these notes, only a small number of local authorities in Wales employ specialist archaeologists, so this power is normally exercised through archaeological contractors or through one of the Welsh archaeological trusts. Details of any archaeological investigations undertaken under this section, and of the findings of those investigations, must be added to the historic environment record for that local authority area (section 194).

Section 65 – Powers of entry for inspection of scheduled monuments etc.

211. This section provides powers for a person authorised in writing by the Welsh Ministers to enter any land for the inspection of a scheduled monument for the purposes set out in the section.
212. In practice, such inspections are normally undertaken either by specialist Cadw staff or by specialist archaeologists working for other organisations, such as one of the regional Welsh archaeological trusts.
213. These powers of entry are subject to supplementary provisions set out in section 69. Section 69(1) provides that the power of entry may be exercised at any reasonable time.
214. An exception to the requirement for entry at any reasonable time is made in section 69(1) for section 65(5), which provides for the erection of notice boards and marker posts. However, section 65(6) stipulates that the power in section 65(5) may only be exercised with the agreement of every owner and occupier.

215. O dan adran 69(2), os yw'r tir wedi ei feddiannu, mae'n ofynnol rhoi rhybudd o'r mynediad bwriadedig i bob meddiannydd. At ddibenion arolygu, mae'n ofynnol rhoi o leiaf 24 awr o rybudd o fynediad bwriadedig (adran 69(2)(b)). Os yw hysbysfwrdd neu bost marcio i'w godi o dan adran 65(5), mae hyn yn waith ac mae angen rhoi o leiaf 14 o ddiwrnodau o rybudd i bob meddiannydd (adran 69(2)(a)).
216. Mae adran 70 yn gwneud darpariaeth ar gyfer digollediad am ddifrod a achosir drwy arfer pwerau mynediad o dan yr adran hon.

Adran 66 – Pwerau mynediad sy'n ymwneud â gorfodi rheolaethau ar waith

217. Mae adran 66 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i awdurdodi person yn ysgrifenedig i fynd ar dir at ddibenion sy'n ymwneud â hysbysiadau stop dros dro a hysbysiadau gorfodi.
218. Mae is-adran (1) yn ymwneud â phwerau mynediad i benderfynu a ddylai hysbysiad stop dros dro gael ei ddyroddi, i arddangos neu osod copi o hysbysiad stop dros dro, neu i asesu a gydymffurfiwyd â hysbysiad.
219. Mae is-adran (2) yn ymwneud â phwerau mynediad i benderfynu a ddylai hysbysiad gorfodi gael ei ddyroddi, i osod copi o hysbysiad gorfodi neu i asesu a gydymffurfiwyd â hysbysiad gorfodi.
220. Mae'r pwerau mynediad hyn yn ddarostyngedig i'r darpariaethau atodol yn adran 69 (sy'n cynnwys y caniateir eu harfer ar unrhyw adeg resymol). Yn achos hysbysiad gorfodi a phan fo'r tir wedi ei feddiannu, mae adran 69(2)(b) yn darparu, at y dibenion a bennir yn adran 66(2), fod rhaid rhoi rhybudd o leiaf 24 awr cyn y diwrnod y bwriedir mynd ar y tir. Nid oes angen rhybudd o'r fath wrth arfer pwerau mynediad mewn perthynas â hysbysiad stop dros dro (adran 69(3)(b)). Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer cymryd camau amserol i asesu cyflwr heneb ac, os oes angen, ymyrryd er mwyn atal rhagor o ddifrod.
221. Gallai person awdurdodedig fod yn aelod o staff Llywodraeth Cymru, megis arolygydd neu warden henebion maes Cadw, neu'n arbenigwr archaeolegol neu'n arbenigwr cadwraeth sy'n gweithio o dan gontract i Lywodraeth Cymru neu sy'n gweithio i un o ymddiriedolaethau archaeolegol rhanbarthol Cymru. Ar adegau, efallai y bydd angen i'r heddlu fynd gyda'r person, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Adran 67 – Pŵer mynediad i dir y credir ei fod yn cynnwys heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig

222. Mae adran 67 yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru i awdurdodi person i fynd ar dir y maent yn gwybod neu y mae ganddynt reswm dros gredu ei fod yn cynnwys heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig (adran 75(6)). Rhaid i'r person gael ei awdurdodi'n ysgrifenedig (is-adran (5)).
223. Rhaid i ddiben mynd ar y tir fod er mwyn arolygu'r tir gyda golwg ar gofnodi unrhyw faterion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol ac er mwyn adnabod henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig gan gynnwys y rhai y gellid eu hychwanegu at y gofrestr o henebion o dan adran 3.

215. Section 69(2) requires that, if the land is occupied, notice of the intended entry must be served on every occupier. For the purposes of inspection, at least 24 hours' notice of intended entry is required (section 69(2)(b)). If a notice board or marker post is to be erected under section 65(5) this constitutes works and at least 14 days' notice to every occupier is needed (section 69(2)(a)).
216. Section 70 makes provision for compensation for damage caused by the exercise of powers of entry under this section.

Section 66 – Powers of entry relating to enforcement of controls on works

217. Section 66 gives Welsh Ministers the power to authorise a person in writing to enter land for purposes relating to temporary stop notices and enforcement notices.
218. Subsection (1) relates to powers of entry to determine whether a temporary stop notice should be issued, to display or attach a copy of a temporary stop notice, or assess whether a notice has been complied with.
219. Subsection (2) relates to powers of entry to determine if an enforcement notice should be issued, to attach a copy of an enforcement notice or to assess whether an enforcement notice has been complied with.
220. These powers of entry are subject to the supplementary provisions in section 69 (which include that they may be exercised at any reasonable time). In the case of an enforcement notice and where the land is occupied, section 69(2)(b) provides that for the purposes specified in section 66(2) notice must be given at least 24 hours before the day of the intended entry. No such notice is required when powers of entry are exercised in relation to a temporary stop notice (section 69(3)(b)). This will allow timely action to assess the condition of a monument and, if necessary, intervention to halt further damage.
221. An authorised person might be a Welsh Government staff member, such as a Cadw inspector or field monument warden, or an archaeological or conservation specialist working under contract to the Welsh Government or working for one of the regional Welsh archaeological trusts. On occasion, the person might need to be accompanied by the police, depending on circumstances.

Section 67 – Power of entry on land believed to contain monument of special historic interest

222. Section 67 provides the Welsh Ministers with the power to authorise a person to enter land that they know, or have reason to believe, contains a monument of special historic interest (section 75(6)). The person must be authorised in writing (subsection (5)).
223. The purpose of entering the land must be for the inspection of the land with a view to recording any matters of archaeological or historical interest and for the identification of monuments of special historic interest including those that might be added to the schedule of monuments under section 3.

224. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff y person awdurdodedig gynnal cloddiadau yn y tir at ddibenion ymchwiliadau archaeolegol (adran 75(2)), yn ddarostyngedig i gytundebau – er enghraifft gyda'r perchennog a'r meddiannydd – y byddai fel arfer eu hangen ar gyfer gwaith cloddio (is-adran (3)). Nid yw'n ofynnol cael cytundeb o'r fath ymlaen llaw os yw Gweinidogion Cymru yn gwybod neu fod ganddynt reswm dros gredu fod heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig sydd yn y tir, arno neu odano mewn perygl o fod ar fin cael ei difrodi neu ei dinistrio (is-adran (4)).
225. Yn ymarferol, cynhelir arolygiadau o dan yr adran hon naill ai gan staff arbenigol Cadw neu gan archaeolegwyr arbenigol sy'n gweithio i sefydliadau eraill, megis un o ymddiriedolaethau archaeolegol rhanbarthol Cymru. Yn ystod y degawdau diwethaf mae miloedd o ymweliadau wedi eu cynnal i arolygu tir y credir ei fod yn cynnwys henebion. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae'r ymweliadau wedi eu cynnal gyda chytundeb perchennog neu feddiannydd y tir (neu'r ddau) ymlaen llaw. Mewn llawer o achosion, mae'r ymweliadau wedi arwain at ddiwygiadau i'r gofrestr o henebion (adran 3) drwy ychwanegu henebion o bwysigrwydd cenedlaethol.
226. Mae'r pŵer mynediad a roddir gan yr adran hon yn ddarostyngedig i ddarpariaethau atodol a nodir yn adran 69. Maent yn datgan y caniateir i bŵer mynediad gael ei arfer ar unrhyw adeg resymol, ond bod angen rhoi o leiaf 24 awr o rybudd o'r bwriad i fynd ar y tir i bob meddiannydd ar yr heneb, gan gynnwys ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â chloddio o dan is-adran (2).

Adran 69 – Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad o dan y Rhan hon

227. Mae'r adran hon yn nodi darpariaethau atodol ynghylch arfer pwerau mynediad sy'n ymwneud â henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Mae is-adran (1) yn nodi y caniateir i bwerau o'r fath gael eu harfer ar unrhyw adeg resymol, ond nid yw hyn yn gymwys i adran 65(5).
228. Mae'r is-adrannau a ganlyn o adran 69 yn nodi nifer o amodau i'r pwerau mynediad.
229. Mae is-adran (2) yn darparu, pan fo unrhyw dir wedi ei feddiannu, fod rhaid rhoi rhybudd o'r bwriad i fynd ar y tir i bob meddiannydd cyn mynd ar y tir. Pan mai diben y mynediad yw cyflawni gwaith (ac eithrio cloddiadau o dan adran 67) rhaid rhoi rhybudd o'r fath o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn y dyddiad y bwriedir mynd ar y tir. Mewn unrhyw achos arall, gan gynnwys cloddiadau o dan adran 67, rhaid rhoi rhybudd o leiaf 24 awr cyn y dyddiad y bwriedir mynd ar y tir.
230. Mae is-adran (3) yn darparu ymhellach nad yw'r gofynion a nodir yn is-adran (2) yn gymwys o dan yr amgylchiadau a ganlyn:
- mynediad o dan adran 61 pan fo angen 7 niwrnod clir o rybudd ysgrifenedig i bob perchennog a phob meddiannydd ar heneb cyn cyflawni gwaith brys i ddiogelu heneb gofrestredig
 - mewn cysylltiad â'r pwerau mynediad ar gyfer hysbysiadau stop dros dro (adran 66(1)), pan nad yw'n ofynnol rhoi unrhyw rybudd i feddianwyr.

224. Subsection (2) provides that the authorised person may carry out excavations of the land for the purpose of archaeological investigations (section 75(2)), subject to agreements – for example, with the owner and occupier – that would normally be required for excavation works (subsection (3)). Such prior agreement is not required if the Welsh Ministers know or have reason to believe that a monument of special historic interest in, on or under the land is under threat of imminent damage or destruction (subsection (4)).
225. In practice, inspections under this section are undertaken either by specialist Cadw staff or by specialist archaeologists working for other organisations, such as one of the regional Welsh archaeological trusts. In recent decades, several thousand visits have been made to inspect land believed to contain monuments. In the vast majority of cases, the visits have been made with the prior agreement of the owner or the occupier of the land (or both). In many cases, the visits have resulted in amendments to the schedule of monuments (section 3) through the addition of monuments of national importance.
226. The power of entry conferred by this section is subject to supplementary provisions set out in section 69. They state that the power of entry may be exercised at any reasonable time, but that at least 24 hours’ notice of intended entry needs to be given to every occupier of the monument, including for works relating to excavation under subsection (2).

Section 69 – Supplementary provision about powers of entry under this Part

227. This section sets out supplementary provisions about the exercise of powers of entry relating to monuments of special historic interest. Subsection (1) sets out that such powers may be exercised at any reasonable time, but this does not apply to section 65(5).
228. The following subsections of section 69 identify a number of qualifications to the powers of entry.
229. Subsection (2) provides that, where any land is occupied, a notice of the intended entry must be given to every occupier prior to entry on to the land. Where the purpose of the entry is to carry out works (other than excavations under section 67) such a notice must be given at least 14 days before the date of the intended entry. In any other case, including excavations under section 67, a notice must be given at least 24 hours before the date of intended entry.
230. Subsection (3) further provides that the requirements set out in subsection (2) do not apply in the following circumstances:
- a. entry under section 61 where 7 clear days’ written notice to every owner and occupier of a monument is required before executing urgent works for the preservation of a scheduled monument
 - b. in relation to the powers of entry for temporary stop notices (section 66(1)), where no notice is required to occupiers.

231. Mae is-adrannau (11) ac (12) o adran 69 yn darparu bod person sy'n fwriadol yn rhwystro person sy'n arfer pŵer mynediad o dan Ran 2 yn cyflawni trosedd a'i fod yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Adran 71 – Trin a diogelu darganfyddiadau

232. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer trin a diogelu unrhyw wrthrychau o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol a gymerir i warchodaeth dros dro gan berson wrth ymgymryd â'r gweithgareddau a grybwyllir yn is-adran 1(a) i (c).
233. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i archaeolegwyr ac arbenigwyr canfyddiadau, sy'n gweithredu ar ran awdurdod priodol fel y'i diffinnir yn is-adran (4), ddiogelu a dadansoddi unrhyw wrthrychau a gaiff eu hadennill yn briodol. Mae gwrthrychau o'r fath o werth archaeolegol a hanesyddol ynddynt eu hunain ond gallant hefyd ddarparu gwybodaeth werthfawr am natur ac oed yr heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig y maent yn deillio ohoni. Gallant gynorthwyo Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i arfer eu cyfrifoldebau a'u pwerau o dan y Rhan hon.
234. Mae is-adran (5) yn egluro nad yw'r adran hon yn effeithio ar unrhyw hawl sydd gan y Goron o dan Ddeddf Trysorau 1996 (p. 24) ("Deddf 1996"). O dan Ddeddf 1996, mae rhwymedigaeth i adrodd am wrthrychau sy'n drysor (fel y'u diffinnir yn y ddeddfwriaeth honno) i'r crwner lleol o fewn 14 o ddiwrnodau a bydd y crwner wedyn yn cynnal cwst er mwyn pennu statws y gwrthrych.

Adran 72 – Dilysrwydd penderfyniadau a gorchmynion penodol o dan y Rhan hon

Adran 73 – Cais i'r Uchel Lys am adolygiad statudol o benderfyniad neu orchymyn

235. Mae adran 72 yn darparu na chaniateir cwestiynu dilysrwydd penderfyniad gan Weinidogion Cymru ar gais am gydsyniad heneb gofrestredig, penderfyniad ar adolygiad o dan adran 9, na gorchymyn o dan adran 20 sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad heneb gofrestredig mewn unrhyw achos cyfreithiol ac eithrio adolygiad statudol o dan adran 73.
236. Mae adran 73 yn darparu y caiff person sy'n cael ei dramgwyddo gan benderfyniad neu orchymyn a restrir yn adran 72 wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad statudol. Rhaid gwneud cais am adolygiad statudol cyn diwedd y 6 wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y gwneir y penderfyniad neu'r gorchymyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef.
237. Bydd y cwestiwn a yw person wedi ei dramgwyddo ai peidio yn amrywio yn dibynnu ar yr achos unigol, ond caiff personau a dramgwyddir gynnwys y perchennog neu'r meddiannydd, y ceisydd, neu unrhyw barti arall sydd wedi ymwneud â'r penderfyniad neu'r gorchymyn neu sydd â buddiant yn y penderfyniad neu'r gorchymyn. Caiff yr awdurdod sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r penderfyniad neu'r gorchymyn hefyd wneud cais am adolygiad statudol.

231. Subsections (11) and (12) of section 69 provide that a person who intentionally obstructs a person exercising a power of entry under Part 2 commits an offence and is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Section 71 – Treatment and preservation of finds

232. This section provides for the treatment and preservation of any objects of archaeological or historic interest that are taken into temporary custody by a person, while engaged in the activities mentioned in subsection (1)(a) to (c).
233. This power allows archaeologists and finds specialists, acting on behalf of an appropriate authority as defined in subsection (4), to properly conserve and analyse any objects recovered. Such objects are of archaeological and historical value in their own right but can also provide valuable information about the nature and date of the monument of special historic interest from which they derive. They can assist the Welsh Ministers and local authorities in the exercise of their responsibilities and powers under this Part.
234. Subsection (5) clarifies that this section does not affect any right of the Crown under the Treasure Act 1996 (c. 24) (“the 1996 Act”). Under the 1996 Act there is an obligation to report objects which constitute treasure (as defined in that legislation) to the local coroner within 14 days who will then hold an inquest in order to determine the object’s status.

Section 72 – Validity of certain decisions and orders under this Part

Section 73 – Application to High Court for statutory review of decision or order

235. Section 72 provides that the validity of a decision of the Welsh Ministers on an application for a scheduled monument consent, a decision on a review under section 9, or an order under section 20 modifying or revoking a scheduled monument consent may not be questioned in any legal proceedings except for a statutory review under section 73.
236. Section 73 provides that a person who is aggrieved by a decision or order listed in section 72 may make an application to the High Court for a statutory review. An application for a statutory review must be made before the end of the 6 weeks beginning with the day after the day the decision or order to which the application relates is made.
237. The question of whether or not a person is aggrieved will vary dependent on the individual case, but aggrieved persons may include the owner or occupier, the applicant or any other party who has been involved or has an interest in the decision or order. The authority directly concerned with the decision or order may also make an application for statutory review.

Adran 74 – Tir y Goron

238. Mae adran 74 yn nodi sut mae'r Rhan hon yn gymwys i dir y Goron. Caniateir i heneb ar dir y Goron gael ei chofrestru. Mae unrhyw gyfyngiadau a osodir ac unrhyw bwerau a roddir gan y Rhan hon yn gymwys i diroedd y Goron, ond nid fel y byddai'n effeithio ar unrhyw fuddiant sydd gan y Goron yn y tir. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y byddai Cadw, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, cyn rhoi cydsyniad heneb gofrestredig ar dir y Goron, yn ymgynghori ag awdurdod priodol y Goron i weld a fyddai hyn yn effeithio ar ei fuddiant yn y tir.
239. Nid yw is-adran (4) yn caniatáu i berson arfer pŵer mynediad ar dir y Goron heb gydsyniad awdurdod priodol y Goron. Nid yw ychwaith yn caniatáu caffael yn orfodol fuddiant yn nhir y Goron a ddelir ac eithrio gan neu ar ran y Goron heb gydsyniad o'r fath.
240. Diffinnir "tir y Goron" ac "awdurdod priodol y Goron" yn adran 207.

Adran 75 – Dehongli'r Rhan hon

241. Mae adran 75 yn egluro ystyr llawer o'r termau a ddefnyddir yn y Rhan hon. Yn benodol, mae'n darparu diffiniad o "heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig" yn is-adran (6).
242. Mae "heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig" yn cwmpasu unrhyw heneb gofrestredig ac unrhyw henebion eraill sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod o ddiddordeb i'r cyhoedd oherwydd eu diddordeb hanesyddol, pensaernïol, traddodiadol, artistig neu archaeolegol. Dim ond ym Mhenodau 6 a 7 o'r Rhan hon y defnyddir y diffiniad hwn. Ymhlith pethau eraill, mae'r diffiniad hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gymryd i warcheidiaeth henebion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru.
243. Mae is-adran (7) yn darparu nad yw'r diffiniad yn is-adran (6)(b) yn cynnwys heneb sydd yn, ar neu o dan wely'r môr islaw'r marc distyll. Mae hyn yn cyfyngu'r ardal y caiff Gweinidogion Cymru adnabod henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig ynddi i'r ardal sy'n cael ei chwmpasu gan siroedd a bwrdeistrefi sirol Cymru gan gynnwys y glannau cyfagos hyd at y marc distyll (fel y darperir ar ei gyfer yn adran 46 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4)). O ganlyniad, caiff Gweinidogion Cymru nodi drylliadau, trapiau pysgod ac olion eraill yn y parth rhynglanwol yn henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig, ond ni chânt wneud yr un fath os bydd olion tebyg o dan y dŵr yn barhaol y tu hwnt i'r marc distyll.

Rhan 3 – Adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig

244. Rhestrir adeiladau pan ystyrir eu bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae adeiladau rhestredig yn ffynhonnell unigryw o wybodaeth am y gorffennol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ansawdd a chymeriad tirweddau a threfluniau yng Nghymru.

Section 74 – Crown land

238. Section 74 sets out how this Part applies to Crown land. A monument on Crown land may be scheduled. Any restrictions imposed and powers conferred by this Part apply to Crown lands, but not so as to affect any interest of the Crown in the land. In practice, this means that prior to granting scheduled monument consent on Crown land, Cadw, acting on behalf of the Welsh Ministers, would consult with the appropriate Crown authority to check if its interest in the land would be affected.
239. Subsection (4) does not permit a person to exercise a power of entry on Crown land without the consent of the appropriate Crown authority. Nor does it permit the compulsory purchase of an interest in Crown land held otherwise than by or on behalf of the Crown without such consent.
240. “Crown land” and “appropriate Crown authority” are defined in section 207.

Section 75 – Interpretation of this Part

241. Section 75 clarifies the meaning of many of the terms used in this Part. In particular it provides a definition of “monument of special historic interest” in subsection (6).
242. “Monument of special historic interest” captures any scheduled monument and any other monument wholly or mainly in Wales that the Welsh Ministers consider to be of public interest by reason of its historic, architectural, traditional, artistic, or archaeological interest. This definition is only employed in Chapters 6 and 7 of this Part. Amongst other things, this definition permits the Welsh Ministers to bring monuments that are of public interest, but do not meet the criteria for scheduling, into guardianship.
243. Subsection (7) provides that the definition in subsection (6)(b) does not include a monument situated in, on or under the bed of the sea below the low water mark. This limits the area in which the Welsh Ministers may recognise monuments of special historic interest to that covered by the Welsh counties and county boroughs including the adjacent seashore to the low water mark (as provided for in section 46 of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4)). Consequently, the Welsh Ministers may recognise wrecks, fish traps and other remains in the intertidal zone as monuments of special historic interest, but cannot do the same if similar remains are permanently submerged beyond the low water mark.

Part 3 – Buildings of special architectural or historic interest

244. Buildings are listed when they are considered to be of special architectural or historic interest. Listed buildings represent a unique source of information about the past and make a valuable contribution to the quality and character of landscapes and townscapes in Wales.

245. Ym mis Ebrill 2023, roedd 30,091 o adeiladau rhestredig yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau cyfarwydd – tai, siopau, adeiladau dinesig a chrefyddol, ysguboriau ac adeiladau fferm eraill, ac adeiladau diwydiannol – ond hefyd walïau, cerrig milltir, pontydd, cofebau, blychau ffôn a sawl math arall o strwythur. Mae adeiladau rhestredig yn amrywio o ran oedran o'r cyfnod canoloesol i'r gorffennol diweddar iawn.
246. Cyhoeddir rhestr gyflawn o adeiladau rhestredig ar Cof Cymru.
247. Ategir deddfwriaeth sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig gan bolisi a chyngor cynllunio a chanllawiau arferion gorau, yn enwedig TAN 24 a *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* (2017). Mae'r gyfres hon o ddogfennau yn egluro mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am restru adeiladau, ond mai Cadw, yn ymarferol, yn gweithredu ar eu rhan sy'n rheoli'r broses. Mae Atodiad B o TAN 24 yn nodi'r meini prawf dethol anstatudol a ddefnyddir i asesu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig adeilad.
248. Mae Atodiad B o TAN 24 yn nodi hefyd strwythur graddio anstatudol i adlewyrchu pwysigrwydd cymharol adeiladau rhestredig:
- a. gradd I (un) – adeiladau o ddiddordeb eithriadol
Mae'r rhain yn cyfrif am lai na dau y cant o'r adeiladau rhestredig yng Nghymru.
 - b. gradd II* (dau â seren) – adeiladau arbennig o bwysig o fwy na diddordeb arbennig
Mae'r rhain yn cyfrif am ryw saith y cant o'r adeiladau rhestredig yng Nghymru.
 - c. gradd II (dau) – adeiladau o ddiddordeb arbennig sy'n cyfiawnhau pob ymdrech a wneir i'w diogelu.
Mae'r rhain yn cyfrif am ryw 91 y cant o'r adeiladau rhestredig yng Nghymru.
249. Mae rhestru yn rhoi arweiniad i awdurdodau cynllunio wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Mae'n sicrhau y rhoddir ystyriaeth ofalus i adeiladau o ddiddordeb arbennig cyn i benderfyniadau cynllunio gael eu gwneud. Nid yw rhestru'n gwahardd newid, ond mae'n helpu i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n ofalus yn unol ag *Egwyddorion Cadwraeth Cadw* drwy'r gyfundrefn cydsyniad adeiladau rhestredig.

Pennod 1 – Rhestru adeiladau o ddiddordeb arbennig

250. Mae'r Bennod hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal a chyhoeddi rhestr o adeiladau yng Nghymru. Rhaid iddynt gynnwys yn y rhestr bob adeilad yng Nghymru yr ystyriant sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig (adran 76). At ddibenion trosglwyddo o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, y rhestr o adeiladau a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 1 o'r Ddeddf honno fydd y rhestr a gynhelir at ddibenion adran 76 o'r Ddeddf hon.
251. Mae cynnwys adeilad ar y rhestr – "rhestru" (adran 76(6)(a)) – yn ei wneud yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn cydsyniad, y gweithdrefnau gorfodi a'r darpariaethau eraill sydd wedi eu cynnwys ym Mhenodau 2 i 6 o Ran 3 o'r Ddeddf.

245. In April 2023, there were 30,091 listed buildings in Wales. These include not only commonly recognised buildings – houses, shops, civic and religious buildings, barns and other farm buildings, and industrial buildings – but also walls, milestones, bridges, memorials, telephone boxes and many other types of structure. Listed buildings range in age from the medieval period to the very recent past.
246. A complete, up-to-date list of listed buildings is published on Cof Cymru.
247. Legislation relating to listed buildings is supported by planning policy and advice and best-practice guidance, notably TAN 24 and *Managing Change to Listed Buildings in Wales* (2017). This suite of documents explains that, while the Welsh Ministers are responsible for listing buildings, in practice, the process is managed by Cadw acting on their behalf. Annex B of TAN 24 sets out the non-statutory selection criteria that are used for assessing a building’s special architectural or historic interest.
248. Annex B of TAN 24 further sets out a non-statutory grading structure to reflect the relative importance of listed buildings:
- a. grade I (one) – buildings of exceptional interest
These make up fewer than two per cent of the listed buildings in Wales.
 - b. grade II* (two star) – particularly important buildings of more than special interest
These make up about seven per cent of the total number of listed buildings in Wales.
 - c. grade II (two) – buildings of special interest which justify every effort being made to preserve them.
These make up approximately 91 per cent of the total number of listed buildings in Wales.
249. Listing guides planning authorities in the performance of their functions. It ensures that careful consideration is given to buildings of special interest before planning decisions are taken. Listing does not prohibit change, but helps to ensure that it is carefully managed in accordance with Cadw’s *Conservation Principles* through the listed building consent regime.

Chapter 1 – Listing buildings of special interest

250. This Chapter requires the Welsh Ministers to maintain and publish a list of buildings in Wales. They must include in the list every building in Wales they consider to be of special architectural or historic interest (section 76). For the purposes of the transition from the 1990 Listed Buildings Act, the list of buildings maintained by the Welsh Ministers under section 1 of that Act will become the list maintained for the purposes of section 76 of this Act.
251. Inclusion of a building on the list – “listing” (section 76(6)(a)) – renders it subject to the consent regime, enforcement procedures and other provisions contained in Chapters 2 to 6 of Part 3 of the Act.

252. Mae'r Bennod hon yn nodi'r gofynion ar gyfer ymgynghori cyn i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr drwy ychwanegu adeilad ati neu ddileu adeilad ohoni (adrannau 77 a 78). Mae hefyd yn rhoi cyfle i berchnogion a meddianwyr ofyn am adolygiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru i restru adeilad (adrannau 81 ac 82). Mae'n pennu bod adeilad sy'n cael ei ystyried ar gyfer ei restru, yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn cael gwarchodaeth interim fel pe bai eisoes yn adeilad rhestredig (adran 79). Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â restru adeilad, caiff person sydd â buddiant yn yr adeilad sy'n dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad uniongyrchol i warchodaeth interim hawlio digollediad gan Weinidogion Cymru (adran 80).
253. Mae'r Bennod hefyd yn darparu ar gyfer rhestru dros dro gan awdurdod cynllunio (adrannau 83 i 85). Mae rhestru dros dro yn caniatáu i awdurdod warchod adeilad fel pe bai wedi ei restru os yw'n ystyried ei fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac mewn perygl o gael ei ddymchwel neu o gael ei newid mewn ffordd a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad. Os yw rhestru dros dro yn dod i ben o dan amgylchiadau arbennig, caiff person sydd â buddiant yn yr adeilad hawlio digollediad gan yr awdurdod cynllunio am golled neu ddifrod a ddioddefwyd yn uniongyrchol o ganlyniad i'r rhestru dros dro (adran 86).
254. Mae'r Bennod yn cloi gyda darpariaeth i Weinidogion Cymru ddyroddi tystysgrif nad dynt yn bwriadu rhestru adeilad yng Nghymru am gyfnod o 5 mlynedd (adran 87).

Adran 76 – Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi rhestr o adeiladau

255. Mae adran 76(1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal rhestr o adeiladau yng Nghymru ac i gyhoeddi'r rhestr gyfredol. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys yn y rhestr bob adeilad yng Nghymru sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn eu barn hwy. Yn ymarferol, wrth benderfynu a yw adeilad, yn eu barn hwy, o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i'r meini prawf anstatudol ar gyfer rhestru a gyhoeddwyd yn TAN 24.
256. Mae adran 76(2) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr drwy ychwanegu adeilad (y cyfeirir ato fel "rhestru" adeilad), dileu adeilad (y cyfeirir ato fel "dadrestru" adeilad) neu ddiwygio cofnod presennol ar gyfer adeilad.
257. Yn ymarferol, ychwanegir adeiladau at y rhestr naill ai o ganlyniad i arolwg systematig o ardaloedd penodol neu fathau penodol o adeiladau, neu yn dilyn ceisiadau "rhestru yn y fan a'r lle" sy'n ymwneud ag adeiladau penodol gan awdurdodau lleol, cymdeithasau amwynder, cyrff eraill, neu unigolion.
258. Dim ond os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg sy'n ymwneud â'i ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y bydd Gweinidogion Cymru yn dadrestru adeilad. Nid yw cyflwr adeilad yn sgil esgeulustod na'r gost o'i atgyweirio neu ei gynnal a'i gadw yn sail ar gyfer dadrestru.
259. Caniateir defnyddio'r pwerau i ddiwygio cofnod rhestru sy'n bodoli eisoes i gywiro camgymeriadau ffeithiol, gan gynnwys gwallau cyfeiriad neu leoliad, yn ogystal â gwella neu ddiwygio rhestriad yng ngoleuni tystiolaeth newydd sy'n ymwneud â diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig adeilad.

252. This Chapter sets out the requirements for consultation before the Welsh Ministers amend the list by adding or removing a building (sections 77 and 78). It also gives owners and occupiers the opportunity to request a review of the Welsh Ministers' decision to list a building (sections 81 and 82). It establishes that, during the consultation period, a building being considered for listing enjoys interim protection as if it were already a listed building (section 79). If the Welsh Ministers decide not to list a building, a person with an interest in the building who suffers loss or damage as a direct result of interim protection may claim compensation from the Welsh Ministers (section 80).
253. The Chapter also provides for temporary listing by a planning authority (sections 83 to 85). Temporary listing allows an authority to confer the protection of listing on a building that it considers to be of special architectural or historic interest that is in danger of demolition or alteration that would affect its character. If temporary listing comes to an end under certain circumstances, a person with an interest in the building may be able to claim compensation from the planning authority for loss or damage suffered directly as a result of the temporary listing (section 86).
254. The Chapter concludes with provision for the Welsh Ministers to issue a certificate that they do not intend to list a building in Wales for a period of 5 years (section 87).

Section 76 – Duty to maintain and publish list of buildings

255. Section 76(1) places a duty on the Welsh Ministers to maintain a list of buildings in Wales and to publish the up-to-date list. The Welsh Ministers must include in the list every building in Wales which they consider to be of special architectural or historic interest. In practice, in determining whether a building is, in their opinion, of special architectural or historic interest, the Welsh Ministers will have regard to the non-statutory criteria for listing published in TAN 24.
256. Section 76(2) gives the Welsh Ministers powers to amend the list by adding a building (referred to as “listing” a building), removing a building (referred to as “de-listing” a building) or amending an existing entry for a building.
257. In practice, buildings are added to the list either as a result of systematic survey of particular areas or building types, or following “spot listing” requests relating to particular buildings from local authorities, amenity societies, other bodies, or individuals.
258. The Welsh Ministers will only de-list a building if new evidence becomes available relating to its special architectural or historic interest. Neither the condition of a building through neglect nor the cost of repairing or maintaining it are grounds for de-listing.
259. The powers to amend an existing list entry may be used to correct factual mistakes, including address or location errors, as well as to enhance or revise a listing in light of new evidence relating to a building's special architectural or historic interest.

260. Mae adran 76(3)(a) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ystyried adeilad yn ei gyd-destun ehangach wrth bwysu a mesur a ddylid ei restru. Er enghraifft, os yw adeilad sy'n ymgeisydd i gael ei restru yn rhan o grŵp – teras o dai sydd wedi ei gadw'n dda, canolfan ddiwydiannol neu amaethyddol neu gymuned a gynlluniwyd o bosibl – gellir ystyried ei gyfraniad at ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol y grŵp hwnnw yn ogystal â'i rinweddau ei hun.
261. Mae adran 76(3)(b) yn darparu ar gyfer ystyried dymunioldeb diogelu nodwedd artiffisial o adeilad ar sail ei diddordeb pensaernïol neu hanesyddol wrth benderfynu a ddylid rhestru adeilad. Gallai'r nodweddion artiffisial hyn gynnwys gosodiadau mewnol, megis lleoedd tân, panelau neu risiau, neu nodweddion allanol, sef cerfluniau, clociau neu blaciau coffa o bosibl. Nid yw nodweddion artiffisial yn cwmpasu dodrefn symudol.
262. Mae'r diffiniad o "adeilad" yn adran 210 (dehongli) yn cwmpasu unrhyw adeilad neu strwythur, neu unrhyw ran o adeilad neu strwythur. Mae ystyr "adeilad" at ddibenion rhestru wedi ei ystyried mewn cyfraith achosion (megis *Dill v Secretary of State for Housing, Communities and Local Government and another* [2020] 1 WLR 2206). Nid yw'r diffiniad yn adran 210 yn cynnwys (ac eithrio yn adran 148) unrhyw gyfarpar neu beiriannau sy'n rhan o adeilad neu strwythur. Mae hyn yn atal darnau mawr a chymhleth o gyfarpar a pheiriannau, er enghraifft, peiriannau stêm, melinau rholio neu offer diwydiannol arall, rhag cael eu rhestru yn eu rhinwedd eu hunain, naill ai fel adeiladweithiau annibynnol neu'n annibynnol ar yr adeiladau sy'n eu cartrefu.
263. Fodd bynnag, gall presenoldeb cyfarpar a pheiriannau mewn adeilad gyfrannu at ei ddiddordeb arbennig a bod yn ffactor pwysig mewn penderfyniad i'w restru. Ar ôl i'r adeilad gael ei restru, bydd cyfarpar a pheiriannau sefydlog ynddo yn cael eu cynnwys yn y rhestru a byddant yn ddarostyngedig i'r rheolaethau yn y Rhan hon.
264. Mae adran 76(5)(a) yn egluro mai ystyr "adeilad rhestredig" yw adeilad sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr a'i fod yn cynnwys unrhyw strwythur neu wrthrych artiffisial sy'n sownd wrth yr adeilad ac yn atodol iddo; bydd hyn yn cwmpasu gosodiadau mewnol ac allanol. Ar y llaw arall, nid yw dodrefn symudol, hyd yn oed o bwysigrwydd hanesyddol, yn rhan o'r adeilad rhestredig. Er enghraifft, byddai is-adran (5)(a) yn gymwys i allor gwaith maen canoloesol sefydlog mewn eglwys restredig, ond nid i fwrdd allor o'r cyfnod ar ôl y Diwygiad. Mae'r gofyniad i wrthrych neu strwythur fod yn "atodol" yn seiliedig ar gyfraith achosion, gan gynnwys *Debenhams plc v Westminster City Council* [1987] AC 396; *Morris v Wrexham County Borough Council* [2002] 2 P & CR 7; ac *R (Hampshire County Council) v Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs* [2022] QB 103).
265. Yn y cyd-destun hwn, defnyddir "artiffisial" fel term idiomatig ar gyfer gwrthrychau neu nodweddion sydd wedi eu gwneud neu eu saernïo gan bobl, o'u cyferbynnu â gwrthrychau neu nodweddion naturiol. Nid yw ei ddefnydd yn y cyd-destun hwn yn berthnasol i unrhyw gwestiwn ynghylch a ganiateir defnyddio deunyddiau "artiffisial" (yn yr ystyr eu bod yn efelychiadau neu'n synthetig) wrth atgyweirio neu sicrhau cadwraeth adeiladau rhestredig.

260. Section 76(3)(a) provides that the Welsh Ministers may consider a building in its wider context when weighing up whether it should be listed. If, for instance, a candidate building is part of a group – perhaps a well-preserved terrace of houses, an industrial or agricultural complex or a planned community – its contribution to the architectural or historic interest of that group may be taken into account in addition to its own merits.
261. Section 76(3)(b) allows for the desirability of preserving an artificial feature of a building on the grounds of its architectural or historic interest to be taken into consideration when determining if a building should be listed. These artificial features might include interior fittings, such as fireplaces, panelling or staircases, or exterior features, perhaps sculptures, clocks or commemorative plaques. Artificial features do not encompass movable furnishings.
262. The definition of “building” in section 210 (interpretation) encompasses any building or structure, or any part of a building or structure. The meaning of “building” for the purposes of listing has been considered in case law (such as *Dill v Secretary of State for Housing, Communities and Local Government and another* [2020] 1 WLR 2206). The definition in section 210 does not include (except in section 148) any plant or machinery forming part of a building or structure. This prevents large and complex pieces of plant and machinery, for example, steam engines, rolling mills or other industrial equipment, from being listed in their own right, either as freestanding constructions or independently of buildings that house them.
263. However, the presence of plant and machinery in a building may contribute to its special interest and be an important factor in a decision to list it. Once the building is listed, fixed plant and machinery contained within it will be included in the listing and will be subject to the controls in this Part.
264. Section 76(5)(a) clarifies that a “listed building” means a building which is included in the list and includes any structure or artificial object that is fixed to the building and ancillary to it; this will capture internal and external fixtures. On the other hand, movable furnishings, even of historic importance, are not part of the listing. For instance, subsection (5)(a) would apply to a fixed medieval masonry altar in a listed church, but not to a post-Reformation altar table. The requirement for an object or structure to be “ancillary” is based on case law, including *Debenhams plc v Westminster City Council* [1987] AC 396; *Morris v Wrexham County Borough Council* [2002] 2 P & CR 7; *R (Hampshire County Council) v Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs* [2022] QB 103.
265. In this context, “artificial” is used as an idiomatic term for objects or features that have been made or crafted by humans, in contrast to natural objects or features. Its use in this context is of no relevance to any question of whether “artificial” materials (in the sense of being imitation or synthetic) may be used in the conservation or repair of listed buildings.

266. Mae is-adran (5)(b) yn darparu bod rhestru adeilad yn ymestyn i gynnwys strwythurau atodol ar wahân neu wrthrychau artiffisial os bodlonir amodau penodol.
267. Yr amod cyntaf yw bod rhaid i'r strwythur neu'r gwrthrych fod wedi ffurfio rhan o'r tir ers cyn 1 Gorffennaf 1948, y dyddiad y daeth Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 (p. 51) i rym, y ddeddfwriaeth gyntaf a oedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhestru adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol yn statudol.
268. Yr ail amod yw bod rhaid i'r strwythur neu'r gwrthrych fod o fewn cwrtil yr adeilad, ac yn atodol iddo, ar y dyddiad y rhestrwyd yr adeilad am y tro cyntaf neu 1 Ionawr 1969, pa un bynnag oedd y diweddaraf. Daeth darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968 (p. 72) a ymestynnodd y rhestru i gynnwys strwythurau a gwrthrychau o fewn cwrtil adeilad i rym ar 1 Ionawr 1969. Mae'r dyddiad wedi ei gynnwys i roi mwy o eglurder i'r diffiniad o adeilad rhestredig yn unol ag argymhelliad 13.10 yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* (Comisiwn y Gyfraith Rhif 383, 2018).
269. Nid yw'r adran yn diffinio "cwrtil". Mae cyfraith achosion (*Attorney General (ex rel Sutcliffe) v Calderdale BC* (1982) 46 P & CR 399, CA fel y'i derbyniwyd gan *Debenhams plc v Westminster CC*, 1987) yn darparu mai'r tir sydd â chysylltiad agos ag adeilad yw hwn a bydd ei gwmpas yn cael ei bennu fesul achos. Gall y ffactorau sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw strwythurau neu wrthrychau artiffisial eraill wedi eu cwmpasu o fewn cwrtil adeilad gynnwys:
- cynllun "ffisegol" yr adeilad, y strwythurau cysylltiedig a'r tir;
 - eu perchnogaeth, yn y gorffennol ac yn y presennol; ac
 - eu defnydd a'u swyddogaeth, yn y gorffennol ac yn y presennol.
270. Mae enghreifftiau o strwythurau a gwrthrychau o fewn y cwrtil y gellir ymestyn y rhestru i'w cynnwys o dan is-adran (5)(b) yn cynnwys adeiladau allanol, waliau terfyn, a nodweddion ac addurniadau gardd.

Adran 77 – Hysbysiad o restru neu ddadrestru adeilad

271. Pan fydd Gweinidogion Cymru yn rhestru neu'n dadrestru adeilad, mae adran 77(1) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflwyno hysbysiad i bob perchennog a meddiannydd a phob awdurdod lleol perthnasol y lleolir yr adeilad yn ei ardal.
272. Mae is-adran (6) yn diffinio "awdurdod lleol perthnasol" at ddibenion yr adran hon fel a ganlyn:
- cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol,
 - awdurdod Parc Cenedlaethol, neu
 - bwrdd cydgynllunio.

266. Subsection (5)(b) provides that the listing of a building extends to include separate ancillary structures or artificial objects if certain conditions are met.
267. The first condition is that the structure or object has to have formed part of the land since before 1 July 1948, the date on which the Town and Country Planning Act 1947 (c. 51), the first legislation that made provision for statutory listing of buildings of architectural or historic interest, came into force.
268. The second condition is that the structure or object must have been within the curtilage of the building, and ancillary to it, on the date that the building was first listed or 1 January 1969, whichever was later. The provisions of the Town and Country Planning Act 1968 (c. 72) that introduced the extension of listing to structures and objects within a building's curtilage came into force on 1 January 1969. The date has been included to give greater clarity to the definition of a listed building in line with recommendation 13.10 of the Law Commission's report, *Planning Law in Wales* (Law Com No 383, 2018).
269. The section does not define "curtilage". Case law (*Attorney General (ex rel Sutcliffe) v Calderdale BC* (1982) 46 P & CR 399, CA as accepted by *Debenhams plc v Westminster City Council*, 1987) provides that it is the land closely associated with a building and its extent will be determined on a case-by-case basis. Factors to be considered in determining whether other structures or artificial objects are encompassed within a building's curtilage may include:
- a. the physical "layout" of the building, associated structures and the land;
 - b. their ownership, past and present; and
 - c. their use and function, past and present.
270. Examples of curtilage structures and objects to which listing may be extended under subsection (5)(b) include outbuildings, boundary walls, and garden features and ornaments.

Section 77 – Notification of listing or de-listing of building

271. When the Welsh Ministers list or de-list a building, section 77(1) requires them to serve notice on every owner and occupier and every relevant local authority in whose area the building is located.
272. Subsection (6) defines a "relevant local authority" for the purposes of this section as:
- a. a county council or county borough council,
 - b. a National Park authority, or
 - c. a joint planning board.

273. Caniateir ffurfio bwrdd cydgynllunio o dan adran 2(1B) ac (1C) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8) ("Deddf Cynllunio 1990") fel yr awdurdod cynllunio ar gyfer dwy neu fwy o ardaloedd, y mae pob un ohonynt yn sir neu fwrdeistref sirol gyfan neu ran o sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, nid oes yr un yng Nghymru.
274. Pan restrir eiddo, rhaid i'r hysbysiad a gyflwynir gan Weinidogion Cymru bennu dyddiad ei ychwanegu at y rhestr a rhaid iddo gynnwys copi o'r cofnod ar y rhestr (is-adran (2)).
275. O is-adran (3), mae copi o gofnod yn y rhestr a gyflwynir o dan yr adran hon yn bridiant tir lleol. Bydd pridian tir lleol yn hysbysu prynwr o'r cyfyngiadau a osodir ar ddefnyddio'r tir gan y ffaith bod yr adeilad yn un rhestredig.
276. Mae is-adrannau (4) a (5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol perthnasol sicrhau bod copïau o'r cofnodion yn y rhestr a gyflwynir iddynt o dan yr adran hon a chopïau o unrhyw gofnodion yn y rhestr sy'n parhau i fod yn gyfredol ar ôl cael eu cyflwyno o dan Ddeddfau cynharach ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt (is-adran (4)(b)). Yn ymarferol, mae awdurdodau fel arfer yn darparu mynediad rheolaidd at yr holl gofnodion cyfredol yn y rhestr drwy Cof Cymru, er enghraifft, drwy fynediad am ddim ar y rhyngwrwyd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus a lleoliadau tebyg.

Adran 78 – Ymgynghori cyn restru neu ddadrestru adeilad

Adran 79 – Gwarchodaeth interim wrth aros am benderfyniad o ran pa un ai i restru adeilad

Atodlen 7 – Diwedd gwarchodaeth interim neu restru dros dro ar gyfer adeiladau

277. Mae adran 78 yn rhoi strwythur ffurfiol ar waith ar gyfer ymgynghori ar gynigion Gweinidogion Cymru i restru neu ddadrestru adeilad. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer gwahodd y personau a nodir yn is-adran (2) i wneud sylwadau ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ar y diwygiad arfaethedig i'r rhestr.
278. Wrth gyflwyno hysbysiad o gynnig i ddiwygio'r rhestr drwy ychwanegu adeilad, caiff gwarchodaeth interim ei sbarduno o dan adran 79. Os felly, mae is-adran 78(3)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad esbonio effaith gwarchodaeth interim a phennu'r dyddiad y mae gwarchodaeth interim yn cymryd effaith.
279. Bydd unrhyw adeilad sy'n cael ei ystyried ar gyfer ei restru gan Weinidogion Cymru, oni bai ei fod eisoes yn heneb gofrestredig (adran 79(7)), yn cael gwarchodaeth interim o dan adran 79 o ddechrau'r diwrnod a bennir yn yr hysbysiad a gyflwynir o dan adran 78(1).

273. A joint planning board may be constituted under section 2(1B) and (1C) of the Town and Country Planning Act 1990 (c.8) (“the 1990 Planning Act”) as the planning authority for two or more areas, each of which is the whole or part of a Welsh county or county borough. At the time of writing, there is none in Wales.
274. When a property is listed, the notice served by the Welsh Ministers must specify the date of its addition to the list and must include a copy of the list entry (subsection (2)).
275. Under subsection (3), a copy of a list entry served under this section is a local land charge. A local land charge will alert a purchaser to the restrictions imposed on the use of the land by the listing of the building.
276. Subsections (4) and (5) require relevant local authorities to keep available for public inspection copies of the list entries they are served with under this section and any list entries that remain up to date served under earlier Acts (subsection (4)(b)). In practice, authorities normally provide routine access to all up-to-date list entries via Cof Cymru, for example, by means of free internet access in public libraries and similar venues.

Section 78 – Consultation before listing or de-listing building

Section 79 – Interim protection pending decision whether to list building

Schedule 7 – End of interim protection or temporary listing for buildings

277. Section 78 puts in place a formal structure for consultation on the Welsh Ministers’ proposals to list or de-list a building. It makes provision for inviting the persons identified in subsection (2) to make written representations on the proposed amendment to the list to the Welsh Ministers.
278. The service of a notice of a proposal to amend the list by adding a building will trigger interim protection under section 79. In that case, section 78(3)(b) requires the notice to explain the effect of interim protection and specify the date upon which interim protection takes effect.
279. Any building being considered for listing by the Welsh Ministers, unless already a scheduled monument (section 79(7)), will enjoy interim protection under section 79 from the beginning of the day specified in the notice served under section 78(1).

280. Mae adran 79(2) yn darparu bod y Ddeddf hon (ac eithrio adrannau penodedig) a Deddf Cynllunio 1990 yn gymwys i unrhyw adeilad o dan warchodaeth interim fel pe bai'n adeilad rhestredig. Felly, bydd yn drosedd ymgymryd â gwaith sy'n newid ei gymeriad heb gydsyniad adeilad rhestredig a bydd yr ystod lawn o bwerau gorfodi ym Mhennod 4 ar gael i awdurdod cynllunio neu i Weinidogion Cymru os gwneir gwaith heb ei awdurdodi. Fodd bynnag, nid yw adran 118 yn gymwys i adeilad o dan warchodaeth interim. Bydd gwarchodaeth interim yn gwarchod adeilad yn ystod y cyfnod ymgynghori, er enghraifft, rhag perchennog a allai fel arall fod â chymhelliant i ddifrodi neu ddinistrio'r ased hanesyddol yn fwriadol mewn ymdrech i danseilio'r warchodaeth y byddai rhestru wedi ei darparu fel arall drwy wneud rhestru'r adeilad yn ofer.
281. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o adeiladau sy'n destun gwarchodaeth interim. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r rhestr yn ymddangos ar y dudalen "Hysbysiadau statudol ymgynghori adeilad rhestredig" yn yr adran "Adeiladau rhestredig" ar wefan Cadw. Mae adeiladau o dan warchodaeth interim hefyd i'w gweld fel categori ar wahân o asedau ar Cof Cymru.
282. Daw gwarchodaeth interim i ben pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid rhestru adeilad ai peidio ac yn cyflwyno hysbysiad i bob perchennog a meddiannydd a'r awdurdodau lleol perthnasol o dan adran 77(1) neu adran 79(5)(b).
283. Mae Atodlen 7 yn darparu ar gyfer effaith diwedd gwarchodaeth interim o dan adran 79(5)(b). Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch yr effaith pan ddaw rhestru dros dro i ben heb i'r adeilad gael ei restru o dan adran 85(4).
284. Mae paragraff 2 o Atodlen 7 yn nodi y bydd person yn parhau i fod yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi, hyd yn oed ar ôl diwedd y warchodaeth interim neu'r rhestru dros dro, am drosedd o dan y Ddeddf a gyflawnwyd tra bod yr adeilad wedi ei warchod.
285. Pan fydd gwarchodaeth interim neu restru dros dro yn cael ei derfynu, mae paragraffau 3 i 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:
- a. bydd cydsyniadau adeilad rhestredig, hysbysiadau stop dros dro, a hysbysiadau gorfodi yn peidio â chael effaith; a
 - b. bydd unrhyw achos sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r uchod neu gais am waharddeb yn gysylltiedig â'r adeilad yn darfod.
286. Fodd bynnag, mae paragraff 5(3) yn caniatáu i adran 132(1) i (6) barhau i fod yn gymwys i ganiatáu adennill y costau y mae awdurdod cynllunio yn mynd iddynt yn rhesymol wrth gymryd camau a bennir mewn hysbysiad gorfodi ar adeilad sy'n destun gwarchodaeth interim neu restru dros dro ar y pryd.

280. Section 79(2) provides that this Act (except certain specified sections) and the 1990 Planning Act apply to any building under interim protection as if it were a listed building. It will, therefore, be an offence to undertake works that alter its character without listed building consent and the full range of enforcement powers in Chapter 4 will be available to a planning authority or the Welsh Ministers in the event of unauthorised works. Section 118, however, does not apply to a building under interim protection. Interim protection will afford protection to a building during the consultation period, for example, from an owner who could otherwise have an incentive to deliberately damage or destroy the historic asset in an effort to undermine the protection that listing would otherwise have provided by making its listing pointless.
281. Subsection (4) requires the Welsh Ministers to publish a list of buildings subject to interim protection. At the time of writing these notes, the list appears on the “Statutory listed building consultation notices” page in the “Listed buildings” section of the Cadw website. Buildings under interim protection also appear as a distinct category of assets on Cof Cymru.
282. Interim protection ends when the Welsh Ministers decide whether or not to list a building and serve notice on every owner and occupier and the relevant local authorities under section 77(1) or section 79(5)(b).
283. Schedule 7 provides for the effect of the end of interim protection under section 79(5)(b). It also makes provision about the effect of temporary listing coming to an end without the building being listed under section 85(4).
284. Paragraph 2 of Schedule 7 establishes that, even after the end of interim protection or temporary listing, a person will remain liable to be prosecuted and punished for an offence under the Act committed while the building was protected.
285. On the termination of interim protection or temporary listing, paragraphs 3 to 6 make provision for:
- a. the cessation of the effect of listed building consents, temporary stop notices, and enforcement notices; and
 - b. the lapse of any proceedings associated with any of the above or an application for an injunction related to the building.
286. However, paragraph 5(3) allows for the continued application of section 132(1) to (6) to permit the recovery of costs reasonably incurred by a planning authority when taking steps specified in an enforcement notice on a building then under interim protection or temporary listing.

Adran 80 – Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim

287. O dan yr adran hon, os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â rhestru adeilad ac yn cyflwyno hysbysiad o dan adran 79(5)(b) sy'n dod â gwarchodaeth interim i ben, mae hawlogaeth gan unrhyw berson a oedd â buddiant yn yr adeilad pan gymerodd y warchodaeth interim effaith, wrth wneud hawliad am ddigollediad i Weinidogion Cymru, i gael digollediad ganddynt am golled neu ddifrod y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r warchodaeth interim.
288. Mae is-adran (5) yn pennu y caiff yr hawliadau am ddigollediad a wneir i Weinidogion Cymru gynnwys colledion neu ddifrod y gellir eu priodoli neu ei briodoli i'r rhestru dros dro neu a ddioddefwyd o ganlyniad i'r rhestru dros dro, yn yr achosion hynny pan mae gwarchodaeth interim yn dilyn rhestru dros dro.
289. Mae adrannau 202 a 203 yn gwneud darpariaethau ychwanegol ynghylch hawliadau am ddigollediad o dan y Ddeddf hon (gweler paragraff 45 uchod).

Adran 81 – Adolygu penderfyniad i restru adeilad

Adran 82 – Darpariaeth atodol ynghylch adolygiadau

Atodlen 2 – Penderfyniad ar adolygiad gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru

290. Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhestru adeilad, mae adran 81 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi cyfle i unrhyw berchennog neu feddiannydd ar yr adeilad i ofyn am adolygiad o'u penderfyniad rhestru.
291. Mae is-adran (2) yn darparu mai'r sail ar gyfer adolygu yw nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu seiliau eraill yn y dyfodol.
292. O dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru benodi person i gynnal yr adolygiad a gwneud penderfyniad arno. Fel rheol, un o arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru fydd hwn. Fodd bynnag, mae is-adran (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu disgrifiadau o achosion y byddant yn eu hadolygu ac yn penderfynu arnynt eu hunain, yn hytrach na phenodi person i wneud hynny.
293. Mae adran 82 yn gwneud darpariaeth weinyddol a gweithdrefnol ar gyfer yr adolygiadau y darperir ar eu cyfer yn adran 81. Fe'i hategir gan Atodlen 2, sy'n nodi swyddogaethau personau a benodir gan Weinidogion Cymru i gynnal adolygiadau. Mae Atodlen 2 hefyd yn gymwys i adolygiadau o benderfyniadau i ychwanegu henebion at y gofrestr.

Adran 83 – Cyflwyno hysbysiad rhestru dros dro

Adran 84 – Rhestru dros dro mewn achosion brys

294. Mae adran 83 yn caniatáu i awdurdod cynllunio roi statws rhestredig dros dro i adeilad anrhestredig y mae'n ystyried ei fod:
- a. o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a
 - b. mewn perygl o gael ei ddymchwel neu ei newid mewn ffordd a fyddai'n effeithio ar y diddordeb hwnnw.

Section 80 – Compensation for loss or damage caused by interim protection

287. Under this section, if the Welsh Ministers decide not to list a building and serve notice under section 79(5)(b) ending interim protection, any person with an interest in the building when interim protection took effect is entitled, on making a claim for compensation to the Welsh Ministers, to be paid compensation by them for losses or damage directly attributable to the interim protection.
288. Subsection (5) establishes that, in those cases where interim protection follows on from temporary listing, the compensation claims made to the Welsh Ministers may include losses or damage attributable to or suffered as a result of the temporary listing.
289. Sections 202 and 203 make additional provisions about claims for compensation under this Act (see paragraph 45 above).

Section 81 – Review of decision to list building

Section 82 – Supplementary provision about reviews

Schedule 2 – Decision on review by person appointed by the Welsh Ministers

290. Where the Welsh Ministers list a building, section 81 requires them to give any owner or occupier of the building an opportunity to request a review of their listing decision.
291. Subsection (2) provides that the ground for review is that the building is not of special architectural or historic interest. Subsection (6) provides that the Welsh Ministers may make regulations to specify other grounds in the future.
292. Under subsection (3), the Welsh Ministers must appoint a person to carry out the review and make a decision on it. Ordinarily, this will be an inspector of Planning and Environment Decisions Wales. However, subsection (4) provides that the Welsh Ministers may make regulations to specify descriptions of cases that they will review and decide themselves, instead of appointing a person to do so.
293. Section 82 makes administrative and procedural provision for the reviews provided for in section 81. It is supplemented by Schedule 2, which sets out the functions of persons appointed by the Welsh Ministers to carry out reviews. Schedule 2 also applies to reviews of decisions to add monuments to the schedule.

Section 83 – Service of temporary listing notice

Section 84 – Temporary listing in urgent cases

294. Section 83 allows a planning authority to confer temporary listed status on an unlisted building that it considers to be:
- a. of special architectural or historic interest, and
 - b. in danger of demolition or alteration that would affect that interest.

295. Mae'r adran hon ac adran 84 yn rhoi pwerau i awdurdodau cynllunio gymryd camau prydlon, ar sail eu gwybodaeth leol, i warchod asedau hanesyddol sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae'n caniatáu i waith ar yr adeilad gael ei reoleiddio tra bo Gweinidogion Cymru yn ystyried a ddylid ei restru.
296. Mae adran 83(2) yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiad rhestru dros dro gan awdurdod cynllunio. Arferai'r hysbysiad gael ei alw'n "hysbysiad diogelu adeilad" ("building preservation notice") yn adran 3A o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.
297. Mae is-adrannau (2) a (3) yn nodi derbynwyr gofynnol a chynnwys gofynnol hysbysiad rhestru dros dro. Mae is-adran (3)(a)(ii) yn pennu bod rhaid i gais i Weinidogion Cymru ystyried yr adeilad i'w restru gyd-fynd â hysbysiad rhestru dros dro ar gyfer adeilad.
298. Ar ôl i'r hysbysiad angenrheidiol gael ei gyflwyno i bob perchennog a meddiannydd ar adeilad, ei effaith yw bod yr un cyfyngiadau a gofynion yn gymwys i adeilad sydd wedi ei restru dros dro ag sy'n gymwys i adeilad o dan warchodaeth interim (is-adran (4)) – gweler paragraff 280 uchod.
299. Mae is-adran (6) yn eithrio henebion cofrestredig ac adeiladau crefyddol esempt (fel y'u diffinnir yn adran 156(1)) o gwmpas rhestru dros dro.
300. Mae adran 84 yn darparu y caiff awdurdod cynllunio, pan fo o'r farn ei bod yn fater brys i ddiogelu adeilad drwy ei restru dros dro, roi hysbysiad rhestru dros dro drwy osod yr hysbysiad yn sownd wrth yr adeilad, neu'n agos ato, yn hytrach na'i gyflwyno i bob perchennog a meddiannydd.

Adran 85 – Diwedd rhestru dros dro

Atodlen 7 – Diwedd gwarchodaeth interim neu restru dros dro ar gyfer adeiladau

301. Mae adran 85(1)–(3) yn nodi tair ffordd y gall rhestru dros dro ddod i ben. Gall:
- dod i ben ar ddiwedd chwe mis i'r diwrnod y cymerodd effaith oni bai ei fod wedi dod i ben yn gynharach;
 - cael ei ddisodli gan warchodaeth interim os yw Gweinidogion Cymru yn cyflwyno hysbysiad o dan adran 78(1) o gynnig i restru'r adeilad; neu
 - dod i ben ar y diwrnod a nodir ar yr hysbysiad, os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio nad ydynt yn bwriadu ymgynghori ar gynnig i restru'r adeilad.
302. Mae Atodlen 7, a gyflwynir gan is-adran (4), yn gwneud darpariaeth ynghylch yr effaith pe byddai gwarchodaeth interim neu restru dros dro yn dod i ben heb i'r adeilad gael ei restru; fe'i trafodwyd eisoes ym mharagraffau 283–6 uchod.

295. This section and section 84 provide planning authorities with powers to take prompt action, informed by their local knowledge, to protect historic assets that they consider to be of special architectural or historic interest. It allows works to the building to be regulated while it is under consideration for listing by the Welsh Ministers.
296. Section 83(2) provides for the service of a temporary listing notice by a planning authority. The notice was previously termed a “building preservation notice” in section 3A of the 1990 Listed Buildings Act.
297. Subsections (2) and (3) detail the required recipients and contents of a temporary listing notice. Subsection (3)(a)(ii) establishes that the temporary listing of a building must be accompanied by a request to the Welsh Ministers to consider the building for listing.
298. Once the requisite notice has been served on every owner and occupier of a building, its effect is that the same restrictions and requirements apply to a building under temporary listing as to a building under interim protection (subsection (4)) – see paragraph 280 above.
299. Subsection (6) excludes scheduled monuments and exempt religious buildings (as defined in section 156(1)) from the scope of temporary listing.
300. Section 84 provides that where a planning authority considers it urgent to protect a building through temporary listing, it may give notice of the temporary listing by attaching the notice to, or near to, the building instead of serving it on each owner and occupier.

Section 85 – End of temporary listing

Schedule 7 – End of interim protection or temporary listing for buildings

301. Section 85(1)–(3) identifies three ways in which temporary listing may come to an end. It may:
- a. expire at the end of six months from the day it took effect unless ended earlier;
 - b. be superseded and replaced by interim protection if the Welsh Ministers serve notice under section 78(1) of a proposal to list the building; or
 - c. if the Welsh Ministers give notice to the planning authority that they do not intend to consult on a proposal to list the building, end on the day specified in the notice.
302. Schedule 7, which is introduced by subsection (4), makes provision about the effect of interim protection or temporary listing coming to an end without the building being listed; it has already been discussed in paragraphs 283–6 above.

Adran 86 – Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan restru dros dro

303. Os daw rhestru dros dro i ben ar ôl chwe mis neu oherwydd bod Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio ag ymgynghori ar gynnig i restru'r adeilad, mae hawlogaeth gan unrhyw berson a oedd â buddiant yn yr adeilad pan gymerodd y rhestru dros dro effaith, wrth wneud hawliad i'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad yn ei ardal, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am unrhyw golled neu unrhyw ddifrod y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r rhestru dros dro (adran 86(1)-(3)).
304. Fodd bynnag, os yw gwarchodaeth interim yn dilyn y rhestru dros dro a bod Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â rhestru'r adeilad yn y pen draw, byddai digollediad ar gael o dan adran 80 yn lle hynny.
305. Mae adrannau 202 a 203 yn gwneud darpariaethau ychwanegol ynghylch hawliadau am ddiogollediad o dan y Ddeddf hon (gweler paragraff 45 uchod).

Adran 87 – Tystysgrif nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu restru adeilad

306. O dan adran 87, caiff Gweinidogion Cymru, ar gais unrhyw berson, ddyroddi tystysgrif sy'n datgan nad ydynt yn bwriadu restru adeilad penodol. Yr effaith yw na chaiff Gweinidogion Cymru restru'r adeilad ac na chaiff yr awdurdod cynllunio perthnasol restru'r adeilad dros dro am 5 mlynedd. Mae cais o'r fath yn gyfystyr â pherson yn gofyn i Weinidogion Cymru ystyried yr adeilad ar gyfer ei restru ac os bernir nad yw'r adeilad yn bodloni'r meini prawf rhestru, caniateir dyroddi tystysgrif. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i berson sy'n dymuno datblygu neu ymgymryd â gwaith ar adeilad, neu ddatblygu'r tir y mae wedi ei leoli arno, na fydd yr adeilad yn cael ei restru am y 5 mlynedd nesaf.

Pennod 2 – Rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig

307. Mae Pennod 2 yn darparu, gyda rhai eithriadau penodol a nodir, bod rhaid i waith ar gyfer newid neu estyn adeilad rhestredig "a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig" neu ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig gael ei awdurdodi drwy roi cydsyniad adeilad rhestredig. Caniateir i'r cydsyniad gael ei roi gan awdurdod cynllunio y mae'r adeilad wedi ei leoli yn ei ardal neu gan Weinidogion Cymru (adrannau 88 a 89).
308. Mae'r Bennod yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefn ymgeisio ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a weinyddir fel mater o drefn gan awdurdodau cynllunio a rhoi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau (adrannau 90 i 99). Mae'r Bennod hefyd yn rhoi mecanweithiau ar waith ar gyfer apelau i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniadau awdurdodau cynllunio (neu, mewn rhai achosion, eu methiant i wneud penderfyniadau) ar faterion gan gynnwys ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, ceisiadau i amrywio neu ddileu amodau a osodir ar gydsyniad, a cheisiadau i gymeradwyo manylion gwaith (adrannau 100 i 104).

Section 86 – Compensation for loss or damage caused by temporary listing

303. If a temporary listing comes to an end after six months or because the Welsh Ministers decide not to consult on a proposal to list the building, any person who had an interest in the building when the temporary listing took effect is entitled, on making a claim for compensation to the planning authority in whose area the building is situated, to be paid compensation by it for losses or damage directly attributable to the temporary listing (section 86(1)-(3)).
304. If, however, interim protection follows on from temporary listing and the Welsh Ministers eventually decide not to list the building, compensation would be available under section 80 instead.
305. Sections 202 and 203 make additional provisions about claims for compensation under this Act (see paragraph 45 above).

Section 87 – Certificate that Welsh Ministers do not intend to list building

306. Under section 87, the Welsh Ministers may, on the application of any person, issue a certificate stating that they do not intend to list a particular building. The effect is that for 5 years the Welsh Ministers may not list the building and the relevant planning authority may not list the building temporarily. Such an application equates to a person asking the Welsh Ministers to consider the building for listing and if the building is judged not to meet the listing criteria a certificate may be issued. This provides certainty for a person wishing to develop or undertake works to a building, or to develop the land on which it is situated, that the building will not be listed for the next 5 years.

Chapter 2 – Control of works affecting listed buildings

307. Chapter 2 provides that, with certain specified exceptions, works for the alteration or extension of a listed building “that would affect its character as a building of special architectural or historic interest” or for the demolition of a listed building must be authorised by the grant of listed building consent. Consent may be granted by the planning authority in whose area the building is situated or by the Welsh Ministers (sections 88 and 89).
308. The Chapter makes provision for an application procedure for listed building consent routinely administered by planning authorities and the grant of consent subject to conditions (sections 90 to 99). The Chapter also puts in place mechanisms for appeals to the Welsh Ministers against planning authorities’ decisions (or, in some cases, their failure to make decisions) on matters including applications for listed building consent, applications for the variation or removal of conditions imposed on consent, and applications for the approval of details of works (sections 100 to 104).

309. Mae'r Bennod hefyd yn darparu y caiff awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru addasu neu ddirymu cydsyniad adeilad rhestredig drwy orchymyn, ac mae hefyd yn darparu ar gyfer mynediad at ddigollediad i berson sydd â buddiant mewn adeilad rhestredig ac sy'n dioddef colled neu ddifrod y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i addasu neu ddirymu cydsyniad (adrannau 107, 108 ac Atodlen 8). Os yw perchennog adeilad rhestredig yn honni na ellir gwneud defnydd rhesymol fuddiol o adeilad rhestredig a'i dir cysylltiedig o ganlyniad i wrthod cydsyniad adeilad rhestredig, rhoi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau neu addasu neu ddirymu cydsyniad drwy orchymyn, caniateir cyflwyno hysbysiad prynu i'r awdurdod cynllunio. Effaith yr hysbysiad, os bodlonir amodau penodol, yw ei bod yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio brynu'r tir oddi wrth y perchennog (adrannau 109 i 112 ac Atodlen 9).
310. Yn olaf, mae'r Bennod yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a wneir gan awdurdodau cynllunio a cheisiadau a wneir gan neu ar ran y Goron (adran 105). Mewn achosion pan ystyrir bod gwaith ar adeilad rhestredig ar dir y Goron yn fater o bwys cenedlaethol a bod ei gyflawni yn fater brys, caiff awdurdod priodol y Goron wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i awdurdod cynllunio (adran 106).
311. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau arferion gorau, anstatudol, sy'n cael eu hadolygu'n gyson, i gefnogi'r gwaith o reoli adeiladau rhestredig. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r canllawiau, *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* (2017), yn nodi'r egwyddorion cyffredinol i'w dilyn wrth reoli a gwneud newidiadau i adeiladau rhestredig. Maent yn esbonio sut i wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau perchnogion, awdurdodau cynllunio a Cadw.

Adran 88 – Gofyniad i waith gael ei awdurdodi

312. Mae adran 88 yn darparu na chaiff person gyflawni gwaith penodol, na pheri i waith penodol gael ei gyflawni, oni bai ei fod wedi ei awdurdodi yn sgil rhoi cydsyniad adeilad rhestredig o dan adran 89.
313. O dan is-adran (2), dyma'r gwaith y mae'n ofynnol ei awdurdodi:
- a. gwaith ar gyfer addasu neu estyn adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig
 - b. gwaith ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig.
314. Felly, nid oes angen awdurdodiad drwy gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd priodol ac atgyweirio tebyg am debyg nad yw'n effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig.
315. Mae is-adran (3) yn eithrio pedwar categori o waith o'r gofyniad am awdurdodiad:
- a. gwaith mewn perthynas ag adeilad rhestredig sydd hefyd yn heneb gofrestredig

309. The Chapter also provides that a planning authority or the Welsh Ministers may modify or revoke a listed building consent by order, and also provides for access to compensation for a person with an interest in a listed building who suffers loss or damage directly attributable to the modification or revocation of consent (sections 107, 108 and Schedule 8). If the owner of a listed building claims that reasonably beneficial use cannot be made of a listed building and its associated land as a consequence of the refusal of listed building consent, the grant of consent subject to conditions or the modification or revocation of consent by order, a purchase notice may be served on the planning authority. The effect of the notice is that, if particular conditions are met, the planning authority is required to purchase the land from the owner (sections 109 to 112 and Schedule 9).
310. Finally, the Chapter gives the Welsh Ministers powers to make regulations about applications for listed building consent made by planning authorities and applications made by or on behalf of the Crown (section 105). In cases where works to a listed building on Crown land are considered to be a matter of national importance and their execution a matter of urgency, an appropriate Crown authority may make a listed building consent application to the Welsh Ministers rather than to a planning authority (section 106).
311. The Welsh Ministers have published non-statutory, best-practice guidance, which is kept under review, to support the management of listed buildings. The guidance at the time of writing these notes, *Managing Change to Listed Buildings in Wales* (2017), sets out the general principles to follow when managing and making changes to listed buildings. It explains how to apply for listed building consent, including the roles and responsibilities of owners, planning authorities and Cadw.

Section 88 – Requirement for works to be authorised

312. Section 88 provides that a person must not carry out certain works, or cause certain works to be carried out, unless they have been authorised by the grant of listed building consent under section 89.
313. Under subsection (2), the works requiring authorisation are:
- a. works for the alteration or extension of a listed building in any way that would affect its character as a building of special architectural or historic interest
 - b. works for the demolition of a listed building.
314. Therefore, works for appropriate routine maintenance and like-for-like repair that do not affect the character of a listed building do not require authorisation by listed building consent.
315. Subsection (3) excludes four categories of works from the requirement for authorisation:
- a. works in relation to a listed building that is also a scheduled monument

Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae dros 500 o adeiladau rhestredig yng Nghymru sydd hefyd yn henebion cofrestredig. Mewn achosion o'r fath, mae'r dynodiad fel heneb gofrestredig yn cael blaenoriaeth ac, yn ymarferol, bydd angen cydsyniad heneb gofrestredig o dan adran 13 ar gyfer bron unrhyw waith. Nid yw Cadw yn arfer cofrestru a rhestru'r un ased mwyach.

- b. gwaith mewn perthynas ag adeilad crefyddol esempt fel y'i diffinnir yn adran 156
- c. gwaith ar gyfer dymchwel adeilad cyfan neu ran ohono sydd ar gau ar gyfer addoli cyhoeddus rheolaidd yn unol â Rhan 6 o Fesur Cenhadaeth a Bugeiliol 2011 (Rhif 3)
Dim ond i Eglwys Loegr y mae Mesur 2011 yn gymwys felly ni fydd y ddarpariaeth hon yn y Ddeddf ond yn effeithio ar y nifer bach o adeiladau crefyddol yng Nghymru ger y ffin â Lloegr sy'n parhau o dan awdurdodaeth y corff hwnnw.
- d. gwaith brys angenrheidiol a gyflawnir gan neu ar ran y Goron er budd diogelwch neu iechyd neu er mwyn diogelu'r adeilad o dan yr amgylchiadau a nodir o dan adran 117(4)(a)-(d).

Adran 89 – Awdurdodiad gwaith drwy gydsyniad adeilad rhestredig

- 316. Mae adran 89(1) yn darparu bod gwaith ar gyfer newid, estyn neu ddymchwel adeilad rhestredig yn cael ei awdurdodi os rhoddir cydsyniad ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio y mae'r adeilad yn ei ardal neu Weinidogion Cymru a bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â thelerau'r cydsyniad gan gynnwys unrhyw amodau sydd ynghlwm wrtho. Mae adrannau 97 a 98 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch amodau sydd ynghlwm wrth gydsyniadau adeilad rhestredig.
- 317. Disgwylir y ceir cydsyniad adeilad rhestredig cyn i unrhyw waith ddechrau. Fodd bynnag, o dan is-adran (2) caiff awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru roi cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith anawdurdodedig sydd eisoes wedi ei gyflawni. Yn ymarferol, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol a dim ond pan fu'r gwaith a gyflawnwyd er budd yr adeilad y caiff cydsyniad o'r fath ei roi. Bydd angen i'r ceisydd gyfiawnhau'r gwaith yn llawn mewn cais am gydsyniad adeilad rhestredig. Mewn achosion o'r fath, mae'r gwaith wedi ei awdurdodi o adeg rhoi'r cydsyniad. Mae unrhyw atebolrwydd am drosedd sy'n deillio o'r gwaith anawdurdodedig o dan adran 117 yn parhau a gallai fod yn sail i achos dilynol.

Adran 90 – Gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig

Adran 91 – Hysbysiad o gais i berchnogion adeilad

- 318. Mae adran 90 yn darparu ar gyfer y weithdrefn i wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig. Gwneir ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig i'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad rhestredig wedi ei leoli yn ei ardal fel rheol. Fodd bynnag, gwneir ceisiadau penodol, a bennir yn adran 90(1), i Weinidogion Cymru.

At the time of writing these notes, there are over 500 listed buildings in Wales that are also scheduled monuments. In such cases, the designation as a scheduled monument takes precedence and, in practice, scheduled monument consent under section 13 will be required for almost any works. It is no longer normal Cadw practice to schedule and list the same asset.

- b. works in relation to an exempt religious building as defined in section 156
- c. works for the demolition of all or part of a building closed for regular public worship in accordance with Part 6 of the Mission and Pastoral Measure 2011 (No. 3)
The 2011 Measure only applies to the Church of England so this provision of the Act will only affect the small number of religious buildings in Wales near the border with England that remain under the jurisdiction of that body.
- d. urgently necessary works carried out by or on behalf of the Crown in the interests of safety or health or for the preservation of the building under the circumstances set out under section 117(4)(a)-(d).

Section 89 – Authorisation of works by listed building consent

316. Section 89(1) provides that works for the alteration, extension or demolition of a listed building are authorised if written consent is given by the planning authority in whose area the building is situated or the Welsh Ministers and the works are carried out in accordance with the terms of the consent including any conditions attached to it. Sections 97 and 98 make further provision about conditions attached to listed building consents.
317. The expectation is that listed building consent will be obtained before any works begin. However, under subsection (2) a planning authority or the Welsh Ministers may grant listed building consent for unauthorised works already carried out. In practice, it is only in exceptional circumstances and when the works undertaken have been for the benefit of the listed building that such consent will be granted. The applicant will need to fully justify the works in an application for listed building consent. In such cases, the works are only authorised from the grant of the consent. Any liability for an offence arising from the unauthorised works under section 117 remains and could be the basis for subsequent proceedings.

Section 90 – Applying for listed building consent

Section 91 – Notice of application to owners of building

318. Section 90 provides for the application procedure for listed building consent. Applications for listed building consent are ordinarily made to the planning authority in whose area the listed building is situated. However, certain applications, specified in section 90(1), are made to the Welsh Ministers.

319. Mae is-adran (2) yn nodi'r hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn cais am gydsyniad adeilad rhestredig ac mae is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch ffurf a chynnwys cais a sut y mae rhaid ei wneud. Yn ymarferol, cyflwynir y rhan fwyaf o geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith yng Nghymru ar y ffurflen 1APP safonol a ddarperir ar blatfform ar-lein canolog Llywodraeth Cymru – Ceisiadau Cynllunio Cymru. Fodd bynnag, caiff ceisydd hefyd gyflwyno ffurflen gais, gyda dogfennau ategol, drwy'r post.
320. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i geisydd gynnwys gyda'r cais ddatganiad – o'r enw "datganiad o'r effaith ar dreftadaeth" – sy'n ymwneud ag effaith y gwaith arfaethedig ar gymeriad yr adeilad rhestredig ac, yn dibynnu ar natur y cais, y naill neu'r llall neu'r ddwy o'r egwyddorion dylunio a gymhwysir i'r gwaith a sut yr ymdrinnir â materion mynediad. Datganiad o'r effaith ar dreftadaeth yw canlyniad asesiad o'r effaith ar dreftadaeth. Ceir esboniad mwy cyflawn o'r broses hon yng nghanllawiau arferion gorau, anstatudol Cadw, *Aseidiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru (2017)*, sy'n cael eu hadolygu'n gyson.
321. Mae adran 91 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i geisydd am gydsyniad adeilad rhestredig roi hysbysiad o'r cais i bob un o berchnogion yr adeilad. Bydd hyn yn sicrhau bod y perchnogion yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ynghylch unrhyw waith arfaethedig ar yr adeilad rhestredig.

Adran 92 – Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chais

322. Mae adran 92 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymdrin â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig.
323. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i gais am gydsyniad adeilad rhestredig a wneir i awdurdod cynllunio gael ei drin gan yr awdurdod hwnnw ac eithrio o dan yr amgylchiadau canlynol:
- os yw'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio beidio ag ystyried y cais o dan adran 90(6) neu 91(3)
Mae'r adrannau hyn yn atal yr awdurdod cynllunio rhag ystyried cais oni bai bod y ceisydd wedi darparu'r holl wybodaeth ragnodedig a'r holl ddeunydd ategol. Mae awdurdodau cynllunio yn gweithredu gweithdrefn ddilysu i benderfynu a yw ceisiadau cynllunio yn gyflawn ac yn barod i'w prosesu. Os bydd dilysu'n datgelu diffygion mewn cais, gall yr awdurdod cynllunio ofyn am wybodaeth ychwanegol gan geisydd.
 - os yw'r awdurdod cynllunio yn gwrthod ystyried cais yn unol ag adran 93 (pŵer i wrthod ystyried ceisiadau tebyg)
 - os yw'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio atgyfeirio'r cais at Weinidogion Cymru o dan adran 94 (a drafodir isod).
324. Mae gweddill darpariaethau'r adran yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau a phwerau gwneud cyfarwyddydau i Weinidogion Cymru i sefydlu gwahanol elfennau o'r weithdrefn cydsyniad adeilad rhestredig.

319. Subsection (2) sets out what must be included in an application for listed building consent and subsection (3) allows the Welsh Ministers to make regulations about an application's form and content and how it must be made. In practice, most listed building consent applications for works in Wales are submitted on the standard 1APP form provided on the Welsh Government's central online platform – Planning Applications Wales. However, an applicant can also submit an application form, with supporting documentation, by post.
320. Subsection (4) provides that the Welsh Ministers must make regulations to require an applicant to include with the application a statement – known as a “heritage impact statement” – about the impact of the proposed works on the character of the listed building and, depending upon the nature of the application, either or both of the design principles applied to the works and the handling of access issues. A heritage impact statement is the outcome of a heritage impact assessment. This process is more fully explained in Cadw's non-statutory, best-practice guidance, *Heritage Impact Assessment in Wales* (2017), which is kept under review.
321. Section 91 provides that the Welsh Ministers may make regulations to require an applicant for listed building consent to give notice of the application to any owners of the building. This will ensure that owners have an opportunity to make representations regarding any works proposed to the listed building.

Section 92 – Procedure for dealing with application

322. Section 92 makes provision for dealing with listed building consent applications.
323. Subsection (1) provides that a listed building consent application made to a planning authority must be dealt with by that authority except in the following circumstances:
- a. if the planning authority is required not to consider the application under section 90(6) or 91(3)
These sections prevent the planning authority from considering an application unless the applicant has provided all the prescribed information and supporting material. Planning authorities operate a validation procedure to determine if planning applications are complete and ready for processing. If validation reveals deficiencies in an application, the planning authority may request additional information from an applicant.
 - b. if the planning authority refuses to consider an application in accordance with section 93 (power to refuse to consider similar applications)
 - c. if the planning authority is required to refer the application to the Welsh Ministers under section 94 (discussed below).
324. The section's remaining provisions give the Welsh Ministers regulation-making powers and direction-making powers to put in place various elements of the listed building consent procedure.

325. Mae is-adran (2) yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys pwerau i osod gofynion ar gyfer ymgynghori neu hysbysu mewn perthynas â cheisiadau. Yn ymarferol, mae'r pwerau hyn wedi cael eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio hysbysu cymdeithasau amwynder cenedlaethol penodol – Adeiladau a Lleoedd Hanesyddol (y Gymdeithas Henebion gynt), y Cyngor Archaeoleg Brydeinig, y Grŵp Sioraidd, y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol, y Gymdeithas Fictoraidd a Chymdeithas yr Ugeinfed Ganrif – a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (“y Comisiwn Brenhinol”) os yw cais yn cynnwys gwaith i ddymchwel adeilad rhestredig neu newidiadau a fyddai'n golygu dymchwel unrhyw ran o adeilad rhestredig. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r grwpiau hyn, gyda'u gwybodaeth arbenigol am adeiladau rhestredig a'r amgylchedd hanesyddol, i gynnig sylwadau gwybodus i'r awdurdod cynllunio ar gynigion a fyddai'n golygu dinistrio'r cyfan o adeilad a restrir am ei ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol neu ran o'r adeilad hwnnw.

Adran 94 – Atgyfeirio cais at Weinidogion Cymru

326. Mae adran 94(1) a (2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod cynllunio i atgyfeirio cais am gydsyniad adeilad rhestredig atynt i'w benderfynu. Caiff cyfarwyddyd ymwneud â chais neu â cheisiadau penodol mewn perthynas â adeiladau a bennir yn y cyfarwyddyd.
327. Caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer cyfarwyddo hwn i “alw i mewn” gais am gydsyniad adeilad rhestredig i benderfynu arno eu hunain. Yn ymarferol, anaml y bydd Gweinidogion Cymru yn galw cais am gydsyniad adeilad rhestredig i mewn ond gallant wneud hynny os yw'n codi materion sy'n bwysig y tu hwnt i'r ardal leol ac yn eithriadol o arwyddocaol neu ddadleuol. Ar yr adegau prin y defnyddir y pŵer hwn, gwneir hynny fel arfer ar y cyd ag adran 95 pan fo'r awdurdod cynllunio wedi nodi ei fod o blaid rhoi cydsyniad a phan fo'r hysbysiad yn awgrymu nad yw'r awdurdod wedi rhoi sylw priodol i bolisi cenedlaethol ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol.
328. Mae ceisiadau a atgyfeirir at Weinidogion Cymru o dan yr adran hon i'w trin yn unol â'r gweithdrefnau a nodir ym Mhennod 2 o Ran 5 o'r Ddeddf. Mae adran 174 yn nodi bod rhaid cynnal achos sy'n ymwneud â cheisiadau o'r fath mewn un neu ragor o'r ffyrdd a ganlyn:
- a. mewn ymchwiliad lleol,
 - b. mewn gwrandawriad, neu
 - c. ar sail sylwadau ysgrifenedig.

325. Subsection (2) provides the Welsh Ministers with regulation-making powers which include powers to impose requirements for consultation or notification in relation to applications. In practice, these powers have been used to require planning authorities to notify certain national amenity societies – Historic Buildings and Places (formerly the Ancient Monuments Society), the Council for British Archaeology, the Georgian Group, the Society for the Protection of Ancient Buildings, the Victorian Society and The Twentieth-Century Society – and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales (“the Royal Commission”) if an application involves works for the demolition of a listed building or alterations that would entail the demolition of any part of a listed building. This affords these groups, with their specialist knowledge of listed buildings and the historic environment, the opportunity to offer the planning authority informed comment on proposals that would entail the destruction of all, or part, of a building listed for its architectural or historic interest.

Section 94 – Reference of application to Welsh Ministers

326. Section 94(1) and (2) gives the Welsh Ministers power to direct a planning authority to refer an application for listed building consent to them for determination. A direction may relate to a particular application or applications in relation to buildings specified in the direction.
327. The Welsh Ministers may use this power of direction to “call in” a listed building consent application for their own determination. In practice, the Welsh Ministers rarely call in a listed building consent application but may do so if it raises issues of more than local importance and is of exceptional significance or controversial. On the rare occasions when this power is used, it is usually in conjunction with section 95 where the planning authority has indicated that it is minded to grant consent and the notification suggests that the authority has not had proper regard to national policy for the protection of the historic environment.
328. Applications referred to the Welsh Ministers under this section are to be dealt with in accordance with the procedures set out in Chapter 2 of Part 5 of the Act. Section 174 sets out that proceedings on such applications may be conducted in one or more of the following ways:
- a. at a local inquiry,
 - b. at a hearing, or
 - c. by means of written representations.

Adran 95 – Hysbysu Gweinidogion Cymru cyn rhoi cydsyniad

329. Mae adran 95(1) i (3) yn darparu na chaiff awdurdod cynllunio roi cydsyniad adeilad rhestredig heb hysbysu Gweinidogion Cymru am y cais yn gyntaf a rhoi manylion y gwaith y ceisir cydsyniad ar ei gyfer. Mae gan Weinidogion Cymru 28 o ddiwrnodau i benderfynu a ddylid cyfarwyddo'r awdurdod i atgyfeirio'r cais atynt o dan adran 94 neu i ofyn am fwy o amser i ystyried gwneud cyfarwyddyd o'r fath. Os nad yw Gweinidogion Cymru, ar ddiwedd 28 diwrnod, wedi gwneud unrhyw ymateb nac wedi hysbysu'r awdurdod nad ydynt yn bwriadu gwneud cyfarwyddyd i alw'r cais i mewn, caiff yr awdurdod cynllunio roi'r cydsyniad. Nid oes angen i awdurdod cynllunio hysbysu Gweinidogion Cymru os ydynt yn gwrthod cydsyniad adeilad rhestredig.
330. O dan is-adran (4), caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddisgrifio ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig y caiff awdurdodau cynllunio yn gyffredinol benderfynu arnynt heb hysbysu Gweinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, caiff pob awdurdod cynllunio roi cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar du mewn yn unig adeiladau rhestredig Gradd II (heb seren) heb hysbysu Gweinidogion Cymru.
331. Mae is-adrannau (5) a (6) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddiadau i awdurdodau cynllunio penodol. O dan is-adran (5), caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod cynllunio nad yw'r gofyniad i'w hysbysu yn gymwys i gais am gydsyniad adeilad rhestredig, neu, i'r gwrthwyneb, fod y gofyniad yn gymwys er gwaethaf unrhyw reoliadau neu gyfarwyddyd sy'n bodoli eisoes i'r gwrthwyneb.
332. Mae is-adran (6) yn nodi y caiff cyfarwyddyd ymwneud ag achos penodol neu ag achosion o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd.
333. Mae is-adran (7) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru osod gofynion penodol ar reoliadau o dan is-adran (4) neu gyfarwyddiadau o dan is-adran (6)(b). Er enghraifft, cânt bennu sut a chan bwy y mae rhaid ymdrin â chais am gydsyniad adeilad rhestredig.
334. Y sefyllfa ym mis Ebrill 2023 yw bod Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddydau i naw awdurdod cynllunio yng Nghymru sy'n caniatáu i'r awdurdodau hepgor y weithdrefn o hysbysu Gweinidogion Cymru o gais am gydsyniad adeilad rhestredig sy'n cynnwys gwaith sy'n effeithio ar y tu allan i adeiladau rhestredig gradd II (heb seren). Mae hyn yn ddarostyngedig i rai cafeatau, yn cynnwys bod yr awdurdod yn dilyn cyngor arbenigwr cadwraeth arbenigol a enwir. Mae gan ddau o'r awdurdodau cynllunio hyn ymreolaeth o'r fath ar gyfer adeiladau gradd II* hefyd ond, ym mhob achos, nid yw'r trefniadau'n cynnwys ceisiadau i ddymchwel.

Adran 96 – Rhoi neu wrthod cydsyniad

335. Mae adran 96(1) yn darparu y caiff awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru roi neu wrthod cydsyniad adeilad rhestredig.

Section 95 – Notification to Welsh Ministers before granting consent

329. Section 95(1) to (3) provides that a planning authority may not grant listed building consent without first notifying the Welsh Ministers of the application and providing details of the works for which consent is sought. The Welsh Ministers have 28 days to decide whether to direct the authority to refer the application to them under section 94 or to request more time to consider making such a direction. If, at the end of 28 days, the Welsh Ministers have made no response or have notified the authority that they do not intend to make a direction to call in the application, the planning authority may grant the consent. A planning authority does not need to notify the Welsh Ministers if they refuse listed building consent.
330. Under subsection (4), the Welsh Ministers may make regulations to describe listed building consent applications which planning authorities generally may determine without notifying the Welsh Ministers. At present, all planning authorities may grant listed building consent for works affecting the interior only of Grade II (unstarred) listed buildings without notification to the Welsh Ministers.
331. Subsections (5) and (6) permit the Welsh Ministers to issue directions to specific planning authorities. Under subsection (5), the Welsh Ministers may direct a planning authority that the requirement to notify them does not apply to a listed building consent application, or, conversely, that the requirement applies in spite of any existing regulations or direction to the contrary.
332. Subsection (6) sets out that a direction may relate to a particular case or cases of a description specified in the direction.
333. Subsection (7) provides that the Welsh Ministers may attach specific requirements to regulations under subsection (4) or directions under subsection (6)(b). For instance, they may specify how and by whom a listed building consent application must be handled.
334. As of April 2023, the Welsh Ministers have issued directions to nine planning authorities in Wales permitting the authorities to dispense with the procedure of notifying the Welsh Ministers of an application for listed building consent involving works affecting the exterior of grade II (unstarred) listed buildings. This is subject to certain caveats, including the authority following the advice of a named, specialist conservation expert. Two of these planning authorities also have such autonomy for grade II* buildings but in all cases the arrangements exclude applications for demolition.

Section 96 – Grant or refusal of consent

335. Section 96(1) provides that a planning authority or the Welsh Ministers may grant or refuse listed building consent.

336. Wrth benderfynu ar gais, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu yr adeilad rhestredig, unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig a safle'r adeilad. Nid yw diogelu adeilad neu ased hanesyddol arall yn golygu bod rhaid ei gynnal fel nad yw'n newid, ond yn hytrach bod ei arwyddocâd yn cael ei gynnal ar gyfer y dyfodol. Mae cymhwyso a dehongli "diogelu" – yn yr ystyr "cadw'n ddiogel rhag niwed" – wedi bod yn destun cyfraith achosion (*South Lakeland District Council v Secretary of State for the Environment and another* [1992] 1 ALL ER 573).
337. Wrth benderfynu ar gais, mae'r cyngor a'r canllawiau cynllunio ategol (er enghraifft TAN 24 a *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* (2017)) yn egluro mai'r nod ddylai fod i ddod o hyd i'r ffordd orau o warchod a gwella nodweddion arbennig adeilad rhestredig a sicrhau y gellir parhau i'w ddefnyddio.
338. Mae'r cyngor a'r canllawiau cynllunio (er enghraifft TAN 24, paragraff 1.25) yn egluro bod safle adeilad rhestredig "yn cynnwys yr ardal o'i amgylch lle mae'n cael ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi, sy'n ymgorffori cydberthnasau blaenorol a phresennol â'r dirwedd gyfagos". Mae Cadw wedi cyhoeddi canllawiau arferion gorau, anstatudol, *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* (2017), sy'n cael eu hadolygu'n gyson.
339. Mae is-adran (3) yn darparu y bydd cydsyniad adeilad rhestredig, yn ddarostyngedig i'w delerau, yn cael effaith er budd yr adeilad a'r tir y mae wedi ei leoli arno, a phob person sydd â buddiant yn yr adeilad a'r tir am y tro. Mae hyn yn golygu na fydd effaith y cydsyniad adeilad rhestredig yn cael ei newid ac y gall unrhyw waith a gydsyniwyd barhau'n ddi-dor os bydd perchnogaeth neu feddiannaeth adeilad rhestredig yn newid yn ystod y gwaith a gydsyniwyd.

Adran 97 – Pŵer i roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau

340. Mae adran 97 yn caniatáu rhoi cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig i amodau.
341. Mae is-adran (2) yn rhoi enghreifftiau o amodau, ond nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol. Mae *Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014, Defnyddio amodau cynllunio i reoli datblygu*, ym mharagraff 5.75, yn argymhell y dylid drafftio amodau ar gydsyniad adeilad rhestredig ar sail yr egwyddorion a'r profion y mae'r cylchlythyr yn eu nodi ar gyfer drafftio amodau cynllunio. Mae'n cynnig cyfres o amodau enghreifftiol (amodau 71-80 yn yr atodiad i'r cylchlythyr) ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig. Unwaith eto, nid yw hon yn hollgynhwysol.
342. O dan is-adran (5), rhaid i gydsyniad i ddymchwel adeilad rhestredig gynnwys amod sy'n caniatáu i'r Comisiwn Brenhinol gofnodi'r adeilad. O dan delerau ei Warant Frenhinol, mae gan y Comisiwn Brenhinol gyfrifoldeb i arolygu a chofnodi "pob adeilad, safle a heneb o ddiddordeb archeolegol, pensaernïol a hanesyddol" yng Nghymru a'r môr tiriogaethol cyfagos. Rhaid i'r Comisiwn Brenhinol hefyd gywain a churadu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru "fel cofnod cenedlaethol sylfaenol o'r amgylchedd archeolegol a hanesyddol"; Coflein yw'r gronfa ddata ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

336. In reaching a decision on an application, subsection (2) requires that a planning authority or the Welsh Ministers must have special regard to the desirability of preserving the listed building, any features of special architectural or historic interest and the building's setting. Preserving a building or other historic asset does not mean that it has to be maintained unchanged, but that its significance is sustained for the future. The application and interpretation of "preserve" – with the meaning "to keep safe from harm" – has been the subject of case law (*South Lakeland District Council v Secretary of State for the Environment and another* [1992] 1 ALL ER 573).
337. In determining an application, the supporting planning advice and guidance (for example TAN 24 and *Managing Change to Listed Buildings in Wales* (2017)) explains that the aim should be to find the best way to protect and enhance the special qualities of a listed building and retain it in use.
338. The planning advice and guidance (for example TAN 24, paragraph 1.25) clarifies that the setting of a listed building "includes the surroundings in which it is understood, experienced, and appreciated embracing present and past relationships to the surrounding landscape". Cadw has published non-statutory, best-practice guidance, *Setting of Historic Assets in Wales* (2017), which is kept under review.
339. Subsection (3) provides that, subject to its terms, a listed building consent will have effect for the benefit of the building and the land on which it is situated, and of all persons for the time being interested in the building and land. This means that, should the ownership or occupancy of a listed building change during the course of consented works, the effect of the listed building consent will be unaltered and any consented works may continue uninterrupted.

Section 97 – Power to grant consent subject to conditions

340. Section 97 allows listed building consent to be granted subject to conditions.
341. Subsection (2) provides examples of conditions, but the list is not exhaustive. *Welsh Government Circular 016/2014, The Use of Planning Conditions for Development Management*, at paragraph 5.75, recommends that conditions on listed building consents should be drafted on the basis of the principles and tests that the circular sets out for the drafting of planning conditions. It offers a set of model conditions (conditions 71–80 in the appendix to the circular) for listed building consents, which, again, is not exhaustive.
342. Under subsection (5), a consent for demolition of a listed building must include a condition allowing for the recording of the building by the Royal Commission. Under the terms of its Royal Warrant, the Royal Commission has a responsibility to survey and record "buildings, sites and ancient monuments of archaeological, architectural and historic interest" in Wales and the adjacent territorial sea. The Royal Commission must also compile and curate the National Monuments Record for Wales "as the basic national record of the archaeological and historical environment"; Coflein is the online database for the National Monuments Record of Wales.

Adran 98 – Amod ynghylch y cyfnod y mae rhaid i'r gwaith ddechrau ynddo

343. Mae adran 98(1) yn ei gwneud yn ofynnol i gydsyniad adeilad rhestredig gael ei roi yn ddarostyngedig i amod bod rhaid i'r gwaith ddechrau cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr amod. Mae'r cyfnod yn dechrau â'r diwrnod y rhoddir y cydsyniad. Os na fydd y gwaith a gydsyniwyd yn dechrau o fewn y cyfnod hwnnw, bydd y cydsyniad yn darfod. Ar ôl i'r gwaith ddechrau o fewn y cyfnod penodedig, bydd cydsyniad yn cael effaith er budd yr adeilad rhestredig a'r tir y mae arno a phob person sydd â buddiant yn yr adeilad a'r tir, yn ddarostyngedig idelerau'r cydsyniad (adran 96(3)).
344. Mae is-adran (2) yn nodi bod rhaid i'r gwaith ddechrau o fewn pum mlynedd i'r diwrnod y rhoddwyd cydsyniad os na fydd cydsyniad yn cynnwys amod sy'n pennu cyfnod y mae'n rhaid i'r gwaith ddechrau ynddo.
345. Mae is-adran (3) yn darparu nad yw'r adran hon yn gymwys:
- a. pan roddir cydsyniad adeilad rhestredig o dan adran 89(2) ar gyfer gwaith a gyflawnwyd cyn i'r cydsyniad gael ei roi
Gan fod y cydsyniad yn awdurdodi gwaith sydd eisoes wedi ei gwblhau, nid oes angen gofyniad i'r gwaith ddechrau.
 - b. pan roddir cydsyniad adeilad rhestredig gan gytundeb partneriaeth adeilad rhestredig o dan adran 113(6).
Gall cytundebau partneriaeth barhau am ddeng i bymtheng mlynedd ac mae'r cydsyniadau y maent yn eu rhoi yn parhau am oes y cytundebau, ni waeth pryd y bydd y gwaith yn dechrau.

Adran 99 – Cais i amrywio neu ddileu amodau

346. Mae adran 99 yn caniatáu i unrhyw berson sydd â buddiant mewn adeilad rhestredig wneud cais i'r awdurdod cynllunio i amrywio neu ddileu amodau sy'n gysylltiedig â chydsyniad ar gyfer yr adeilad hwnnw.
347. Mae'r defnydd o'r term "dileu" ("removal") yn yr adran hon yn newid o'i gymharu â'r "discharge" cyfatebol yn adran 19 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, y mae'n deillio ohono. Bydd hyn yn helpu i leihau dryswch rhwng y materion yn adran 99 a'r hyn sy'n hysbys yn eang yn y sector amgylchedd hanesyddol fel "discharge" yng nghyd-destun amod – cymeradwyaeth awdurdod cydsynio i fanylion gwaith sy'n ofynnol gan amod, sy'n aml yn angenrheidiol cyn y gall gwaith fynd rhagddo. Gwneir cais am gymeradwyaeth o'r fath ar y ffurflen 1APP safonol a ddarperir ar wefan Ceisiadau Cynllunio Cymru. Mewn ceisiadau o'r fath, gan nad yw'r ceisydd ond yn ceisio cydnabyddiaeth y cydymffurfiwyd ag amod yn hytrach nag unrhyw newid iddo, ychydig iawn o ofynion sy'n gysylltiedig â'r cais ac mae'r gweithdrefnau'n syml.

Section 98 – Condition about period within which works must start

343. Section 98(1) requires a listed building consent to be granted subject to a condition that works must start within a period specified in the condition. The period begins on the day on which the consent is granted. If the consented works do not start within that period, the consent will lapse. Once works are started within the specified period, a consent will have effect for the benefit of the listed building and the land on which it is situated and all persons with an interest in the building and land, subject to any terms of the consent (section 96(3)).
344. Subsection (2) sets out that if a consent fails to include a condition specifying a period within which works must begin, works must begin within five years of the day on which consent was granted.
345. Subsection (3) provides that this section does not apply where listed building consent is granted:
- a. under section 89(2) for works carried out before the consent was granted
Since the consent authorises works that have already been completed, a requirement for works to begin is unnecessary.
 - b. by a listed building partnership agreement under section 113(6).
Partnership agreements may run for ten to fifteen years and the consents that they grant last for the lifetime of the agreements, irrespective of when works begin.

Section 99 – Application for variation or removal of conditions

346. Section 99 permits any person interested in a listed building to apply to the planning authority for the variation or removal of conditions attached to a consent for that building.
347. The use of the term “removal” in this section represents a change from the corresponding “discharge” in section 19 of the 1990 Listed Buildings Act, from which it is derived. This will help to reduce confusion between the matters in section 99 and what is widely known in the historic environment sector as the “discharge” of a condition – the approval by a consenting authority of details of works required by a condition, often necessary before works can progress. Application for such approval (discharge) is made on the standard 1APP form provided on the Planning Applications Wales website. In such applications, since the applicant is only seeking acknowledgement of compliance with a condition rather than any alteration to it, the application requirements are minimal and the procedures are straightforward.

348. Mae'r newid hwn felly yn helpu i egluro bod adran 99 yn ymwneud â newidiadau i amodau cydsyniad adeilad rhestredig, a allai effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig. O ganlyniad, mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i gais i amrywio neu ddileu amodau gydymffurfio â'r holl ofynion a gweithdrefnau ar gyfer ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a nodir yn adrannau 90 i 95 (ac eithrio'r gofyniad ar gyfer datganiad o'r effaith ar dreftadaeth yn adran 90(4)). Mae hyn yn cynnwys y bydd y cais fel arfer yn cael ei wneud i'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad yn ei ardal (oni bai bod deddfiadau penodol yn gymwys i'r cais), a'r gofyniad i'r awdurdod cynllunio hysbysu Gweinidogion Cymru os yw'n bwriadu caniatáu'r cais, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru alw'r cais i mewn i'w benderfynu.
349. Mae is-adran (5) yn nodi nad yw'r adran hon yn gymwys i gydsyniad a roddir gan gytundeb partneriaeth adeilad rhestredig. Yn union fel y byddai'r cydsyniadau adeilad rhestredig sydd mewn cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig yn destun trafod rhwng y partion i'r cytundeb, felly hefyd y byddai unrhyw benderfyniad i amrywio neu ddileu amodau'r cydsyniadau hynny. Mae adran 114(2)(e) yn ei gwneud yn ofynnol i gytundeb partneriaeth adeilad rhestredig wneud darpariaeth ar gyfer ei amrywio, a allai gynnwys amrywio neu ddileu amodau, ond na fyddai'n gyfyngedig i hynny.

Adran 100 – Yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio neu fethiant awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad

Adran 101 – Y weithdrefn ar gyfer gwneud apêl

350. Mae adran 100 yn darparu y caiff y ceisydd, pan fo cais wedi ei wneud i awdurdod cynllunio am gydsyniad adeilad rhestredig (neu fathau penodol eraill o geisiadau sy'n ymwneud ag amodau cydsyniad), apelio i Weinidogion Cymru os yw'r awdurdod cynllunio yn gwrthod y cais (neu'n gosod amodau, neu amodau newydd, ar gydsyniad) neu'n methu â rhoi hysbysiad o'i benderfyniad ar y cais o fewn "y cyfnod penderfynu". Mae Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012, SI 2012/973 (Cy 108) ("rheoliadau 2012") yn pennu mai wyth wythnos yw'r cyfnod penderfynu.
351. Mae adran 101 yn rhoi ar waith y gweithdrefnau ar gyfer gwneud apêl o dan adran 100. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad o apêl gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ac mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch ffurf yr hysbysiad, gwybodaeth y mae'n rhaid iddi gael ei chynnwys gyda hysbysiad a sut y mae rhaid cyflwyno hysbysiad o apêl a'r terfyn amser ar gyfer ei gyflwyno.
352. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r hysbysiad o apêl gofynnol ar gael ar y dudalen Ffurflenni apelio ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n ymgorffori datganiad, a elwir yn "dystysgrif perchnogaeth", bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan is-adran (4) i roi hysbysiad o'r apêl i berchennog yr adeilad.
353. Mae is-adran (5) yn darparu bod rhaid i reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y terfyn amser ar gyfer cyflwyno hysbysiad o apêl ganiatáu cyfnod o 28 o ddiwrnodau o leiaf i'r apelydd gyflwyno hysbysiad o'r apêl, gan ddechrau â'r diwrnod y mae'r ceisydd yn cael hysbysiad o benderfyniad neu ddiwedd y cyfnod penderfynu (yn ôl y digwydd).

348. This change accordingly helps to clarify that section 99 is concerned with alterations to the conditions of a listed building consent, which could potentially impact upon the character of a listed building. Consequently, subsection (3) provides that an application for variation or removal of conditions must comply with all the listed building consent application requirements and procedures set out in sections 90 to 95 (except the requirement for a heritage impact statement in section 90(4)). This includes that the application will usually be made to the planning authority in whose area the building is situated (unless specific enactments apply to the application), and the requirement for the planning authority to notify the Welsh Ministers if it intends to grant the application, allowing the Welsh Ministers to call the application in for determination.
349. Subsection (5) stipulates that this section does not apply to a consent granted by a listed building partnership agreement. Just as the listed building consents contained in a listed building partnership agreement would be a matter of negotiation between the parties to the agreement, so too would any variation or removal of conditions of those consents. Section 114(2)(e) requires a listed building partnership agreement to make provision for its variation, which could include, but would not be limited to, the variation or removal of conditions.

Section 100 – Right to appeal against planning authority decision or failure to make decision

Section 101 – Procedure for making appeal

350. Section 100 provides that where an application has been made to a planning authority for listed building consent (or certain other types of applications relating to conditions of consent), the applicant may appeal to the Welsh Ministers if the planning authority refuses the application (or imposes conditions, or new conditions, on a consent) or fails to give notice of its decision on the application within the “determination period”. The Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) (Wales) Regulations 2012, SI 2012/973 (W 108) (“the 2012 regulations”) set the determination period at eight weeks.
351. Section 101 puts in place the procedures for making an appeal under section 100. Subsection (1) requires a notice of appeal to be served on the Welsh Ministers and subsection (3) provides that the Welsh Ministers may make regulations about the form of the notice, information that must be included with a notice and how a notice of appeal must be served and the time limit for serving it.
352. At the time of writing these notes, the required notice of appeal is available on the “Planning appeal forms” page of the Welsh Government website. It incorporates a statement, known as a “certificate of ownership”, that the person making the appeal has complied with the requirements imposed by subsection (4) to give notice of the appeal to the owners of the building.
353. Subsection (5) provides that regulations making provision about the time limit for serving a notice of appeal must allow a period of at least 28 days for the appellant to serve notice of the appeal, starting from the day after the day of the receipt of a notice of decision or the end of the determination period (as the case may be).

354. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, o dan reoliadau 2012 caniateir chwe mis i geisydd wneud apêl yn erbyn penderfyniad gan awdurdod cynllunio. Os yw'r ceisydd yn gwneud apêl oherwydd nad yw'r awdurdod cynllunio wedi rhoi hysbysiad ar ddiwedd y cyfnod penderfynu o wyth wythnos, nid oes dyddiad cau ar gyfer apêl.

Adran 103 – Penderfyniad ar gais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl

355. Mae adran 103 yn nodi sut y mae rhaid ymdrin ag apêl os yw'n ymwneud â methiant awdurdod cynllunio i roi hysbysiad erbyn diwedd y cyfnod penderfynu fel y nodir yn adran 100(3).
356. Mae is-adran (2) yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag penderfynu ar yr apêl cyn diwedd cyfnod a bennir ganddynt mewn rheoliadau (pedair wythnos o dan reoliadau 2012). Mae is-adran (3) yn caniatáu i'r awdurdod cynllunio roi hysbysiad o'i benderfyniad ar y cais ar unrhyw adeg yn ystod yr un cyfnod.
357. Mae is-adrannau (4) a (5) yn darparu, os yw'r awdurdod cynllunio yn penderfynu ar y cais o fewn y cyfnod pedair wythnos hwnnw, fod rhaid i Weinidogion Cymru roi'r cyfle i'r apelydd i fwrw ymlaen â'r apêl a diwygio'r seiliau os yw'r cais yn cael ei wrthod neu os rhoddir y cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau.

Adran 104 – Penderfynu'r apêl

358. Mae adran 104 yn gwneud darpariaethau amrywiol ynghylch sut y caiff Gweinidogion Cymru benderfynu apêl a wneir o dan adran 100.
359. Mae is-adran (4) yn nodi bod Pennod 2 o Ran 5 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer y weithdrefn ar gyfer ystyried apêl. Mae adran 173 yn nodi y bydd apêl yn cael ei phenderfynu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo fel arall, a bydd gan y person a benodir yr un pwerau a dyletswyddau â Gweinidogion Cymru. Yn ymarferol, mae'n debygol mai un o arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru fydd y person a benodir. Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu y bydd yr achos apêl yn cael ei gynnal mewn un neu ragor o'r ffyrdd a ganlyn:

- a. mewn ymchwiliad lleol,
- b. mewn gwrandawriad, neu
- c. ar sail sylwadau ysgrifenedig.

Adran 105 – Ceisiadau gan awdurdodau cynllunio a'r Goron

360. Mae adran 105 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu nad yw unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf, neu mewn rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf, yn gymwys, neu eu bod yn gymwys gydag addasiadau, i geisiadau penodol a wneir gan awdurdod cynllunio neu gan neu ar ran y Goron. Mae is-adran (2) yn darparu bod y ceisiadau o dan sylw yn rhai am gydsyniad adeilad rhestredig, i amrywio neu ddileu amodau cydsyniad, neu i gymeradwyo manylion gwaith o dan amod cydsyniad.

354. At the time of writing these notes, under the 2012 regulations an applicant is allowed six months to make an appeal against a decision of a planning authority. If the applicant is making an appeal because the planning authority has failed to give notice at the end of the eight-week determination period, there is no deadline for an appeal.

Section 103 – Decision on application after service of notice of appeal

355. Section 103 sets out how an appeal must be dealt with if it relates to a planning authority's failure to give notice by the end of the determination period as set out in section 100(3).
356. Subsection (2) prohibits the Welsh Ministers from determining the appeal before the end of a period which they specify in regulations (four weeks under the 2012 regulations). Subsection (3) allows the planning authority to give notice of its decision on the application at any time during the same period.
357. Subsections (4) and (5) provide that if the planning authority determines the application within that four-week period, the Welsh Ministers must give the appellant the opportunity to proceed with the appeal and revise the grounds if the application is refused or the consent is granted subject to conditions.

Section 104 – Determination of appeal

358. Section 104 makes various provisions about how the Welsh Ministers may determine an appeal made under section 100.
359. Subsection (4) signposts that Chapter 2 of Part 5 of the Act provides for the procedure by which an appeal is to be considered. Section 173 sets out that, unless the Welsh Ministers direct otherwise, an appeal will be determined by a person appointed by the Welsh Ministers, and the appointed person will have the same powers and duties as the Welsh Ministers. In practice, it is likely that the appointed person will be an inspector from Planning and Environment Decisions Wales. Section 174 requires the Welsh Ministers to decide that the appeal proceedings will be conducted in one or more of the following ways:
- a. at a local inquiry,
 - b. at a hearing, or
 - c. by means of written representations.

Section 105 – Applications by planning authorities and the Crown

360. Section 105 provides that the Welsh Ministers may make regulations to provide that any provisions of the Act, or of regulations made under the Act, do not apply, or apply with modifications, to particular applications made by a planning authority or by or on behalf of the Crown. Subsection (2) provides that the applications in question are ones for listed building consent, the variation or removal of consent conditions, or approval of details of works under a consent condition.

361. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff y rheoliadau, yn benodol, ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu gwneud i Weinidogion Cymru.
362. O dan reoliadau 2012, rhaid i awdurdod cynllunio wneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig o dan ei berchnogaeth. Caiff awdurdod cynllunio benderfynu ar ei geisiadau ei hun ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig os nad ydynt yn ymwneud â gwaith dymchwel. Rhaid i awdurdod cynllunio, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo fel arall o dan adran 95, hysbysu Gweinidogion Cymru os yw o blaid cymeradwyo cais, sy'n rhoi cyfle i Weinidogion Cymru alw'r cais i mewn.

Adran 106 – Ceisiadau sy'n ymwneud â gwaith brys ar dir y Goron

363. Mae adran 106 yn darparu y caiff awdurdod priodol y Goron wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru (yn lle gwneud cais i awdurdod cynllunio):
- a. os yw'r adeilad rhestredig ar dir y Goron, a
 - b. os yw awdurdod priodol y Goron yn ardystio bod y gwaith y ceisir cydsyniad ar ei gyfer o bwysigrwydd cenedlaethol a bod rhaid ei gyflawni fel mater o frys.
364. Diffinnir "tir y Goron" ac "awdurdod priodol y Goron" yn adran 207.
365. Gallai Comisiynwyr Ystad y Goron, er enghraifft, wneud cais o'r fath mewn perthynas ag adeilad rhestredig ar ddaliadau helaeth Ystad y Goron yng Nghymru. Mae Ystad y Goron yn berchen ar 65 y cant o'r blaendraeth a gwelyau afonydd yng Nghymru, gan gynnwys porthladd Aberdaugleddau a nifer o borthladdoedd a marinas eraill. Yn yr un modd, gallai'r Weinyddiaeth Amddiffyn wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer adeilad ar un o'r nifer o ardaloedd hyfforddi milwrol yng Nghymru.
366. Yn yr achos olaf, gallai is-adran (8) fod yn arbennig o berthnasol. Mae'n darparu nad yw'r gofyniad yn is-adran (4) i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw ddatganiadau a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cais ar gael i'r cyhoedd yn gymwys os yw'r datganiad neu'r wybodaeth yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan adran 178. Byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud cyfarwyddyd o dan yr adran honno pan fyddant wedi eu bodloni bod y datganiad neu'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelwch gwladol ac y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i'r buddiant cenedlaethol.
367. Mae is-adran (7) yn cyfeirio at yr adrannau sy'n darparu ar gyfer y weithdrefn ar gyfer ystyried cais a wneir o dan yr adran hon. Mae adran 174 yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru ddewis cynnal yr achos mewn un neu ragor o'r ffyrdd a ganlyn:
- a. mewn ymchwiliad lleol,
 - b. mewn gwrandawriad, neu
 - c. ar sail sylwadau ysgrifenedig.

361. Subsection (3) provides that the regulations may, in particular, require applications to be made to the Welsh Ministers.
362. Under the 2012 regulations, a planning authority must apply to the Welsh Ministers for listed building consent for the demolition of a listed building in its ownership. A planning authority may determine its own applications for listed building consent if they do not involve demolition. Unless the Welsh Ministers have directed otherwise under section 95, a planning authority must advise the Welsh Ministers if it is minded to approve an application, which gives the Welsh Ministers an opportunity to call the application in.

Section 106 – Applications relating to urgent works on Crown land

363. Section 106 provides that an appropriate Crown authority may apply directly to the Welsh Ministers for listed building consent (instead of to a planning authority) if:
- a. the listed building is on Crown land, and
 - b. the appropriate Crown authority certifies that the works for which consent are sought are of national importance and must be carried out as a matter of urgency.
364. “Crown land” and “an appropriate Crown authority” are defined in section 207.
365. The Crown Estate Commissioners might, for instance, make such an application relating to a listed building on the extensive Crown Estate holdings in Wales. The Crown Estate owns 65 per cent of the foreshore and riverbed in Wales, including the port of Milford Haven and a number of other ports and marinas. Similarly, the Ministry of Defence could apply for listed building consent for a building on one of the several military training areas in Wales.
366. In the latter instance, subsection (8) may be of particular relevance. It provides that the requirement in subsection (4) for the Welsh Ministers to make available for public inspection any statements and information relating to the application does not apply if the statement or information is subject to a direction under section 178. The Welsh Ministers would make a direction under that section where they are satisfied that the statement or information contains information relating to national security and that its disclosure would be contrary to the national interest.
367. Subsection (7) signposts the sections that provide for the procedure by which an application made under this section is to be considered. Section 174 sets out that the Welsh Ministers must choose to conduct proceedings in one or more of the following ways:
- a. at a local inquiry,
 - b. at a hearing, or
 - c. by means of written representations.

Adran 107 – Addasu a dirymu cydsyniad

Atodlen 8 – Y weithdrefn ar gyfer gorchymynion sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad adeilad rhestredig

368. Mae adran 107 yn darparu y caiff awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, addasu neu ddirymu, i unrhyw raddau, gydsyniad adeilad rhestredig sydd wedi ei roi yn dilyn cais neu apêl o dan y Rhan hon o'r Ddeddf. Caniateir gwneud gorchymyn o'r fath ar unrhyw adeg cyn i'r gwaith ddod i ben, ond ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y cydsyniad ar gyfer gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni.
369. Mae Atodlen 8 yn nodi gweithdrefnau y mae rhaid eu dilyn cyn i orchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio (Rhan 1), neu orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru (Rhan 2), gymryd effaith.
370. Mae paragraff 1 o Atodlen 8 yn darparu ar gyfer dau fecanwaith i orchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio gymryd effaith. Mae'r cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r gorchymyn gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2 cyn iddo ddod i rym. Nid yw'r ail, o dan baragraff 3, yn ei gwneud yn ofynnol i'r gorchymyn gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru os bodlonir amodau penodol.
371. Mae paragraff 2(1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio sydd wedi cyflwyno gorchymyn o dan adran 107 i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, gyflwyno hysbysiad yn rhoi gwybod i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad rhestredig ac i unrhyw berson arall y cred y bydd y gorchymyn yn effeithio arno fod y gorchymyn wedi ei gyflwyno.
372. Rhaid rhoi o leiaf 28 diwrnod i'r rhai y rhoddir yr hysbysiad iddynt i wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am wrandawriad gerbron person a benodir, sef un o arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru. Rhaid i'r cyfnod, o 28 o ddiwrnodau o leiaf, ddechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad (paragraff 2(2) a (4)).
373. Mae paragraff 3 yn nodi'r weithdrefn i orchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio gymryd effaith heb gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru.
374. O dan baragraff 3(1), mae'r weithdrefn hon yn gymwys dim ond os yw'r canlynol wedi hysbysu'r awdurdod nad ydynt yn gwrthwynebu'r gorchymyn:
- a. pob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad rhestredig, a
 - b. pob person arall y cred yr awdurdod cynllunio y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.
375. Nid yw'r weithdrefn hon ond yn debygol o gael ei defnyddio os yw cydsyniad yn cael ei addasu neu ei ddirymu gyda dealltwriaeth a chytundeb y partïon â buddiant. Os ydynt yn derbyn y gorchymyn heb ei wrthwynebu, ni fyddant yn gallu gwneud hawliad i gael eu digolledu yn y dyfodol o dan adran 108.
376. Os na chodir unrhyw wrthwynebiadau gan y partïon â buddiant, mae is-baragraff (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio gyhoeddi hysbysiad o'r gorchymyn.

Section 107 – Modification and revocation of consent

Schedule 8 – Procedure for orders modifying or revoking listed building consent

368. Section 107 provides that a planning authority or the Welsh Ministers may, by order, modify or revoke to any extent a listed building consent granted on application or appeal under this Part of the Act. Such an order may be made at any time before the conclusion of the works, but it will have no effect on the consent for works already completed.
369. Schedule 8 sets out procedures that must be followed before an order made by a planning authority (Part 1), or an order made by the Welsh Ministers (Part 2), takes effect.
370. Paragraph 1 of Schedule 8 provides for two mechanisms for an order made by a planning authority to take effect. The first requires the order to be confirmed by the Welsh Ministers under paragraph 2 before it takes effect. The second, under paragraph 3, does not require the order to be confirmed by the Welsh Ministers if certain conditions are met.
371. Paragraph 2(1) requires a planning authority that has submitted an order under section 107 to the Welsh Ministers for confirmation to give notice of the submission to every owner and occupier of the listed building and any other person whom it thinks will be affected by the order.
372. The recipients of the notice must be given at least 28 days to make a written request to the Welsh Ministers for a hearing before an appointed person, who will usually be an inspector from Planning and Environment Decisions Wales. The period of at least 28 days must begin with the day after the day the notice is served (paragraph 2(2) and (4)).
373. Paragraph 3 sets out the procedure for an order made by a planning authority to take effect without being confirmed by the Welsh Ministers.
374. Under paragraph 3(1), this procedure applies only if the following have notified the authority that they have no objection to the order:
- a. every owner and occupier of the listed building, and
 - b. every other person the planning authority thinks will be affected by the order.
375. This procedure is only likely to be used if the modification or revocation of consent is being done with the understanding and agreement of the interested parties. If they accept the order without objection, they will have no future claim to compensation under section 108.
376. If no objections are raised by the interested parties, subparagraph (2) requires the planning authority to publish notice of the order.

377. Rhaid i'r hysbysiad roi o leiaf 28 diwrnod i'r personau y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt hysbysu Gweinidogion Cymru eu bod am i'r gorchymyn gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau o dan y weithdrefn ym mharagraff 2. Rhaid i'r cyfnod, o 28 o ddiwrnodau o leiaf, ddechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad (paragraff 3(3)(a) a (5)). Bydd hyn yn caniatáu i berson nad oedd yn ymwybodol o'r gorchymyn tan i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi gan yr awdurdod alw am gadarnhau'r gorchymyn gan Weinidogion Cymru. Yn yr un modd, ar ôl cael yr hysbysiad, caiff unigolyn nad oedd wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad i orchymyn yr awdurdod cynllunio yn flaenorol benderfynu galw am gyflwyno'r gorchymyn i'w gadarnhau gan Weinidogion Cymru. Os bydd unrhyw berson yn galw am gyflwyno'r gorchymyn i'w gadarnhau, ni all gymryd effaith oni bai ei fod wedi ei gadarnhau yn unol â pharagraff 2.
378. Mae paragraff 3(4) yn darparu, os na fydd unrhyw berson y mae'r gorchymyn yn effeithio arno yn hysbysu Gweinidogion Cymru yn ystod cyfnod penodedig o 28 o ddiwrnodau o leiaf ei fod am i'r gorchymyn gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, ac nad yw Gweinidogion Cymru, erbyn diwedd cyfnod dilynol o 14 o ddiwrnodau o leiaf, yn cyfarwyddo bod yn rhaid cyflwyno'r gorchymyn iddynt i'w gadarnhau, bod y gorchymyn yn cymryd effaith ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.
379. Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu y dylid addasu neu ddirymu cydsyniad adeilad rhestredig, mae paragraff 4 yn pennu'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn. Cyn gwneud gorchymyn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad rhestredig yn ei ardal (paragraff 4(1)).
380. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn arfaethedig i bob perchennog a phob meddiannydd ac i unrhyw berson arall y credant y bydd y gorchymyn yn effeithio arno. Rhaid i'r hysbysiad ganiatáu o leiaf 28 o ddiwrnodau i berson y cyflwynir yr hysbysiad iddo ofyn am wrandawriad gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru, sef un o arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru fel rheol. Rhaid i'r cyfnod, o 28 o ddiwrnodau o leiaf, ddechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad (paragraff 4(2)-(3) a (5)).

Adran 108 – Digollediad pan fo cydsyniad yn cael ei addasu neu ei ddirymu

381. Mae adran 108 yn darparu bod hawlogaeth gan unrhyw berson sydd â buddiant mewn adeilad rhestredig, wrth wneud hawliad, i gael ei ddiolledu am wariant yr eir iddo wrth gyflawni gwaith a ddaeth yn ofer neu am unrhyw golled neu ddifrod arall a achoswyd o ganlyniad i addasu neu ddirymu cydsyniad.
382. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn glir nad yw'r adran ond yn gwneud digollediad yn daladwy pan fo gorchymyn o dan adran 107 yn cael ei wneud gan awdurdod cynllunio a'i gadarnhau gan Weinidogion Cymru neu'n cael ei wneud gan Weinidogion Cymru. Os bydd gorchymyn awdurdod cynllunio yn cymryd effaith o dan y weithdrefn ym mharagraff 3 o Atodlen 8 (h.y. heb gadarnhad gan Weinidogion Cymru) nid oes digollediad ar gael. Yn yr achosion hynny, bydd y personau yr effeithir arnynt wedi dewis peidio â gwrthwynebu'r gorchymyn.

377. The notice must give persons affected by the order at least 28 days to notify the Welsh Ministers that they want the order to be submitted to the Welsh Ministers for confirmation under the procedure in paragraph 2. The period of at least 28 days must begin with the day after the day the notice is served (paragraph 3(3)(a) and (5)). This will permit a person who only became aware of the order when the notice was published by the authority to call for its confirmation by the Welsh Ministers. Similarly, following receipt of the notice, an individual who had earlier expressed no objection to the planning authority's order may decide instead to call for the order to be submitted for confirmation by the Welsh Ministers. If any person calls for the order to be submitted for confirmation, it cannot take effect unless confirmed in accordance with paragraph 2.
378. Paragraph 3(4) provides that if no affected person notifies the Welsh Ministers during an allotted period of at least 28 days that they want the order to be submitted to the Welsh Ministers for confirmation, and the Welsh Ministers do not, by the end of a succeeding period of at least 14 days, direct that the order must be submitted to them for confirmation, the order takes effect at the end of that period.
379. If the Welsh Ministers decide that a listed building consent should be modified or revoked, paragraph 4 establishes the procedure for making an order. Before making an order, the Welsh Ministers must consult the planning authority in whose area the listed building is situated (paragraph 4(1)).
380. The Welsh Ministers must also serve notice of the proposed order on every owner and occupier and any other person whom they believe will be affected. The notice must allow at least 28 days for a person on whom the notice is served to request a hearing before a person appointed by the Welsh Ministers, who will usually be an inspector from Planning and Environment Decisions Wales. The period of at least 28 days must begin with the day after the day the notice is served (paragraph 4(2) – (3) and (5)).

Section 108 – Compensation where consent is modified or revoked

381. Section 108 provides that any person interested in a listed building is, on making a claim, entitled to compensation for expenditure incurred in carrying out works which became abortive or for any other loss or damage caused by the modification or revocation of a consent.
382. Subsection (1) makes clear that the section only makes compensation payable where an order under section 107 is made by a planning authority and confirmed by the Welsh Ministers or is made by the Welsh Ministers. If a planning authority order takes effect under the procedure in paragraph 3 of Schedule 8 (i.e. without the confirmation of the Welsh Ministers) no compensation is available. In those cases, affected persons will have chosen not to object to the order.

383. Ni waeth a yw'r gorchymyn yn cael ei wneud gan yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru, rhaid i'r hawliad ysgrifenedig am ddigollediad gael ei wneud i'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad yn ei ardal. Rhaid gwneud hawliad o fewn 6 mis i'r diwrnod y cymerodd y gorchymyn addasu neu ddirymu effaith (is-adrannau (2) a (5)).
384. At ddibenion yr adran hon, mae gwariant yr eir iddo wrth gyflawni gwaith yn cynnwys llunio planiau a materion paratoi eraill; gallai'r rhain gynnwys arolygon ac ymchwiliadau safle, paratoi datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a llunio manylebau manwl o fethodolegau a deunyddiau, ond nid ydynt yn gyfyngedig i hynny (is-adrannau (2) a (3)).
385. Os yw awdurdod cynllunio yn agored i dalu digollediad o dan adran 108, mae adran 171(3) yn darparu, o dan amgylchiadau penodol, y caiff Gweinidogion Cymru gyfrannu tuag at dalu'r digollediad neu gyfarwyddo'r awdurdod lleol arall hwnnw i gyfrannu swm i'r taliad.
386. Mae adrannau 202, 203 a 204 yn gwneud darpariaethau ychwanegol ynghylch hawliadau am ddigollediad o dan y Ddeddf hon.

Adran 109 – Hysbysiad prynu pan fo cydsyniad wedi ei wrthod, wedi ei roi yn ddarostyngedig i amodau, wedi ei addasu neu wedi ei ddirymu

387. Mae rheolaethau adeiladau rhestredig yn gosod cyfyngiadau ar yr hyn y gall perchennog ei wneud ag adeilad ac, mewn achosion prin, gall perchennog ganfod nad oes unrhyw fodd hyfyw o ddefnyddio adeilad rhestredig. A'r perchennog yn meddu ar adeilad nad oes llawer o werth iddo, o dan adran 109 mae'n bosibl y bydd yn gallu cyflwyno hysbysiad prynu sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio brynu buddiant y perchennog yn yr adeilad rhestredig a thir cysylltiedig os yw amodau penodol wedi eu bodloni.
388. Caiff perchennog adeilad rhestredig gyflwyno hysbysiad prynu i'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad yn ei ardal os yw cydsyniad:
- wedi ei wrthod,
 - wedi ei roi yn ddarostyngedig i amodau, neu
 - wedi ei addasu neu ei ddirymu drwy orchymyn o dan adran 107,
- ac os yw amodau penodol eraill a nodir yn is-adrannau (4) a (5) wedi eu bodloni.
389. Mae amodau is-adran (4) wedi eu bodloni:
- os yw'r adeilad rhestredig a'r tir cysylltiedig yn andefnyddiadwy yn eu cyflwr presennol;
 - mewn achos pan fo amodau ynghlwm wrth gydsyniad adeilad rhestredig, naill ai fel y'i rhoddwyd neu ar ôl ei addasu, nad oes modd gwneud yr adeilad a'r tir yn ddefnyddiadwy drwy gyflawni'r gwaith yn unol â'r amodau; ac

383. Irrespective of whether the order is made by the planning authority or the Welsh Ministers, the written compensation claim must be made to the planning authority in whose area the building is situated. A claim must be made within 6 months from the day on which the modification or revocation order took effect (subsections (2) and (5)).
384. For the purposes of this section, expenditure incurred in carrying out works includes the preparation of plans and other preparatory matters; these might include, but are not limited to, site surveys and investigations, the preparation of a heritage impact statement and the production of detailed specifications of methodologies and materials (subsections (2) and (3)).
385. If a planning authority is liable to pay compensation under section 108, section 171(3) provides that, under certain circumstances, the Welsh Ministers may contribute towards the payment of the compensation or direct that another local authority contribute an amount to the payment.
386. Sections 202, 203 and 204 make additional provisions about claims for compensation under this Act.

Section 109 – Purchase notice where consent is refused, granted subject to conditions, modified or revoked

387. Listed building controls place restrictions on what an owner can do with a building and in rare cases an owner may find that there is no viable use for a listed building. Left with a building of little value, under section 109 the owner may be able to serve a purchase notice that requires a planning authority to purchase the owner's interest in the listed building and associated land if specific conditions are met.
388. A listed building owner may serve a purchase notice on the planning authority for the area in which the building is situated if consent:
- a. is refused,
 - b. granted subject to conditions, or
 - c. modified or revoked by order under section 107,
- and certain other conditions set out in subsections (4) and (5) are met.
389. The subsection (4) conditions are met if:
- a. the listed building and its associated land are unusable in their existing state;
 - b. in a case where conditions have been attached to a listed building consent, either as granted or after modification, the building and land cannot be made usable by carrying out the works in accordance with the conditions; and

- c. nad yw cyflawni unrhyw waith arall y rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig ar ei gyfer (neu y mae awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru wedi ymrwmo i roi cydsyniad ar ei gyfer) yn gallu gwneud yr adeilad na'r tir yn ddefnyddiadwy.
390. Mae is-adran (6) yn nodi mai ystyr "defnyddiadwy" yw "bod modd gwneud defnydd rhesymol fuddiol" o adeilad rhestredig neu dir cysylltiedig.
391. Rhaid i dir cysylltiedig fod o dan yr un berchnogaeth â'r adeilad rhestredig a rhaid ei drin fel pe na bai modd ei wahanu oddi wrth yr adeilad. Ni fyddai'n bosibl cyflwyno hysbysiad prynu sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio brynu adeiladau o fewn y cwrtel heb y prif adeilad rhestredig.

Adran 112 – Camau gweithredu yn dilyn cyflwyno hysbysiad prynu

Atodlen 9 – Camau gweithredu yn dilyn cyflwyno hysbysiad prynu

392. Mae adran 112 yn cyflwyno Atodlen 9 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y camau gweithredu sydd i'w cymryd gan awdurdod cynllunio a Gweinidogion Cymru ar ôl cyflwyno hysbysiad prynu.
393. Mae paragraff 1 o Atodlen 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio, o fewn tri mis i'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu, ymateb i'r person naill ai â hysbysiad derbyn neu hysbysiad gwrthod.
394. Mae is-baragraff (2) yn egluro y bydd hysbysiad derbyn yn datgan naill ai bod yr awdurdod cynllunio yn fodlon cydymffurfio â'r hysbysiad prynu neu fod awdurdod lleol arall neu ymgymwrwr statudol arall a bennir yn yr hysbysiad wedi cytuno i gydymffurfio. Diffinnir ymgymwrwr statudol ym mharagraff 7 o'r Atodlen ac yn adran 210.
395. Mae is-baragraffau (5) a (7) yn ymhelaethu ar effaith cyflwyno hysbysiad derbyn. Mae is-baragraff (5) yn trin yr awdurdod neu'r ymgymwrwr fel pe bai wedi ei awdurdodi i gaffael yn orfodol y buddiant yn yr adeilad rhestredig a'r tir cysylltiedig o dan adran 137, ac fel pe bai wedi cychwyn y broses ar gyfer prynu yn orfodol drwy gyflwyno "hysbysiad i drafod telerau" i'r perchennog. Mae hyn yn golygu bod y caffaeliad yn digwydd yn unol â Deddf Prynu Gorfodol 1965 (p. 56) a bod digollediad yn cael ei benderfynu o dan Ddeddf Digollediad Tir 1961 (p. 33) ("Deddf 1961").
396. Mae hysbysiad gwrthod, ar y llaw arall, yn nodi'r rhesymau pam na fydd yr awdurdod cynllunio yn cydymffurfio â'r hysbysiad prynu, yn egluro na chanfuwyd unrhyw gorff arall sy'n fodlon cydymffurfio ag ef ac yn datgan bod copïau o'r hysbysiad prynu a'r hysbysiad gwrthod wedi eu hanfon at Weinidogion Cymru (is-baragraff (3)).
397. Mae paragraffau 2 i 5 o'r Atodlen yn ymwneud â chamau gweithredu Gweinidogion Cymru ar ôl cael copïau o hysbysiad prynu a'r hysbysiad gwrthod sy'n ymwneud ag ef.
398. Mae paragraff 2(2) yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau amrywiol yn is-baragraffau (3) i (7), gadarnhau hysbysiad prynu os dynt wedi eu bodloni:

- c. the carrying out of any other works for which listed building consent has been granted (or for which a planning authority or the Welsh Ministers have undertaken to grant consent) also cannot make the building or land usable.

- 390. Subsection (6) defines “usable” as meaning “capable of reasonably beneficial use”.
- 391. Associated land must be in the same ownership as the listed building and must be treated as inseparable from the building. It would not be possible to serve a purchase notice requiring a planning authority to purchase curtilage buildings without the principal listed building.

Section 112 – Action following service of purchase notice

Schedule 9 – Action following service of purchase notice

- 392. Section 112 introduces Schedule 9 which makes provision for the actions to be taken by a planning authority and the Welsh Ministers after the service of a purchase notice.
- 393. Paragraph 1 of Schedule 9 requires that within three months of the day that the purchase notice was served the planning authority must respond to the person with either an acceptance notice or a rejection notice.
- 394. Subparagraph (2) explains that an acceptance notice will state either that the planning authority is willing to comply with the purchase notice or that another local authority or statutory undertaker identified in the notice has agreed to comply. A statutory undertaker is defined in paragraph 7 of the Schedule and section 210.
- 395. Subparagraphs (5) and (7) expand on the effect of the service of an acceptance notice. Subparagraph (5) treats the authority or undertaker as being authorised to carry out the compulsory acquisition of the interest in the listed building and associated land under section 137, and as having initiated the compulsory purchase by serving a “notice to treat” on the owner. This means that the purchase proceeds in accordance with the Compulsory Purchase Act 1965 (c. 56) and compensation is determined under the Land Compensation Act 1961 (c. 33) (“the 1961 Act”).
- 396. A rejection notice, on the other hand, sets out the reasons why the planning authority will not comply with the purchase notice, explains that no other body has been found willing to comply with it and states that copies of the purchase notice and rejection notice have been forwarded to the Welsh Ministers (subparagraph (3)).
- 397. Paragraphs 2 to 5 of the Schedule concern the Welsh Ministers’ actions after receiving copies of a purchase notice and the rejection notice relating to it.
- 398. Paragraph 2(2) states that the Welsh Ministers must, subject to various provisions in subparagraphs (3) to (7), confirm a purchase notice if they are satisfied that:

- a. bod yr amodau yn adran 109 wedi eu bodloni; a
 - b. bod yr hysbysiad yn ymwneud â'r holl dir sy'n cydffinio â'r adeilad rhestredig neu sy'n gyfagos iddo yr ystyriant fod ei angen ar gyfer diogelu'r adeilad neu ei amwynderau, ar gyfer darparu mynediad iddo, neu ar gyfer ei reolaethu neu ei reoli'n briodol.
399. Bydd yr ail amod hwn yn helpu i ddiogelu buddiannau awdurdod caffael a'i gwneud yn fwy tebygol y bydd yn gallu rhoi dyfodol hyfyw i'r adeilad rhestredig a'i dir cysylltiedig.
400. Mae paragraff 4 yn esbonio'r effaith pan fo Gweinidogion Cymru yn cadarnhau hysbysiad prynu. Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud hynny, mae'r awdurdod penodedig – naill ai'r awdurdod y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo neu'r awdurdod neu'r ymgwymerwr statudol a ddewiswyd yn ei le gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2(7) – yn cael ei roi i bob pwrpas yn yr un sefyllfa â phe bai wedi cyflwyno hysbysiad derbyn. Caiff yr awdurdod hwnnw ei drin fel awdurdod sydd wedi ei awdurdodi i gaffael buddiant y person a gyflwynodd yr hysbysiad drwy brynu gorfodol fel y mae paragraff 397 uchod yn ei esbonio.
401. Ar y llaw arall, os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod amodau adran 109 wedi eu bodloni a gofynion eraill a bennir ym mharagraff 2(2)(b), rhaid iddynt, o dan baragraff 2(8), wrthod cadarnhau hysbysiad prynu.
402. Os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon mai dim ond mewn perthynas â rhan o'r tir a bennir yn yr hysbysiad prynu y mae'r amodau yn adran 109 wedi eu bodloni, mae paragraff 2(3) yn darparu mai dim ond mewn perthynas â'r rhan honno y mae'n rhaid cadarnhau'r hysbysiad. Byddai hyn, er enghraifft, yn galluogi Gweinidogion Cymru i eithrio tir o gwmpas yr hysbysiad prynu a'r caffael gorfodol dilynol (o dan baragraff 4(1)) a gellid ei ystyried yn ymarferol fel daliad ar wahân i'r adeilad rhestredig.
403. Yn hytrach na chadarnhau hysbysiad prynu, mae paragraff 2(4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi neu adfer cydsyniad adeilad rhestredig neu amrywio neu ddileu amodau fel sy'n ofynnol i ganiatáu gwaith a fyddai'n galluogi gwneud yr adeilad rhestredig a'i dir cysylltiedig yn rhai defnyddiadwy.
404. Yn yr un modd, yn hytrach na chadarnhau hysbysiad prynu, mae paragraff 2(5)-(6) yn darparu ar gyfer sefyllfa lle y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, pe bai cais arall am gydsyniad adeilad rhestredig neu ganiatâd cynllunio yn cael ei wneud a fyddai'n gwneud y tir, neu unrhyw ran ohono, yn ddefnyddiadwy o fewn amser rhesymol, bod rhaid cytuno i'r cais hwnnw.
405. Mae paragraff 2(7) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, wrth gadarnhau hysbysiad prynu, addasu'r hysbysiad drwy roi awdurdod neu ymgwymerwr arall yn lle'r awdurdod cynllunio a enwir yn yr hysbysiad os ydynt o'r farn y byddai'r awdurdod lleol neu'r ymgwymerwr statudol hwnnw mewn sefyllfa well i sicrhau dyfodol rhan neu'r cyfan o'r tir y mae hysbysiad prynu yn ymwneud ag ef.

- a. the conditions in section 109 are met; and
 - b. that the notice relates to all of the land adjoining or adjacent to the listed building that they consider is required for preserving the building or its amenities, providing access to it, or its proper control or management.
399. This second condition will help to safeguard the interests of an acquiring authority and increase the likelihood that it will be able to give the listed building and associated land a viable future.
400. Paragraph 4 explains the effect of the Welsh Ministers confirming a purchase notice. Where the Welsh Ministers do so, the specified authority – either the authority upon whom the notice was served or the authority or statutory undertaker substituted by the Welsh Minister under paragraph 2(7) – is effectively placed in the same situation as if it had served an acceptance notice. That authority is treated as authorised to acquire the interest of the person who served the notice by compulsory purchase as explained in paragraph 397 above.
401. If, on the contrary, the Welsh Ministers are not satisfied that the section 109 conditions and other requirements specified in paragraph 2(2)(b) are fulfilled, they must, under paragraph 2(8), refuse to confirm a purchase notice.
402. Paragraph 2(3) provides that if the Welsh Ministers are satisfied that the conditions in section 109 are only met in relation to part of the land specified in the purchase notice, then the notice must only be confirmed in relation to that part. This would, for instance, enable the Welsh Ministers to exclude land from the scope of the purchase notice and subsequent compulsory acquisition (under paragraph 4(1)) which could practically be treated as a separate holding from the listed building.
403. Instead of confirming a purchase notice, paragraph 2(4) allows the Welsh Ministers to grant or reinstate a listed building consent or vary or remove conditions as required to permit works that would enable the listed building and associated land to be made usable.
404. Similarly, instead of confirming a purchase notice, paragraph 2(5)–(6) provides for a situation in which the Welsh Ministers may direct that, should another application for listed building consent or planning permission be made that would render the land, or any part of it, usable within a reasonable time, that application must be granted.
405. Paragraph 2(7) provides that, in confirming a purchase notice, if the Welsh Ministers believe that another local authority or statutory undertaker would be better able to secure the future of part or all of the land to which a purchase notice relates, they may modify the notice by substituting that authority or undertaker for the planning authority named in the notice.

406. Mae paragraff 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'r camau y bwriadant eu cymryd ynghylch hysbysiad prynu o dan baragraff 2 i'r person a gyflwynodd yr hysbysiad prynu ac unrhyw awdurdod neu ymgymwrwr statudol sy'n ymwneud â'r mater. Rhaid iddynt hefyd roi'r cyfle i'r person ymddangos gerbron person a benodir a chael gwrandawriad ganddo. Un o arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru fydd y person a benodir fel rheol.
407. Mae paragraff 4 yn nodi effaith camau gweithredu Gweinidogion Cymru mewn perthynas â hysbysiad prynu a anfonwyd atynt o dan baragraff 1(6).
408. Mae paragraff 4(3) yn darparu bod yr hysbysiad prynu i'w drin fel pe bai wedi ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru o fewn cyfnod perthnasol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 4(5) a (6)), os nad yw Gweinidogion Cymru:
- yn cadarnhau hysbysiad prynu,
 - yn gwrthod cadarnhau hysbysiad, neu
 - yn cymryd unrhyw un o'r camau eraill sydd ar gael iddynt o dan baragraff 2,
- ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae'r awdurdod y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu iddo i bob pwrpas yn cael ei roi yn yr un sefyllfa â phe bai wedi cyflwyno hysbysiad derbyn; mae'n cael ei drin fel pe bai wedi cael ei awdurdodi i gaffael buddiant y person a gyflwynodd yr hysbysiad drwy brynu gorfodol o dan adran 137 ac fel pe bai wedi cyflwyno "hysbysiad i drafod telerau" i'r person.

Pennod 3 – Cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig

409. Mae'r Bennod hon yn darparu ar gyfer gwneud cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig. Cytundeb gwirfoddol yw hwn rhwng awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru, perchennog adeilad rhestredig a phartion eraill ar gyfer rheoli a sicrhau cadwraeth un neu ragor o adeiladau rhestredig yn yr hirdymor. Caiff cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig roi cydsyniad adeilad rhestredig i gyflawni rhaglen waith y cytunwyd arni yn ystod oes y cytundeb. Gwneir darpariaeth ar gyfer cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig cyffelyb yn Rhan 1, Pennod 4.
410. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau arferion gorau anstatudol i gefnogi'r gwaith o lunio cytundebau partneriaethau treftadaeth gan gynnwys y rhai ar gyfer adeiladau rhestredig, a chaiff y canllawiau hyn yn hadolygu'n gyson. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r canllawiau, *Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yng Nghymru* (2021), yn nodi'r elfennau sy'n ofynnol mewn cytundeb ac yn nodi arferion gorau i hyrwyddo cysondeb wrth weithredu gwaith yn ogystal â monitro ac adolygu rheolaidd. Mae'r canllawiau'n cynnwys templed i ddarparu fframwaith ar gyfer cytundebau newydd.

Adran 113 – Cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig

411. Mae adran 113 yn nodi'r partion posibl i gytundeb partneriaeth adeilad rhestredig a'r hyn y gall cytundeb o'r fath ei wneud.

406. Paragraph 3 requires the Welsh Ministers to give notice of the action that they propose to take on a purchase notice under paragraph 2 to the person who served the purchase notice and any authority or statutory undertaker involved with the matter. They must also give them the opportunity to appear before and be heard by an appointed person. The appointed person will usually be an inspector from Planning and Environment Decisions Wales.
407. Paragraph 4 details the effect of the Welsh Ministers' action with regard to a purchase notice received under paragraph 1(6).
408. Paragraph 4(3) provides that if the Welsh Ministers do not:
- a. confirm a purchase notice,
 - b. refuse to confirm a notice, or
 - c. take any of the other actions available to them under paragraph 2,

within a relevant period (as defined in paragraph 4(5) and (6)), the purchase notice is to be treated as if it was confirmed by them at the end of that period. The authority upon which the purchase notice was served is effectively placed in the same situation as if it has served an acceptance notice; it is treated as authorised to acquire the interest of the person who served the notice by compulsory purchase under section 137 and as having served a "notice to treat" on the person.

Chapter 3 – Listed building partnership agreements

409. This Chapter provides for the making of a listed building partnership agreement. This is a voluntary agreement between a planning authority or the Welsh Ministers, a listed building owner and other parties for the long-term conservation and management of one or more listed buildings. A listed building partnership agreement may grant listed building consent for an agreed programme of works to be carried out during the lifetime of the agreement. Provision is made for comparable scheduled monument partnership agreements in Part 1, Chapter 4.
410. The Welsh Ministers have published non-statutory, best-practice guidance, which is kept under review, to support the preparation of heritage partnership agreements including those for listed buildings. The guidance at the time of writing these notes, *Heritage Partnership Agreements in Wales* (2021), sets out the elements required in an agreement and identifies best practice to promote consistency in the implementation of works as well as regular monitoring and review. The guidance includes a template to provide a framework for new agreements.

Section 113 – Listed building partnership agreements

411. Section 113 sets out the possible parties to a listed building partnership agreement and what such an agreement may do.

412. Mae is-adrannau (1) a (3) yn sefydlu y caiff perchennog adeilad rhestredig neu ran o adeilad rhestredig wneud cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig gyda'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad yn ei ardal neu Weinidogion Cymru.
413. Yn ymarferol, bydd cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig yn cael eu gwneud fel mater o drefn rhwng perchnogion a'u hawdurdodau cynllunio perthnasol. Er bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu cytundebau rhwng perchnogion a Gweinidogion Cymru, adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, dim ond pan mai awdurdodau lleol yw perchnogion yr adeiladau rhestredig y maent yn debygol o gael eu gwneud. Er y caiff awdurdod cynllunio, mewn rhai sefyllfaoedd, benderfynu ar ei geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig ei hun (gweler paragraff 362 uchod), fe allai ddymuno llunio cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig gyda Gweinidogion Cymru o hyd i elwa ar yr arbedion effeithlonrwydd hirdymor y gall cytundeb eu cynnig.
414. Caiff personau eraill sydd â buddiant yn yr adeilad rhestredig, fel y'u nodir yn is-adrannau (2) a (4), fod yn bartïon i'r cytundeb hefyd.
415. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig roi cydsyniad adeilad rhestredig o dan adran 89(1) ar gyfer gwaith penodedig i addasu neu estyn yr adeilad rhestredig y mae'r cytundeb yn ymwneud ag ef. Defnyddir y pŵer hwn i ganiatáu gwaith buddiol ar gyfer rheoli a sicrhau cadwraeth yr adeilad rhestredig. Bydd angen i'r gwaith a bennir gael ei drafod a'i gytuno gan y partïon i'r cytundeb a chaniateir gosod amodau ar y cydsyniad (ac mae is-adran (7) yn darparu bod rhaid i unrhyw amodau o'r fath gael eu pennu yn y cytundeb).
416. Fodd bynnag, ni all cytundeb roi cydsyniad i ddymchwel adeilad rhestredig. Byddai'n rhaid cael cydsyniad adeilad rhestredig ar wahân, a geir drwy'r weithdrefn ymgeisio arferol, ar gyfer gwaith dymchwel.
417. Nid yw cydsyniad adeilad rhestredig sydd wedi ei gynnwys mewn cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn adran 98 ynghylch pryd y mae rhaid i'r gwaith ddechrau. Bydd cydsyniad ar gyfer gwaith nad yw wedi dechrau yn parhau'n ddilys am oes y cytundeb, a all barhau am 10 i 15 mlynedd.
418. Mae is-adran (8) yn nodi ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chynnal a chadw, rheoli a chadwraeth y caiff y partïon gytuno i'w cynnwys mewn cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig hefyd. Mae paragraff (a) yn caniatáu i'r partïon bennu gwaith a fyddai, neu na fyddai, yn eu barn hwy, yn effeithio ar gymeriad yr adeilad rhestredig fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac, o ganlyniad, y byddai neu na fyddai angen cydsyniad adeilad rhestredig ar ei gyfer. Byddai hyn yn caniatáu i'r partïon nodi'n glir y gwaith cynnal a chadw rheolaidd neu atgyweiriadau tebyg am debyg (gyda manylion dulliau gwaith a deunyddiau) a allai ddigwydd heb gydsyniad gan na fyddai adeiladwaith hanesyddol yn cael ei golli nac effaith ar gymeriad yr adeilad. Yn yr un modd, byddai'r partïon yn gallu amlinellu gwaith mwy sylweddol – er enghraifft, adfer neu ailadeiladu elfennau o'r adeilad rhestredig, neu ychwanegiadau neu addasiadau mawr – na ellid darparu'n ddigonol ar eu cyfer mewn cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig, oherwydd eu natur gymhleth neu sensitif. Byddai ystyriaeth lawn o'r weithdrefn cydsyniad adeilad rhestredig ar wahân yn ofynnol ar gyfer y gwaith hwnnw (adrannau 90 i 98).

412. Subsections (1) and (3) establish that an owner of a listed building or part of a listed building may enter into a listed building partnership agreement with the planning authority in whose area the building is situated or the Welsh Ministers.
413. In practice, listed building partnership agreements will routinely be made between owners and their respective planning authorities. Although agreements between owners and the Welsh Ministers are permitted by the legislation, at the time of writing they are only likely to be made when local authorities are the owners of the listed buildings. While a planning authority may, in some situations, determine its own listed building consent applications (see paragraph 362 above), it might still wish to enter a listed building partnership agreement with the Welsh Ministers to benefit from the long-term efficiency savings that an agreement can offer.
414. Other persons with an interest in the listed building, as identified in subsections (2) and (4), may also be parties to the agreement.
415. Subsection (6) provides that a listed building partnership agreement may grant listed building consent under section 89(1) for specified works for the alteration or extension of the listed building to which it relates. This power is used to grant permission for beneficial works for the conservation and management of the listed building. The works specified will need to be negotiated and agreed by the parties to the agreement and conditions may be attached to the consent (and subsection (7) provides that any such conditions must be specified in the agreement).
416. An agreement cannot, however, grant consent for the demolition of a listed building. Demolition works would require separate listed building consent obtained through the routine application procedure.
417. A listed building consent contained in a listed building partnership agreement is not subject to the provisions in section 98 about when works must start. A consent for works that have not been started will remain valid for the lifetime of the agreement, which may last for 10 to 15 years.
418. Subsection (8) sets out a wide range of matters relating to maintenance, conservation and management that the parties may also agree to include in a listed building partnership agreement. Paragraph (a) permits the parties to specify works that in their view would or would not affect the character of a listed building as a building of special architectural or historic interest and consequently would or would not require listed building consent. This would allow the parties to identify clearly routine maintenance works or like-for-like repairs (with details of methods and materials) that could proceed without consent since there would be no loss of historic fabric or effect on the character of the building. Equally, the parties would be able to outline more substantial works – for instance, the restoration or reconstruction of elements of the listed building, or major additions or alterations – which, due to their complexity or sensitivity, could not be adequately provided for in a listed building partnership agreement. Those works would require the full consideration of the separate listed building consent procedure (sections 90 to 98).

Adran 114 – Darpariaeth bellach ynghylch cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig

419. Mae is-adrannau (1) a (2) o adran 114 yn darparu bod rhaid i gytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig fod yn ysgrifenedig ac maent yn pennu elfennau hanfodol cytundeb.
420. Mae is-adran (2)(e) yn ei gwneud yn ofynnol i gytundeb partneriaeth adeilad rhestredig wneud darpariaeth ar gyfer ei amrywio. Oherwydd y bydd cytundeb yn parhau am flynyddoedd, mae'n debygol y bydd angen addasiadau. Rhaid i'r partïon, felly, gynnwys yn y cytundeb drefniadau gwaith y cytunwyd arnynt ar gyfer cymeradwyo amrywiadau angenrheidiol. Yn dibynnu ar natur yr amrywiadau, gallant fod yn ddarostyngedig i'r gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd a ragnodir gan y rheoliadau o dan is-adran (5).
421. Mae'r gofyniad yn is-adran (2)(f) yn darparu ar gyfer dull i derfynu cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig drwy negodi pe na bai'n gwasanaethu buddiannau cyffredin y partïon mwyach neu ei fod, am ryw reswm arall, wedi methu. Mae hyn yn wahanol i derfynu cytundeb neu ddarpariaeth mewn cytundeb drwy orchymyn awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 115.
422. Wrth ystyried a ddylid gwneud neu amrywio cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig sy'n ymgorffori cydsyniad adeilad rhestredig, rhaid i awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru roi'r un sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu'r adeilad, ei nodweddiadau a'i safle ag y gwneir wrth roi neu wrthod cydsyniad adeilad rhestredig o dan adran 96. Gweler y drafodaeth ym mharagraff 336 uchod.
423. Mae is-adran (7) yn darparu na fydd cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig ond yn rhwymo'r partïon i'r cytundeb. Ni fydd perchnogion adeilad rhestredig yn y dyfodol yn cael eu rhwymo gan gytundeb, ac ni fyddant ychwaith yn gallu elwa ar unrhyw gydsyniad adeilad rhestredig a roddir gan gytundeb. Oni bai bod pob parti'n cytuno i barhau â chytundeb gyda pherchennog newydd, bydd cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig, felly, yn peidio â chael effaith wrth i berchnogaeth newid.

**Adran 115 – Terfynu cytundeb neu ddarpariaeth mewn cytundeb
Atodlen 10 – Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion sy'n terfynu cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig**

424. Mae adran 115(1) yn caniatáu i awdurdod cynllunio wneud gorchmyn i derfynu cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig y mae'n barti iddo neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath. Mae is-adran (2) yn rhoi pwerau cymaradwy i Weinidogion Cymru, ond nid oes rhaid iddynt fod yn rhan o gytundeb. Dim ond mewn achosion eithriadol y mae cytundeb yn debygol o gael ei derfynu drwy orchymyn – er enghraifft, os bydd gwaith heb ei awdurdodi gan y cytundeb yn digwydd a bod y berthynas rhwng y partïon yn dirywio i'r fath raddau fel ei bod yn amhosibl terfynu drwy negodi.
425. Caniateir i orchymyn terfynu gael ei wneud ar unrhyw adeg cyn i'r gwaith yr effeithir arno gael ei gwblhau, ond ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y cydsyniad ar gyfer gwaith sydd eisoes wedi cael ei gwblhau.

Section 114 – Further provision about listed building partnership agreements

419. Subsections (1) and (2) of section 114 provide that listed building partnership agreements must be in writing and specify essential elements of an agreement.
420. Subsection (2)(e) requires a listed building partnership agreement to make provision for its variation. Since an agreement will last for years, it is likely that adjustments will be required. The parties, therefore, must incorporate in the agreement agreed working arrangements for approving necessary variations into the agreement. Depending on the nature of the variations, they may be subject to the consultation and publicity requirements prescribed by the regulations under subsection (5).
421. The requirement in subsection (2)(f) provides for a mechanism for a negotiated termination to a listed building partnership agreement should it no longer serve the mutual interests of the parties or has, for some other reason, broken down. This is distinct from any termination of an agreement or a provision of an agreement by order of a planning authority or the Welsh Ministers as provided for under section 115.
422. When considering whether to make or vary a listed building partnership agreement that incorporates listed building consent, a planning authority or the Welsh Ministers must have the same special regard to the desirability of preserving the building, its features and its setting as when granting or refusing listed building consent under section 96. See the discussion in paragraph 336 above.
423. Subsection (7) provides that a listed building partnership agreement will only be binding on the parties to the agreement. Future owners of a listed building will not be bound by an agreement, nor will they be able to benefit from any listed building consent granted by an agreement. Unless all parties agree to continue an agreement with a new owner, a listed building partnership agreement will, therefore, cease to have effect with a change of ownership.

Section 115 – Termination of agreement or provision of agreement

Schedule 10 – Procedure for orders terminating listed building partnership agreements

424. Section 115(1) allows a planning authority to make an order to terminate a listed building partnership agreement to which it is a party or any provision of such an agreement. Subsection (2) gives the Welsh Ministers comparable powers, but they do not have to be party to an agreement. Termination by order is only likely to occur in exceptional cases – if, for example, works unauthorised by the agreement take place and relations between the parties break down to such an extent that negotiated termination becomes impossible.
425. A termination order may be made at any time before the conclusion of the affected works, but it will have no effect on the consent for works already completed.

426. Mae Atodlen 10 yn rhoi'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud y gorchmynion terfynu ar waith. Mae'r gweithdrefnau hyn yn deillio o'r rhai ar gyfer gwneud gorchmyn i addasu neu ddirymu cydsyniad adeilad rhestredig yn Atodlen 8.
427. Mae Rhan 1 o'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion terfynu a wneir gan awdurdodau cynllunio. Mae paragraff 1(1) yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn terfynu awdurdod cynllunio gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael effaith.
428. Mae paragraff 1(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio sydd wedi cyflwyno gorchymyn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau roi hysbysiad o'r cyflwyniad:
- a. i'r partïon eraill i'r cytundeb;
 - b. i unrhyw berson arall sy'n meddiannu'r adeilad rhestredig y mae'r cytundeb yn ymwneud ag ef o dan les sydd ag o leiaf ddwy flynedd yn weddill; ac
 - c. i unrhyw berson arall y cred yr awdurdod y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.
429. Mae paragraff 1(2)(b) wedi ei eirio i'w gwneud yn ofynnol ymgynghori â meddianwyr tymor hwy adeilad rhestredig y bydd gorchymyn terfynu yn effeithio arno. Ni fydd meddianwyr llai parhaol, er enghraifft myfyrwyr mewn neuadd breswyl prifysgol, yn cael eu cynnwys gan y ddarpariaeth.
430. Rhaid rhoi o leiaf 28 diwrnod i'r rhai sy'n cael yr hysbysiad i wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am wrandawriad gerbron person a benodir, sef un o arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru fel rheol. Rhaid i'r cyfnod, o 28 o ddiwrnodau o leiaf, ddechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad. Os gofynnir am wrandawriad, bydd pob awdurdod cynllunio sy'n barti i'r cytundeb yn cael cyfle i fod yn bresennol (paragraff 1(3)-(5)).
431. Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion terfynu a wneir gan Weinidogion Cymru. O dan baragraff 2(1) rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn terfynu arfaethedig i'r partïon i'r cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig a'r unigolion eraill a restrir ym mharagraff 430 uchod.
432. Cyn y gall Gweinidogion Cymru wneud y gorchymyn, rhaid rhoi cyfle i'r rhai sy'n cael yr hysbysiad ymddangos gerbron person a benodir a chael gwrandawriad ganddo. Mae'r gweithdrefnau ym mharagraff 2(2)-(4) yn adlewyrchu'r rheini ym mharagraff 1(3)-(5).

Adran 116 – Digollediad pan fo cytundeb neu ddarpariaeth yn cael ei derfynu neu ei therfynu

433. Os caiff cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig, neu ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath, ei derfynu drwy orchymyn a bod person yn dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad uniongyrchol, mae adran 116 yn darparu ar gyfer talu digollediad.

426. Schedule 10 puts in place the procedures for making the termination orders. These procedures are derived from those for making an order to modify or revoke listed building consent in Schedule 8.
427. Part 1 of the Schedule makes provision about termination orders made by planning authorities. Paragraph 1(1) requires that a planning authority's termination order must be confirmed by the Welsh Ministers before it will take effect.
428. Paragraph 1(2) requires a planning authority that has submitted an order to the Welsh Ministers for confirmation to give notice of the submission to:
- a. the other parties to the agreement;
 - b. any other person occupying the listed building to which the agreement relates under a lease that has at least two years to run; and
 - c. any other person the authority thinks will be affected by the order.
429. Paragraph 1(2)(b) has been framed to require consultation with longer-term occupants of a listed building that will be affected by a termination order. More transient occupants, for instance students in a university hall of residence, will not be captured by the provision.
430. The recipients of the notice must be given at least 28 days to make a written request to the Welsh Ministers for a hearing before an appointed person, who will usually be an inspector from Planning and Environment Decisions Wales. The period of at least 28 days must begin with the day after the day the notice is served. If a hearing is requested, each planning authority that is party to the agreement will be given the opportunity to attend (paragraph 1(3)-(5)).
431. Part 2 of the Schedule makes provision about termination orders made by the Welsh Ministers. Under paragraph 2(1) the Welsh Ministers must serve notice of the proposed termination order on the parties to the listed building partnership agreement and the other individuals listed in paragraph 430 above.
432. Before the Welsh Ministers can make the order, the recipients of the notice must be afforded the opportunity to appear before and be heard by an appointed person. The procedures in paragraph 2(2)-(4) mirror those in paragraph 1(3)-(5).

Section 116 – Compensation where agreement or provision is terminated

433. If a listed building partnership agreement, or a provision of such an agreement, is terminated by order and a person suffers loss or damage as a direct result, section 116 provides for the payment of compensation.

434. Mae'r darpariaethau hyn yn debyg mewn sawl ffordd i'r rhai sy'n darparu ar gyfer digollediad os caiff cydsyniad adeilad rhestredig ei addasu neu ei ddirymu drwy orchymyn o dan adran 108. Fel yn yr adran gynharach honno, mae adran 116(3) yn darparu bod gwariant yr eir iddo wrth gyflawni gwaith yn cynnwys llunio planiau a materion paratoi eraill. Gallai'r materion eraill hyn gynnwys arolygon ac ymchwiliadau safle, paratoi datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth a llunio manylebau manwl o fethodolegau a deunyddiau, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i hynny.
435. Rhaid i'r cais am ddigollediad gael ei wneud yn ysgrifenedig naill ai i'r awdurdod cynllunio a wnaeth y gorchymyn, neu, yn achos gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, i'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad rhestredig yn ei ardal. Rhaid ei wneud o fewn chwe mis i'r gorchymyn terfynu gael effaith (is-adrannau (5) a (6)).
436. Os yw awdurdod cynllunio yn agored i dalu digollediad o dan adran 116, mae adran 171(3)(a) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfrannu tuag at dalu'r digollediad o dan amgylchiadau penodol. Mae adran 171(4)-(6) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw awdurdod arall a oedd neu sydd yn barti i'r cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig i dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r digollediad. Mae hyn yn cydnabod y gallai cytundeb cymhleth – er enghraifft, un ar gyfer adeiladau rhestredig sy'n gysylltiedig â choridor trafnidiaeth – gynnwys nifer o awdurdodau lleol. Er y gallai un awdurdod neu Weinidogion Cymru gyflwyno'r gorchymyn terfynu, gallai fod yn rhesymol rhannu baich y digollediad rhwng rhai neu bob un o'r awdurdodau eraill sy'n barti i'r cytundeb. Fodd bynnag, o dan adran 171(6), ni chaiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o'r fath oni bai eu bod wedi ymgynghori â'r holl awdurdodau cynllunio a oedd neu sydd yn barti i'r cytundeb.
437. Mae adrannau 202 a 203 yn gwneud darpariaethau ychwanegol ynghylch hawliadau am ddigollediad o dan y Ddeddf hon (gweler paragraff 45 uchod).

Pennod 4 – Gorfodi rheolaethau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig

438. Mae adeiladau rhestredig o bwysigrwydd cenedlaethol ac yn asedau hanesyddol unigryw. Mae'n drosedd cyflawni gwaith anawdurdodedig ar adeilad rhestredig, a all ddinistrio'r adeiladwaith hanesyddol (sy'n golygu'r dystiolaeth hanesyddol a ddarperir gan elfennau ffisegol yr adeilad) a niweidio diddordeb arbennig adeiladau rhestredig. Mae'r Bennod hon yn nodi nifer o droseddau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, gan gynnwys troseddau cyflawni gwaith anawdurdodedig, methu â chydymffurfio ag un o amodau cydsyniad adeilad rhestredig (adran 117) neu ddifrodi adeilad rhestredig yn fwriadol (adran 118).
439. Mae'r Bennod hon hefyd yn rhoi'r pwerau i awdurdodau cynllunio ddyroddi hysbysiad stop dros dro i roi terfyn ar unwaith ar waith sydd naill ai'n torri adran 88 neu un o amodau cydsyniad (adrannau 119 i 122).

434. These provisions are similar in many respects to those providing for compensation if listed building consent is modified or revoked by order under section 108. Just as in that earlier section, section 116(3) provides that expenditure incurred in carrying out works includes the preparation of plans and other preparatory matters. Such other matters might include, but not be limited to, site surveys and investigations, the preparation of heritage impact statements and the production of detailed specifications of methodologies and materials.
435. The compensation claim must be made in writing either to the planning authority that made the order, or, in the case of an order made by the Welsh Ministers, to the planning authority in whose area the listed building is situated. It must be made within six months of the termination order taking effect (subsections (5) and (6)).
436. If a planning authority is liable to pay compensation under section 116, section 171(3)(a) permits the Welsh Ministers to contribute towards the payment of the compensation in certain circumstances. Section 171(4)-(6) allows the Welsh Ministers to direct any other authority that was or is party to the listed building partnership agreement to defray some or all of the compensation. This acknowledges that a complex agreement – for instance, one for listed buildings associated with a transport corridor – could involve a number of local authorities. While a single authority or the Welsh Ministers might serve the termination order, it might be reasonable to share the burden of compensation between some or all of the other authorities party to the agreement. However, under section 171(6) the Welsh Minister may only give such a direction if they have consulted with all the planning authorities that were or are party to the agreement.
437. Sections 202 and 203 make additional provisions about claims for compensation under this Act (see paragraph 45 above).

Chapter 4 – Enforcement of controls relating to listed buildings

438. Listed buildings are nationally important and irreplaceable historic assets. It is a criminal offence to carry out unauthorised works to a listed building, which can destroy the historic fabric (meaning the historic evidence provided by the physical elements of the building) and damage the special interest of listed buildings. This Chapter sets out a number of offences relating to listed buildings, including the offences of carrying out unauthorised works, failing to comply with a condition of a listed building consent (section 117) or deliberately damaging a listed building (section 118).
439. This Chapter also provides planning authorities with the powers to issue a temporary stop notice to put an immediate halt to works that either breach section 88 or a condition of a consent (sections 119 to 122).

440. Mae'r Bennod hefyd yn darparu'r pŵer i awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiadau gorfodi (adran 123). Caniateir dyroddi hysbysiadau o'r fath os yw awdurdod cynllunio o'r farn bod gwaith sy'n golygu torri adran 88, neu amod y rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig iddo, wedi cael ei gyflawni neu yn cael ei gyflawni mewn perthynas ag adeilad rhestredig yn ei ardal. Caniateir dyroddi'r hysbysiad gorfodi, os yw'n briodol, gan roi sylw i effaith y gwaith ar gymeriad yr adeilad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Rhaid i hysbysiad gorfodi bennu'r camau sydd i'w cymryd i unioni effeithiau gwaith anawdurdodedig. Mae adran 124 yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiad gorfodi ac ar sut y mae'n cymryd effaith, ac mae adran 127 yn sefydlu hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi. Mae'r Bennod yn darparu trefniadau ar gyfer cydymffurfio â hysbysiadau gorfodi a phŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi hysbysiadau gorfodi (adrannau 130 i 134).
441. Yn olaf, mae'r Bennod yn darparu ar gyfer gwaharddebau i atal achos gwirioneddol neu ddisgwyliedig o dorri adran 88 neu fethiant gwirioneddol neu ddisgwyliedig i gydymffurfio ag amod cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith ar adeilad rhestredig (adran 135).

Adran 117 – Y drosedd o gyflawni gwaith anawdurdodedig neu dorri amod mewn cydsyniad

442. Mae adran 117(1) yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflawni gwaith, neu beri i waith gael ei gyflawni, mewn perthynas ag adeilad rhestredig yn groes i adran 88. Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
443. Os rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig, mae is-adran (2)(b) yn darparu ei bod yn drosedd i berson fethu â chydymffurfio ag un o amodau cydsyniad wrth wneud gwaith, neu wrth beri i waith gael ei gyflawni.
444. At ddibenion yr adran hon, caiff "person" fod yn unrhyw un sy'n gwneud gwaith ar adeilad rhestredig, boed yn berchennog neu'n feddiannydd adeilad, yn gontractiwr neu'n is-gontractiwr neu'n drydydd parti arall.
445. Os cyflawnir gwaith ar adeilad rhestredig heb awdurdodiad neu os yw'r gwaith yn torri amod y rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig iddo, mae person yn cyflawni trosedd os yw:
- a. yn cyflawni'r gwaith hwnnw yn bersonol, neu
 - b. yn cyfarwyddo neu'n cyflogi rhywun i ymgymryd â'r gwaith.
446. O ganlyniad, gallai perchennog ac adeiladwr a gyfarwyddwyd gan y perchennog i ymgymryd â gwaith anawdurdodedig fod yn euog o drosedd.

440. The Chapter also provides the power for a planning authority to issue enforcement notices (section 123). Such notices may be issued if a planning authority considers that works which involve a breach of section 88, or of a condition subject to which listed building consent has been granted, have been or are being carried out in relation to a listed building in its area. The enforcement notice can be issued, if appropriate, having regard to the effect of the works on the character of the building as a building of special architectural or historic interest. An enforcement notice must specify steps to be taken to remedy the effects of unauthorised works. Section 124 provides for the service and taking effect of an enforcement notice, and section 127 establishes a right to appeal against an enforcement notice. The Chapter provides arrangements for compliance with enforcement notices and a power for the Welsh Ministers to issue enforcement notices (sections 130 to 134).
441. Finally, the Chapter provides for injunctions to restrain an actual or expected breach of section 88 or an actual or expected failure to comply with a condition of listed building consent for works to a listed building (section 135).

Section 117 – Offence of carrying out unauthorised works or breaching condition of consent

442. Section 117(1) makes it an offence for a person to carry out, or cause to be carried out, works in relation to a listed building in breach of section 88. This includes any works that would affect its character as a building of special architectural or historic interest.
443. If listed building consent has been granted, subsection (2)(b) provides that it is an offence for a person to fail to comply with a condition of a consent in carrying out works, or in causing works to be carried out.
444. For the purposes of this section, a “person” may be anyone who undertakes works to a listed building, be that an owner or occupier of a building, a contractor or subcontractor or other third party.
445. If works are undertaken to a listed building without authorisation or in breach of a condition subject to which listed building consent has been granted, a person commits an offence if they:
- a. carry out those works personally, or
 - b. instruct or employ someone to undertake them.
446. Consequently, both an owner and a builder instructed by the owner to undertake unauthorised works could be guilty of an offence.

447. Mae is-adran (4) yn darparu amddiffyniad i berson am drosedd o dan yr adran hon pe bai gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a diogelwch brys neu i ddiogelu'r adeilad. Fodd bynnag, nid yw'r amddiffyniad hwn ond ar gael os oedd y gwaith wedi ei gyfyngu i isafswm y mesurau a oedd yn angenrheidiol ar unwaith i sicrhau iechyd a diogelwch neu i ddiogelu'r adeilad, ac os rhoddwyd hysbysiad i'r awdurdod cynllunio yr oedd yr adeilad yn ei ardal, gyda chyfiawnhad manwl dros y gwaith, cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol.
448. Mae is-adran (5) yn rhoi amddiffyniad i berson ar gyfer trosedd o dan yr adran hon sy'n ymwneud ag adeilad o dan warchodaeth interim pan fo'r person yn profi nad oedd yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, bod yr adeilad yn ddarostyngedig i warchodaeth interim. Pan fo'r amddiffyniad yn cael ei godi gan berson y dylai hysbysiad o warchodaeth interim fod wedi cael ei gyflwyno iddo, yr erlyniad sydd i brofi i'r hysbysiad gael ei gyflwyno i'r person.
449. Dylai gwybodaeth am adeiladau sydd o dan warchodaeth interim fod ar gael yn hawdd. Mae adran 78 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad os ydynt yn bwriadu ychwanegu adeilad at y rhestr. Rhaid i'r hysbysiad, y mae'n rhaid ei gyflwyno i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad ymhlith personau eraill, bennu'r dyddiad y mae'r warchodaeth interim yn dechrau ac egluro ei heffaith. Cyhoeddir rhestr o adeiladau sydd o dan warchodaeth interim ar wefan Cadw yn unol ag adran 79(4)(a) (gweler paragraff 281 uchod) ac mae Cof Cymru hefyd yn arddangos adeiladau o dan warchodaeth interim.
450. Mae is-adrannau (6) a (7) yn manylu ar lefelau'r cosbau y mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored iddynt, boed hynny ar euogfarn ddiannod neu ar euogfarn ar ddiad. Oherwydd y gall gwaith anawdurdodedig i adeilad rhestredig gael ei ysgogi gan y posibilrwydd o enillion ariannol, bydd y llysoedd yn rhoi sylw i unrhyw fudd ariannol y gallai'r person a euogfarnwyd fod wedi ei gael neu yr ymddengys yn debygol o'i gael o ganlyniad i'r drosedd, wrth benderfynu swm unrhyw ddirwy i'w rhoi (is-adran (7)).

Adran 118 – Y drosedd o ddifrodi adeilad rhestredig yn fwriadol

451. Mae adran 118(1) yn darparu bod person yn cyflawni trosedd, os yw person o'r fath, gyda'r bwriad o achosi difrod i adeilad rhestredig, yn gwneud unrhyw beth, neu'n caniatáu i unrhyw beth gael ei wneud sy'n achosi difrod i'r adeilad hwnnw neu sy'n debygol o arwain at ddifrod iddo, ac y byddai gan y person hawlogaeth i gyflawni neu i ganiatáu gweithred o'r fath oni bai am yr is-adran hon. Yn yr achos hwn, byddai person â hawlogaeth i gyflawni gweithred neu i ganiatáu i weithred ddigwydd i adeilad rhestredig yn cynnwys perchennog, meddiannydd neu rywun a gyflogir ganddo.
452. Mae'r modd y mae'r drosedd o dan yr adran hon wedi ei chyfyngu i bersonau sydd â hawlogaeth i wneud neu i ganiatáu gwaith i adeilad rhestredig, yn gwahaniaethu rhyngddi â'r drosedd fwy eang o dan adran 1(1) o Ddeddf Difrod Troseddol 1971 (p. 48) ("Deddf 1971"). Mae'r drosedd yn Neddf 1971 yn gymwys i unrhyw berson sydd heb esgus cyfreithlon yn dinistrio neu'n difrodi unrhyw eiddo sy'n perthyn i rywun arall. Gwahaniaeth pwysig arall rhwng y ddwy drosedd yw bod rhaid profi bwriad ar gyfer trosedd o dan yr adran hon, tra bod byrbwylltra ynghylch a achosir difrod yn ddigonol ar gyfer y drosedd o dan adran 1 o Ddeddf 1971.

447. Subsection (4) provides a person with a defence for an offence under this section if works were undertaken to address urgent health and safety needs or for the preservation of the building. However, the defence is only available where the works were limited to the minimum measures immediately necessary to secure health and safety or the preservation of the building, and notice was given to the planning authority in whose area the building was situated, with detailed justification for the works, as soon as reasonably practicable.
448. Subsection (5) provides a person with a defence for an offence under this section relating to a building under interim protection where the person proves that they did not know, and could not reasonably have been expected to know, that the building was subject to interim protection. Where the defence is raised by a person on whom a notice of interim protection should have been served, it is for the prosecution to prove that the notice was served on the person.
449. Information on buildings under interim protection should be readily available. Section 78 requires the Welsh Ministers to serve notice if they propose to add a building to the list. The notice, which must be served on every owner and occupier of the building amongst other persons, has to specify the date upon which interim protection begins and explain its effect. A list of buildings under interim protection is published on the Cadw website in accordance with section 79(4)(a) (see paragraph 281 above) and Cof Cymru also displays buildings under interim protection.
450. Subsections (6) and (7) detail the levels of penalties a person guilty of an offence under this section is liable to, whether on summary conviction or conviction by indictment. Since unauthorised works to a listed building may be prompted by the prospect of financial gain, the courts are to have regard to any financial benefit the person convicted may have gained or appears likely to gain as a result of the offence, when determining the amount of any fine to be imposed (subsection (7)).

Section 118 – Offence of intentionally damaging listed building

451. Section 118(1) provides that a person commits an offence, if, with the intention of damaging a listed building, such a person does anything, or permits anything to be done that causes or is likely to result in damage to that building, and were it not for this subsection, the person would have been entitled to do or permit such action. A person entitled to do or permit an action to a listed building in this case would include an owner, occupier or someone employed by them.
452. The manner in which the offence under this section has been limited to persons who are entitled to do or permit works to a listed building, distinguishes it from the more broadly framed offence under section 1(1) of the Criminal Damage Act 1971 (c. 48) (“the 1971 Act”). The offence in the 1971 Act applies to any person who “without lawful excuse destroys or damages any property belonging to another”. Another important difference between the two offences is that intention must be proved for an offence under this section, while recklessness as to whether damage is caused is sufficient for the offence under section 1 of the 1971 Act.

453. Mae is-adran (3) yn darparu bod person a geir yn euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
454. Os yw'r person, ar ôl cael euogfarn o drosedd o dan yr adran hon, hefyd yn methu â chymryd camau rhesymol sy'n angenrheidiol i atal difrod neu unrhyw ddifrod pellach rhag digwydd i'r adeilad, mae'r person yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwyon pellach ar gyfer pob diwrnod y mae'r methiant yn parhau (is-adrannau (4) a (5)).
455. Nid yw adran 118 yn gymwys i adeilad sy'n ddarostyngedig i warchodaeth interim neu restru dros dro – gweler adrannau 79(2) a 83(4).

Adran 119 – Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad stop dros dro

456. Mae adran 119 yn rhoi'r pŵer i awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad stop dros dro i roi terfyn ar unwaith ar unrhyw waith neu'r cyfan o'r gwaith ar adeilad rhestredig y mae'n ei ystyried yn anawdurdodedig neu'n ystyried ei fod yn torri un o amodau cydsyniad adeilad rhestredig a roddwyd. Ni chaiff yr awdurdod cynllunio ddyroddi hysbysiad oni bai ei fod o'r farn y dylid atal y gwaith ar unwaith, gan roi sylw i effaith y gwaith ar gymeriad yr adeilad fel un o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
457. Mae is-adrannau (2) i (4) yn pennu cynnwys gofynnol hysbysiad stop dros dro ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer arddangos hysbysiad. Nid oes angen i'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad stop dros dro gampasu'r holl waith sydd ar y gweill. Er enghraifft, efallai y bydd awdurdod cynllunio am atal gwaith i newid neu waredu nodwedd benodol, megis ffenestr, sy'n rhan o raglen waith ehangach, ond ei fod yn fodlon bod gweddill y rhaglen waith wedi ei awdurdodi drwy gydsyniad adeilad rhestredig neu'n cynnwys atgyweiriadau syml na fyddant yn effeithio ar gymeriad yr adeilad.
458. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio arddangos copi o'r hysbysiad stop dros dro ar yr adeilad rhestredig y mae'n ymwneud ag ef, a rhaid i'r copi bennu'r dyddiad y caiff ei arddangos am y tro cyntaf. Mae is-adran (4), fodd bynnag, yn darparu y caiff yr awdurdod, yn lle hynny, arddangos copi mewn lle amlwg mor agos i'r adeilad ag sy'n rhesymol ymarferol, os nad yw'n rhesymol ymarferol arddangos copi o'r hysbysiad ar yr adeilad neu os gallai ei arddangos ar yr adeilad achosi difrod.
459. Er y caiff yr awdurdod cynllunio gyflwyno copïau o'r hysbysiad i bartïon â buddiant o dan is-adran (5), dim ond arddangos copi o'r hysbysiad fel y'i pennir yn is-adran (3) y mae angen ei wneud er mwyn i'r gwaith penodedig gael ei atal dros dro, ar unwaith.

Adran 122 – Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop dros dro

460. Mae adran 122 yn darparu y caiff unrhyw berson sydd â buddiant mewn adeilad rhestredig, o dan amgylchiadau cyfyngedig, fod â hawlogaeth i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod cynllunio am golled neu ddifrod y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i effaith hysbysiad stop dros dro.

453. Subsection (3) provides that a person found guilty of an offence under subsection (1) will be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.
454. If, on being convicted of an offence under this section, the person also fails to take reasonable steps that are necessary to prevent damage or any further damage from taking place to the building, the person is liable on summary conviction to further fines for each day on which the failure continues (subsections (4) and (5)).
455. Section 118 does not apply to a building subject to interim protection or temporary listing – see sections 79(2) and 83(4).

Section 119 – Power of planning authority to issue temporary stop notice

456. Section 119 gives a planning authority the power to issue a temporary stop notice to put an immediate halt to any or all works to a listed building that they consider to be unauthorised or to contravene a condition of a granted listed building consent. The planning authority may only issue a notice if it considers that the works ought to be stopped immediately, having regard to the effect of the works on the character of the building as one of special architectural or historic interest.
457. Subsections (2) to (4) specify the required content of a temporary stop notice and make provision for display of a notice. The works specified in the temporary stop notice need not include all of the works that are underway. For example, a planning authority may wish to stop the alteration or removal of a particular feature, such as a window, which is part of a wider programme of works, but may be satisfied that the remainder of the programme of works has been authorised by listed building consent or consists of simple repairs that will not affect the character of the building.
458. Subsection (3) requires the planning authority to display a copy of the notice on the listed building and the copy must specify the date on which it is first displayed. Subsection (4) however provides that if it is not reasonably practicable to display a copy of the notice on the building or its display on the building might cause damage, the authority may instead display a copy in a prominent place as near to the building as is reasonably practicable.
459. While the planning authority may serve copies of the notice on interested parties under subsection (5), only display of a copy of the notice as specified in subsection (3) is needed for the immediate suspension of the specified works.

Section 122 – Compensation for loss or damage caused by temporary stop notice

460. Section 122 provides that any person with an interest in a listed building may, in limited circumstances, be entitled to compensation from the planning authority for loss or damage directly attributable to the effect of a temporary stop notice.

461. Mae is-adran (1) yn darparu nad yw digollediad ond yn daladwy:
- a. pan nad oedd y gwaith a bennir yn yr hysbysiad yn torri adran 88 ar yr adeg y cymerodd yr hysbysiad effaith (hynny yw, roedd naill ai wedi ei awdurdodi neu nid oedd angen awdurdodiad arno); neu
 - b. pan nad oedd y gwaith a bennir yn yr hysbysiad yn torri amod cydsyniad adeilad rhestredig ar yr adeg y cymerodd yr hysbysiad effaith; neu
 - c. pan fo'r awdurdod cynllunio wedi tynnu'r hysbysiad stop dros dro yn ôl ar ôl iddo gymryd effaith.
462. Gallai awdurdod cynllunio dynnu hysbysiad stop dros dro yn ôl ar ôl iddo gymryd effaith os, er enghraifft, yw'n canfod bod yr hysbysiad wedi ei arddangos drwy gamgymeriad oherwydd nad oedd gwaith yn anawdurdodedig neu oherwydd bod yr hysbysiad wedi ei ddwyn i effaith ar gyfer yr eiddo anghywir.
463. Mae is-adran (2) yn darparu ymhellach nad oes unrhyw ddigollediad yn daladwy pe bai'r awdurdod cynllunio yn tynnu'r hysbysiad stop dros dro yn ôl ar ôl i gydsyniad adeilad rhestredig gael ei roi a fyddai'n caniatáu i'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad fynd rhagddo. Nid yw'r eithriad hwn yn gymwys ond os rhoddwyd y cydsyniad ar ôl i'r hysbysiad stop dros dro gymryd effaith; os cafodd y cydsyniad ei roi gyntaf, gallai digollediad fod yn daladwy.
464. Os yw awdurdod cynllunio yn agored i dalu digollediad o dan adran 122, mae adran 171(3) yn darparu, o dan amgylchiadau penodol, y caiff Gweinidogion Cymru gyfrannu tuag at dalu'r digollediad neu gyfarwyddo'r awdurdod lleol arall hwnnw i gyfrannu swm i'r taliad.
465. Mae adrannau 202 a 203 yn gwneud darpariaethau ychwanegol ynghylch hawliadau am ddigollediad o dan y Ddeddf hon (gweler paragraff 45 uchod).

Adran 123 – Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad gorfodi

466. Mae adran 123 yn rhoi'r pŵer i awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad gorfodi i'w gwneud yn ofynnol cymryd camau pan fo o'r farn bod gwaith anawdurdodedig wedi ei gyflawni ar adeilad rhestredig. Rhaid i'r awdurdod cynllunio fod o'r farn ei bod yn briodol dyroddi'r hysbysiad, gan roi sylw i effaith y gwaith ar gymeriad yr adeilad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yn unol â hynny, caiff yr awdurdod cynllunio bwysu a mesur ffactorau megis difrifoldeb y difrod i'r adeilad rhestredig a'r tebygolrwydd y bydd niwed yn digwydd yn y dyfodol, effaith y difrod ar gymeriad ac arwyddocâd yr adeilad, cyfleoedd ar gyfer negodi a dod o hyd i atebion cydweithredol ac argaeledd ac addasrwydd rhwymedïau cyfreithiol eraill.

461. Subsection (1) provides that compensation is only payable where:
- a. the works specified in the notice did not breach section 88 at the time the notice took effect (that is, they were either authorised or did not require authorisation); or
 - b. the works specified in the notice did not contravene a condition of a listed building consent at the time the notice took effect; or
 - c. the planning authority withdrew the temporary stop notice after it took effect.
462. A planning authority might withdraw a temporary stop notice after it takes effect if, for example, it discovers that the notice was displayed in error because works were not unauthorised or the notice was brought into effect for the wrong property.
463. Subsection (2) further provides that no compensation is payable if the planning authority withdrew the temporary stop notice after listed building consent was granted that would allow the works specified in the notice to proceed. This exception applies only if the consent was granted after the temporary stop notice had taken effect; if the consent was granted first, compensation may be payable.
464. If a planning authority is liable to pay compensation under section 122, section 171(3) provides that, under certain circumstances, the Welsh Ministers may contribute towards the payment of the compensation or direct that another local authority contribute an amount to the payment.
465. Sections 202 and 203 make additional provisions about claims for compensation under this Act (see paragraph 45 above).

Section 123 – Power of planning authority to issue enforcement notice

466. Section 123 gives a planning authority the power to issue an enforcement notice to require steps to be taken where it considers that unauthorised works have been carried out on a listed building. The planning authority must consider it appropriate to issue the notice, having regard to the effect of the works on the character of the building as one of special architectural or historic interest. The planning authority, accordingly, may weigh up factors such as the severity of the damage to the listed building and the likelihood of future harm, the impact of the damage on the listed building's character and significance, the scope for negotiation and cooperative solutions and the availability and suitability of other legal remedies.

467. Rhaid i hysbysiad gorfodi nodi'r toriad honedig a'i gwneud yn ofynnol cymryd camau at unrhyw un neu'r cyfan o'r dibenion a ganlyn:
- a. adfer yr adeilad rhestredig i'w gyflwr cyn i'r gwaith anawdurdodedig ddigwydd;
Byddai'r camau a bennir yn debygol o gynnwys gwaith cofnodi ac ymchwilio priodol ar yr ardal a ddifrodwyd er mwyn adennill a chofnodi tystiolaeth hanesyddol cyn i weithrediadau penodedig pellach fynd rhagdynt.
 - b. lleddfu effaith y gwaith, os nad yw gwaith adfer yn rhesymol ymarferol neu'n ddymunol; neu
Pe bai difrod difrifol neu helaeth i adeilad rhestredig, gallai fod yn annichonadwy ei adfer a gallai, mewn gwirionedd, achosi rhagor o ddifrod i ddiddordeb arbennig yr adeilad rhestredig. Mewn achos o'r fath, byddai'r awdurdod cynllunio yn pennu camau i sefydlogi'r adeilad yn ei gyflwr newydd i'w warchod ac i warchod y diddordeb arbennig y mae'n ei gynnwys at y dyfodol.
 - c. rhoi'r adeilad yn y cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe cydymffurfiwyd â thelerau ac amodau cydsyniad adeilad rhestredig a roddwyd.

Adran 124 – Cyflwyno hysbysiad gorfodi a'r hysbysiad yn cymryd effaith

468. Mae adran 124 yn nodi'r gofynion ar gyfer cyflwyno copi o hysbysiad gorfodi a phryd y mae hysbysiad yn cymryd effaith.
469. Mae is-adran (2) yn darparu y bydd hysbysiad gorfodi yn cymryd effaith ar ddechrau'r diwrnod a bennir yn yr hysbysiad. Os gwneir apêl yn erbyn yr hysbysiad i Weinidogion Cymru, mae adran 127(4)(a) yn darparu na fydd yr hysbysiad yn cymryd effaith hyd nes y caiff yr apêl ei phenderfynu'n derfynol neu ei thynnu'n ôl. Fodd bynnag, os gwneir apêl i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru ar hysbysiad gorfodi, mae adran 184(5) yn darparu y caiff y Llys orchymyn bod yr hysbysiad gorfodi yn cael effaith, naill ai'n llawn neu i'r graddau a bennir yn y gorchymyn.
470. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff hysbysiad gorfodi bennu cyfnodau gwahanol ar gyfer cymryd camau gwahanol. Mae hyblygrwydd o'r fath yn galluogi hysbysiad gorfodi i wneud darpariaeth briodol ar gyfer gofynion cadwraeth adeilad. Er enghraifft, gellid nodi cyfres o gamau i'w cymryd yn raddol er mwyn sicrhau bod adeilad a ddifrodwyd gan waith anawdurdodedig yn cael ei adfer neu ei sefydlogi'n foddhaol.
471. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i gopi o'r hysbysiad gael ei gyflwyno i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad ac i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr adeilad y mae'r awdurdod yn ystyried bod yr hysbysiad yn effeithio arno'n sylweddol.

467. An enforcement notice must identify the alleged breach and require steps to be taken for any or all of the following purposes:
- a. restore the listed building to its condition before the unauthorised works took place;
The steps specified would be likely to include undertaking appropriate recording and investigation of the damaged area to recover and record historical evidence before further specified operations proceed.
 - b. alleviate the effect of the works, if restoration is not reasonably practicable or desirable; or
In the event of serious or extensive damage to a listed building, restoration might be unviable and could, in fact, cause further harm to the special interest of the listed building. In such a case, the planning authority would specify steps to stabilise the building in its altered state to protect it and the special interest it contains for the future.
 - c. put the building in the condition in which it would have been if the terms and conditions of a granted listed building consent had been complied with.

Section 124 – Service and taking effect of enforcement notice

468. Section 124 sets out the requirements for service of a copy of an enforcement notice and when a notice takes effect.
469. Subsection (2) provides that an enforcement notice will take effect at the beginning of the day specified in the notice. Should an appeal against the notice be made to the Welsh Ministers, section 127(4)(a) provides that the notice will not take effect until the appeal is finally determined or withdrawn. However, should an appeal against a decision of the Welsh Ministers on an enforcement notice be made to the High Court, section 184(5) provides that the Court may order that the enforcement notice is to have effect, either in full or to the extent specified in the order.
470. Subsection (3) provides that an enforcement notice can set different periods for taking different steps. Such flexibility enables an enforcement notice to make appropriate provision for the conservation requirements of a building. For instance, a phased series of steps might be set to achieve the satisfactory restoration or stabilisation of a building damaged by unauthorised works.
471. Subsection (4) requires a copy of the notice to be served on every owner and occupier of the building and any other person who has an interest in the building that the authority considers to be materially affected by the notice.

472. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i gopi o'r hysbysiad gael ei gyflwyno cyn diwedd 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y'i dyroddwyd, ac o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y mae i gymryd effaith. Ystyr "dyroddwyd" yma yw pryd y cytunodd pwyllgor perthnasol neu swyddog dirprwyedig yr awdurdod cynllunio ar yr hysbysiad gorfodi.

Adran 126 – Effaith rhoi cydsyniad adeilad rhestredig ar hysbysiad gorfodi

473. Mae adran 126 yn darparu ar gyfer sefyllfa pan roddir cydsyniad adeilad rhestredig o dan adran 89(2), ar ôl i hysbysiad gorfodi gael ei ddyroddi, i awdurdodi gwaith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

474. Yn ymarferol, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y rhoddir cydsyniad o dan adran 89(2), a phan fu'r gwaith yr ymgwymerwyd ag ef er budd yr adeilad rhestredig.

475. Mae is-adran (2) yn darparu bod gofynion yn yr hysbysiad sy'n anghyson â'r cydsyniad newydd yn peidio â chael effaith. Fodd bynnag, mae is-adran (3) yn nodi bod person yn parhau'n atebol am unrhyw drosedd gynharach sy'n deillio o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi, er bod rhan o'r hysbysiad neu'r hysbysiad cyfan yn peidio â chael effaith wedi hynny o dan yr adran hon. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi (adran 133) yn drosedd ar wahân i gyflawni gwaith anawdurdodedig (adran 117) neu ddifrodi adeilad rhestredig yn fwriadol (adran 118) a chaniateir mynd ar drywydd achosion am y troseddau yn annibynnol ar ei gilydd.

Adran 127 – Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi

476. Mae adran 127 yn caniatáu i unrhyw un sydd â buddiant yn yr adeilad rhestredig y mae hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn yr hysbysiad. Mae hyn yn cynnwys perchnogion, lesddeiliaid a thenantiaid, derbynwyr swyddogol a morgeseion a benthycwyr eraill.

477. Mae is-adran (1)(b) hefyd yn darparu y caiff unrhyw berson sydd, yn rhinwedd trwydded, yn meddiannu'r adeilad ar y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad ac sy'n parhau i'w feddiannu pan wneir yr apêl, apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn hysbysiad gorfodi.

478. Mae is-adran (2) yn rhestru'r seiliau a ganiateir ar gyfer apêl.

479. Mae sail (a) yn caniatáu ar gyfer herio rhestru'r adeilad. Byddai angen i apelydd sy'n troi at sail (a) ddangos nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Wrth gyflwyno'r achos, rhaid ystyried nid yn unig yr adeilad ei hun, yn ei gyflwr cyn i unrhyw waith anawdurdodedig ddigwydd, ond hefyd unrhyw gyfraniad a wneir gan strwythurau neu wrthrychau artiffisial cysylltiedig o fewn cwrtil yr adeilad. Os yw apêl ar y sail hon yn llwyddiannus, bydd Gweinidogion Cymru yn dadrestru'r adeilad (gweler adran 128(3)(c)).

480. Mae sail (b) yn caniatáu i apelydd herio hysbysiad gorfodi drwy ddadlau nad yw'r materion yr honnir eu bod yn torri adran 88 neu amod mewn cydsyniad adeilad rhestredig erioed wedi digwydd.

472. Subsection (5) requires a copy of the notice to be served before the end of 28 days after the day on which it was issued, and at least 28 days before the date specified in the notice as the date on which it is to take effect. “Issued” here means when the enforcement notice was agreed by the relevant committee or delegated officer of the planning authority.

Section 126 – Effect of granting listed building consent on enforcement notice

473. Section 126 provides for a situation where, after an enforcement notice is issued, listed building consent is granted under section 89(2) to authorise works to which the notice relates.
474. In practice, consent under section 89(2) is only granted in exceptional circumstances and when the works undertaken have been for the benefit of the listed building.
475. Subsection (2) provides that requirements of the notice that are inconsistent with the new consent cease to have effect. However, subsection (3) sets out that a person remains liable for any earlier offence arising from a failure to comply with an enforcement notice, even though part or all of the notice subsequently ceases to have effect under this section. Failure to comply with an enforcement notice (section 133) is a separate offence from carrying out unauthorised works (section 117) or of intentionally damaging a listed building (section 118) and proceedings for the offences may be pursued independently.

Section 127 – Right to appeal against enforcement notice

476. Section 127 permits anyone who has an interest in the listed building to which an enforcement notice relates to appeal to the Welsh Ministers against the notice. This includes owners, lessees and tenants, official receivers and mortgagees and other lenders.
477. Subsection (1)(b) also provides that any person, who by virtue of a licence occupies the building on the day on which the notice is issued and continues to occupy it when the appeal is made, may appeal to the Welsh Ministers against an enforcement notice.
478. Subsection (2) lists the permissible grounds for an appeal.
479. Ground (a) allows the listing of the building to be challenged. An appellant resorting to ground (a) would need to demonstrate that the building is not of special architectural or historic interest. In making the case, consideration must be given not only to the building itself, in its condition prior to any unauthorised works taking place, but also to any contribution made by associated structures or artificial objects in the curtilage of the building. If an appeal on this ground is successful, the Welsh Ministers will delist the building (see section 128(3)(c)).
480. Ground (b) permits an appellant to challenge an enforcement notice by contending that the matters alleged to have constituted a breach of section 88 or a condition of a listed building consent never took place.

481. Mae sail (c), ar y llaw arall, yn caniatáu i apelydd ddadlau nad oedd y materion hynny, os oeddent wedi digwydd, yn gyfystyr â thoriad. Gellid gwneud apêl, er enghraifft, pe bai gwaith wedi digwydd, ond nad oedd wedi effeithio ar gymeriad yr adeilad fel un o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Bydd sail (c) hefyd yn cwmpasu apelau sy'n dadlau na ddigwyddodd toriad oherwydd nad yw'r adeilad dan sylw wedi ei restru neu nad yw'r hyn sydd wedi ei restru yn adeilad. Ystyriwyd a chydabuwyd sefyllfaoedd o'r fath fel seiliau dilys ar gyfer apelio yn *Dill v Secretary of State for Housing, Communities and Local Government and another* [2020] 1 WLR 2206.
482. Mae sail (d) yn caniatáu apêl ar y sail y bu'r gwaith y mae'r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef yn angenrheidiol ar frys er lles iechyd a diogelwch neu ar gyfer diogelu'r adeilad, nad oedd modd diogelu'r adeilad drwy gyflawni gwaith atgyweirio neu waith i'w ategu neu ei gysgodi a bod y gwaith a gyflawnwyd wedi ei gyfyngu i isafswm y mesurau a oedd yn angenrheidiol.
483. Mae sail (e) yn darparu ar gyfer amgylchiadau pan fo'r apelydd yn mynnu y dylid rhoi cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith anawdurdodedig y mae hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef neu y dylid dileu neu ddisodli amod mewn cydsyniad a roddwyd. Gellid gwneud apêl o'r fath pe bai'r gwaith dan sylw yn cael effaith niwtral neu fuddiol ar gymeriad yr adeilad rhestredig.
484. Mae sail (f) yn caniatáu apêl os na chafodd hysbysiad ei gyflwyno i berson fel sy'n ofynnol o dan adran 124. Mae'r adran honno yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno hysbysiad i bob perchennog a phob meddiannydd ac unrhyw berson arall â chanddo fuddiant yn yr adeilad y mae'r awdurdod cynllunio yn ystyried y bydd yr hysbysiad yn effeithio arno'n sylweddol. Fodd bynnag, mae adran 128(4) yn cadarnhau, os yw'r methiant i gyflwyno hysbysiad gorfodi i berson yn sail ar gyfer apêl, y caiff Gweinidogion Cymru anwybyddu'r ffaith os nad yw'r methiant wedi cael effaith andwyol sylweddol ar yr apelydd na'r person hwnnw.
485. Mae sail (g) yn darparu ar gyfer apêl ar y sail na fyddai'r camau sy'n ofynnol mewn hysbysiad gorfodi yn ateb y diben o adfer cymeriad adeilad. Byddai hyn yn caniatáu i apelydd herio hysbysiad gorfodi, er enghraifft, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ailadeiladu nodwedd a ddymchwelwyd gan ddefnyddio'r holl deilchion gydag uniadau a chraciau o ganlyniad. Gallai'r apelydd ddadlau y byddai copi ffyddlon o'r nodwedd, heb yr uniadau a'r craciau amlwg, yn adfer cymeriad yr adeilad yn well.
486. Mae sail (h) yn darparu y gall apêl ddadlau bod y camau unioni y manylir arnynt yn yr hysbysiad o dan adran 123(3) yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i adfer yr adeilad rhestredig, lleddfu effaith y toriad neu roi'r adeilad yn y cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe bai amodau sydd ynghlwm wrth gydsyniad wedi eu bodloni.
487. Mae sail (i) yn caniatáu ar gyfer apêl ar y sail bod y cyfnod y mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd ynddo yn afresymol o fyr. Mae apelau llwyddiannus ar sail (i) bron yn ddiethriad yn arwain at amrywio hysbysiadau gorfodi i ganiatáu ar gyfer cyfnodau hwy ar gyfer cyflawni'r gwaith penodedig, ac yn annhebygol o arwain at ddiddymu hysbysiadau.

481. Ground (c), on the other hand, allows an appellant to argue that those matters, if they occurred, did not constitute a breach. An appeal could be made, for example, if works took place, but they did not affect the character of the building as one of special architectural or historic interest. Ground (c) will also accommodate appeals arguing that a breach did not occur because the building in question is not listed or that what has been listed is not a building. Such situations were considered and recognised as legitimate grounds for appeal in *Dill v Secretary of State for Housing, Communities and Local Government and another* [2020] 1 WLR 2206.
482. Ground (d) allows an appeal on the basis that the works to which the enforcement notice relates were urgently necessary for health and safety or the preservation of the building, those objectives could not be secured by works of repair or to provide temporary support or shelter and the works undertaken were limited to the minimum measures necessary.
483. Ground (e) provides for circumstances in which the appellant maintains that listed building consent should be granted for the unauthorised works to which an enforcement notice relates or a condition of a granted consent should be removed or replaced. Such an appeal might be made if the works in question had a neutral or beneficial effect on the character of the listed building.
484. Ground (f) permits an appeal if a notice was not served on a person as required under section 124. That section requires service on every owner and occupier and any other person with an interest in the building whom the planning authority considers will be materially affected by the notice. However, section 128(4) establishes that if the failure to serve an enforcement notice on a person is a ground for an appeal, the Welsh Ministers may ignore the fact if neither the appellant nor that person has been substantially prejudiced by the failure.
485. Ground (g) provides for an appeal on the ground that steps required in an enforcement notice would not serve the purpose of restoring the character of a building. This would allow an appellant to challenge, for example, an enforcement notice that required the reconstruction of a demolished feature using all of the broken pieces with resulting joins and cracks. The appellant might argue that a faithful replica of the feature, without the distracting joins and cracks, would more fully restore the character of the building.
486. Ground (h) provides that an appeal can argue that remedial steps detailed in the notice under section 123(3) exceed what is necessary to restore the listed building, alleviate the effect of the breach, or put the building into the condition it would have been in if conditions attached to a consent had been fulfilled.
487. Ground (i) allows for an appeal on the basis that the period within which the notice requires any step to be taken is unreasonably short. Successful appeals on ground (i) almost invariably lead to enforcement notices being varied to allow for longer periods in which to carry out the specified works and are unlikely to result in notices being quashed.

Adran 128 – Penderfynu apêl

488. Mae adran 128 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i benderfynu ar apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi.
489. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gywiro unrhyw ddiffyg, gwall neu gamddisgrifiad yn yr hysbysiad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef, neu amrywio telerau'r hysbysiad gorfodi, os ydynt wedi eu bodloni na fydd camau o'r fath yn achosi anghyfiawnder i'r naill barti i'r apêl na'r llall.
490. Mae is-adran (6) yn egluro bod penderfyniad Gweinidogion Cymru ar yr apêl yn derfynol.

Adran 130 – Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi

491. Mae adran 130 yn caniatáu i berchennog tir wneud cais am orchymyn gan lys ynadon sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson arall a chanddo fuddiant yn y tir ganiatáu i'r perchennog gymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi. Caiff y llys wneud gorchymyn o'r fath os yw wedi ei fodloni bod y perchennog yn cael ei atal rhag cymryd y camau gofynnol.
492. Mae'n bwysig i berchennog tir allu troi at y gyfraith yn y modd hwn, gan fod adran 133(1) yn gosod unrhyw atebolrwydd am drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi ar berson sydd ar y pryd yn berchennog ar yr adeilad rhestredig y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

Adran 131 – Pŵer i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi

493. Mae adran 131(1) yn darparu ar gyfer sefyllfa pan na chymerwyd cam sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi o fewn y cyfnod a ragnodir. Mewn achos o'r fath, caiff yr awdurdod cynllunio fynd ar y tir y mae'r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef ar unrhyw adeg resymol a chymryd y cam hwnnw. Mae hyn yn caniatáu i waith cadwraeth angenrheidiol i sicrhau diddordeb arbennig yr adeilad rhestredig a fanylir yn yr hysbysiad gorfodi ddigwydd yn brydlon.
494. Mae is-adrannau (2) a (3) yn darparu ei bod yn drosedd mynd ati'n fwriadol i rwystro person sy'n arfer y pŵer o dan is-adran (1) a bod person a ddyfernir yn euog o drosedd o'r fath yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Adran 132 – Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad gorfodi

495. Mae adran 132 yn darparu ar gyfer adennill oddi wrth unrhyw berchennog gostau rhesymol y bydd awdurdod cynllunio yn mynd iddynt ar ôl arfer y pŵer yn adran 131 a mynd ar dir i gymryd y camau sy'n ofynnol i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi.
496. Mae is-adrannau (2) a (3) yn darparu ar gyfer adennill costau o'r fath gan berchennog ar y tir sy'n gweithredu fel asiant neu ymddiriedolwr ar gyfer person arall, neu gan y person arall hwnnw, neu gan gyfuniad o'r ddau.
497. Mae'r adran hefyd yn darparu bod y costau adennilladwy yn bridiant tir lleol hyd nes y cânt eu hadennill (is-adrannau (5) a (6)).

Section 128 – Determination of appeal

488. Section 128 provides Welsh Ministers with the power to determine an appeal against an enforcement notice.
489. Subsection (1) provides that the Welsh Ministers may correct any defect, error or misdescription in the notice to which the appeal relates, or vary the terms of the enforcement notice, if they are satisfied that such steps will not cause injustice to either party to the appeal.
490. Subsection (6) clarifies that the decision of the Welsh Ministers on the appeal is final.

Section 130 – Order to permit steps required by enforcement notice

491. Section 130 allows an owner of land to apply for an order from a magistrates' court requiring another person who has an interest in the land to allow the owner to take steps required by an enforcement notice. If it is satisfied that the owner is being prevented from taking the required steps, the court may make such an order.
492. This provides an important legal recourse for an owner of land, since section 133(1) places any liability for an offence for a failure to comply with an enforcement notice on a person who is at the time an owner of the listed building to which the notice relates.

Section 131 – Power to enter land and take steps required by enforcement notice

493. Section 131(1) provides for a situation in which a step required by an enforcement notice has not been taken within the time prescribed. In such a case, the planning authority may enter the land to which the enforcement notice relates at any reasonable time and take that step. This allows necessary conservation works to secure the special interest of the listed building that are detailed in the enforcement notice to take place in a timely fashion.
494. Subsections (2) and (3) provide that it is an offence to intentionally obstruct a person exercising the power under subsection (1) and that a person found guilty of such an offence is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Section 132 – Recovery of costs of compliance with enforcement notice

495. Section 132 provides for the recovery from any owner of reasonable costs incurred by a planning authority after exercising the power in section 131 and entering land to take the steps required to comply with an enforcement notice.
496. Subsections (2) and (3) provide for the recovery of such costs from an owner of the land acting as an agent or trustee for another person, or from that other person, or from a combination of the two.
497. The section also provides for the recoverable costs to be a local land charge until such time as they are recovered (subsections (5) and (6)).

498. Yn olaf, mae'r adran yn darparu ar gyfer amgylchiadau penodol pan gaiff yr awdurdod cynllunio adennill rhywfaint neu'r cyfan o'i gostau drwy werthu deunyddiau a gymerir wrth ymgymryd â'r camau sy'n ofynnol yn dilyn methiant i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi. Os oes unrhyw warged ar ôl didynnu'r costau adenilladwy rhaid talu'r enillion sy'n weddill i'r person a oedd yn berchen ar y deunyddiau (is-adrannau (7) ac (8)).

Adran 133 – Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi

499. Mae adran 133 yn pennu y bydd perchennog ar yr adeilad rhestredig y mae hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef yn euog o drosedd os nad yw cam gofynnol wedi ei gymryd ar ôl diwedd y cyfnod a ragnodir yn yr hysbysiad. Byddai hyn yn drosedd yn ogystal â'r drosedd o gyflawni'r gwaith anawdurdodedig o dan adran 117.

500. Mae is-adran (2) yn darparu y caniateir i berson gael ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon drwy gyfeirio at ddiwrnod neu at gyfnod hwy, ac y caniateir i berson gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad gorfodi drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

501. Mae is-adran (3) yn nodi'r amddiffyniadau posibl sydd ar gael o dan yr adran hon. Mae'n amddiffyniad i berson profi:

- a. bod y person wedi gwneud popeth y gellid disgwyl iddo gael ei wneud i sicrhau bod y camau gofynnol wedi eu cymryd, neu
- b. na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad i'r person ac nad oedd felly'n ymwybodol o'i fodolaeth.

502. Mae is-adran (4) yn darparu mai'r gosb am y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi, boed ar euogfarn ddiannod neu euogfarn ar ddiad, yw dirwy ddiderfyn.

503. Oherwydd y gall difrod bwriadol i adeilad rhestredig gael ei ysgogi gan y posibilrwydd o enillion ariannol, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r llysoedd roi sylw i unrhyw fudd ariannol y gallai'r person a euogfarnwyd fod wedi ei gael neu yr ymddengys ei fod yn debygol o'i gael o ganlyniad i'r drosedd, wrth benderfynu swm unrhyw ddirwy i'w rhoi.

Adran 135 – Gwaharddeb i atal gwaith anawdurdodedig neu fethiant i gydymffurfio ag amod mewn cydsyniad

504. Mae adran 135 yn caniatáu i awdurdod cynllunio wneud cais i'r Uchel Lys neu'r llys sirol am waharddeb i atal gwaith anawdurdodedig gwirioneddol neu ddisgwyliedig neu waith gwirioneddol neu ddisgwyliedig sy'n methu â chydymffurfio ag amod mewn cydsyniad adeilad rhestredig.

505. Mae is-adran (2) yn cadarnhau y caiff awdurdod cynllunio wneud cais am waharddeb ni waeth a yw wedi defnyddio neu'n cynnig defnyddio unrhyw bwerau eraill a ddarperir gan y Rhan hon – er enghraifft, hysbysiad gorfodi (adran 123) neu waith brys (adran 144).

498. Finally, the section provides for certain circumstances whereby the planning authority may recover some or all of its costs by selling materials recovered while undertaking the steps required following a failure to comply with an enforcement notice. If there is any surplus after deducting the recoverable costs, the remaining proceeds must be paid to the person who owned the materials (subsections (7) and (8)).

Section 133 – Offence of failing to comply with enforcement notice

499. Section 133 establishes that if, after the end of the period prescribed in an enforcement notice, a required step has not been taken, an owner of the listed building to which the notice relates will be guilty of an offence. This would be an offence in addition to the offence of carrying out the unauthorised works under section 117.
500. Subsection (2) provides that an offence under this section may be charged by reference to a day or a longer period, and that a person may be convicted of more than one offence in relation to the same enforcement notice by reference to different periods.
501. Subsection (3) sets out the possible defences available under this section. It is a defence for a person to prove that:
- a. the person did everything that could be expected to be done to secure that the required steps were taken, or
 - b. the person was not served with a copy of the notice and so was unaware of its existence.
502. Subsection (4) provides that the penalty for the offence of failing to comply with an enforcement notice, whether on summary conviction or conviction by indictment, is an unlimited fine.
503. Since deliberate damage to a listed building may be prompted by the prospect of financial gain, subsection (5) requires the court to have regard to any financial benefit the person convicted may have gained or appears likely to gain as a result of the offence, when determining the amount of any fine to be imposed.

Section 135 – Injunction to restrain unauthorised works or failure to comply with condition of consent

504. Section 135 allows a planning authority to apply to the High Court or the county court for an injunction to restrain actual or expected unauthorised works or actual or expected works that fail to comply with a condition of a listed building consent.
505. Subsection (2) establishes that a planning authority may apply for an injunction irrespective of whether it has used or proposes to use any other powers provided by this Part – for instance, an enforcement notice (section 123) or urgent works (section 144).

506. Caiff y llys roi'r waharddeb ar unrhyw delerau y mae'n ystyried eu bod yn briodol at ddiben atal y toriad a'i chyflwyno i berson nad yw'n hysbys pwy ydyw (is-adrannau (3) a (4)). Bydd hyn yn ei gwneud yn haws cael gwaharddeb yn brydlon os oes ei hangen i atal gwaith sy'n bygwth difrodi diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig adeilad rhestredig.

Pennod 5 – Caffael a diogelu adeiladau o ddiddordeb arbennig

507. Mae pennod 5 yn darparu gwahanol bwerau ar gyfer caffael a diogelu adeiladau rhestredig o ddiddordeb arbennig. Maent yn cynnig cyfres o fesurau y caniateir eu defnyddio pan fydd adeiladau rhestredig yn mynd i gyflwr gwael, naill ai drwy ddiffyg buddsoddi neu anfodlonrwydd i weithredu ar ran perchnogion, neu, mewn rhai achosion, drwy iddynt gael eu hesgeuluso neu eu gadael yn fwriadol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r pwerau yn arferadwy gan Weinidogion Cymru a naill ai'r awdurdod cynllunio perthnasol neu'r awdurdod lleol.
508. Mae adrannau 137 i 142, er enghraifft, yn darparu ar gyfer caffael adeilad rhestredig yn orfodol gan awdurdod cynllunio (gydag awdurdodiad gan Weinidogion Cymru), neu gan Weinidogion Cymru eu hunain. Gall fod angen arfer y pwerau gorfodol hyn os nad oes dewis arall ond caffael adeilad rhestredig sydd wedi mynd i gyflwr gwael, fel y gellir rhoi trefniadau eraill ar waith ar gyfer ei ddiogelu. Yn yr achosion prin hynny pan ystyrir bod caffael yn orfodol yn angenrheidiol, rhaid i'r awdurdod caffael gyflwyno hysbysiad atgyweirio yn gyntaf er mwyn rhoi i bob perchennog gyfle olaf i gymryd camau rhesymol i ddiogelu adeilad (adran 138).
509. Bydd digollediad yn daladwy i berchennog yn dilyn caffaeliad gorfodol, ond mae'r Bennod yn caniatáu i awdurdod caffael wneud cyfarwyddyd ar gyfer digollediad isafol os yw wedi ei fodloni y caniatawyd i adeilad fynd i gyflwr gwael yn fwriadol at ddiben cyfiawnhau ei ddymchwel a datblygu'r safle neu unrhyw safle cydffiniol. Mae hefyd yn nodi'r gweithdrefnau y byddai angen i unrhyw berson a chanddo fuddiant yn yr adeilad eu dilyn i herio cyfarwyddyd o'r fath (adrannau 140 a 141).
510. Caiff awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru hefyd gyflawni gwaith brys sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelu adeilad rhestredig a chânt roi mesurau ar waith i adennill costau'r gwaith hwn, gan gynnwys drwy bridiant tir lleol (adrannau 144 i 146). Yn ymarferol, ymyriadau dros dro yw'r gwaith brys a gyflawnir fel arfer, megis gosod cysgodion neu orchuddion, er mwyn gwarchod yr adeilad ar unwaith rhag difrod gan y gwynt a'r glaw. Eu bwriad yn aml yw caniatáu amser i ddatblygu a chytuno ar gynlluniau cadwraeth hirdymor ar gyfer yr adeilad.
511. Mae'r Bennod yn darparu rhagor o gamau ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael drwy roi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a all, yn benodol, ddarparu ar gyfer "hysbysiad diogelu" sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion adeilad rhestredig gyflawni gwaith i sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu'n briodol (adran 147).
512. Mae'r Bennod hefyd yn galluogi awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i gynnig cymorth ariannol ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau a gerddi hanesyddol, ac i adennill arian o dan amgylchiadau penodol (adrannau 148 i 150).

506. The court may grant the injunction on any terms it considers appropriate to restrain the breach and issue it against a person whose identity is unknown (subsections (3) and (4)). This will make it easier to obtain an injunction in timely fashion if it is needed to put a halt to works that threaten to damage the special architectural or historic interest of a listed building.

Chapter 5 – Acquisition and preservation of buildings of special interest

507. Chapter 5 provides various powers for the acquisition and preservation of historic buildings of special interest. They offer a suite of measures that may be used when listed buildings fall into disrepair, either through a lack of investment or will from owners, or, in some cases, through deliberate neglect or abandonment. In most cases, the powers are exercisable by the Welsh Ministers and either the relevant planning authority or the local authority.
508. Sections 137 to 142, for instance, provide for the compulsory acquisition of a listed building by a planning authority (with authorisation from the Welsh Ministers) or by the Welsh Ministers themselves. These compulsory powers may be needed if there is no alternative but to acquire a listed building that has fallen into disrepair, so other arrangements can be made for its preservation. On the rare occasions when compulsory acquisition is considered necessary, the acquiring authority must first serve a repairs notice to provide every owner with a final opportunity to undertake reasonable steps for a building's preservation (section 138).
509. Compensation will be payable to an owner following a compulsory acquisition, but the Chapter allows an acquiring authority to make a direction for minimum compensation if it is satisfied that a building has been deliberately allowed to fall into disrepair for the purpose of justifying its demolition and the development of the site or any adjoining site. It also sets out the procedures any person with an interest in the building would need to follow to challenge such a direction (sections 140 and 141).
510. Local authorities or the Welsh Ministers may also undertake urgent works necessary for the preservation of a listed building and may take measures to recover the costs of these works, including through a local land charge (sections 144 to 146). In practice, urgent works tend to be temporary interventions, such as shelters or covers, to provide immediate protection from wind and rain damage. They are often intended to allow time to develop and agree long-term conservation plans for the building.
511. The Chapter provides further steps for the preservation of listed buildings in disrepair by giving the Welsh Ministers powers to make regulations that may, in particular, provide for a "preservation notice" requiring owners of a listed building to carry out works to secure its proper preservation (section 147).
512. The Chapter also enables local authorities and the Welsh Ministers to offer financial support for the maintenance and repair of historic buildings and gardens, and to recover funds in certain circumstances (sections 148 to 150).

513. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau arferion gorau anstatudol sy'n cael eu hadolygu'n barhaus, er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli adeiladau rhestredig sydd wedi mynd i gyflwr gwael. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r canllawiau, *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru* (2018), yn nodi rolau a chyfrifoldebau perchnogion, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wrth reoli adeiladau rhestredig sydd wedi mynd i gyflwr gwael. Mae'n dangos sut y gall polisïau a rhaglenni i reoli adeiladau rhestredig sydd mewn perygl lwyddo.

Adran 136 – Pŵer awdurdod cynllunio i gaffael adeilad drwy gytundeb

514. Mae adran 136 yn darparu y caiff awdurdod cynllunio gaffael drwy gytundeb unrhyw adeilad sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru y mae'n ystyried ei fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Er y caniateir rhestru adeilad o'r fath, nid yw'n angenrheidiol. Rhaid i'r awdurdod caffael ond bod wedi ei fodloni bod yr adeilad "o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig".
515. Mae'n bosibl mai ei awydd i ddiogelu adeilad sy'n cymell awdurdod lleol i'w gaffael, ond gallai nodau eraill ysgogi hynny yn yr un modd, er enghraifft diogelu dyfodol adeilad o ddiddordeb arbennig a darparu mynediad y cyhoedd.
516. Caniateir cynnwys tir cysylltiedig yn y caffaeliad cyn belled ag y bo'r amodau yn is-adran (2) wedi eu bodloni.
517. Mae is-adran (3) yn cymhwyso darpariaethau safonol sy'n llywodraethu'r modd o arfer pwerau prynu gorfodol o dan Ran 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 (p. 56), i'r graddau y maent yn berthnasol i gaffael drwy gytundeb.
518. Mae is-adran (4) yn darparu, pan fo gan lesddeiliaid hawlogaeth i ddigollediad am ddifrod penodol oherwydd gwaith a gyflawnir, fod hynny'n cynnwys difrod o waith a gyflawnir o dan adran 203 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 (p. 22).

Adran 137 – Pwerau i gaffael adeilad rhestredig yn orfodol at ddiben ei ddiogelu

Adran 138 – Gofyniad i gyflwyno hysbysiad atgyweirio cyn dechrau caffael yn orfodol

519. Gyda'i gilydd, mae adrannau 137 a 138 yn darparu y caiff awdurdod caffael – awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru – gaffael adeilad rhestredig yn orfodol at ddiben ei ddiogelu. Mae adran 138 yn nodi bod rhaid i'r awdurdod caffael gyflwyno hysbysiad atgyweirio yn gyntaf cyn defnyddio'r pwerau caffael gorfodol yn adran 137.

513. The Welsh Ministers have published non-statutory, best-practice guidance, which is kept under review, to support the management of listed buildings that have fallen into disrepair. The guidance at the time of writing these notes, *Managing Listed Buildings at Risk in Wales* (2018), outlines the roles and responsibilities of owners, the Welsh Government and local authorities when managing listed buildings that have fallen into disrepair. It shows how policies and programmes to manage listed buildings at risk can be successful.

Section 136 – Power of planning authority to acquire building by agreement

514. Section 136 provides that a planning authority may acquire by agreement any building that is wholly or mainly in Wales that it considers to be of special architectural or historic interest. While such a building may be listed, it is not necessary. The acquiring planning authority must only be satisfied that the building is “of special architectural or historic interest”.
515. The acquisition of a building might be motivated by a local authority’s concern for its immediate preservation, but it could equally be prompted by other aims, for instance securing the future of a building of special interest and providing public access.
516. Associated land may be included in the acquisition provided the conditions in subsection (2) are met.
517. Subsection (3) applies standard provisions governing the exercise of compulsory purchase from Part 1 of the Compulsory Purchase Act 1965 (c. 56), so far as they are relevant, to an acquisition by agreement.
518. Subsection (4) provides that, where lessees are entitled to compensation for certain damage because of the execution of works, it includes damage from works carried out under section 203 of the Housing and Planning Act 2016 (c. 22).

Section 137 – Powers to acquire listed building compulsorily for purpose of preservation

Section 138 – Requirement to serve repairs notice before starting compulsory acquisition

519. Together sections 137 and 138 provide for the compulsory acquisition of a listed building for the purpose of preservation by an acquiring authority – a planning authority or the Welsh Ministers. Section 138 sets out that the acquiring authority must first serve a repairs notice before employing the compulsory acquisition powers in section 137.

520. Mae adran 137 yn rhoi pwerau ar gyfer caffael adeilad rhestredig yn orfodol os nad yw'n cael ei ddiogelu yn briodol. Er mwyn defnyddio'r pwerau hyn, mae is-adran (1) yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru fod o'r farn bod dau brawf ar wahân wedi eu bodloni. Yn gyntaf, rhaid i Weinidogion Cymru fod o'r farn nad yw camau rhesymol yn cael eu cymryd ar gyfer diogelu adeilad rhestredig yn briodol. Er bod camau rhesymol yn cwmpasu gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio arferol, cânt hefyd gynnwys gwaith arall a fydd yn amrywio rhwng un adeilad ac adeilad arall, gan ddibynnu ar natur y strwythur a'i gyflwr presennol. Yn ail, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r adeilad gael ei gaffael yn orfodol at ddiben ei ddiogelu. Wrth ddod i'w casgliad, caiff Gweinidogion Cymru ystyried arwyddocâd yr adeilad (gan gynnwys y strwythurau a'r gwrthrychau o fewn ei gwrtil), ymdrechion blaenorol i ddod o hyd i sail gynaliadwy ar gyfer rheoli'r adeilad a'r tebygolrwydd o negodi ffordd hyfyw ymlaen, unrhyw atebion cyfreithiol sydd ar gael a'r risg o golli neu o ddifrodi'n barhaol ran neu'r cyfan o'r adeilad rhestredig. Mae *Llawlyfr Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG)* (2021) Llywodraeth Cymru, a adolygir yn gyson, yn cynnwys canllawiau ar gaffael yn orfodol.
521. Os yw'r ddau brawf wedi eu bodloni, o dan is-adran (2) caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad rhestredig yn ei ardal i ymgymryd â chaffael yr adeilad a'r tir cysylltiedig yn orfodol. Mae'r un is-adran hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru eu hunain gaffael yr adeilad a'r tir yn orfodol.
522. Mae is-adran (3) yn nodi'r amodau y mae rhaid eu bodloni er mwyn cynnwys tir cysylltiedig wrth gaffael adeilad yn orfodol. Yr amodau hynny yw bod y tir yn cynnwys yr adeilad, yn cydffinio ag ef neu'n gyfagos iddo, a bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen y tir at ddiben diogelu'r adeilad neu ei amwynderau, mynd i mewn i'r adeilad neu reolaethu a rheoli'r adeilad yn briodol. Gwneir darpariaeth ar gyfer cynnwys tir cysylltiedig wrth gaffael adeilad yn orfodol oherwydd heb dir o'r fath gallai fod yn amhosibl cyflawni gwaith cadwraeth a rheoli effeithiol ar yr adeilad.
523. Mae is-adrannau (4) a (5) yn eithrio o weithrediad yr adran hon: unrhyw adeilad sydd hefyd yn heneb gofrestredig, unrhyw adeilad crefyddol esempt (a ddiffinnir yn adran 156) a buddiannau yn nhir y Goron (a ddiffinnir yn adran 207), ac eithrio fel y'i pennir.
524. Mae is-adran (6) yn cymhwyso Deddf 1981 i gaffaeliad o dan yr adran hon. Mae Deddf 1981 yn darparu bod rhaid awdurdodi caffael tir yn orfodol drwy orchmynion prynu gorfodol ac yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud y gorchmynion hynny. Maent yn cynnwys darparu bod rhaid rhoi hysbysiad o orchmynion, bod rhaid ystyried gwrthwynebiadau, a bod rhaid i orchmynion a wneir gan awdurdodau lleol gael eu cadarnhau gan Weinidogion.
525. Mae adran 138(1) yn darparu na chaiff awdurdod caffael gyflwyno hysbysiad o fwriad i gaffael yn orfodol o dan Ddeddf 1981 – sef dechrau'r broses ffurfiol ar gyfer caffael adeilad yn orfodol – oni bai bod "hysbysiad atgyweirio" wedi ei gyflwyno i bob perchennog ar yr adeilad dan sylw a bod dau fis wedi mynd heibio.

520. Section 137 provides powers for the compulsory acquisition of a listed building if it is not being properly preserved. In order for these powers to be used, subsection (1) requires that two separate tests must be met in the estimation of the Welsh Ministers. First, the Welsh Ministers must consider that reasonable steps are not being taken for properly preserving a listed building. While reasonable steps encompass routine maintenance and repairs, they may also include other works that will vary from building to building, depending upon the nature of the structure and its current condition. Second, the Welsh Ministers must be satisfied that there is a compelling case in the public interest for the compulsory acquisition of the building for the purpose of preservation. In arriving at their conclusion, the Welsh Ministers may take into account the significance of the building (including its curtilage structures and objects), previous attempts to find a sustainable basis for the management of the building and the likelihood of negotiating a viable way forward, any other available legal solutions and the risk of loss or irreparable damage to part or all of the listed building. The Welsh Government's *Compulsory Purchase Order (CPO) Manual* (2021), which is kept under review, provides guidance on compulsory acquisition.
521. If both tests are met, under subsection (2) the Welsh Ministers may authorise the planning authority in whose area the listed building is situated to undertake a compulsory acquisition of the building and associated land. The same subsection also allows the Welsh Ministers themselves to acquire the building and land compulsorily.
522. Subsection (3) sets out the conditions that must be met for associated land to be included in the compulsory acquisition. These are that the land includes, adjoins or is adjacent to the building, and that the Welsh Ministers consider that the land is required for the purposes of preserving the building or its amenities, accessing it or its proper control and management. Provision is made for including associated land in the compulsory acquisition because without such land it might not be possible to undertake effective conservation and management of the building.
523. Subsections (4) and (5) exempt from the operation of this section: any building which is also a scheduled monument, any exempt religious building (defined in section 156) and interests in Crown land (defined in section 207), except as specified.
524. Subsection (6) applies the 1981 Act to an acquisition under this section. The 1981 Act provides for compulsory acquisitions of land to be authorised by compulsory purchase orders and sets out the procedures for making those orders. They include provision for notice to be given of orders, for the consideration of objections, and for orders made by local authorities to be confirmed by Ministers.
525. Section 138(1) provides that an acquiring authority may not serve notice of an intended compulsory acquisition under the 1981 Act – the start of the formal process for compulsory acquisition – unless a “repairs notice” has been served on every owner of the building in question and two months have passed.

526. O dan is-adran (2), rhaid i hysbysiad atgyweirio bennu'r gwaith y mae'r awdurdod yn ystyried ei fod yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer diogelu'r adeilad yn briodol. Gallai'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad atgyweirio fod y math o waith sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelu'r adeilad yn y cyflwr yr oedd ar y dyddiad y cafodd ei restru, yn hytrach nag ar ddyddiad yr hysbysiad. Mae cyflwyno'r hysbysiad yn rhoi cyfle olaf i bob perchennog i gymryd camau rhesymol ar gyfer diogelu'r adeilad ac achub y blaen rhag i'r broses caffael yn orfodol gael ei gweithredu.
527. Mae is-adran (2) hefyd yn darparu bod rhaid i'r hysbysiad atgyweirio egluro effaith adrannau 137 i 141 o'r Ddeddf ac adran 49 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Effaith adran 49 yw y tybir, wrth gyfrifo digollediad, y byddai cydsyniad adeilad rhestredig yn cael ei roi ar gyfer unrhyw waith ar gyfer addasu neu estyn yr adeilad neu ar gyfer ei ddymchwel o dan amgylchiadau penodol. Bydd y dybiaeth hon yn gymwys yn ogystal â'r darpariaethau cyffredinol ynghylch asesu digollediad yn Neddf 1961. Fodd bynnag, rhaid i'r hysbysiad atgyweirio hefyd egluro'r posibilrwydd y bydd digollediad isafol yn cael ei dalu o dan adran 141 os caniatwyd i adeilad fynd i gyflwr gwael yn fwriadol.
528. Pan fo hysbysiad atgyweirio yn cael ei gyflwyno i berchennog, mae adran 111(5) yn gwahardd y perchennog rhag cyflwyno hysbysiad prynu i'r awdurdod am dri mis neu, os dechreuir achos prynu gorfodol o fewn y cyfnod o dri mis hwnnw, ar unrhyw adeg hyd nes bod yr achos wedi ei gwblhau.

Adran 139 – Cais i stopio caffaeliad gorfodol

529. Pan fydd gorchymyn prynu gorfodol ar gyfer caffael adeilad rhestredig wedi cael ei wneud gan awdurdod cynllunio (ond heb ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru eto) neu wedi cael ei lunio ar ffurf drafft gan Weinidogion Cymru (ond na roddwyd effaith iddo eto), mae adran 139 yn caniatáu i unrhyw un â buddiant yn yr adeilad wneud cais i lys ynadon am orchymyn i atal cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r gorchymyn prynu gorfodol. (is-adran (2)).
530. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i'r cais gael ei wneud o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y cyflwynir hysbysiad caffael yn orfodol o dan Ddeddf 1981. Byddai'r cais yn cael ei wneud ar y sail bod camau rhesymol wedi cael eu cymryd i ddiogelu'r adeilad rhestredig yn briodol, ac mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ynadon wneud y gorchymyn y gwnaed cais amdano os yw wedi ei fodloni bod camau o'r fath wedi cael eu cymryd. Gellir gwneud apêl i Lys y Goron yn erbyn penderfyniad y llys ynadon (is-adran (5)).

526. Under subsection (2), a repairs notice must specify the works the authority considers reasonably necessary for the proper preservation of the building. The works specified in the repairs notice might be those necessary for the preservation of the building in the state in which it was at the date of listing, rather than at the date of the notice. The service of the notice provides a final opportunity for every owner to take reasonable steps for the building's preservation and forestall the compulsory acquisition process.
527. Subsection (2) also provides that the repairs notice must explain the effect of sections 137 to 141 of the Act and section 49 of the 1990 Listed Buildings Act. The effect of section 49 is that when calculating compensation it will be assumed that listed building consent would be granted for any works for the alteration or extension of the building or for its demolition under certain circumstances. This assumption will apply in addition to the general provisions about assessing compensation in the 1961 Act. However, the repairs notice will also need to explain the possibility of the payment of minimum compensation under section 140 if a building has been deliberately allowed to fall into disrepair.
528. Where a repairs notice is served on an owner, section 111(5) bars the owner from serving a purchase notice on the authority for three months or, if compulsory purchase proceedings are started within that three-month period, at any time until they are concluded.

Section 139 – Application to stop compulsory acquisition

529. When a compulsory purchase order for the acquisition of a listed building has been made by a planning authority (but not yet confirmed by the Welsh Ministers) or prepared in draft by the Welsh Ministers (but not yet put into effect), section 139 permits anyone with an interest in the building to apply to a magistrates' court for an order to halt further progress on the compulsory purchase (subsection (2)).
530. Subsection (3) provides that the application must be made within 28 days after the day notice of the compulsory acquisition is served under the 1981 Act. The application would be made on the ground that reasonable steps had been taken for properly preserving the listed building, and subsection (4) requires the magistrates' court to make the applied for order if it is satisfied that such steps have been taken. An appeal against the magistrates' court decision can be made to the Crown Court (subsection (5)).

Adran 140 – Cyfarwyddyd ar gyfer digollediad isafol pan ganiatawyd i adeilad fynd i gyflwr gwael yn fwriadol

Adran 141 – Cais i ddileu cyfarwyddyd ar gyfer digollediad isafol

531. Os yw awdurdod caffael yn ystyried y caniatwyd i adeilad rhestredig fynd i gyflwr gwael yn fwriadol at ddiben cyfiawnhau ei ddymchwel a datblygu'r safle neu unrhyw safle cydffiniol, o dan adran 140 caiff gorchymyn prynu gorfodol mewn perthynas â'r adeilad gynnwys cyfarwyddyd ar gyfer digollediad isafol. Effaith y cyfarwyddyd yw y caiff y digollediad sy'n daladwy ar gyfer difrod neu golled a achosir gan y caffaeliad ei asesu ar y sail na fyddai caniatâd cynllunio na chydsyniad adeilad rhestredig yn cael ei roi ac eithrio ar gyfer y gwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer cadwraeth yr adeilad a'i gynnal a'i gadw mewn cyflwr priodol, ac nid ar gyfer unrhyw waith i ddatblygu'r safle. Byddai hyn yn atal unrhyw werth datblygu sy'n perthyn i'r adeilad /y tir rhag cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad digolledu.
532. Yn unol ag adran 210, y diffiniad o "datblygiad" sy'n gymwys i'r Ddeddf hon yw'r diffiniad yn adran 55 o Ddeddf Cynllunio 1990. Mae wedi ei eirio yn eang ac mae'n cynnwys unrhyw weithrediadau adeiladu neu weithrediadau eraill (gan gynnwys dymchwel ac ailadeiladu) ac unrhyw newid sylweddol yn y defnydd o dir.
533. Mae adran 141 yn caniatáu i unrhyw berson a chanddo fuddiant mewn adeilad rhestredig y mae cyfarwyddyd ar gyfer digollediad isafol wedi ei wneud mewn perthynas ag ef wneud cais i lys ynadon am orchymyn i ddileu'r cyfarwyddyd. Byddai'r cais yn cael ei wneud ar y sail na chaniatawyd i'r adeilad fynd i gyflwr gwael yn fwriadol at ddiben cyfiawnhau ei ddymchwel a datblygu'r safle. Rhaid gwneud y gorchymyn o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y cafodd yr hysbysiad caffael yn orfodol ei gyflwyno. Gellir gwneud apêl i Lys y Goron yn erbyn penderfyniad y llys ynadon.

Adran 142 – Dod â hawliau dros dir a gaffaelwyd yn orfodol i ben

534. Mae adran 142(1) yn darparu bod yr holl hawliau tramwy preifat dros y tir a'r holl hawliau i gadw cyfarpar sydd wedi ei osod ar y tir yn dod i ben wrth i gaffaeliad gorfodol ar dir o dan adran 137 gael ei gwblhau. At hynny, mae'r awdurdod caffael yn cael hawlogaeth i unrhyw gyfarpar ar y tir, odano neu drosto.
535. Mae is-adran (2), fodd bynnag, yn gwneud eithriadau pwysig yn yr achosion hynny pan fo'r hawl neu'r cyfarpar:
- yn perthyn i ymgwymerwr statudol,
 - wedi ei roi neu ei osod at ddibenion rhwydwaith cod cyfathrebu electronig, neu
 - wedi ei bennu mewn cyfarwyddyd a roddir gan yr awdurdod caffael.
536. Mae is-adran (3) yn darparu bod is-adran (1) hefyd yn ddarostyngedig i unrhyw gytundeb rhwng y partion.
537. Mae is-adrannau (4) a (5) yn darparu bod gan berson sy'n dioddef colled drwy ddileu hawl neu drosglwyddo cyfarpar hawlogaeth i ddigollediad gan yr awdurdod caffael, a bennir yn unol â Deddf 1961.

Section 140 – Direction for minimum compensation where building deliberately allowed to fall into disrepair

Section 141 – Application for removal of direction for minimum compensation

531. If an acquiring authority considers that a listed building has been deliberately allowed to fall into disrepair for the purpose of justifying its demolition and the development of the site or any adjoining site, under section 140 a compulsory purchase order relating to the building may contain a direction for minimum compensation. The effect of the direction is that the compensation payable for damage or loss caused by the acquisition will be assessed on the basis that planning permission and listed building consent would only be granted for the works which are necessary for the conservation of the building and its maintenance in a proper state of repair, and not for any development of the site. This would prevent any development value of the building/land from being considered as part of the compensation assessment.
532. According to section 210, the definition of “development” that applies to this Act is the definition in section 55 of the 1990 Planning Act. It is broadly framed and includes any building or other operations (including demolition and rebuilding) and any material change in the use of land.
533. Section 141 allows any person with an interest in a listed building in relation to which a direction for minimum compensation has been made to apply to a magistrates’ court for an order for the direction to be removed. The application would be made on the ground that the building had not been deliberately allowed to fall into disrepair for the purpose of justifying its demolition and the development of the site. The application must be made within 28 days after the day of the service of the compulsory acquisition notice. An appeal against the decision of the magistrates’ court can be made to the Crown Court.

Section 142 – Ending of rights over land acquired compulsorily

534. Section 142(1) provides that, on the completion of a compulsory acquisition of land under section 137, all private rights of way over the land and all rights to keep apparatus installed on the land cease. Moreover, the acquiring authority becomes entitled to any apparatus on, under or over the land.
535. Subsection (2), however, makes important exceptions in those cases where the right or apparatus is:
- a. a statutory undertaker’s,
 - b. conferred or installed for the purposes of an electronic communications code network, or
 - c. specified in a direction given by the acquiring authority.
536. Subsection (3) provides that subsection (1) is also subject to any agreement between the parties.
537. Subsections (4) and (5) provide that a person who suffers loss by the ceasing of a right or the transfer of apparatus is entitled to compensation from the acquiring authority, determined in accordance with the 1961 Act.

Adran 143 – Rheoli, defnyddio a gwaredu adeilad a gaffaelir o dan y Bennod hon

538. Mae adran 143 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli, defnyddio a gwaredu adeiladau a gaffaelir o dan y Bennod hon. Mae is-adran (1) yn gwneud darpariaeth ynghylch adeilad neu dir arall a gaffaelir gan awdurdod cynllunio o dan y Bennod hon – pa un ai drwy gytundeb neu drwy ei gaffael yn orfodol. Caiff yr awdurdod wneud unrhyw drefniadau ar gyfer rheoli, defnyddio neu waredu'r adeilad neu'r tir y mae'n ystyried eu bod yn briodol at ddiben diogelu'r adeilad neu'r tir. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas ag adeilad neu dir a gaffaelir yn orfodol gan Weinidogion Cymru, ond mae'n caniatáu iddynt wneud "unrhyw drefniadau y maent yn ystyried eu bod yn briodol ar gyfer rheoli'r adeilad neu'r tir, gwarchodaeth ohono neu'r defnydd ohono" neu waredu neu ymdrin â'r adeilad neu'r tir mewn unrhyw ffordd arall.
539. Mae nifer o opsiynau ar gael i awdurdod sy'n caffael adeilad o dan y Bennod hon. O dan y trefniant symlaf, byddai'r awdurdod yn prynu'r adeilad, yn cyflawni'r atgyweiriadau gofynnol a naill ai yn defnyddio'r adeilad at ei ddibenion ei hun neu yn ei werthu i berchennog newydd. Fel arall, gallai'r awdurdod ei werthu heb ei atgyweirio, ar yr amod y byddai'n cael ei atgyweirio. Ar gyfer adeiladau mwy neu adeiladau mwy cymhleth, gallai'r awdurdod caffael sefydlu cytundeb cefn wrth gefn ("back-to-back"), gyda pherchnogaeth yr adeilad yn trosglwyddo o bosibl i ymddiriedolaeth diogelu adeilad neu gorff elusennol arall a sefydlir â'r nod penodol o sicrhau cadwraeth yr adeilad a gaffaelwyd.

Adran 144 – Gwaith brys i ddiogelu adeilad rhestredig

540. Mae is-adran 144(1) i (4) yn galluogi awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i gyflawni gwaith y maent yn ystyried ei fod yn angenrheidiol ar frys ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig. Gall hyn gynnwys gwaith i adeilad sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben preswyl, ar yr amod nad yw'n ymyrryd yn afresymol â'r defnydd hwnnw. Gallai gwaith brys o'r fath gynnwys:
- a. gwaith cymharol fân i atal adeilad rhag dirywio a dileu'r angen am waith ar raddfa fwy yn nes ymlaen
 - b. gwaith i gysgodi neu ategu adeilad dros dro i'w ddiogelu rhag y tywydd neu rhag cwmpo
 - c. gweithredoedd i atal fandaliaeth neu ddwyn.
541. Gwaith tymor byr yw gwaith brys yn aml, â'r nod o ganiatáu amser i ddatblygu cynlluniau cadwraeth hirdymor ar gyfer adeilad a chytuno arnynt.
542. Mae is-adrannau (5) a (6) yn darparu bod rhaid rhoi o leiaf 7 niwrnod o rybudd ysgrifenedig i bob perchennog ar yr adeilad rhestredig ac i bob meddiannydd (os yw unrhyw ran o'r adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddiben preswyl) cyn i unrhyw waith brys gael ei gyflawni. Rhaid i'r rhybudd hwn gynnwys disgrifiad o'r gwaith y cynigir ei gyflawni.

Section 143 – Management, use and disposal of building acquired under this Chapter

538. Section 143 makes provision for the management, use and disposal of buildings acquired under this Chapter. Subsection (1) makes provision about a building or other land acquired by a planning authority under this Chapter – whether by agreement or by compulsory acquisition. The authority may make any arrangements for the management, use or disposal of the building or land that it considers appropriate for the purpose of preserving the building or land. Subsection (3) makes similar provision in relation to a building or land acquired compulsorily by the Welsh Ministers, but permits them to make “any arrangements that they consider appropriate for the management, custody or use of the building or land” or dispose or deal with the building or land in any other way.
539. There are a number of options available to an authority acquiring a building under this Chapter. In the simplest arrangement, the authority would purchase the building, undertake the required repairs and either use it for its own purposes or sell it to a new owner. Alternatively, the authority could sell it unrepaired subject to a condition for its repair. For larger or more complex buildings, the acquiring authority might establish a “back-to-back” agreement, possibly with ownership passing to a building preservation trust or another charitable body set up with the specific objective to conserve the building that has been acquired.

Section 144 – Urgent works to preserve listed building

540. Section 144(1) to (4) enables local authorities and the Welsh Ministers to carry out works that they consider urgently necessary for the preservation of listed buildings. These may include works to a building that is in residential use as long as it does not interfere unreasonably with that use. Such urgent works might include:
- a. relatively minor works to arrest a building’s decline and remove the need for more extensive work at a later date
 - b. works to provide temporary shelter or support for a building to keep it weatherproof or safe from collapse
 - c. actions to prevent vandalism or theft.
541. Urgent works are often intended to be short-term and designed to allow time to develop and agree long-term conservation plans for a building.
542. Subsections (5) and (6) provide that, prior to any urgent works being carried out, at least 7 days’ written notice must be given to every owner of the listed building and to every occupier (if any part of the building is in residential use). This notice must include a description of the proposed works.

543. Mae is-adran (7) yn pennu na chaiff y pwerau yn yr adran hon eu defnyddio i gyflawni gwaith brys ar: adeilad sydd hefyd yn heneb gofrestredig, yn adeilad crefyddol esempt (fel y'i diffinnir yn adran 156) neu'n adeilad rhestredig ar dir y Goron (fel y'i diffinnir yn adran 207).

Adran 145 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i berchennog dalu costau gwaith diogelu

544. Os aiff awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru i gostau wrth gyflawni gwaith brys i adeilad rhestredig, mae adran 145 yn caniatáu iddynt gyflwyno hysbysiad i unrhyw berchennog ar yr adeilad rhestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog dalu costau'r gwaith.
545. Mae is-adran (2) yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer adennill costau ar gyfer gwariant parhaus mewn perthynas â gwaith sy'n mynd rhagddo i ategu neu gysgodi adeilad. Gallai fod angen gwariant o'r fath, er enghraifft, i dalu am logi sgaffaldiau a chodi dalennau i ddiogelu adeilad rhag y tywydd wrth i gynlluniau hirdymor gael eu cadarnhau.
546. O dan is-adran (3), caiff perchennog, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y mae hysbysiad costau yn cael ei gyflwyno, gwyno yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru:
- bod rhywfaint neu'r cyfan o'r gwaith yn ddiangen ar gyfer diogelu'r adeilad rhestredig;
Byddai'n rhaid i'r perchennog allu dangos bod y gwaith a gyflawnwyd y tu hwnt i'r hyn yr oedd ei angen ar gyfer ategu neu gysgodi'r adeilad rhestredig dros dro neu ar gyfer ei ddiogelu ar unwaith, er enghraifft ei fod yn cynnwys gwaith rhagofalol neu ataliol nad oedd wir ei angen.
 - bod trefniadau i ategu neu gysgodi dros dro wedi parhau am gyfnod afresymol o amser;
Er enghraifft, efallai y byddai perchennog yn cwyno am wariant parhaus ar gyfer sgaffaldiau a deunyddiau eraill ar gyfer gwaith ategu a chysgodi dros dro pe na bai ateb mwy parhaol ar gyfer adeilad rhestredig yn dilyn gwaith brys.
 - bod y swm a bennwyd i'w adennill yn afresymol; neu
 - y byddai adennill y swm yn achosi caledi i'r perchennog.
547. Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod sail dda i'r gwyn, caniateir iddynt, o dan is-adran (5), leihau'r swm y caniateir ei adennill, neu hyd yn oed benderfynu na chaniateir adennill unrhyw swm o gwbl, os oedd yr holl waith yn ddiangen.
548. O dan is-adran (6), caniateir i berchennog neu awdurdod lleol y cyflwynir hysbysiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru iddo wneud apêl i lys sirol o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y mae'r hysbysiad yn cael ei gyflwyno.

543. Subsection (7) establishes that the powers in this section may not be used to carry out urgent works on: an building which is also a scheduled monument, an exempt religious building (defined in section 156) or a listed building on Crown land (defined in section 207).

Section 145 – Power to require owner to meet costs of preservation works

544. If a local authority or the Welsh Ministers incur costs in undertaking urgent works to a listed building, section 145 allows them to serve a notice on any owner of the listed building requiring the owner to meet the costs of the works.

545. Subsection (2) makes specific provision for the recovery of costs for continuing expenditure involved in ongoing works to provide temporary support or shelter. Such expenditure might be required, for example, to pay for the hire of scaffolding and sheeting erected to keep a building weatherproof while long-term conservation plans are finalised.

546. Under subsection (3), an owner may, within 28 days after the day a notice of costs is served, complain in writing to the Welsh Ministers that:

- a. some or all of the works were unnecessary for the preservation of the listed building;

The owner would have to be able to show that the works undertaken went beyond those needed for temporary support or shelter or the immediate preservation of the listed building, for instance that they incorporated precautionary or preventative works that were not strictly necessary.

- b. temporary arrangements to provide support or shelter have continued for an unreasonable length of time;

For instance, an owner might complain about continuing expenditure on scaffolding and other materials used to provide temporary support and shelter if a more permanent solution for a listed building did not follow urgent works.

- c. the amount specified for recovery is unreasonable; or

- d. the recovery of the amount would cause hardship to the owner.

547. Should the Welsh Ministers determine that the complaint is well-founded, they may, under subsection (5), reduce the amount that may be recovered or even decide that nothing may be recovered, if all the works were unnecessary.

548. Under subsection (6), an owner or local authority on whom a notice of the Welsh Ministers' determination is served may appeal to the county court within 28 days after the day the notice is served.

Adran 146 – Darpariaeth bellach ynghylch adennill costau gwaith diogelu

549. Mae adran 146 yn gwneud darpariaeth ychwanegol ynghylch adennill costau, yr eir iddynt wrth gyflawni gwaith brys, gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru. Yn ymarferol, gall y broses o adennill costau ddigwydd dros gyfnod estynedig, felly mae is-adran (1) yn darparu bod unrhyw symiau adenilladwy yn dwyn llog ar gyfradd a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Caiff llog ei gymhwyso o'r amser y mae'r hysbysiad sy'n ei wneud yn ofynnol i'r perchennog dalu costau'r gwaith brys o dan adran 145(1) yn dod yn weithredol (is-adran (7)) hyd nes y caiff yr holl symiau sy'n ddyledus eu hadennill gan yr awdurdod perthnasol.
550. O dan is-adran (2), mae'r costau ac unrhyw log yn adenilladwy fel dyled. Felly gallai awdurdod lleol neu, yn ôl y digwydd, Weinidogion Cymru, ddefnyddio pob dull sydd ar gael ar gyfer adennill dyled, gan gynnwys gwneud hawliad yn y llys sirol.
551. At hynny, o'r amser y mae'r hysbysiad o dan adran 145(1) yn dod yn weithredol, mae'r costau ac unrhyw log a gronnwyd yn dod yn bridiant ar y tir y mae'r adeilad rhestredig arno. Mae hwn yn bridiant cyfreithiol – dyled sydd wedi'i sicrhau gan yr eiddo – ac yn bridiant tir lleol a bydd yn parhau yn ei le hyd nes y caiff y costau a'r llog eu hadennill yn gyfan gwbl (is-adrannau (3) a (4)).
552. At ddibenion gorfodi'r pridiant, mae is-adran (5) yn rhoi i'r awdurdod sy'n adennill yr un pwerau a rhwymedïau â morgeisai drwy weithred o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 (p. 20) ("Deddf 1925"). Caiff yr awdurdod benodi derbynnydd os oes un mis neu ragor wedi mynd heibio ers i'r pridiant gymryd effaith. Mae gan yr awdurdod sy'n adennill bwerau hefyd i lesio neu werthu tir er mwyn adennill symiau, ond prin y mae mesurau o'r fath yn debygol o gael eu defnyddio.

Adran 147 – Camau ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael

553. Mae adran 147 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi pwerau i awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru i gymryd camau ar gyfer diogelu'n briodol adeiladau rhestredig sydd wedi mynd i gyflwr gwael. Mae is-adran (2) yn caniatáu i reoliadau wneud darpariaeth benodol ar gyfer "hysbysiadau diogelu" sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion ymgymryd â gwaith penodedig i sicrhau bod adeiladau o'r fath yn cael eu diogelu'n briodol. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau diogelu ac ar gyfer troseddau am fethu â chydymffurfio â'r hysbysiadau.
554. Mae paragraff 186 o Atodlen 13 (mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiaid) yn diwygio Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008 (p. 13) ("Deddf Gorfodi Rheoleiddiol 2008") fel y gellir gosod sanctsiynau sifil mewn perthynas â throseddau mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon. Y math o sanctsiynau sifil y caniateir eu gosod yw'r rheini a welir yn Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol 2008, er enghraifft, cosbau ariannol penodedig neu hysbysiadau sy'n gosod gofynion i gymryd camau penodedig.

Section 146 – Further provision about recovery of costs of preservation work

549. Section 146 makes additional provision about the recovery of costs incurred by a local authority or the Welsh Ministers in undertaking urgent works. The recovery of costs may, in practice, prove to be a protracted process, so subsection (1) provides that any recoverable sums carry interest at a rate specified in regulations made by the Welsh Ministers. Interest is applied from the time the notice requiring the owner to meet the costs of urgent works under section 145(1) becomes operative (subsection (7)) until all outstanding amounts are recovered by the relevant authority.
550. Under subsection (2), the costs and any interest are recoverable as a debt. A local authority, or, as the case may be, the Welsh Ministers, would, therefore, be able to employ all available mechanisms for the recovery of a debt, including a claim in the county court.
551. Furthermore, from the time the section 145(1) notice becomes operative, the costs and any accrued interest become a charge on the land on which the listed building stands. This is a legal charge – a debt secured by the property – and a local land charge and will remain in place until the costs and interest are entirely recovered (subsections (3) and (4)).
552. For the purposes of enforcing the charge, subsection (5) gives the recovering authority the same powers and remedies as a mortgagee by deed under the Law of Property Act 1925 (c. 20). The authority may appoint a receiver if one month or more has passed since the charge took effect. The recovering authority also has powers to lease or sell land to recover sums, but such measures are likely to be rarely used.

Section 147 – Steps for preservation of listed buildings in disrepair

553. Section 147 enables the Welsh Ministers to make regulations to confer power on local authorities or the Welsh Ministers to take steps for the proper preservation of listed buildings that have fallen into disrepair. Subsection (2) allows the regulations to make particular provision for “preservation notices” requiring owners to undertake specified works to secure the proper preservation of such buildings. The regulations may also make provision for appeals against preservation notices and offences for failure to comply with the notices.
554. Paragraph 186 of Schedule 13 (minor and consequential amendments and repeals) amends the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 (c. 13) (“the 2008 Regulatory Enforcement Act”) to enable civil sanctions to be imposed in respect of offences in regulations made under this section. The kinds of civil sanctions that may be imposed are those contained in Part 3 of the 2008 Regulatory Enforcement Act, for example, fixed monetary penalties or notices imposing requirements to take specified steps.

Adran 148 – Grant neu fenthyciad gan awdurdod lleol ar gyfer atgyweirio neu gynnal a chadw adeilad

Adran 149 – Adennill grant a roddir gan awdurdod lleol

555. Mae adran 148 yn galluogi cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, awdurdod Parc Cenedlaethol neu fwrdd cydgynllunio (y cyfeirir atynt ar y cyd yn yr adran hon fel awdurdodau lleol perthnasol) i gynnig cymorth ariannol at wariant yr aed iddo neu a gynllunnir wrth atgyweirio neu gynnal a chadw adeiladau hanesyddol a gerddi cysylltiedig. O dan y diffiniad yn adran 210, caiff adeilad at ddibenion adran 148 gynnwys cyfarpar neu beiriannau sy'n ffurfio rhan o'r strwythur.
556. O dan is-adran (1), caiff awdurdod lleol perthnasol gyfrannu tuag at unrhyw wariant ar gyfer atgyweirio neu gynnal a chadw adeilad rhestredig yn ardal ei awdurdod neu'n agos ati neu ar gyfer atgyweirio neu gynnal a chadw adeilad yn ardal ei awdurdod nad yw'n rhestredig ond y mae'r awdurdod yn ystyried ei fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae is-adran (2) yn caniatáu ymhellach i awdurdod estyn unrhyw gyllid i gynnwys cyfraniad at gynnal a chadw gardd sy'n gysylltiedig ag adeilad hanesyddol.
557. Mae is-adran (3) yn caniatáu i gyfraniad o dan yr adran hon gael ei wneud drwy grant neu fenthyciad. Mae is-adrannau (4) a (6) yn darparu y caiff awdurdod lleol perthnasol roi benthyciadau a grantiau yn ddarostyngedig i amodau. Er enghraifft, gallai'r awdurdod osod amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu rhyw fath o fynediad i'r cyhoedd i'r adeilad a/neu ardd gysylltiedig.
558. Mae adran 149 yn darparu y caiff awdurdod lleol perthnasol adennill swm y grant, neu unrhyw ran ohono (is-adran (2)), os na chydymffurfir ag amod grant a roddwyd gan yr awdurdod o dan adran 148.
559. Mae is-adrannau (3) i (5) yn darparu y caiff awdurdod lleol perthnasol adennill y grant cyfan neu ran ohono, os bydd derbynnydd y grant yn gwaredu'r cyfan neu ran o'r buddiant sydd ganddo yn yr eiddo o fewn 3 blynedd i'r diwrnod y rhoddwyd y grant.
560. Gellid defnyddio'r pwerau adennill hyn, er enghraifft, pe bai gwerth adeilad yn cynyddu o ganlyniad i waith a gyllidir gan y grant, a bod derbynnydd y grant wedyn yn gwerthu'r adeilad er mwyn elwa ar hynny.

Adran 150 – Grant gan Weinidogion Cymru ar gyfer atgyweirio neu gynnal a chadw adeilad, gardd etc.

561. Mae adran 150(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi grantiau tuag at wariant yr aed iddo, neu yr eir iddo, wrth:
- atgyweirio neu gynnal a chadw adeilad y maent yn ystyried ei fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig;
Er y caniateir i'r adeilad gael ei restru, nid yw'n ofynnol. Nid oes ond angen i Weinidogion Cymru gael eu bodloni bod yr adeilad o "diddordeb pensaernïol neu hanesyddol".
 - cynnal a chadw unrhyw dir sy'n gysylltiedig â'r adeilad;
Bydd hyn yn caniatáu i grantiau helpu i gynnal a chadw tir sy'n gysylltiedig ag adeilad at ddibenion megis mynediad neu ddarparu amwynderau.

Section 148 – Grant or loan by local authority for repair or maintenance of building

Section 149 – Recovery of grant made by local authority

555. Section 148 enables a county or county borough council, a National Park authority or a joint planning board (referred to collectively in this section as relevant local authorities) to offer financial support for incurred or planned expenditure for the repair and maintenance of historic buildings and associated gardens. Under the definition in section 210, a building for the purposes of section 148 may include plant or machinery forming part of the structure.
556. Under subsection (1), a relevant local authority may contribute towards any expenditure for the repair or maintenance of a listed building in or near its authority area or for the repair or maintenance of a building in its authority area that is not listed but that the authority considers to be of special architectural or historic interest. Subsection (2) further permits an authority to extend any funding to include a contribution to the maintenance of a garden associated with a historic building.
557. Subsection (3) allows a contribution under this section to be made by a grant or a loan. Subsections (4) and (6) provide that a relevant local authority may make loans and grants subject to conditions. For example, the authority might set a condition requiring the recipient to provide some form of public access to the building and/or an associated garden.
558. Section 149 provides that where a condition of a grant made by a relevant local authority under section 148 is not complied with, the authority may recover the amount of the grant, or any part of it (subsection (2))
559. Subsections (3) to (5) provide that if the recipient of the grant disposes of all or part of the interest that they have in the property within 3 years of the day on which the grant was made, a relevant local authority may recover all or part of the grant.
560. These recovery powers might be used if, for example, a building's value increases as a result of the grant-funded works, and the grant recipient then sells the building in order to capitalise.

Section 150 – Grant by Welsh Ministers for repair or maintenance of building, garden etc.

561. Section 150(1) enables the Welsh Ministers to make grants towards expenditure incurred, or to be incurred, in:
- a. the repair or maintenance of a building which they consider to be of special architectural or historic interest;
While the building may be listed, it is not required. The Welsh Ministers need only be satisfied that the building is of “special architectural or historic interest” to make a grant.
 - b. the maintenance of any land associated with building;
This will permit grants to support the maintenance of land associated with a building for purposes such as access or the provision of amenities.

- c. atgyweirio neu gynnal a chadw gwrthrychau a gedwir fel arfer mewn adeilad o'r fath; neu
Byddai hyn yn caniatáu ariannu cadwraeth y gwrthrychau a ganfyddir mewn adeilad hanesyddol. Gallai'r rhain amrywio o ffitiadau a dodrefn i addurniadau a darnau o waith celf.
 - d. cynnal a chadw gardd neu dir arall y maent yn ystyried ei bod neu ei fod o ddiddordeb hanesyddol arbennig.
O'i gyferbynnu â pharagraff (b), mae'r gwariant yn y paragraff hwn yn gyfyngedig i gynnal a chadw gardd neu dir arall yr ystyrir ei bod neu ei fod o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Gallai hyn gynnwys tir parc, math arall o dirwedd wedi ei ddylunio neu, efallai, dirwedd ddiwydiannol greiriol sy'n darparu'r lleoliad ar gyfer adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
562. Mae'r darpariaethau sy'n weddill yn yr adran yn gymwys pan fo'r grant o dan is-adran (1) yn cael ei roi ar delerau sy'n darparu y gellir ei adennill. Er mwyn gallu ei adennill rhaid i Weinidogion Cymru, naill ai cyn neu wrth roi'r grant, roi hysbysiad ysgrifenedig i dderbynydd y grant. Rhaid iddynt hefyd bennu "cyfnod adennill" heb fod yn fwy na deng mlynedd ar ôl y diwrnod y rhoddir y grant, y gellir adennill y grant ynddo o dan is-adrannau (4) i (6) (is-adran (2)).
563. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru adennill y grant cyfan, neu unrhyw ran ohono os yw'r derbynydd yn methu â chydymffurfio ag unrhyw amod a osodir ar y grant.
564. Mae is-adrannau (4) i (6) yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i adennill grant cyfan neu ran ohono pe bai'r cyfan neu ran o'r buddiant yr oedd derbynydd y grant yn ei ddal yn yr adeilad, y tir neu'r gwrthrychau y mae'r grant yn ymwneud ag ef neu hwy ar y diwrnod y rhoddwyd y grant yn cael ei waredu yn ystod y cyfnod adennill. Caniateir gwneud y gwarediad drwy werthu, drwy gyfnewid neu drwy les am gyfnod o 21 o flynyddoedd o leiaf.
565. Gellid defnyddio'r pwerau adennill hyn pe bai gwerth adeilad, er enghraifft, yn cynyddu o ganlyniad i waith a wnaed drwy gymorth y grant, a bod derbynydd y grant yn gwerthu'r adeilad wedi hynny er mwyn elwa ar hynny. Mae'r pwerau hyn yn cyfateb i'r rheini a ddarperir ar gyfer awdurdodau lleol yn adran 149(3)-(5)

Adran 151 – Gweinidogion Cymru yn derbyn gwaddol ar gyfer cynnal adeilad

566. Mae adran 151 yn gwneud darpariaeth ynghylch Gweinidogion Cymru yn derbyn rhodd eiddo ar ymddiriedolaeth waddol er mwyn defnyddio'r incwm a ddaw o'r eiddo ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw adeilad y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Rhaid i'r adeilad fod yn adeilad y mae buddiant gan Weinidogion Cymru ynddo, neu y bydd buddiant ganddynt ynddo, neu sydd o dan eu rheolaeth neu'n cael ei reoli ganddynt neu a fydd o dan eu rheolaeth neu'n cael ei reoli ganddynt yn fuan. Yn benodol, mae'r adran yn gwneud darpariaeth ynghylch dilysrwydd y rhodd a'r ymddiriedolaeth, pwerau Gweinidogion Cymru, a'r canlyniadau os yw Gweinidogion Cymru yn peidio â bod â buddiant yn yr adeilad y mae'r ymddiriedolaeth yn ymwneud ag ef, neu os nad yw'r adeilad o dan eu rheolaeth neu'n cael ei reoli ganddynt.

- c. the repair or maintenance of objects ordinarily kept in such a building; or
This would permit the funding of the conservation of objects found in a historic building. These could range from fittings and furniture to ornaments and works of art.
- d. the maintenance of a garden or other land which they consider to be of special historic interest.
In contrast to paragraph (b), the expenditure in this paragraph is limited to the maintenance of a garden or other land considered to be of special historic interest. This might include parkland, some other designed landscape or, perhaps, a relict industrial landscape providing the setting for a building of special architectural or historic interest.

562. The section's remaining provisions apply where the grant under subsection (1) is made on terms which provide for it to be recoverable. In order for it to be recoverable, either before or at the time of making the grant the Welsh Ministers must give notice in writing to the recipient. They must also specify a "recovery period" of no more than ten years after the day the grant is made during which the grant will be recoverable under subsections (4) to (6) (subsection (2)).
563. Subsection (3) provides that the Welsh Ministers may recover all or part of the grant if the recipient fails to comply with any condition imposed on the grant.
564. Subsections (4) to (6) provide the Welsh Ministers with powers to recover all or part of a grant in the event of a disposal during the recovery period of the whole or part of the interest that the grant recipient held in the building, land or objects to which the grant relates on the day that the grant was made. A disposal may be made by sale, by exchange or by lease for a term of at least 21 years.
565. These recovery powers might be used if, for example, a building's value increases as a result of the grant-funded works, and the grant recipient then sells the building in order to capitalise. These powers are equivalent to those provided for local authorities in section 149(3)-(5).

Section 151 – Acceptance by Welsh Ministers of endowment for upkeep of building

566. Section 151 makes provision about the Welsh Ministers accepting a gift of property on endowment trust to use the income from the property for the repair and maintenance of a building which the Welsh Ministers consider to be of special historic or architectural interest. The building must be one in which the Welsh Ministers have or are about to have an interest or which is or is shortly to be under their control or management. In particular, the section makes provision about the validity of the gift and trust, the Welsh Ministers' powers, and the consequences of the Welsh Ministers ceasing to have an interest in, or control or management of, the building to which the trust relates.

Pennod 6 – Cyffredinol

567. Mae Pennod 6 yn darparu pwerau i bersonau sydd wedi eu hawdurdodi gan awdurdodau lleol a chan Weinidogion Cymru i fynd ar dir. Mae adrannau 152 i 155 yn nodi'r pwerau cyffredinol i fynd ar dir, pryd y gellir arfer pŵer mynediad heb warant ac o dan ba amgylchiadau y byddai'n ofynnol cael gwarant.
568. Mae'r Bennod hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud ag adeiladau crefyddol esempt (adran 156). Mae hyn yn adlewyrchu anghenion penodol adeiladau rhestredig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion crefyddol ar hyn o bryd yng Nghymru.
569. Yn olaf, mae'r Bennod yn dehongli termau penodol a ddefnyddir yn Rhan 3 (adran 157).

Adran 152 – Pwerau i fynd ar dir

570. Mae adran 152 yn nodi'r gwahanol amgylchiadau pan gaiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod cynllunio neu awdurdod lleol arall fynd ar dir mewn cysylltiad â Rhan 3 (adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig) a Rhan 4 (ardaloedd cadwraeth) o'r Ddeddf.
571. Mae enghreifftiau o bersonau a awdurdodir gan Weinidogion Cymru yn cynnwys swyddogion Cadw sy'n ymweld ag adeiladau i'w hasesu ar gyfer dynodi neu fonitro eu cyflwr. Er enghraifft, gallai awdurdodau cynllunio awdurdodi swyddogion cynllunio, cadwraeth neu orfodi i fynd ar dir mewn cysylltiad â'u dyletswyddau.
572. Mae adran 152(7) yn caniatáu i swyddog o Swyddfa Brisió Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi neu berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru i fynd ar dir i gynnal arolwg ohono neu i amcangyfrif gwerth y tir mewn perthynas â hawliad am ddigollediad.

Adran 153 – Arfer pŵer i fynd ar dir heb warant

573. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer y pŵer i fynd ar dir o dan adran 152 heb warant. Mae is-adran (1) yn darparu y caniateir i'r pŵer gael ei arfer ar unrhyw adeg resymol.
574. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff person fynd ar dir sydd wedi ei feddiannu wrth arfer y pŵer o dan adran 152 oni bai bod o leiaf 24 awr o rybudd wedi ei roi i bob meddiannydd ar y tir. Mae is-adran (3) yn gwneud eithriad pan fo'r pŵer i fynd ar dir at ddiben penderfynu pa un a ddylid cyflwyno hysbysiad stop dros dro ai peidio, arddangos hysbysiad stop dros dro neu benderfynu pa un a gydymffurfir â hysbysiad stop dros dro ai peidio (o dan adran 152(4)). Dim ond pan fydd awdurdod cynllunio yn ystyried y dylid rhoi terfyn ar waith anawdurdodedig ar adeilad rhestredig ar unwaith y cyflwynir hysbysiad stop dros dro, ac mae dileu'r gofyniad am 24 awr o rybudd yn sicrhau y gellir ymdrin â phob agwedd ar hysbysiad stop dros dro gyda chyn lleied o oedi â phosibl er mwyn cyfyngu ar unrhyw niwed i gymeriad ac arwyddocâd yr adeilad.

Chapter 6 – General

567. Chapter 6 provides powers for persons authorised by local authorities and by the Welsh Ministers to enter land. Sections 152 to 155 set out the general powers to enter land, when a power of entry can be exercised without a warrant and under what circumstances a warrant would be required.
568. The Chapter also includes a provision dealing with exempt religious buildings (section 156). This reflects the particular needs of listed buildings that are currently in use for religious purposes in Wales.
569. Finally, the Chapter provides interpretation for certain terms used in Part 3 (section 157).

Section 152 – Powers to enter land

570. Section 152 sets out the different circumstances when a person authorised in writing by the Welsh Ministers or by a planning authority or other local authority can enter land in association with Part 3 (buildings of special architectural or historic interest) and Part 4 (conservation areas) of the Act.
571. Examples of persons authorised by the Welsh Ministers might be Cadw officers visiting buildings to assess them for designation or monitor their condition. Planning authorities, for instance, might authorise planning, conservation or enforcement officers to enter land in conjunction with their duties.
572. Section 152(7) allows an officer of the Valuation Office of His Majesty's Revenue and Customs or a person authorised in writing by the planning authority or the Welsh Ministers to enter land to survey or estimate the value of the land in connection with a claim for compensation.

Section 153 – Exercise of power to enter land without warrant

573. This section makes provision about the exercise of the power to enter land under section 152 without a warrant. Subsection (1) provides that the power may be exercised at any reasonable time.
574. Subsection (2) provides that a person may not enter land that is occupied in exercise of the power under section 152 unless at least 24 hours' notice has been given to every occupier of the land. Subsection (3) makes an exception where the power to enter land is for the purpose of determining whether to issue a temporary stop notice, to display a temporary stop notice or to determine whether a temporary stop notice is being complied with (under section 152(4)). A temporary stop notice is only issued when a planning authority considers that unauthorised works to a listed building should be stopped immediately and the removal of the requirement for 24 hours' notice ensures that all aspects of a temporary stop notice can be handled with a minimum of delay to limit any harm to the character and significance of the building.

575. Mae is-adran (6) yn darparu y byddai angen i'r person awdurdodedig gael caniatâd y Gweinidog priodol cyn cyflawni unrhyw waith, os bwriedir arfer y pŵer mynediad er mwyn mynd ar dir sy'n perthyn i ymgymerwr statudol (fel y'i diffinnir yn adran 210) a bod yr ymgymerwr statudol yn gwrthwynebugwaith y cynigir ei gyflawni am y bydd yn rhwystro ei allu i gyflawni ei ymgymeriadau. Diffinnir "Gweinidog priodol" drwy gyfeirio at y diffiniad o "appropriate Minister" yn adran 265 o Ddeddf Cynllunio 1990 a gall fod yn Weinidogion Cymru neu Ysgrifennydd Gwladol penodol, yn dibynnu ar yr ymgymerwr.
576. Mae is-adran (7) yn darparu na chaiff person awdurdodedig fynd ar dir y Goron wrth arfer y pŵer mynediad o dan yr adran hon heb ganiatâd awdurdod priodol y Goron, neu berson sydd â hawlogaeth i roi caniatâd. Diffinnir "tir y Goron" yn adran 207(2) a diffinnir "awdurdod priodol y Goron" yn adran 207(6).

Adran 154 – Gwarant i fynd ar dir

577. Mae adran 154 yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff ynad heddwch ddyroddi gwarant sy'n rhoi pŵer i fynd ar dir i berson awdurdodedig at ddiben a grybwyllir yn adran 152. Ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw, rhaid i'r ynad heddwch fod wedi ei fodloni bod sail resymol dros fynd ar dir ac:
- y gwrthodwyd mynediad i'r tir,
 - y disgwyllir yn rhesymol i'r mynediad gael ei wrthod, neu
 - bod yr angen i fynd ar dir yn un brys.
Er enghraifft, gallai fod angen i awdurdod cynllunio gyflawni gwaith i ddiogelu adeilad sydd mewn perygl o gwmpo.
578. Gall y warant roi pwerau mynediad i unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio o dan adran 152 i fynd ar dir at ddiben penodol, ond am un tro yn unig, ac os nad yw'n fater o frys, dim ond ar amser rhesymol. Dim ond am un mis o ddyddiad ei dyroddi y bydd gwarant o dan yr adran hon yn cael effaith.

Adran 156 – Adeiladau crefyddol esempt

579. Mae adran 156 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddynodi adeilad crefyddol a ddefnyddir at ddibenion crefyddol yn "adeilad crefyddol esempt". Effaith dynodi adeilad yn "adeilad crefyddol esempt" yw nad yw darpariaethau canlynol o Ran 3 o'r Ddeddf hon yn gymwys mewn perthynas â'r adeilad:
- adrannau 83 ac 84, sy'n galluogi adeilad i gael ei restru dros dro
 - adran 88, sy'n ei gwneud yn ofynnol i waith sy'n effeithio ar adeilad rhestredig gael ei awdurdodi
 - adran 118, sy'n ei gwneud yn drosedd difrodi adeilad rhestredig yn fwriadol
 - adran 137, sy'n galluogi awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru i gaffael yn orfodol adeilad rhestredig y mae angen ei atgyweirio

575. Subsection (6) provides that if the land in relation to which the power of entry is proposed to be exercised belongs to a statutory undertaker (as defined in section 210) and the statutory undertaker objects to proposed works as they will hamper its ability to carry out its undertakings, the authorised person would need the permission of the appropriate Minister prior to carrying out any works. “Appropriate Minister” is defined in section 265 of the 1990 Planning Act and may be either the Welsh Ministers or a particular Secretary of State depending on the undertaker.
576. Subsection (7) provides that an authorised person may not enter Crown land in exercise of the power of entry under this section without the permission of the appropriate Crown authority, or a person who is entitled to give permission. “Crown land” is defined in section 207(2) and the “appropriate Crown authority” in section 207(6).

Section 154 – Warrant to enter land

577. Section 154 sets out the circumstances in which a justice of the peace may issue a warrant conferring a power to enter land on an authorised person for a purpose mentioned in section 152. On the basis of sworn written information, the justice of the peace must be satisfied that there are reasonable grounds for entering the land and that:
- a. admission to the land has been refused,
 - b. admission is reasonably expected to be refused, or
 - c. the need to enter the land is urgent.
A planning authority, for example, might need to undertake works to secure a building at risk of collapse.
578. The warrant can confer powers of entry on any person who is authorised in writing by the Welsh Ministers or a planning authority under section 152 to enter land for a particular purpose, but only for one occasion and, unless the case is a matter of urgency, only at a reasonable time. A warrant under this section will only have effect for one month from its date of issue.

Section 156 – Exempt religious buildings

579. Section 156 enables the Welsh Ministers to make regulations to recognise a religious building used for religious purposes as an “exempt religious building”. The effect of recognising an “exempt religious building” is that the following provisions of Part 3 of this Act do not apply in relation to the building:
- a. sections 83 and 84, which enable the temporary listing of a building
 - b. section 88, which requires works affecting a listed building to be authorised
 - c. section 118, which makes it an offence to intentionally damage a listed building
 - d. section 137, which enables a planning authority or the Welsh Ministers to compulsorily acquire a listed building in need of repair

- e. adran 144, sy'n galluogi'r awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru i gyflawni gwaith brys sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelu adeilad rhestredig.
580. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae tua 2,000 o adeiladau crefyddol wedi cael eu rhestru yng Nghymru o dan y darpariaethau a nodir yn adran 76, er nad yw'r esemptiad yn berthnasol i bob un ohonynt. Fodd bynnag, pan fo'r esemptiad yn berthnasol, mae'r darpariaethau sy'n ymwneud ag esemptiad crefyddol yn adlewyrchu anghenion penodol adeiladau rhestredig sy'n cael eu defnyddio fel manau addoli, ond maent hefyd yn cydnabod yr angen i gynnal lefel briodol o ddiogelu sydd o leiaf yn gyfartal â'r hyn a roddir i adeiladau anghrefyddol.
581. Mae is-adran (3)(a) yn darparu y caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddynodi adeiladau penodol neu adeiladau o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau (a chaniateir pennu disgrifiad o adeiladau drwy gyfeirio at ffydd grefyddol neu enwad crefyddol, defnydd a wneir o'r adeiladau, neu unrhyw amgylchiad arall).
582. Pan fo enwadau crefyddol a grwpiau ffydd yng Nghymru yn gallu dangos eu bod wedi sefydlu, neu y byddant yn sefydlu, prosesau cadwraeth digon cadarn a thryloyw ar gyfer rheoli newidiadau sy'n effeithio ar adeiladau crefyddol rhestredig, gall fod yn bosibl dynodi adeiladau penodol a ddefnyddir gan yr enwadau a'r grwpiau ffydd hynny at ddibenion crefyddol yn adeiladau esempt. Caiff unrhyw enwad neu grŵp ffydd gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru os yw am gael ei ystyried ar gyfer esemptiad o'r fath.
583. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r enwadau a'r grwpiau ffydd a ganlyn wedi gallu dangos hyn er boddhad Gweinidogion Cymru:
- a. Undeb Bedyddwyr Cymru ac Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr
 - b. yr Eglwys yng Nghymru
 - c. Eglwys Loegr
 - d. yr Eglwys Fethodistaidd
 - e. yr Eglwys Gatholig.
584. Mae is-adran (3)(b) yn darparu y caiff y rheoliadau ddynodi adeilad crefyddol cyfan neu ran ohono yn esempt (felly caiff y esemptiad fod yn gymwys i rai rhannau o'r adeilad ond ddim i rannau eraill ohono).
585. Mae is-adran (3)(c) yn darparu y caiff y rheoliadau bennu mai dim ond mathau penodol o waith sy'n esempt rhag y gofyniad i gael cydsyniad adeilad rhestredig. Caiff y rheoliadau bennu natur y gwaith ei hun neu bennu gwaith drwy gyfeirio at y person sy'n cyflawni'r gwaith. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau bennu na fydd unrhyw waith a gyflawnir gan drydydd partïon yn gymwys ar gyfer yr esemptiad. Yn y ffordd hon, gallai fod angen i ddarparwr gwasanaethau sy'n codi mast telathrebu ar dŵr eglwys gael awdurdodiad gan yr awdurdod cynllunio perthnasol drwy gydsyniad adeilad rhestredig. Byddai angen i unrhyw newidiadau y tu allan i gwmpas yr esemptiad gael eu hawdurdodi drwy'r system cydsyniad adeilad rhestredig arferol (adran 89).

- e. section 144, which enables the local authority or the Welsh Ministers to carry out urgent works necessary for the preservation of a listed building.
580. At the time of writing these notes, approximately 2,000 religious buildings have been listed in Wales under the provisions set out in section 76, although not all of these are covered by the exemption. However, where they are covered, the provisions relating to religious exemption reflect the particular needs of listed buildings in use as places of worship, but recognise the need to maintain an appropriate level of protection which is at least equivalent to that given to non-religious buildings.
581. Subsection (3)(a) provides that regulations under this section may recognise particular buildings or buildings of a description specified in the regulations (and a description of buildings may be specified by reference to a religious faith or denomination, a use made of the buildings, or any other circumstance).
582. Where religious denominations and faith groups in Wales are able to demonstrate that they have established, or will establish, sufficiently robust and transparent conservation processes for managing change affecting listed religious buildings, it may be possible to identify particular buildings used by those denominations and faith groups for religious purposes as being exempt. Any denomination or faith group may make representations to the Welsh Ministers if they wish to be considered for such an exemption.
583. At the time of writing these notes, the following denominations and faith groups have been able to demonstrate this to the satisfaction of the Welsh Ministers:
- a. the Baptist Unions of Great Britain and Wales
 - b. the Church in Wales
 - c. the Church of England
 - d. the Methodist Church
 - e. the Roman Catholic Church.
584. Subsection (3)(b) provides that the regulations may designate as exempt all or part of a religious building (so the exemption may apply to some parts of a building but not to others).
585. Subsection (3)(c) provides that the regulations may specify that only particular types of works are exempt from the requirement for listed building consent. The regulations may specify the nature of the works themselves or specify works by reference to the person by whom the works are carried out. For example, the regulations could stipulate that any work undertaken by third parties might not qualify for the exemption. In this way a service provider erecting a telecommunications mast on a church tower might need authorisation from the relevant planning authority by listed building consent. Any changes that fall outside the scope of the exemption would need to be authorised through the usual system of listed building consent (section 89).

586. Mae adran 156(2) yn ei gwneud yn glir, at ddibenion yr esemptiad rhag gwneud cydsyniad adeilad rhestredig yn ofynnol, nad yw'r ffaith nad yw adeilad yn cael ei ddefnyddio tra bo gwaith yn cael ei gyflawni (e.e. yn ystod gwaith cadwraeth mawr) yn atal yr adeilad rhag cael ei ystyried yn adeilad "a ddefnyddir at ddibenion crefyddol" cyn belled ag y byddai'n cael ei ddefnyddio at y dibenion hynny oni bai am y gwaith hwnnw.
587. Mae is-adran (4)(a) yn darparu bod cyfeiriadau yn yr adran hon at adeilad crefyddol yn cynnwys unrhyw wrthrych neu strwythur artiffisial sy'n sownd wrth yr adeilad, neu sydd o fewn cwrttil yr adeilad. Mae hyn yn golygu y gallai rhai strwythurau nad ydynt wedi eu rhestru yn eu rhinwedd eu hunain ddod o fewn cwmpas yr esemptiad crefyddol ar yr amod eu bod o fewn cwrttil yr adeilad rhestredig. Gallai'r rhain gynnwys pyrth mynwentydd, waliau terfyn, cofebion, festrioeedd ac ysgoldai. Fodd bynnag, os oes heneb gofrestredig o fewn cwrttil adeilad crefyddol esempt, bydd yn ofynnol cael cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer unrhyw waith ar yr heneb honno.
588. O dan is-adran (4)(b), nid ystyrir bod adeiladau sy'n cael eu defnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel preswylfeydd gan weinidogion crefydd, yn adeiladau crefyddol at ddibenion yr adran hon. Felly nid yw'r esemptiad yn berthnasol i waith i'r adeiladau hyn. Pan fo adeilad preswyl yn gysylltiedig â man addoli rhestredig (er enghraifft, tŷ offeiriad sy'n gysylltiedig ag eglwys Gatholig, neu dŷ gweinidog sy'n gysylltiedig â chapel), bydd angen cael cydsyniad adeilad rhestredig gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer gwaith i'r adeilad preswyl.
589. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau arferion gorau anstatudol sy'n cael eu hadolygu'n gyson, er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli adeiladau crefyddol rhestredig. Mae'r canllawiau ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, *Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: Esemptiad Eglwysig* (2018), yn nodi'r egwyddorion arweiniol i'w hystyried wrth gynllunio newidiadau i adeiladau crefyddol rhestredig y mae'r rheoliadau y darperir ar eu cyfer gan y Bennod hon yn eu cwmpasu. Mae hefyd yn nodi cod ymarfer ar gyfer gweithdrefnau cydsyniad enwadol, sy'n egluro'r ffordd y dylid cynnwys yr egwyddorion hynny mewn prosesau rheolaethu a gwneud penderfyniadau.

Rhan 4 – Ardaloedd cadwraeth

590. Ardal gadwraeth yw ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol diogelu neu wella ei chymeriad neu ei golwg. Mae dynodi ardaloedd cadwraeth yn adlewyrchu'r syniad bod yr amgylchedd hanesyddol yn fwy cyffredinol yn gallu haeddu cael eu cydnabod a'u gwarchod, yn ogystal ag adeiladau neu henebion penodol.

586. Section 156(2) makes clear that, for the purposes of the exemption from requiring listed building consent, the fact that a building is out of use while works are being carried out (e.g. during major conservation works) does not prevent the building being regarded as “used for religious purposes” provided that it would be used for those purposes if it were not for those works.
587. Subsection (4)(a) provides that references in this section to a religious building include any artificial object or structure that is fixed to the building, or that is within the curtilage of the building. This means that some structures that are not listed in their own right might come into the scope of the religious exemption provided that they are in the curtilage of the listed building. These might include lychgates, boundary walls, memorials, vestries and school rooms. However, if there is a scheduled monument within the curtilage of an exempt religious building, any works to that monument will require scheduled monument consent.
588. Under subsection (4)(b), buildings that are wholly or mainly used as residences by ministers of religion are not considered to be religious buildings for the purposes of this section. Works to these buildings are therefore not covered by the exemption. Where a residential building is attached to a listed place of worship (for example, a presbytery attached to a Catholic church, or a minister’s house attached to a chapel), works to the residential building will need listed building consent from the local planning authority.
589. The Welsh Ministers have published non-statutory, best-practice guidance, which is kept under review, to support the management of listed religious buildings. The guidance at the time of writing these notes, *Managing Change to Listed Places of Worship in Wales: Ecclesiastical Exemption* (2018), sets out the guiding principles to consider when planning changes to listed religious buildings covered by the regulations provided for by this Chapter. It also sets out a code of practice for denominational consent procedures, which explains how those principles should be included in the control and decision-making process.

Part 4 – Conservation Areas

590. A conservation area is an area of special architectural or historic interest whose character or appearance it is desirable to preserve or enhance. The designation of conservation areas reflects the idea that the historic environment more generally, as well as particular buildings or monuments, warrants recognition and protection.

591. Mae Rhan 4 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio benderfynu pa rannau o'u hardaloedd sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac i'w dynodi yn ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cynllunio ac eraill i roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth wrth arfer swyddogaethau cynllunio. Yn ogystal, mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer awdurdodi a rheolaethu dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth, gwaith brys i ddiogelu adeiladau penodol mewn ardaloedd cadwraeth, a rhoi grantiau sy'n ymwneud â diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth. Nid yw'r Ddeddf yn nodi pob ffordd y mae'r ardaloedd cadwraeth yn cael eu gwarchod. Er enghraifft, mae coed mewn ardaloedd cadwraeth yn mwynhau rhywfaint o warchodaeth statudol ac ymdrinnir â hynny yn Rhan 8 o Ddeddf Cynllunio 1990.
592. Caiff ffiniau ardaloedd cadwraeth eu diweddarau'n rheolaidd ar MapDataCymru, er bod pob awdurdod cynllunio yn cynnal rhestr gyfredol o ardaloedd cadwraeth yn ei ardal. Ym mis Ebrill 2023, roedd 528 o ardaloedd cadwraeth wedi eu rhestru ar MapDataCymru.
593. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau arferion gorau anstatudol, sy'n cael eu hadolygu'n barhaus, er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli ardaloedd cadwraeth. Mae'r ddogfen ganllaw ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (2017), yn nodi'r canllawiau cyffredinol ar gyfer dynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth.
594. Mae llawer o'r darpariaethau adeiladau rhestredig yn Rhan 3 o'r Ddeddf hefyd yn gymwys i ardaloedd cadwraeth yn y Rhan hon, ond gyda rhai newidiadau.

Adran 158 – Dynodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn ardaloedd cadwraeth

595. Mae is-adrannau (1) a (2) o adran 158 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio benderfynu, o bryd i'w gilydd, ba rannau o'u hardaloedd y dylid eu dynodi'n ardaloedd cadwraeth ac a ddylid diwygio ardaloedd cadwraeth presennol. Os yw awdurdod cynllunio yn ystyried bod rhan o'i ardal yn ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol diogelu neu wella ei chymeriad neu ei golwg ai peidio. Rhaid i'r awdurdod cynllunio ddynodi'r rhan honno yn ardal gadwraeth (neu estyn dynodiad presennol i gynnwys y rhan honno). Os bydd yr awdurdod yn ystyried nad yw rhan o'i ardal sydd wedi ei dynodi'n ardal gadwraeth yn bodloni'r meini prawf mwyach, rhaid iddo ganslo'r dynodiad neu amrywio'r dynodiad i eithrio'r rhan honno.
596. Yn ymarferol, caiff ardaloedd cadwraeth eu creu, eu hamrywio neu eu canslo yn dilyn proses arfarnu fanwl, er y gellir nodi ardaloedd cadwraeth posibl wrth gynnal gweithgarwch arall megis casglu tystiolaeth ar gyfer cynllun datblygu lleol neu wrth ddatblygu strategaeth dreftadaeth ehangach.
597. Mae is-adrannau (3) i (5) o adran 158 yn pennu rhai gofynion gweithdrefnol y mae rhaid i awdurdodau cynllunio eu dilyn ar ôl gwneud, amrywio neu ganslo dynodiadau.

591. Part 4 requires planning authorities to determine which parts of their areas are of special architectural or historic interest and to designate them as conservation areas. It also places a general duty on planning authorities and others to have special regard to the desirability of preserving or enhancing the character or appearance of a conservation area in the exercise of planning functions. In addition, Part 4 makes provision for the authorisation and control of demolition in conservation areas, urgent works to preserve certain buildings in conservation areas, and the making of grants relating to the preservation or enhancement of conservation areas. The Act does not set out every way in which conservation areas are protected. For instance, trees in conservation areas enjoy some statutory protection and that is dealt with in Part 8 of the 1990 Planning Act.
592. Conservation area boundaries are regularly updated on DataMapWales although each planning authority maintains an up-to-date list of conservation areas within its area. As of April 2023, there were 528 conservation areas listed on DataMapWales.
593. The Welsh Ministers have published non-statutory, best-practice guidance, which is kept under review, to support the management of conservation areas. The guidance at the time of writing these notes, *Managing Conservation Areas in Wales (2017)*, sets out the general guidelines for the designation and management of conservation areas.
594. Many of the listed building provisions in Part 3 of the Act also apply to conservation areas in this Part, but with some changes.

Section 158 – Designating areas of special architectural or historic interest as conservation areas

595. Subsections (1) and (2) of section 158 require planning authorities to determine, from time to time, which parts of their areas should be designated as conservation areas and whether there should be revisions to existing conservation areas. If a planning authority considers that a part of its area is an area of special architectural or historic interest whose character or appearance it is desirable to preserve or enhance, the authority must designate the part as a conservation area (or extend an existing designation to include it). If the authority considers a part of its area that is currently designated no longer meets the criteria, it must cancel the designation or vary the designation to exclude the part.
596. In practice, conservation areas are created, varied or cancelled following a detailed appraisal process, though potential conservation areas may be identified in the course of other activity such as evidence gathering for a local development plan or in the development of a wider heritage strategy.
597. Subsections (3) to (5) of section 158 specify some procedural requirements which planning authorities must follow after designating, varying or cancelling designations.

598. O dan is-adran (6) o adran 158, mae dynodiad ardal gadwraeth yn bridiant tir lleol. Bydd pridiant tir lleol yn rhoi gwybod i brynwr bod cyfyngiadau ar y defnydd o'r tir o ganlyniad i'r ffaith ei fod mewn ardal gadwraeth.

Adran 159 – Dyletswydd i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth

599. Mae is-adran (1) o adran 159 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer diogelu a gwella eu hardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd. Er nad yw hyn yn sefydlu unrhyw gyfnod penodedig ar gyfer llunio a chyhoeddi'r cynigion, mae *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (2017) yn nodi yr ystyrir mai'r arfer gorau yw cynnal adolygiadau ardaloedd cadwraeth bob pum i ddeng mlynedd.
600. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus gyflwyno cynigion o'r fath i gyfarfod cyhoeddus yn yr ardal gadwraeth (neu mor agos iddi ag sy'n ymarferol resymol). Gallai awdurdod ymgynghori ac ymgysylltu yn ehangach, ar ffurf arddangosfeydd, arolygon a gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn cael barn y gymuned am y cynigion.

Adran 160 – Arfer swyddogaethau cynllunio: dyletswydd gyffredinol sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth

601. Mae is-adran (1) o adran 160 yn gosod dyletswydd ar unrhyw berson, wrth arfer swyddogaeth gynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, i roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth. Dyletswydd eang ei chwmpas yw hon am fod nifer o swyddogaethau cynllunio (gweler paragraffau 604–07 isod), a bod y ddyletswydd yn gymwys i unrhyw un sy'n eu harfer (cyhyd ag y bo'r person yn gwneud hynny mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth).
602. Yng nghyfraith achos (*South Lakeland District Council v Secretary of State for the Environment and another* [1992] 1 ALL ER 573), deallwyd "diogelu" fel peidio â gwneud niwed i gymeriad neu olwg presennol ardal gadwraeth. Bydd gwella yn golygu diwygio cymeriad neu olwg er gwell, er enghraifft trwy symud ymaith adeilad adfeiliedig sy'n ddolur i'r llygad ac sy'n niweidio cymeriad yr ardal gadwraeth.
603. Mae'r ddyletswydd o dan adran 160 yn gymwys i unrhyw berson, felly mae'n gymwys, er enghraifft, i Weinidogion Cymru ac arolygwyr cynllunio yn ogystal ag awdurdodau cynllunio.
604. Mae'r ddyletswydd yn gymwys pan fydd person yn arfer "swyddogaeth gynllunio", a ddiffinnir gan is-adran (2) fel unrhyw swyddogaeth a roddir neu a osodir o dan neu yn rhinwedd y canlynol:
- a. Rhan 3, Rhan 4, Rhan 5 neu Ran 7 o'r Ddeddf hon fel y mae'n gymwys at ddibenion unrhyw un o'r Rhannau hynny;
 - b. Deddf Cynllunio 1990; neu

598. Under subsection (6) of section 158, a designation as a conservation area is a local land charge. A local land charge will alert a purchaser to the fact that there are restrictions on the use of the land as a result of it being situated in a conservation area.

Section 159 – Duty to formulate and publish proposals for preservation and enhancement of conservation areas

599. Subsection (1) of section 159 places a duty on planning authorities to prepare and publish proposals for the preservation and enhancement of their conservation areas from time to time. Although this establishes no fixed period for the preparation and publication of the proposals, *Managing Conservation Areas in Wales* (2017) sets out that it is considered best practice to undertake conservation area reviews on a five to ten year cycle.
600. Subsection (2) requires a public authority to submit such proposals to a public meeting in the conservation area (or as near to it as reasonably practicable). An authority might also undertake wider consultation and engagement, in the form of exhibitions, surveys and social media activity, to obtain community views on the proposals.

Section 160 – Exercise of planning functions: general duty relating to conservation areas

601. Subsection (1) of section 160 places a duty on any person, in exercising a planning function in relation to a building or other land in a conservation area, to have special regard to the desirability of preserving or enhancing the character or appearance of the conservation area. This is a wide-ranging duty because there are many planning functions (see paragraphs 604–07 below) and the duty applies to anyone exercising them (as long as the person is doing so in relation to a building or other land in a conservation area).
602. In case law (*South Lakeland District Council v Secretary of State for the Environment and another* [1992] 1 ALL ER 573), “preservation” has been understood as doing no harm to a conservation area’s existing character or appearance. Enhancement will improve the character or appearance, for instance by removing a derelict building that is an eyesore and harms the character of the conservation area.
603. The duty under section 160 applies to any person, so it applies not just to planning authorities but also, for instance, to the Welsh Ministers and planning inspectors.
604. The duty applies when a person is exercising a “planning function”, defined by subsection (2) as a function conferred or imposed under or by virtue of:
- a. Part 3, Part 4, Part 5 or Part 7 of this Act as it applies for the purposes of any of those Parts;
 - b. the 1990 Planning Act; or

- c. adran 70 neu 73 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p. 28) (sy'n ymwneud â chynlluniau, a elwir yn gynlluniau rheoli ystad, sy'n galluogi perchnogion ystadau i fynd i'r afael â phroblemau posibl â golwg ystad pan fyddant wedi colli eu pwerau fel landlordiaid ar ôl i denantiaid fynnu eu hawliau i gaffael rhydd-ddaliad eu heiddo).
605. Ymhlith y swyddogaethau cynllunio sy'n arbennig o berthnasol o dan y Ddeddf mae (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):
- a. rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig (gweler Rhan 3, Pennod 2)
 - b. gorfodi'r rheolaethau hynny (gweler Rhan 3, Pennod 4)
 - c. caffael a diogelu adeiladau hanesyddol (gweler Rhan 3, Pennod 5)
 - d. llunio cynigion ar gyfer diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth (gweler adran 159)
 - e. rheolaethu gwaith dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth (gweler adran 162)
 - f. cyflawni gwaith brys i ddiogelu adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth (gweler adran 164).
606. Ymhlith y swyddogaethau cynllunio sy'n arbennig o berthnasol o dan Ddeddf Cynllunio 1990 mae (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):
- a. llunio cynlluniau datblygu (gweler Rhan 2 o'r Ddeddf honno)
 - b. rheolaethu gwaith datblygu (gweler Rhan 3 o'r Ddeddf honno)
 - c. gorfodi'r rheolaethau hynny (gweler Rhan 7 o'r Ddeddf honno)
 - d. rheolaethau sy'n ymwneud â choed, hysbysebion a thir y mae angen ei gynnal a'i gadw (gweler Rhan 8 o'r Ddeddf honno)
 - e. arfer pwerau priffyrdd (gweler Rhan 10 o'r Ddeddf honno).
607. Byddai'r ddyletswydd, er enghraifft, yn gymwys pan fydd awdurdod cynllunio yn penderfynu pa un a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i gyflawni datblygiad o dan adran 58(1) o Ddeddf Cynllunio 1990 ai peidio. Yn unol â hynny, wrth benderfynu pa un a ddylid rhoi'r caniatâd cynllunio ai peidio, rhaid i'r awdurdod roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth y mae'r adeilad ynddi.
608. Mae gan "adeilad" a "tir" yr ystyron a roddir gan adran 210 o'r Ddeddf.

- c. section 70 or 73 of the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 (c. 28) (to do with schemes, called estate management schemes, which allow estate owners to address potential problems about an estate's appearance once they have lost their powers as landlords following tenants asserting rights to acquire the freehold of their properties).
605. Some particularly relevant planning functions under the Act are (this list is not exhaustive):
- a. controlling works that affect listed buildings (see Part 3, Chapter 2)
 - b. enforcing those controls (see Part 3, Chapter 4)
 - c. acquiring and preserving historic buildings (see Part 3, Chapter 5)
 - d. preparing proposals for the preservation and enhancement of conservation areas (see section 159)
 - e. controlling demolition in conservation areas (see section 162)
 - f. carrying out urgent works to preserve buildings in conservation areas (see section 164).
606. Some particularly relevant planning functions under the 1990 Planning Act are (this list is not exhaustive):
- a. preparing development plans (see Part 2 of that Act)
 - b. controlling development (see Part 3 of that Act)
 - c. enforcing those controls (see Part 7 of that Act)
 - d. controls relating to trees, advertisements and land that requires maintenance (see Part 8 of that Act)
 - e. exercising highways powers (see Part 10 of that Act).
607. The duty, for instance, would apply when a planning authority is deciding whether to grant planning permission to carry out a development under section 58(1) of the 1990 Planning Act. Accordingly, in deciding whether to grant the planning permission, the authority must have special regard to the desirability of preserving or enhancing the character or appearance of the conservation area in which the building is situated.
608. "Building" and "land" have the meanings given by section 210 of the Act.

Adran 161 – Gofyniad i ddymchweliad gael ei awdurdodi

Atodlen 11 – Effaith adran 161 yn peidio â bod yn gymwys i adeilad

609. Mae adran 161 yn darparu na chaiff person gyflawni gwaith ar gyfer dymchwel adeilad mewn ardal gadwraeth (neu beri i waith o'r fath gael ei gyflawni) oni bai ei fod wedi ei awdurdodi gan gydsyniad ardal gadwraeth a roddwyd o dan adran 162.
610. Mae adran 161(2) yn eithrio gwahanol categorïau o adeilad o'r gofyniad i gael cydsyniad ardal gadwraeth. Y categorïau sy'n cael eu heithrio yw:
- adeiladau sy'n henebion cofrestredig— ond mae'n ofynnol cael cydsyniad heneb gofrestredig i ddymchwel heneb gofrestredig (adran 11)
 - adeiladau rhestredig— ond mae'n ofynnol cael cydsyniad adeilad rhestredig i ddymchwel adeilad rhestredig (adran 88)
 - adeiladau o ddisgrifiadau a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru
 - adeiladau o ddisgrifiadau a bennir mewn cyfarwyddyd a roddir i awdurdod cynllunio unigol gan Weinidogion Cymru.
611. Gallai'r adeiladau a ddisgrifir gan Weinidogion Cymru yn is-adran (2)(c), er enghraifft, fod ar raddfa fach, megis mân adeiladau allanol neu siediau, felly byddai eu dymchwel yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gymeriad yr ardal gadwraeth. Fel arall, gallai Gweinidogion Cymru nodi ystod o adeiladau y mae eu dymchwel eisoes wedi ei awdurdodi neu'n ofynnol o dan ddeddfiadau neu weithdrefnau eraill. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain a gallai adeiladau eraill gael eu disgrifio gan Weinidogion Cymru.
612. Mae is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod cynllunio bod angen cydsyniad ardal gadwraeth ar gyfer adeilad yn ei ardal er bod yr adeilad yn dod o fewn disgrifiad o adeiladau a gafodd eu heithrio rhag bod angen cydsyniad ardal gadwraeth gan reoliadau a wneir o dan is-adran (2)(c). Gellid defnyddio cyfarwyddyd o'r fath pe bai ardal gadwraeth yn cynnwys nifer o adeiladau a oedd yn gwneud cyfraniad pwysig at ei chymeriad a fyddai fel arall yn cael eu heithrio rhag cydsyniad ardal gadwraeth gan reoliadau – er enghraifft, bynceri glo bach o haearn rhychog mewn cymuned ddiwydiannol.
613. Mae is-adran (4) yn eithrio gwaith brys penodol a wneir gan neu ar ran y Goron o'r gofyniad i gael cydsyniad ardal gadwraeth. Y gwaith sy'n cael ei eithrio yw gwaith a gyflawnir gan neu ar ran y Goron o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraffau (a) i (d) o adran 117(4).
614. Mae adran 161(5) yn cyflwyno Atodlen 11 sy'n ymwneud â'r hyn sy'n digwydd os arferai cydsyniad cadwraeth fod yn ofynnol i ddymchwel adeilad, ond nad oes ei angen mwyach. Gallai hynny ddigwydd, er enghraifft, pe bai'r adeilad yn cael ei eithrio o gwmpas cydsyniad ardal gadwraeth gan reoliadau a wneir o dan is-adran (2)(c) neu gan gyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (2)(d). Yn ei ffurf a'i effaith, mae Atodlen 11 yn adlewyrchu'n agos Atodlen 7 (diwedd gwarchodaeth interim neu restru dros dro ar gyfer adeiladau).

Section 161 – Requirement for demolition to be authorised

Schedule 11 – Effect of section 161 ceasing to apply to building

609. Section 161 provides that a person must not carry out works for the demolition of a building in a conservation area (or cause such works) unless they have been authorised by the grant of conservation area consent under section 162.
610. Section 161(2) excludes various categories of building from the requirement to obtain conservation area consent. The excluded categories are:
- a. buildings which are scheduled monuments – but demolishing a scheduled monument requires scheduled monument consent (section 11)
 - b. listed buildings – but demolishing a listed building requires listed building consent (section 88)
 - c. buildings of descriptions specified in regulations made by the Welsh Ministers
 - d. buildings of descriptions specified in directions given to an individual planning authority by the Welsh Ministers.
611. The buildings described by the Welsh Ministers in subsection (2)(c) might, for instance, be of small-scale, such as minor outbuildings or sheds, so their demolition would be unlikely to have a substantial impact on the character of the conservation area. Alternatively, the Welsh Ministers might identify a range of buildings whose demolition is already authorised or required under other enactments or procedures. These are only examples and other buildings might be described by the Welsh Ministers.
612. Subsection (3) permits the Welsh Ministers to direct a planning authority that conservation area consent is needed for a building in its area even though the building falls within a description of buildings that were excluded from needing conservation area consent by regulations made under subsection (2)(c). Such a direction might be used if a conservation area contained a number of buildings that made an important contribution to its character that would otherwise be excepted from conservation area consent by regulations – for instance, small corrugated-iron coal bunkers in an industrial community.
613. Subsection (4) excludes certain emergency works carried out by or on behalf of the Crown from the requirement to obtain conservation area consent. The works that are excluded are works carried out by or on behalf of the Crown in the circumstances set out in paragraphs (a) to (d) of section 117(4).
614. Section 161(5) introduces Schedule 11, which deals with what happens if conservation consent used to be required to demolish a building, but is no longer needed. That could happen if, for instance, the building is taken out of the scope of conservation area consent by regulations made under subsection (2)(c) or by a direction made under subsection (2)(d). Both in its form and effect, Schedule 11 closely mirrors Schedule 7 (end of interim protection or temporary listing for buildings).

Adran 162 – Awdurdodi dymchweliad drwy gydsyniad ardal gadwraeth

615. O dan adran 162(1), mae gwaith ar gyfer dymchwel adeilad y mae adran 161 yn gymwys iddo wedi ei awdurdodi:
- a. yn gyntaf, os yw'r awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru yn rhoi cydsyniad ardal gadwraeth yn ysgrifenedig; a
 - b. yn ail, os yw'r gwaith dymchwel yn cael ei gyflawni yn unol â thelerau'r cydsyniad (gan gynnwys unrhyw amodau sydd ynghlwm wrtho).
616. Yn gyffredinol, rhaid i geisiadau am gydsyniad ardal gadwraeth gael eu gwneud i awdurdodau cynllunio (o dan adran 90). Ond o dan adran 105, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gan awdurdodau cynllunio neu'r Goron am gydsyniad ardal gadwraeth gael eu gwneud i Weinidogion Cymru. Ac o dan adran 106 caiff awdurdod priodol y Goron (a ddiffinnir yn adran 207), o dan amgylchiadau penodol, wneud cais i Weinidogion Cymru (yn lle gwneud cais i awdurdod cynllunio) am gydsyniad. Mae adrannau 90, 105 a 106 yn Rhan 3 o'r Ddeddf sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig. Ond maent hefyd yn gymwys mewn perthynas â chydsyniad ardal gadwraeth, o ganlyniad i adran 163.
617. Disgwylir y ceir cydsyniad ardal gadwraeth cyn i unrhyw waith ddechrau. Fodd bynnag, o dan is-adran (2) caiff awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru roi cydsyniad ardal gadwraeth ar gyfer gwaith anawdurdodedig a gyflawnwyd eisoes. Mewn achos o'r fath, dim ond o adeg rhoi'r cydsyniad y mae'r gwaith wedi ei awdurdodi. Mae unrhyw atebolrwydd am drosedd sy'n deillio o'r gwaith anawdurdodedig o dan adran 117 (fel y'i cymhwysir gan adran 163) yn parhau a gallai fod yn sail ar gyfer achosion dilynol.

Adran 163 – Cymhwyso Rhan 3 i ardaloedd cadwraeth

618. Mae adran 163 yn cymhwyso, gydag addasiadau angenrheidiol, ddarpariaethau o Ran 3 sy'n ymwneud â rheolaethu gwaith, gorfodi a materion cysylltiedig ar gyfer adeiladau rhestredig i adeiladau y mae'n ofynnol cael cydsyniad ardal gadwraeth er mwyn eu dymchwel o dan adran 161.
619. Mae'r darpariaethau adeiladau rhestredig y mae adran 163 yn eu cymhwyso i ardaloedd cadwraeth yn dod o'r Penodau a ganlyn yn Rhan 3: Pennod 2 (rheolaethu gwaith), Pennod 4 (gorfodi) a Phennod 6 (cyffredinol – yn benodol, rhai o ddarpariaethau'r Bennod honno ynghylch pwerau mynediad).
620. Mae adran 163(1) yn nodi pa rai o ddarpariaethau'r Penodau hynny a gymhwysir, a pha rai na chymhwysir. Mae adran 163(2) yn nodi sut y mae'r darpariaethau a gymhwysir i'w darllen yng nghyd-destun yr ardaloedd cadwraeth. Mae'r addasiadau yn adran 163(2)(a) yn gyffredinol ac mae'r addasiadau yn adran 163(2)(b), (c) a (d) yn ymwneud â darpariaethau penodol.
621. Dyma ddwy enghraifft o'r addasiadau cyffredinol:
- a. mae cyfeiriadau at gydsyniad adeilad rhestredig i'w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at gydsyniad ardal gadwraeth

Section 162 – Authorisation of demolition by conservation area consent

615. Under section 162(1), works for the demolition of a building to which section 161 applies are authorised if:
- a. first, the relevant planning authority or the Welsh Ministers grant written conservation area consent; and
 - b. second, the demolition works are carried out in accordance with the terms of the consent (including any conditions attached to it).
616. Applications for conservation area consent must generally be made to planning authorities under section 90. But under section 105, the Welsh Ministers may make regulations requiring that applications by planning authorities or the Crown for conservation area consent be made to the Welsh Ministers. And under section 106 an appropriate Crown authority (defined in section 207) may in certain circumstances apply to the Welsh Ministers (instead of to a planning authority) for consent. Sections 90, 105 and 106 are in Part 3 of the Act, which deals with listed buildings. But they also apply in relation to conservation area consent, as a result of section 163.
617. The expectation is that conservation area consent will be obtained before any works begin. However, under subsection (2), a planning authority or the Welsh Ministers may grant conservation area consent for unauthorised works already carried out. In such a case, the works are only authorised from the grant of the consent. Any liability for an offence arising from the unauthorised works under section 117 (as applied by section 163) remains and could be the basis for subsequent proceedings.

Section 163 – Application of Part 3 to conservation areas

618. Section 163 applies, with necessary modifications, provisions from Part 3 that relate to the control of works, enforcement and associated matters for listed buildings to buildings for which conservation area consent is required for demolition under section 161.
619. The listed building provisions that section 163 applies to conservation areas are from the following Chapters in Part 3: Chapter 2 (control of works), Chapter 4 (enforcement) and Chapter 6 (general – specifically, some of that Chapter’s provisions about powers of entry).
620. Section 163(1) specifies which of those Chapters’ provisions are, and are not, applied. Section 163(2) specifies how the applied provisions are to be read in the conservation areas context. The modifications in section 163(2)(a) are general and the modifications in section 163(2)(b), (c) and (d) are specific to particular provisions.
621. Two instances of the general modifications are:
- a. references to listed building consent are to be read as if they were references to conservation area consent

- b. mae cyfeiriadau at gymeriad adeilad rhestredig i'w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth y mae'r adeilad ynnddi.

622. Mae'r enghraifft a ganlyn yn dangos sut y mae un adran o Ran 3 (adran 117) i'w darllen yng nghyd-destun ardaloedd cadwraeth o ganlyniad i adran 163(1) a (2).

Adran 117 – Y drosedd o gyflawni gwaith anawdurdodedig neu dorri amod mewn cydsyniad

- (1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn cyflawni gwaith, neu'n peri i waith gael ei gyflawni, mewn perthynas ag ~~adeilad rhestredig~~ adeilad y mae adran 161 yn gymwys iddo yn groes i adran 88 161.
- (2) Mae person hefyd yn cyflawni trosedd os yw'r person –
- (a) yn cyflawni gwaith, neu'n peri i waith gael ei gyflawni, mewn perthynas ag ~~adeilad rhestredig~~ adeilad y mae adran 161 yn gymwys iddo, a
 - (b) yn methu â chydymffurfio ag amod y rhoddwyd ~~eydsyniad~~ cydsyniad ardal gadwraeth yn ddarostyngedig iddo ar gyfer y gwaith.
- (3) Nid yw is-adran (2) yn cyfyngu ar yr hyn a all fod yn drosedd o dan is-adran (1).
- (4) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan yr adran hon, mae'n amddiffyniad i'r person brofi –
- (a) bod gwaith yn angenrheidiol ar frys er lles diogelwch neu iechyd ~~neu ar gyfer diogelu'r adeilad,~~
 - (b) nad oedd yn ymarferol sicrhau diogelwch neu iechyd ~~neu sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddiogelu~~ drwy gyflawni gwaith atgyweirio neu waith i ategu neu gysgodi'r adeilad dros dro,
 - (c) bod y gwaith a gyflawnwyd wedi ei gyfyngu i isafswm y mesurau a oedd yn angenrheidiol ar unwaith, a
 - (d) i hysbysiad ysgrifenedig a oedd yn cyfiawnhau'n fanwl gyflawni'r gwaith gael ei roi i'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad yn ei ardal, neu yr oedd yr adeilad yn ei ardal, cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol.
- ~~(5) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan yr adran hon mewn perthynas ag adeilad y rhoddir gwarchodaeth interim iddo –~~
- ~~(a) mae'n amddiffyniad i'r person brofi nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, bod y warchodaeth interim wedi ei rhoi, a~~
 - ~~(b) pan fo'r amddiffyniad yn cael ei godi gan berson y dylai hysbysiad fod wedi cael ei gyflwyno iddo o dan adran 78(1), yr erlyniad sydd i brofi i'r hysbysiad gael ei gyflwyno i'r person.~~
- (6) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored –
- (a) ar euogfarn ddiannod, i ddirwy neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na'r terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu, neu'r ddau;

- b. references to the character of a listed building are to be read as if they were references to the character or appearance of the conservation area in which the building is situated.

622. The following example shows how one section from Part 3 (section 117) is to be read in the conservation areas context as a result of section 163(1) and (2).

Section 117 - Offence of carrying out unauthorised works or breaching condition of consent

- (1) A person commits an offence if the person carries out, or causes to be carried out, works in relation to a ~~listed building~~ building to which section 161 applies in breach of section ~~88~~ 161.
- (2) A person also commits an offence if the person –
- (a) carries out, or causes to be carried out, works in relation to a ~~listed building~~ building to which section 161 applies, and
 - (b) fails to comply with a condition subject to which ~~listed building consent~~ conservation area consent has been granted for the works.
- (3) Subsection (2) does not limit what may be an offence under subsection (1).
- (4) In proceedings against a person for an offence under this section, it is a defence for the person to prove that –
- (a) works were urgently necessary in the interests of safety or health ~~or for the preservation of the building~~,
 - (b) it was not practicable to secure safety or health ~~or the preservation of the building~~ by carrying out works of repair or works to provide temporary support or shelter,
 - (c) the works that were carried out were limited to the minimum measures immediately necessary, and
 - (d) notice in writing justifying in detail the carrying out of the works was given to the planning authority in whose area the building is or was situated as soon as reasonably practicable.
- ~~(5) In proceedings against a person for an offence under this section in relation to a building on which interim protection is conferred –~~
- ~~(a) it is a defence for the person to prove that the person did not know, and could not reasonably have been expected to know, that the interim protection had been conferred, and~~
 - ~~(b) where the defence is raised by a person on whom a notice should have been served under section 78(1), it is for the prosecution to prove that the notice was served on the person.~~
- (6) A person guilty of an offence under this section is liable –
- (a) on summary conviction, to a fine or imprisonment for a term not exceeding the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code, or both;

(b) ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n yn hwy na 2 flynedd, neu'r ddau.

(7) Wrth benderfynu swm unrhyw ddirwy sydd i'w gosod ar berson a euogfarnwyd o drosedd o dan yr adran hon, rhaid i'r llys roi sylw yn benodol i unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni, neu yr ymddengys ei fod yn debygol o Gronni, i'r person o ganlyniad i'r drosedd.

Enghraifft: Adran 117 fel y'i haddasir gan adran 163

Adran 164 – Gwaith brys i ddiogelu adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth

623. Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod diogelu adeilad anrhestredig yn bwysig er mwyn cynnal cymeriad neu olwg ardal gadwraeth, cânt wneud cyfarwyddyd i gymhwyso adran 144 (o Ran 3 o'r Ddeddf) i'r adeilad hwnnw (adran 164 (1 a 2)). Mae adran 144 yn galluogi awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i gyflawni gwaith brys i ddiogelu adeiladau rhestredig.
624. Os yw Gweinidogion Cymru wedi gwneud cyfarwyddyd i gymhwyso adran 144 i adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, mae adran 164(3) yn darparu bod y darpariaethau cysylltiedig o ran sicrhau bod perchnogion adeiladau yn talu costau gwaith diogelu brys hefyd yn gymwys. Nodir y darpariaethau hynny (sy'n cynnwys galluogi perchnogion i herio adennill costau) yn adrannau 145 (pŵer i'w gwneud yn ofynnol i berchennog dalu costau gwaith diogelu) a 146 (darpariaeth bellach ynghylch adennill costau gwaith diogelu).

Adran 165 – Grant gan Weinidogion Cymru ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth

625. O dan adran 165 caiff Gweinidogion Cymru roi grantiau i dalu gwariant y maent yn ystyried ei fod wedi gwneud, neu y bydd yn gwneud, cyfraniad sylweddol at ddiogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth.
626. Mae is-adrannau (5) i (7) yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i adennill cyfanswm grant o'r fath, neu ran ohono, os rhoddwyd y grant mewn perthynas ag adeilad neu dir arall ond wedyn – yn ystod cyfnod adennill penodol – os gwaredir y buddiant cyfan neu ran o'r buddiant yr oedd derbynnydd y grant yn ei ddal neu yn ei dal yn yr adeilad neu'r tir ar y diwrnod y rhoddwyd y grant. Ystyr gwaredu yn y cyd-destun hwn yw gwerthu, cyfnewid neu roi ar les am gyfnod o 21 o flynyddoedd o leiaf. Mae'r cyfnod adennill yn dechrau ar y diwrnod y rhoddir y grant a rhaid iddo ddod i ben heb fod yn hwy na 10 mlynedd ar ôl y diwrnod hwnnw.
627. Gellid defnyddio'r pwerau adennill hyn, er enghraifft, pe bai derbynnydd y grant yn gwerthu eiddo er mwyn manteisio ar y gwerth uwch y byddai'n ei ennill o ganlyniad i waith a wnaed drwy gymorth y grant.
628. O dan is-adran (3), ni chaiff Gweinidogion Cymru adennill grantiau gan ddefnyddio'r pwerau a nodir uchod oni bai:

- a. bod telerau'r grant yn nodi y gellir ei adennill o dan adran 165, a

(b) on conviction on indictment, to a fine or imprisonment for a term not exceeding 2 years, or both.

(7) In determining the amount of any fine to be imposed on a person convicted of an offence under this section, the court must in particular have regard to any financial benefit which has accrued or appears likely to accrue to the person in consequence of the offence.

Example: Section 117 as modified by section 163

Section 164 – Urgent works to preserve buildings in conservation areas

623. If the Welsh Ministers consider that the preservation of an unlisted building is important for maintaining the character or appearance of a conservation area they may make a direction to apply section 144 (from Part 3 of the Act) to that building (section 164 (1 and 2)). Section 144 enables local authorities and the Welsh Ministers to carry out urgent works to preserve listed buildings.

624. If the Welsh Ministers have made a direction to apply section 144 to an unlisted building in a conservation area, section 164(3) provides that the related provisions about making owners of buildings meet the cost of urgent preservation works will also apply. Those provisions (which include allowing owners to contest the recovery of costs) are stated in sections 145 (power to require owner to meet costs of preservation works) and 146 (further provision about recovery of costs of preservation works).

Section 165 – Grant by Welsh Ministers for preservation or enhancement of conservation areas

625. Under section 165 the Welsh Ministers may make grants to meet expenditure they consider has made, or will make, a significant contribution towards the preservation or enhancement of the character or appearance of a conservation area.

626. Subsections (5) to (7) set out powers of the Welsh Ministers to recover all or part of such a grant if it was made in relation to a building or other land but then – during a specified recovery period – there is a disposal of all or part of the interest that the recipient of the grant had in the building or land on the day when the grant was made. A disposal in this context means a sale, exchange or lease for a term of at least 21 years. The recovery period begins with the day on which the grant is made and must end no more than 10 years after that day.

627. These recovery powers might be used if, for example, the recipient of the grant were to sell a property to take advantage of a higher value gained as a consequence of the grant-aided works.

628. Under subsection (3), the Welsh Ministers may only recover grants using the powers described above if:

- a. the terms of the grant say it is recoverable under section 165, and

- b. bod y Gweinidogion, cyn neu wrth roi'r grant, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i dderbynnydd y grant sy'n crynhoi effaith adran 165 ac yn pennu'r cyfnod adennill.

629. Fel y nodwyd yn is-adran (4), caiff Gweinidogion Cymru hefyd adennill grantiau os na chydymffurfir ag amodau a osodir wrth roi grantiau.

Adran 166 – Cytundebau ardaloedd cadwraeth

630. Caiff Gweinidogion Cymru a'r awdurdodau cynllunio ddefnyddio cytundebau ardaloedd cadwraeth i gydweithio wrth ddyrannu arian grant ar gyfer atgyweirio adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth. Mae adran 166(1) a (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ac un neu ragor o awdurdodau cynllunio gytuno i roi swm o arian o'r neilltu am gyfnod penodedig o flynyddoedd at ddiben rhoi grantiau ar gyfer atgyweirio adeiladau sydd mewn ardal gadwraeth ac sy'n cael eu cynnwys mewn rhestr neu eu dangos ar fap a luniwyd at y diben hwn.

631. Yn ymarferol, bydd trafod cytundeb ardal gadwraeth fel arfer yn dechrau gydag awdurdod cynllunio yn llunio "cynllun cyflawni" sy'n pennu nodau, amcanion a thargedau'r cynllun. Os bydd Gweinidogion Cymru yn fodlon â'r cynllun cyflawni, bydd yn sail y cytundeb ardal gadwraeth. Os cytunir (fel sy'n digwydd fel arfer) mai'r awdurdod cynllunio fydd yn goruchwyllo'r cytundeb, yr awdurdod cynllunio fydd yn gyfrifol am roi'r grantiau, gan gynnwys y rhan o'r grantiau a gyfrennir gan unrhyw sefydliadau partner eraill.

632. Caiff y corff a roddodd grant mewn perthynas â chytundeb ardal gadwraeth adennill y grant o dan amgylchiadau penodol. Os Gweinidogion Cymru yw'r corff hwnnw, bydd y pwerau a nodir yn adran 165 yn gymwys, ond gyda chyfnod adennill o 3 blynedd (gweler adran 66(5)). Os bydd awdurdod cynllunio wedi rhoi grant o dan adran 148 (yn Rhan 3), bydd y pwerau adennill a nodir yn adran 149 (hefyd yn Rhan 3) yn gymwys.

Rhan 5 – Darpariaeth atodol ynghylch adeiladau o ddiddordeb arbennig ac ardaloedd cadwraeth

633. Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaeth atodol sy'n ymwneud â Rhan 3 (adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig) a Rhan 4 (ardaloedd cadwraeth). Mae Pennod 1 yn cynnwys darpariaethau amrywiol sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau gan awdurdodau cynllunio ac awdurdodau lleol eraill. Mae Pennod 2 yn ymwneud ag achosion gerbron Gweinidogion Cymru. Mae adrannau 172 i 175 yn gwneud darpariaethau gweithdrefnol sy'n gymwys i apelau ac achosion eraill gerbron Gweinidogion Cymru, mae adrannau 176 i 179 yn ymwneud ag ymchwiliadau lleol ac mae adrannau 180 ac 181 yn ymwneud â chostau achosion. Mae'r adrannau ym Mhennod 3 yn ymdrin â dilysrwydd penderfyniadau a gorchmynion sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth (adran 182), yn darparu ar gyfer adolygiadau statudol gan yr Uchel Lys o orchmynion a phenderfyniadau (adrannau 183 a 184) ac yn caniatáu cywiro penderfyniadau Gweinidogion Cymru o dan amgylchiadau penodol (adrannau 185 i 187). Mae Pennod 4 yn dwyn ynghyd nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r Goron ac yn darparu diffiniad o "awdurdod lleol" ar gyfer y Rhan hon.

- b. before or on making the grant the Ministers give written notice to the recipient of the grant summarising the effect of section 165 and specifying the recovery period.

629. As is stated at subsection (4), the Welsh Ministers may also recover grants if conditions imposed on the making of grants are not complied with.

Section 166 – Conservation area agreements

630. The Welsh Ministers and planning authorities may use conservation area agreements to collaborate in allocating grant money for the repair of buildings in conservation areas. Section 166(1) and (2) provide that the Welsh Ministers and one or more planning authorities may agree to set aside for a specified period of years an amount of money for making grants to repair buildings that are in a conservation area and are included in a list or shown on a map prepared for this purpose.

631. In practice, the negotiation of a conservation area agreement typically starts with a planning authority drawing up a “delivery plan” setting out what the aims, objectives and targets of the scheme would be. If the Welsh Ministers are happy with the delivery plan, it will form the basis of the conservation area agreement. If (as is normally the case) it is agreed that the planning authority will supervise the agreement, the authority will be responsible for making the grants, including the share contributed by any other partner organisations.

632. A grant made in relation to a conservation area agreement may, in certain circumstances, be recovered by the body that made it. If the body is the Welsh Ministers, the recovery powers set out in section 165 will apply, but with a recovery period of 3 years (section 166(5)). If a planning authority has made a grant under section 148 (in Part 3), the recovery powers set out in section 149 (also Part 3) will apply.

Part 5 – Supplementary provision about buildings of special interest and conservation areas

633. Part 5 contains supplementary provision relating to Part 3 (buildings of special architectural or historic interest) and Part 4 (conservation areas). Chapter 1 contains various provisions relating to the exercise of functions by planning and other local authorities. Chapter 2 concerns proceedings before the Welsh Ministers. Sections 172 to 175 make procedural provisions applying to appeals and other proceedings before the Welsh Ministers, sections 176 to 179 concern local inquiries and sections 180 to 181 relate to costs of proceedings. The sections in Chapter 3 deal with the validity of decisions and orders relating to listed buildings and conservation areas (section 182), provide for statutory review of orders and decisions by the High Court (sections 183 and 184) and permit the correction of decisions of the Welsh Ministers under certain circumstances (sections 185 to 187). Chapter 4 groups together several provisions relating to the Crown and provides a definition of “local authority” for this Part.

Pennod 1 – Arfer swyddogaethau gan awdurdodau cynllunio ac awdurdodau lleol eraill

Adran 167 – Ffioedd a thaliadau am arfer swyddogaethau

634. Mae adran 167 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i ffi gael ei thalu neu i dâl gael ei dalu i awdurdod cynllunio am gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny, o dan Rannau 3, 4, 5 neu 7 o'r Ddeddf. Mae is-adran (2) yn cynnwys rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r materion y caniateir eu cynnwys mewn unrhyw reoliadau, er enghraifft, sut y mae'r swm y caniateir ei godi i'w gyfrifo, pwy sy'n atebol i dalu ffi a phryd y mae'r ffi yn daladwy.
635. Mae is-adran (3) yn darparu, pan fo'r rheoliadau yn caniatáu i awdurdod cynllunio gyfrifo swm y ffioedd neu'r taliadau, na chaiff yr incwm y mae'r awdurdod cynllunio yn ei gasglu o'r taliadau hynny fod yn uwch na chost cyflawni'r swyddogaethau.

Adran 168 – Trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau mewn perthynas â cheisiadau

636. Mae adran 168(1) yn cymhwyso adrannau 319ZA i 319ZD o Ddeddf Cynllunio 1990 i arfer swyddogaethau awdurdod cynllunio mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth, i gydsyniad gael ei amrywio neu i fanylion gael eu cymeradwyo fel sy'n ofynnol fel rhan o amod mewn cydsyniad. Mae adrannau 319ZA i 319ZD yn gwneud darpariaeth i swyddogaethau awdurdodau cynllunio gael eu cyflawni gan bwyllgorau, is-bwyllgorau neu swyddogion, ac yn pennu'r gofynion ar gyfer maint a chyfansoddiad y pwyllgorau.
637. Mae is-adran (2) yn atal heriau i benderfyniadau ar y sail y dylent fod wedi eu gwneud gan awdurdod cynllunio arall.

Adran 169 – Trefniadau ar gyfer cael cyngor arbenigol

638. Mae adran 169 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod cynllunio i gyflwyno, i'w cymeradwyo ganddynt, y trefniadau sydd gan yr awdurdod ar waith ar gyfer cael cyngor arbenigol mewn cysylltiad â rhai o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf. Nodir y swyddogaethau perthnasol yn is-adran (6) a hwy yw'r rhai pan fo dealltwriaeth o arwyddocâd a diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig adeilad yn ofynnol er mwyn i'r awdurdod cynllunio gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol.
639. Er enghraifft, wrth ystyried cais am gydsyniad adeilad rhestredig, mae gan awdurdod cynllunio ddyletswydd i roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu'r adeilad rhestredig, ei safle ac unrhyw nodweddion o diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd gan yr adeilad (adran 96(2)). Oherwydd natur arbenigol gwaith ar adeilad rhestredig, mae'n hanfodol bod cyngor arbenigol ar gael wrth benderfynu ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig.
640. Mae adran 169(3) yn darparu y gall Gweinidogion Cymru, os nad ydynt wedi eu bodloni â'r trefniadau y mae un awdurdod cynllunio (awdurdod A) yn cynnig eu gwneud ar gyfer cael cyngor arbenigol, gyfarwyddo awdurdod cynllunio arall (awdurdod B) i arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau perthnasol awdurdod A, neu i sicrhau bod swyddog o awdurdod B ar gael i roi cyngor arbenigol i awdurdod A.

Chapter 1 – Exercise of functions by planning authorities and other local authorities

Section 167 – Fees and charges for exercising functions

634. Section 167 allows the Welsh Ministers to make regulations to require the payment of a fee or charge to a planning authority for performing any of its functions, or anything connected with those functions, under Parts 3, 4, 5 or 7 of the Act. Subsection (2) contains a non-exhaustive list of the matters that may be covered by any regulations, for example, how the amount which may be charged is to be calculated, who is liable to pay a fee and when the fee is payable.
635. Subsection (3) provides that, where the regulations allow for a planning authority to calculate the amount of the fees or charges, the income that the planning authority collects from those charges must not be higher than the cost of performing the functions.

Section 168 – Arrangements for exercising functions in relation to applications

636. Section 168(1) applies sections 319ZA to 319ZD of the 1990 Planning Act to the exercise of a planning authority's functions in relation to applications for listed building or conservation area consent, variation of a consent or approval of details as required as part of a condition of a consent. Sections 319ZA to 319ZD make provision for planning authorities' functions to be discharged by committees, subcommittees or officers, and set the requirements for the size and composition of the committees.
637. Subsection (2) prevents challenges to decisions on the grounds that they should have been made by another planning authority.

Section 169 – Arrangements for obtaining specialist advice

638. Section 169 enables the Welsh Ministers to direct a planning authority to submit for their approval the arrangements that the authority has in place for obtaining specialist advice in connection with some of its functions under the Act. The relevant functions are set out in subsection (6) and are those where an understanding of the significance and special architectural or historic interest of a building is required in order for the planning authority to undertake its functions effectively.
639. For example, when considering an application for listed building consent, a planning authority has a duty to have special regard to the desirability of preserving the listed building, its setting and any features of special architectural or historic interest the building possesses (section 96(2)). Due to the specialist nature of works to a listed building, the availability of specialist advice is essential when determining listed building consent applications.
640. Section 169(3) provides that if the Welsh Ministers are not satisfied with the arrangements that one planning authority (authority A) proposes to make to receive specialist advice, they can direct another planning authority (authority B) to exercise any of the relevant functions of authority A, or to make an officer from authority B available to provide specialist advice to authority A.

Adran 171 – Cyfraniadau tuag at wariant gan awdurdodau lleol

641. Mae adran 171 yn darparu y caiff unrhyw awdurdod lleol neu unrhyw ymgymerwr statudol gyfrannu at wariant yr eir iddo gan awdurdod cynllunio neu awdurdod lleol arall wrth arfer, neu mewn cysylltiad ag arfer, swyddogaethau penodol o dan Ran 3 (gan gynnwys swyddogaethau pan gymhwysir y Rhan honno i ardal gadwraeth gan adran 163). Mae pŵer o'r fath yn debygol o gael ei arfer pan fydd awdurdod cynllunio yn arfer swyddogaeth mewn ffordd sydd o fudd i awdurdod arall neu ymgymerwr statudol arall, a allai gyfrannu at y costau yr eir iddynt i gydnabod y ffaith honno.
642. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud cyfraniad, neu ei gwneud yn ofynnol i gyfraniad gael ei wneud, at gost digollediad sy'n daladwy gan awdurdod cynllunio neu awdurdod lleol arall, o ganlyniad i unrhyw beth a wneir o dan Benodau 1 i 4 o Ran 3 – gan gynnwys unrhyw beth a wneir o dan Benodau 2 a 4 fel y'u cymhwysir i ardaloedd cadwraeth gan adran 163.
643. Yn y lle cyntaf, caiff Gweinidogion Cymru gyfrannu at gost digollediad os bydd y digollediad yn codi o ganlyniad i rywbeth a wneir yn gyfan gwbl neu'n rhannol er budd gwasanaeth a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol arall wneud cyfraniad rhesymol tuag at dalu digollediad os yw'r awdurdod hwnnw wedi elwa ar y camau a arweiniodd at y digollediad.
644. Mae is-adrannau (4) i (6) yn darparu ar gyfer digollediad pan ddaw cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig, neu ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath, i ben. Er y caiff mwy nag un awdurdod cynllunio fod yn barti i gytundeb, telir unrhyw ddigollediad gan yr awdurdod sy'n gwneud y gorchymyn terfynu o dan adran 115. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw un o'r awdurdodau eraill sy'n barti i gytundeb o'r fath i ad-dalu'r awdurdod a dalodd y digollediad, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Dim ond ar ôl ymgynghori â'r holl awdurdodau cynllunio sy'n bartïon i'r cytundeb, neu a oedd yn bartïon i'r cytundeb, y caiff Gweinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd o'r fath.

Pennod 2 – Achosion gerbron Gweinidogion Cymru

Adran 173 – Penderfynu apêl gan berson a benodir

Atodlen 12 – Penderfynu apelau gan bersonau a benodir neu Weinidogion Cymru

645. Mae adran 173 yn darparu bod apelau o fath a bennir yn is-adran (2) i'w penderfynu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na chan Weinidogion Cymru eu hunain. Fel arfer, bydd y person a benodir yn un o arolygwyr Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru.
646. Caniateir i reoliadau gael eu gwneud o dan adran 173(3)(a) a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu categorïau penodol o apelau yn lle person a benodir, er enghraifft rhai ar gyfer adeiladau rhestredig Gradd I. Gellir gwneud cyfarwyddydau sy'n benodol i achos hefyd o dan adran 173(3)(b) gan adfer apêl benodol i'w phenderfynu gan Weinidogion Cymru. Anaml y defnyddir pwerau cymaradwy a ddarperir gan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, ac fel arfer dim ond os yw'r apêl o ddiddordeb cenedlaethol pan allai'r canlyniad arwain at newid o sylwedd mewn polisi.

Section 171 – Contributions towards expenditure by local authorities

641. Section 171 provides that any local authority or statutory undertaker may contribute towards expenditure incurred by a planning authority or other local authority in, or in connection with, the exercise of certain functions under Part 3 (including functions when that Part is applied to a conservation area by section 163). Such a power is likely to be exercised when a planning authority's exercise of a function benefits another authority or statutory undertaker, who could contribute to the costs incurred in recognition of that fact.
642. Subsection (3) gives the Welsh Ministers a power to make or require a contribution to the cost of compensation payable by a planning authority or other local authority, in consequence of anything done under Chapters 1 to 4 of Part 3 – including anything done under Chapters 2 and 4 as applied to conservation areas by section 163.
643. In the first instance, the Welsh Ministers may contribute to the cost of compensation if the compensation arises as a result of something done wholly or partly in the interest of a service provided by the Welsh Ministers. The Welsh Ministers may also require another local authority to make a reasonable contribution towards a compensation payment if that authority has benefitted from the action that gave rise to the compensation.
644. Subsections (4) to (6) provide for compensation on the termination of a listed building partnership agreement or a provision of such an agreement. While more than one planning authority may be party to an agreement, any compensation will be paid by the authority that makes the termination order under section 115. The Welsh Ministers may, however, direct any of the other authorities party to such an agreement to reimburse the authority that paid the compensation, in whole or in part. The Welsh Ministers may only make such a direction after consulting with all of the planning authorities that are or were parties to the agreement.

Chapter 2 – Proceedings before the Welsh Ministers

Section 173 – Determination of appeal by appointed person

Schedule 12 – Determination of appeal by appointed person or the Welsh Ministers

645. Section 173 provides that appeals of a type specified in subsection (2) are to be determined by a person appointed by the Welsh Ministers, instead of by the Welsh Ministers themselves. Ordinarily, the appointed person will be an inspector of Planning and Environment Decisions Wales.
646. Regulations may be made under section 173(3)(a) which would require the Welsh Ministers to determine certain categories of appeals instead of an appointed person, for example those for Grade I listed buildings. Case-specific directions can also be made under section 173(3)(b) which would recover a specific appeal to be determined by the Welsh Ministers. Comparable powers provided by the 1990 Listed Buildings Act have rarely been used, and usually only if the appeal is of national interest where the result may lead to a substantive change in policy.

647. Mae Atodlen 12 yn gwneud darpariaethau ychwanegol ynghylch pwerau a dyletswyddau'r person a benodir a gweinyddu cyfarwyddydau o dan adran 173(3)(b).
648. Mae paragraff 2 o'r Atodlen yn darparu bod gan berson a benodir yr un pwerau a dyletswyddau mewn perthynas ag apêl o dan adran 100 (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio neu fethiant awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad) neu 127 (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) ag sydd gan Weinidogion Cymru pan fyddant yn penderfynu apelau o'r fath eu hunain.
649. Mae paragraff 3 yn ymwneud â'r trefniadau y caiff person a benodir eu gwneud i gynnal apêl. Mae is-baragraff (1) yn caniatáu i'r person a benodir gynnal ymchwiliad lleol neu wrandawriad mewn cysylltiad ag apêl pan fo achos o'r fath yn cael eu caniatáu gan benderfyniad o dan adran 174. O dan is-baragraff (2) caiff person a benodir benodi asesydd i gynghori ar faterion sy'n codi mewn ymchwiliad lleol neu wrandawriad neu mewn sylwadau ysgrifenedig sy'n gysylltiedig ag apêl. Gan fod adran 100 ac adran 127 yn caniatáu apêl ar y sail nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, gallai person a benodir, er enghraifft, ei chael yn ddefnyddiol galw ar asesydd â gwybodaeth benodol o ddosbarth o adeiladau neu hanes yr ardal am gyngor arbenigol ar faterion sy'n codi mewn cysylltiad â'r apêl.
650. Mae paragraff 4 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ddirymu penodiad person a benodir ar unrhyw adeg cyn penderfynu apêl, a phenodi person arall i gynnal yr apêl. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid dechrau'r apêl o'r newydd, ond nid oes angen i Weinidogion Cymru roi cyfle i berson i gyflwyno sylwadau newydd, neu i addasu sylwadau neu tynnu'n ôl.
651. Mae paragraff 5 yn darparu'r weithdrefn sydd i'w dilyn pe bai Gweinidogion Cymru yn dyroddi cyfarwyddyd sy'n benodol i achos o dan 173(3)(b) fod apêl i'w phenderfynu ganddynt hwy yn hytrach na chan berson a benodir. Mae paragraff 6 yn darparu ymhellach y caiff Gweinidogion Cymru ddirymu cyfarwyddyd o'r fath ar unrhyw adeg cyn penderfynu apêl a phenodi person i benderfynu'r apêl.
652. Mae paragraff 7 yn cynnwys darpariaethau atodol. Mae paragraff 7(1) yn cadarnhau nad yw'n sail i gais i'r Uchel Lys o dan adran 183, nac i apêl i'r Uchel Lys o dan adran 184, y dylai apêl fod wedi cael ei phenderfynu gan Weinidogion Cymru yn hytrach na pherson a benodir, oni bai bod yr apelydd neu'r awdurdod cynllunio yn herio pŵer y person a benodir i benderfynu'r apêl cyn i'r penderfyniad ar yr apêl gael ei roi.
653. Mae paragraff 7(2) yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi aelod o staff Llywodraeth Cymru i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag apêl, y dylid trin y swyddogaethau hynny fel swyddogaethau Llywodraeth Cymru at ddibenion Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3). Bydd hyn yn galluogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i unrhyw honiadau o gamweinyddu a wneir mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaethau hynny gan y person a benodir.

647. Schedule 12 makes additional provisions about the powers and duties of the appointed person and the administration of directions under section 173(3)(b).
648. Paragraph 2 of the Schedule provides that an appointed person has the same powers and duties in relation to an appeal under section 100 (appeal against planning authority decision or failure to make decision) or 127 (appeal against an enforcement notice) as the Welsh Ministers have where they determine such appeals themselves.
649. Paragraph 3 concerns the arrangements that an appointed person may make to conduct an appeal. Subparagraph (1) permits the appointed person to hold a local inquiry or hearing in connection with an appeal where such proceedings are allowed by a determination under section 174. Under subparagraph (2) an appointed person may appoint an assessor to advise on matters arising at a local inquiry or hearing or in written representations associated with an appeal. Since both section 100 and section 127 allow an appeal on the ground that the building is not of special architectural or historic interest, an appointed person might, for example, find it helpful to call on an assessor with particular knowledge of a class of buildings or the history of the area for specialist advice on matters arising in connection with the appeal.
650. Paragraph 4 makes provision for the Welsh Ministers to revoke an appointed person's appointment at any point before an appeal is determined, and appoint another person to undertake the appeal. In these circumstances, the appeal must start afresh, but the Welsh Ministers do not need to give a person an opportunity to make fresh representations, or to modify or withdraw representations.
651. Paragraph 5 provides the procedure to be followed should the Welsh Ministers issue a case-specific direction under 173(3)(b) that an appeal is to be determined by them rather than by an appointed person. Paragraph 6 further provides that the Welsh Ministers may revoke such a direction at any point before an appeal is determined and appoint a person to determine the appeal.
652. Paragraph 7 contains supplementary provisions. Paragraph 7(1) establishes that the appellant or planning authority cannot make application to the High Court under sections 183 or 184 that the Welsh Ministers should have determined the appeal unless they challenged the appointed person's power to determine the appeal before any decision was made.
653. Paragraph 7(2) provides that, where the Welsh Ministers appoint a member of staff of the Welsh Government to carry out their functions in relation to an appeal, those functions are to be treated as functions of the Welsh Government for the purposes of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019 (anaw 3). This will enable the Public Services Ombudsman for Wales to investigate any allegations of maladministration made in relation to the appointed person's discharge of those functions.

Adran 174 – Dewis o ymchwiliad, gwrandawriad neu weithdrefn ysgrifenedig

654. Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu, ym mhob achos, y weithdrefn i'w dilyn wrth ystyried yr achosion a nodir yn is-adran (7). Gall y weithdrefn fod yn ymchwiliad lleol, gwrandawriad, sylwadau ysgrifenedig, neu unrhyw gyfuniad o'r tri hynny. Bydd y dewis o weithdrefn yn cael ei phenderfynu'n bennaf gan y graddau y mae angen profi tystiolaeth drwy archwiliad llafar. Mae sylwadau ysgrifenedig yn addas pan ellir deall yn glir y materion sy'n codi o'r dogfennau a gyflwynir a thrwy archwiliad safle. Bydd gwrandawriad yn cael ei drefnu pan fo angen profi tystiolaeth drwy gwestiynu ond nid oes angen croesholi na rhoi tystiolaeth ar lw. Mae ymchwiliad yn debygol o fod yn angenrheidiol pan fo'r materion yn gymhleth a phan fo angen archwiliad fforensig ar y dystiolaeth drwy groesholi. Mae'n bosibl y bydd rhai materion mewn achosion yn cael eu hystyried ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig, ond y bydd eraill yn cael eu harchwilio mewn gwrandawriad neu ymchwiliad.
655. Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu'r weithdrefn o fewn cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau, ond cânt amrywio'r penderfyniad hwnnw gyda phenderfyniad pellach ar unrhyw adeg cyn i'r achosion ddod i ben. Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r apelydd neu'r ceisydd (fel y bo'n briodol, yn dibynnu ar natur yr achos) a'r awdurdod cynllunio am y weithdrefn a ddewiswyd a chyhoeddi'r meini prawf sydd i'w cymhwyso wrth benderfynu'r weithdrefn sydd i'w dilyn.

Adran 175 – Gofynion gweithdrefnol

656. Mae adran 175 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag unrhyw apêl, unrhyw gais neu unrhyw atgyfeiriad sydd i'w hystyried neu ei ystyried gan Weinidogion Cymru o dan Ran 3 a Rhan 4 o'r Ddeddf (pa un ai drwy ymchwiliad lleol, gwrandawriad neu sylwadau ysgrifenedig). Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth i'r weithdrefn gael ei dilyn ar gyfer unrhyw ymchwiliad lleol neu unrhyw wrandawriad arall a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan o dan Rannau 3 neu 4 neu'r Rhan hon o'r Ddeddf. Er enghraifft, caiff y rheoliadau, felly, bennu gweithdrefnau ar gyfer gwrandawriadau neu ymchwiliadau a gynhelir gerbron Gweinidogion Cymru i gadarnhau gorchymyn sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad adeilad rhestredig (gweler Atodlen 8). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Canllaw gweithdrefnol – Cymru* (2017), ar gyfer apelau yn cynnwys apelau cydsyniad adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth, apelau hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth, ac apelau ym maes cydsyniad adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth a alwyd i mewn. Mae ar gael ar y dudalen "Arweiniad ar apeladau a cheisiadau" ar wefan Llywodraeth Cymru.

Adran 176 – Pŵer Gweinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad lleol

Adran 177 – Pŵer person sy'n cynnal ymchwiliad i wneud tystiolaeth yn ofynnol

657. Mae adran 176 yn caniatáu i Weinidogion Cymru beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau yn Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf, neu o dan y Rhan hon. Mae adran 177 yn caniatáu i'r person sy'n cynnal ymchwiliad wysio unrhyw berson i fod yn bresennol mewn ymchwiliad i roi tystiolaeth neu i gyflwyno unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad.
658. Mae adran 177(5) i (7) yn sefydlu troseddau sy'n ymwneud â methu â chydymffurfio â gwŷs i ymchwiliad.

Section 174 – Choice of inquiry, hearing or written procedure

654. Section 174 requires the Welsh Ministers to determine, in each case, the procedure to follow in considering the proceedings set out in subsection (7). The procedure can be a local inquiry, a hearing, written representations or any combination of those three. The choice of procedure will largely be determined by the extent to which evidence needs to be tested through oral examination. Written representations are suitable when the issues raised can be clearly understood from the submitted documents and a site inspection. A hearing will be scheduled where evidence needs to be tested through questioning but there is no need for cross-examination or for evidence to be given on oath. An inquiry is likely to be necessary where the issues are complex and the evidence needs forensic examination through cross-examination. It is possible that some issues in cases will be considered on the basis of written submissions while others will be examined in a hearing or inquiry.
655. The Welsh Ministers must determine the procedure within a period prescribed in regulations, but may vary that determination with a further determination at any time before the proceedings conclude. The Welsh Ministers must notify the appellant or applicant (as appropriate, depending on the nature of the proceedings) and the planning authority of the procedure that has been selected and publish the criteria that are to be applied in determining the procedure to be followed.

Section 175 – Procedural requirements

656. Section 175 allows the Welsh Ministers to make regulations setting out the procedures to be followed in connection with any appeal, application or reference that is to be considered by the Welsh Ministers under Part 3 and Part 4 of the Act (whether by local inquiry, hearing or written representations). The regulations may also make provision for the procedure to be followed for any other local inquiry or hearing held by or on behalf of Welsh Ministers under Parts 3 or 4 or this Part of the Act. For example, the regulations may, therefore, set procedures for hearings or inquiries that are held before the Welsh Ministers to confirm an order modifying or revoking listed building consent (see Schedule 8). The Welsh Government has published the *Procedural Guide – Wales* (2017), for appeals including listed building and conservation area consent appeals, listed building and conservation area enforcement notice appeals and listed building or conservation area consent call-ins. It is available on the “Planning appeals guidance” page of the Welsh Government website.

Section 176 – Power of Welsh Ministers to hold local inquiry

Section 177 – Power of person holding inquiry to require evidence

657. Section 176 allows the Welsh Ministers to cause a local inquiry to be held for the purpose of exercising any of their functions in Parts 3 and 4 of the Act, or under this Part. Section 177 allows the person holding an inquiry to summon any person to attend an inquiry to give evidence or to produce any documents that relate to the inquiry.
658. Section 177(5) to (7) establishes offences relating to a failure to comply with a summons to an inquiry.

659. Mae person sy'n euog o drosedd ar euogfarn ddiannod yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na'r uchafswm cyfnod am droseddau diannod, neu i'r ddau (is-adran (6)).

Adran 178 – Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad

Adran 179 – Talu cynrychiolydd a benodir pan fo mynediad i dystiolaeth wedi ei gyfyngu

660. Mewn ymchwiliad lleol a gynhelir o dan y Rhan hon, mae adran 178 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl dystiolaeth lafar gael ei chlywed yn gyhoeddus, ac i'r holl dystiolaeth ddogfennol fod ar gael i'r cyhoedd edrych arni. Fodd bynnag, pan fo Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y byddai datgelu cyhoeddus yn debygol o ddatguddio gwybodaeth am ddiogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch unrhyw fangre neu unrhyw eiddo ac y byddai yn erbyn y buddiant cenedlaethol, mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo nad yw tystiolaeth lafar i'w chlywed ac mai dim ond pobl benodol sydd i edrych ar ddogfennau.
661. Os yw cyfarwyddyd o'r fath yn cael ei ystyried, caiff y Cwnsler Cyffredinol, swyddog cyfraith a phrif gynghorydd cyfreithiol Llywodraeth Cymru, benodi person ("cynrychiolydd a benodir") i gynrychioli buddiannau'r bobl hynny a fyddai'n cael eu hatal rhag clywed neu edrych ar y dystiolaeth.
662. Mae adran 179 yn darparu ar gyfer talu'r cynrychiolydd a benodir pa un a yw ymchwiliad yn digwydd ai peidio. Caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo "person cyfrifol" sydd â diddordeb mewn diogelwch cenedlaethol neu ddiddordeb arall yn yr ymchwiliad i dalu treuliau'r cynrychiolydd a benodir. Er enghraifft, pe cynhelid ymchwiliad lleol mewn cysylltiad ag apêl sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig mewn canolfan filwrol yng Nghymru, mae'n bosibl iawn y byddai rhesymau dros gyfyngu mynediad at wybodaeth er budd diogelwch cenedlaethol. Mewn achos o'r fath, gallai Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn, sef y person cyfrifol, i dalu costau'r cynrychiolydd a benodir.

Adran 180 – Talu costau Gweinidogion Cymru

663. Mae adran 180 yn caniatáu i Weinidogion Cymru adennill y costau y maent yn mynd iddynt mewn achos ar unrhyw gais, unrhyw apêl neu unrhyw atgyfeiriad a wneir i neu at Weinidogion Cymru o dan Ran 3 neu Ran 4 pa un a yw materion yn mynd rhagddynt drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad. Caniateir iddynt hefyd adennill y costau y maent yn mynd iddynt pan gynhelir ymchwiliad lleol neu wrandawriad at ddibenion gwneud unrhyw fath arall o benderfyniad o dan Rannau 3 a 4 neu'r Rhan hon, er enghraifft cyn cadarnhau hysbysiad prynu neu wneud gorchymyn sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad adeilad rhestredig.
664. Mae adran 180 yn caniatáu i Weinidogion Cymru adennill yr holl gostau gweinyddol y maent yn mynd iddynt, gan gynnwys costau staff cyffredinol a gorbenion. Mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi swm dyddiol safonol ar gyfer achos penodedig.

659. A person guilty of an offence on summary conviction is liable to a fine not exceeding level 3 on the standard scale or a term of imprisonment not exceeding the maximum term for summary offences, or both (subsection (6)).

Section 178 – Access to evidence at inquiry

Section 179 – Payment of appointed representative where access to evidence restricted

660. At a local inquiry held under this Part, section 178 requires all oral evidence to be heard in public and all documentary evidence to be available for public inspection. However, where the Welsh Ministers or the Secretary of State consider that public disclosure would be likely to reveal information about national security or the security of any premises or property and would be against the national interest, subsection (2) provides that the Welsh Ministers or the Secretary of State may direct that oral evidence be heard and documents be inspected by specific people only.
661. If such a direction is being considered, the Counsel General, the Welsh Government's law officer and chief legal advisor, may appoint a person (an "appointed representative") to represent the interests of those people who would be prevented from hearing or inspecting the evidence.
662. Section 179 provides for the payment of the appointed representative whether or not an inquiry takes place. The Welsh Ministers or the Secretary of State may direct a "responsible person" with a national security or other interest in the inquiry to pay the appointed representative's expenses. If, for instance, a local inquiry were held in connection with an appeal relating to a listed building on an active military base in Wales, there could easily be reasons for limiting access to information in the interest of national security. In such a case, the Welsh Ministers or the Secretary of State might direct the Ministry of Defence, as the responsible person, to pay the costs of the appointed representative.

Section 180 – Payment of costs of Welsh Ministers

663. Section 180 allows the Welsh Ministers to recover the costs they incur in proceedings on any application, appeal or reference made to the Welsh Ministers under Part 3 or Part 4 whether matters proceed by way of written representations, a hearing or inquiry. They may also recover the costs they incur where a local inquiry or hearing is held for the purpose of making any other kind of decision under Parts 3 and 4 or this Part, for example prior to confirming a purchase notice or making an order modifying or revoking listed building consent.
664. Section 180 allows the Welsh Ministers to recover the entire administrative costs they incur, including general staff costs and overheads. It also allows the Welsh Ministers to make regulations prescribing a standard daily amount for specified proceedings.

Adran 181 – Gorchmynion sy'n ymwneud â chostau partiön

665. Mae adran 181 yn caniatáu i Weinidogion Cymru orchymyn un parti i dalu costau parti arall, a all gynnwys costau mewn cysylltiad ag ymchwiliad neu wrandawriad nad yw'n digwydd.
666. Dim ond pan fydd parti wedi ymddwyn yn afresymol a bod yr ymddygiad afresymol wedi achosi i barti arall fynd i wariant diangen neu wariant a wastraffwyd y dyfernir costau.
667. Mae canllawiau ar ddyfarnu costau wedi eu cynnwys yn *Llawlyfr Rheoli Datblygu, Adran 12 Atodiad: Dyfarnu Costau* (2016) Llywodraeth Cymru.

Pennod 3 – Dilysrwydd penderfyniadau a'u cywiro

Adran 182 – Dilysrwydd penderfyniadau a gorchmynion penodol sy'n ymwneud ag adeiladau

Adran 183 – Cais i'r Uchel Lys am adolygiad statudol o benderfyniad neu orchymyn

668. Mae adran 182 yn darparu mai dim ond drwy adolygiad statudol o dan y weithdrefn a nodir yn adran 183 y caniateir herio penderfyniadau a gorchmynion penodol, ac na chaniateir eu herio drwy unrhyw achos cyfreithiol arall. Nodir y penderfyniadau o dan sylw yn is-adran (2) a'r gorchmynion yn is-adran (3).
669. Mae adran 183 yn darparu y caiff person a dramgwyddir gan benderfyniad neu orchymyn a restrir yn adran 182(2) neu (3) wneud cais i'r Uchel Lys ar gyfer yr adolygiad statudol o'r penderfyniad neu'r gorchymyn. Yn ddibynnol ar amgylchiadau'r achos unigol, caiff personau a dramgwyddir gynnwys y perchennog neu'r meddiannydd, y ceisydd neu'r apelydd, neu unrhyw parti arall sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiadau neu sylwadau yn rhan o'r weithdrefn a ragflaenodd y penderfyniad neu'r gorchymyn sy'n cael ei herio. Caiff yr awdurdod sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r penderfyniad neu'r gorchymyn, fel y'i diffinnir yn is-adran (7), hefyd wneud cais am adolygiad statudol.
670. Ni chaniateir gwneud cais am adolygiad statudol ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys. Caniateir herio penderfyniad neu orchymyn perthnasol ar y sail:
- a. nad yw o fewn y pwerau priodol; neu
 - b. y methwyd â chydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol a bod y methiant hwnnw wedi cael effaith andwyol sylweddol ar y ceisydd wedi hynny.
671. Gellir canfod bod penderfyniad y tu allan i'r pwerau priodol nid yn unig drwy gyfeirio at y pwerau a'r gofynion a nodir yn y Ddeddf, ond hefyd, er enghraifft, oherwydd bod y penderfynwr wedi ymddwyn yn afresymegol, neu wedi ystyried ystyriaethau amherthnasol, neu wedi methu ag ystyried ystyriaethau perthnasol.
672. Nid yw her o'r fath yn gyfle i adolygu rhinweddau'r penderfyniad neu'r gorchymyn sy'n cael ei herio.

Section 181 – Orders relating to costs of parties

665. Section 181 allows the Welsh Ministers to order one party to pay another party's costs, which may include costs in respect of an inquiry or hearing that does not take place.
666. Costs will only be awarded where a party has behaved unreasonably and the unreasonable behaviour has directly caused another party to incur unnecessary or wasted expense.
667. Guidance on the award of costs is contained in the Welsh Government's *Development Management Manual Section 12 Annex: Award of Costs* (2016).

Chapter 3 – Validity and correction of decisions

Section 182 – Validity of certain decisions and orders relating to buildings

Section 183 – Application to High Court for statutory review of decision or order

668. Section 182 provides that certain decisions and orders may only be challenged by statutory review under the procedure set out in section 183, and may not be challenged by means of any other legal proceedings. The decisions in question are set out in subsection (2) and the orders in subsection (3).
669. Section 183 provides that a person who is aggrieved by a decision or order listed in section 182(2) or (3) may make an application to the High Court for the statutory review of the decision or order. Depending on the circumstances of the individual case, aggrieved persons may include the owner or occupier, the applicant or appellant, or some other party who made objections or representations as part of the procedure which preceded the decision or order challenged. The authority directly concerned with the decision or order, as defined in subsection (7), may also make an application for statutory review.
670. An application for statutory review may only be made with the permission of the High Court. A relevant decision/order may be challenged on the grounds that:
- a. it is not within the appropriate powers; or
 - b. there has been a failure to comply with a procedural requirement and the applicant has been substantially prejudiced by that failure.
671. A decision may be found to be outside the appropriate powers not only by reference to the powers and requirements set out in the Act, but also, for example, because the decision-maker has acted irrationally, or taken into account irrelevant, or failed to take into account relevant, considerations.
672. Such a challenge is not an opportunity to review the merits of the decision or order challenged.

Adran 184 – Apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad sy'n ymwneud â hysbysiad gorfodi

673. Mae adran 184 yn ei gwneud yn ofynnol i reolau llys ddarparu mecanwaith i bersonau sydd â buddiant (gweler is-adran (2)(b)) herio penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru ar apelau sy'n ymwneud â hysbysiadau gorfodi. Rhaid i'r rheolau benderfynu a gaiff personau sydd â buddiant apelio i'r Uchel Lys (yn ymarferol, byddai'r Llys Cynllunio, llys arbenigol o fewn yr Uchel Lys yn ymdrin â'r apelau, ac mae'r rheolau wedi eu cynnwys yn Rhan 54 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a Chyfarwyddyd Ymarfer 54D, a wneir gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil), neu a allai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatgan a llofnodi achos i gael barn yr Uchel Lys (a fyddai, yn ymarferol, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ofyn i'r Llys Cynllunio am ei ddyfarniad ynghylch a wnaethant benderfynu'r apêl yn briodol. Mae'r rheolau wedi eu cynnwys yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 52E).
674. Nid yw adran 184 yn gymwys i herio penderfyniadau apêl gorfodi o dan adran 128(3)(a) neu (b) (rhoi cydsyniad neu ddileu amodau mewn cydsyniadau). Dim ond o dan adran 183 (adolygiad statudol) y caniateir herio'r penderfyniadau hyn.
675. Mae is-adran (8) yn darparu na chaniateir dwyn apêl i'r Uchel Lys o dan yr adran hon ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys. Os nad yw'r Llys o'r farn bod achos cryf, gall wrthod caniatâd (a dim ond ar bwyntiau cyfreithiol y caniateir gwneud ceisiadau am apêl o dan yr adran hon, ac nid dim ond am fod person yn anghytuno â phenderfyniad). Ar hyn o bryd, mae Cyfarwyddyd Ymarfer 54D yn darparu bod rhaid gwneud cais am ganiatâd o fewn 28 diwrnod i herio'r penderfyniad, er y gall yr Uchel Lys ymestyn y cyfnod hwn os yw o'r farn bod rheswm da dros wneud hynny.
676. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 54D hefyd yn darparu na all y Llys, pan fo'n penderfynu bod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir ar bwynt cyfreithiol, roi'r penderfyniad o'r neilltu ac na all ond ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru neu berson a benodir ailystyried yr achos.

Adran 185 – Ystyr “dogfen penderfyniad” a “gwall cywiradwy”

Adran 186 – Pŵer i gywiro gwallau cywiradwy mewn dogfennau penderfyniad

Adran 187 – Effaith a dilysrwydd hysbysiad cywiro

677. Mae adrannau 185 i 187 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gywiro gwallau penodol a gynhwysir mewn dogfennau penderfyniad penodol. Mae'r tair adran hyn yn diffinio termau allweddol, yn nodi'r pŵer i gywiro gwallau, ac yn esbonio effaith penderfyniad i gywiro gwall ai peidio.
678. Mae adran 185 yn darparu bod y pŵer cywiro yn arferadwy mewn perthynas â “dogfennau penderfyniad” sy'n cofnodi:
- penderfyniadau o fath a restrir yn adran 182(2);
 - penderfyniadau ar apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi o dan adran 127; ac
 - unrhyw fathau eraill o benderfyniadau a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Section 184 – Appeal to High Court against decision relating to enforcement notice

673. Section 184 requires rules of court to provide a mechanism for interested persons (see subsection (2)(b)) to challenge decisions made by the Welsh Ministers on appeals relating to enforcement notices. The rules must determine whether interested persons may appeal to the High Court (in practice, the appeals would be dealt with by the Planning Court, a specialist court within the High Court, and the rules are contained in Part 54 of the Civil Procedure Rules and Practice Direction 54D, which are made by the Civil Procedure Rule Committee), or whether the Welsh Ministers may be required to state and sign a case for the opinion of the High Court (which, in practice, would require the Welsh Ministers to ask the Planning Court for its judgment on whether they decided the appeal properly, and the rules are contained in Practice Direction 52E).
674. Section 184 does not apply to challenges to enforcement appeal decisions under section 128(3)(a) or (b) (granting consent or removing conditions of consents). These decisions can only be challenged under section 183 (statutory review).
675. Subsection (8) provides that an appeal to the High Court under this section may only be brought with the permission of the High Court. If the Court does not consider that there is a strong case, it can refuse permission (and appeal applications under this section may only be made on points of law, and not merely because a person disagrees with a decision). Practice Direction 54D currently provides that an application for permission must be made within 28 days of the decision being challenged, although the High Court can extend this period if it considers there is good reason to do so.
676. Practice Direction 54D also provides that, where the Court determines that the original decision is erroneous on a point of law, the Court cannot set the decision aside and can only require the Welsh Ministers or appointed person to reconsider the case.

Section 185 – Meaning of “decision document” and “correctable error”

Section 186 – Power to correct correctable errors in decision documents

Section 187 – Effect and validity of correction notice

677. Sections 185 to 187 provide that the Welsh Ministers may correct certain errors contained in particular decision documents. These three sections define key terms, set out the power to correct errors, and explain the effect of a decision whether or not to correct an error.
678. Section 185 provides that the correction power is exercisable in relation to “decision documents” that record:
- a. decisions of a type listed in section 182(2);
 - b. decisions on appeals against enforcement notices under section 127; and
 - c. any other types of decisions specified in regulations made by the Welsh Ministers.

679. Mae'r adran hefyd yn nodi mai dim ond mewn perthynas â gwallau, sy'n cynnwys hepgoriadau, nad ydynt yn rhan o unrhyw resymau a roddir dros y penderfyniad y caniateir arfer y pŵer cywiro.
680. Mae adran 186 yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn i gywiro gwallau mewn dogfen penderfyniad berthnasol.
681. Mae is-adran (2) yn nodi bod y weithdrefn yn dechrau pan fo Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y "cyfnod adolygu", yn cael cais ysgrifenedig i gywiro gwall neu, ar eu liwt eu hunain, yn ysgrifennu at y ceisydd i egluro bod y ddogfen penderfyniad yn cynnwys camgymeriad y ma Gweinidogion Cymru yn ystyried ei gywiro. Diffinnir y "cyfnod adolygu" yn is-adran (4); drwy gyfeirio at y cyfnod ar gyfer dwyn achosion o dan adran 183 neu 184 (a nodir yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil a'r cyfarwyddiadau ymarfer). Mae'n 6 wythnos mewn perthynas â dogfennau penderfyniad sy'n cofnodi penderfyniadau o fath a restrir yn adran 182(2) a 4 wythnos mewn perthynas â dogfennau penderfyniad sy'n cofnodi penderfyniadau am apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi o dan adran 127 (ac eithrio penderfyniadau y mae adran 182 yn gymwys iddynt). Rhaid hysbysu'r awdurdod cynllunio hefyd fod cais i wneud cywiriad wedi dod i law, neu fod Gweinidogion Cymru yn ystyried gwneud cywiriad.
682. Mae is-adrannau (5) a (6) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cywiro gwall neu benderfynu peidio â chywiro gwall, ddyroddi hysbysiad cywiro a fydd naill ai'n pennu'r cywiriad a wnaed neu'n rhoi hysbysiad nad ydynt yn cywiro'r gwall. Mae is-adran (7) yn pennu i bwy y mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad cywiro. Mae is-adran (8) yn darparu y caniateir i'r swyddogaethau o dan yr adran hon gael eu harfer gan berson a benodir os gwnaed y penderfyniad gwreiddiol gan berson a benodir.
683. Mae adran 187 yn nodi statws penderfyniadau cywiredig ac anghywiredig.
684. Bydd penderfyniad cywiredig yn cael ei drin fel pe bai wedi ei wneud ar y dyddiad y gwneir y cywiriad perthnasol a bydd y cyfnod statudol ar gyfer herio'r penderfyniad cywiredig yn dechrau o'r dyddiad hwnnw. Felly, nid yw'r amser a gymerir i gywiro'r penderfyniad yn effeithio ar unrhyw berson sy'n dymuno herio'r penderfyniad. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn cywiro penderfyniad, bydd y penderfyniad gwreiddiol yn sefyll ac ni fydd hyn yn effeithio ar y cyfnod statudol ar gyfer herio.

Rhan 6 – Asedau treftadaeth eraill a chofnodion

685. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch parciau a gerddi hanesyddol (adran 192), enwau lleoedd hanesyddol (adran 193) a chofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru (adrannau 194 i 196).

Adran 192 – Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol

686. Mae adran 192 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal cofrestr o barciau a gerddi yng Nghymru y maent yn ystyried eu bod o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Mae is-adran (1) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r gofrestr gyfredol. Caiff y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol ei chyhoeddi ar Cof Cymru.

679. The section also sets out that the correction power may only be exercised in relation to errors, which include omissions, that are not part of any reasons given for the decision.
680. Section 186 sets out the procedure the Welsh Ministers must follow to correct errors in a relevant decision document.
681. Subsection (2) sets out that the procedure starts where, before the end of the “review period”, the Welsh Ministers receive a request in writing to correct an error or, on their own initiative, write to the applicant to explain that the decision document contains a mistake that the Welsh Ministers are considering correcting. The “review period” is defined in subsection (4) by reference to the period for bringing proceedings under section 183 or 184 (set out in the relevant Civil Procedure Rules and practice directions). It is 6 weeks in relation to decision documents recording decisions of a type listed in section 182(2) and 4 weeks in relation to decision documents recording decisions on appeals against enforcement notices under section 127 (other than decisions to which section 182 applies). The planning authority must also be informed that a request to make a correction has been received, or that the Welsh Ministers are considering making a correction.
682. Subsections (5) and (6) provide that the Welsh Ministers must, as soon as practicable after correcting an error or deciding not to correct an error, issue a correction notice which will either specify the correction that has been made or give notice that they are not correcting the error. Subsection (7) specifies on whom the correction notice must be served. Subsection (8) provides that the functions under this section may be exercised by an appointed person if an appointed person made the original decision.
683. Section 187 sets out the status of corrected and uncorrected decisions.
684. A corrected decision will be treated as having been made on the date the relevant correction is made and the statutory period for challenging the corrected decision will start to run from that date. Any person wishing to challenge the decision is therefore not prejudiced by the time taken to correct the decision. If the Welsh Ministers do not correct a decision, the original decision will stand and the statutory period for challenge will be unaffected.

Part 6 – Other heritage assets and records

685. This Part makes provision about historic parks and gardens (section 192), historic place names (section 193) and historic environment records in Wales (sections 194 to 196).

Section 192 – Duty to maintain and publish register of historic parks and gardens

686. Section 192 places a duty on the Welsh Ministers to maintain a register of parks and gardens in Wales that they consider to be of special historic interest. Subsection (1) also requires the Welsh Ministers to publish the up-to-date register. The register of historic parks and gardens is published on Cof Cymru.

687. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae tua 400 o barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yng Nghymru. Mae pob un o'r parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn safle o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Cânt eu graddio gan ddefnyddio system sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer adeiladau rhestredig (I, II* a II). Mae is-adran (6) yn egluro bod unrhyw gyfeiriadau yn yr adran hon at barciau a gerddi yn cynnwys manau hamdden a thiroedd eraill sydd wedi eu dylunio, gan gynnwys tirweddau addurnol sydd wedi eu dylunio. Gall parciau a gerddi hanesyddol gynnwys amrywiaeth eang o fannau – parciau o amgylch plastai gwledig, parciau ceirw, gerddi trefi, tir ysbytai, mynwentydd a pharciau cyhoeddus, er enghraifft. Maent yn dyddio o'r cyfnod canoloesol hyd at y gorffennol diweddar iawn. Er na fydd unrhyw weithdrefnau cydsyniad penodol yn deillio o fod yn rhan o'r gofrestr, caniateir gwarchod parciau a gerddi hanesyddol, a'u lleoliadau, drwy'r system gynllunio.
688. Wrth nodi parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu pa un a ddylid cynnwys tir sy'n cydffinio â'r tir sy'n cael ei gofrestru neu sy'n gyfagos iddo, neu unrhyw adeilad neu ddŵr sydd ar y tir hwnnw, sy'n cydffinio ag nef neu sy'n gyfagos iddo ai peidio. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer arfer barn broffesiynol wrth benderfynu'r llinell derfyn fwyaf rhesymegol. Er enghraifft, gellid cynnwys mynedfa eang grand i dramwyfa, sydd y tu allan i waliau ystad ond sy'n amlwg yn rhan o'r dyluniad, mewn cofnod yn y gofrestr. Fel arall, gellid hepgor tŷ gwydr neu stablau modern o gofnod.
689. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r gwaith o reoli parciau a gerddi cofrestredig, a chaiff y canllawiau eu hadolygu'n gyson. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r canllawiau *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* (2017), yn nodi'r egwyddorion cyffredinol i'w dilyn wrth ystyried unrhyw newidiadau a all gael effaith ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Maent at ddefnydd perchnogion a'u hasiantiaid yn bennaf, a'u nod yw eu helpu i ddeall y goblygiadau sydd ynghlwm wrth berchen ar barc cofrestredig neu ardd gofrestrdig a sut i reoli newidiadau sy'n effeithio arno neu arni.

Adran 193 – Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi rhestr o enwau lleoedd hanesyddol

690. Mae adran 193 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Mae enwau lleoedd hanesyddol yn darparu tystiolaeth werthfawr am y newidiadau ieithyddol, cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi llunio Cymru. Maent yn elfennau pwysig o'r tirwedd trefol a gwledig ac yn cyfrannu at hunaniaeth leol a rhanbarthol. Caiff y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru ei rheoli ar ran Gweinidogion Cymru gan Gomisiwn Brenhinol. Mae ar gael drwy wefan y Comisiwn Brenhinol a thrwy gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru. Ym mis Ebrill 2023, roedd y Rhestr yn cynnwys bron i 700,000 o enwau hanesyddol o ffynonellau a gynhyrchwyd cyn 1914, gan gynnwys gwahanol enwau a sillafiadau ar gyfer yr un strwythur neu'r un lle ar wahanol adegau. Bydd yn parhau i dyfu wrth i ragor o enwau lleoedd gael eu casglu o amrywiaeth o ffynonellau hanesyddol.

687. There are, at the time of writing these notes, around 400 registered historic parks and gardens in Wales. All registered historic parks and gardens are of special historic interest and are graded using a system similar to that used for listed buildings (I, II* and II). Subsection (6) explains that references in this section to parks and gardens include places of recreation and other designed grounds, including designed ornamental landscapes. Historic parks and gardens can include a wide range of places – rural parks around country houses, deer parks, town gardens, hospital grounds, cemeteries and public parks, for example. They date from the medieval period to the very recent past. Whilst inclusion in the register does not introduce any specific consent regimes, registered historic parks and gardens, and their settings, may be protected through the planning system.
688. In identifying parks and gardens of special historic interest, the Welsh Ministers are required by subsection (2) to decide whether to include land adjoining or adjacent to the grounds being registered, or any building or water on or adjoining or adjacent to those grounds. This will allow the exercise of professional judgement in determining the most logical boundary line. For example, a grand splayed entrance to a driveway, which is outside the walls of an estate but clearly part of the design, could be included in a register entry. Alternatively, a modern greenhouse or stable block could be excluded from an entry.
689. The Welsh Ministers have published guidance, which is kept under review, to support the management of registered parks and gardens. The guidance at the time of writing these notes, *Managing Change to Registered Historic Parks and Gardens in Wales* (2017), sets out the general principles to follow when considering changes that may have an impact on registered historic parks and gardens. It is principally aimed at owners and their agents to help them to understand the implications of owning a registered park or garden and managing changes that affect it.

Section 193 – Duty to maintain and publish list of historic place names

690. Section 193 places a duty on the Welsh Ministers to maintain a list of historic place names in Wales. Historic place names provide valuable evidence for the linguistic, social and historical changes that have shaped Wales. They are important elements of the urban and rural landscape and contribute to local and regional identity. The List of Historic Place Names of Wales is managed on behalf of the Welsh Ministers by the Royal Commission. It is freely available on the Royal Commission's website and through the Welsh historic environment records. In April 2023, the List contained nearly 700,000 historic names from geo-referenced sources earlier than 1914, including variant names and spellings for the same structure or place at different times. It will continue to grow as further place names are collected from a variety of historical sources.

691. Mae'r canllawiau statudol ar gyfer cofnodion amgylchedd hanesyddol *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio* (2017), a gyhoeddwyd yn unol ag adran 196 a adolygir yn gyson, yn cynnwys atodiad sy'n darparu canllawiau i awdurdodau lleol ar ddefnyddio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol sydd ar gael drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Adran 194 – Dyletswydd i gynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol

692. Mae adran 194 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru yn curadu'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ar ran Gweinidogion Cymru.
693. Crëwyd y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn sgil degawdau o waith ymchwil, ac maent yn cynnwys gwybodaeth fanwl am amgylchedd hanesyddol ardaloedd penodol. Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffynonellau gwybodaeth hanfodol i'r bobl hynny sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy. Mae'r wybodaeth honno'n bwysig ar gyfer prosesau rheoli, cadwraeth, gwaith maes ac ymchwil, yn ogystal ag ymgysylltu â'r cyhoedd a gwaith allgymorth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n sail i'r cyngor archaeolegol a'r cyngor arall ar reoli treftadaeth a roddir i awdurdodau cynllunio lleol. Heb wybodaeth o'r fath, gellid taflu amheuan ar yr wybodaeth hanfodol a ddefnyddir, er enghraifft, wrth asesu effaith cynigion datblygu ar yr amgylchedd hanesyddol.
694. Mae is-adran (2) yn nodi'r amrywiaeth eang o wybodaeth y mae rhaid i gofnod amgylchedd hanesyddol ei darparu, gyda pharagraffau (a) i (g) yn manylu ar yr asedau neu safleoedd hanesyddol amrywiol sydd wedi eu dynodi neu eu cydnabod yn ffurfiol ac y mae rhaid eu cynnwys. Mae paragraff (h) yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys manylion pob ardal arall neu safle arall y mae'r awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru yn ystyried ei bod neu ei fod o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol lleol. Gallai cofnodion o dan baragraff (h) ymwneud â safleoedd archaeolegol anghofrestredig, adeiladau neu strwythurau hanesyddol anrhestredig, parciau a gerddi hanesyddol, meysydd brwydrau neu dirweddau nad ydynt i'w gweld ar y cofrestrau na'r rhestrau perthnasol, neu leoliadau sydd â thystiolaeth baleo-amgylcheddol bwysig. Gallai'r cofnodion hynny hefyd gynnwys lleoliadau nad ydynt yn cynnwys unrhyw dystiolaeth ffisegol weledol, ond a allai fod yn gysylltiedig â chyfeiriad hanesyddol, cartograffig neu ddogfennol, neu â darganfod arteffact archaeolegol.
695. Mae paragraff (i) yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys mewn cofnod amgylcheddol hanesyddol wybodaeth am y ffordd y mae datblygiad hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol ardal wedi cyfrannu at ei chymeriad presennol. Gellir cael yr wybodaeth hon o raglenni cymeriadu trefol a gwledig sy'n mynd rhagddynt yn ogystal â phrosesau megis arfarniadau o ardaloedd cadwraeth. Mae'r astudiaethau seiliedig ar ardal hyn yn egluro'r ffordd y mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at gymeriad lleol/rhanbarthol nodweddiadol ardal a'r ffordd y gellir diogelu'r cymeriad hwn at y dyfodol.

691. The statutory guidance for historic environment records – *Historic Environment Records in Wales: Compilation and Use* (2017) – published in accordance with section 196 and kept under review, includes an annex providing guidance for local authorities on the use of the List of Historic Place Names, which can be accessed through the historic environment records.

Section 194 – Duty to maintain historic environment records

692. Section 194 requires the Welsh Ministers to maintain a historic environment record for each local authority area in Wales. The Welsh archaeological trusts curate the historic environment records on behalf of the Welsh Ministers.
693. The historic environment records have been created as a result of decades of research and investigation and provide detailed information about the historic environment of a given area. Historic environment records are critical sources of information for those making decisions about the sustainable management of the historic environment. That information is important for management processes, conservation, fieldwork and research, as well as public engagement and outreach relating to the historic environment. It forms the basis for archaeological and other heritage management advice provided to local planning authorities. Without such information, the essential advice that informs, for example, the assessment of the impact of development proposals on the historic environment, could be brought into question.
694. Subsection (2) sets out the wide range of information that must be provided in a historic environment record, with paragraphs (a) to (g) detailing various formally designated or recognised historic assets or sites that must be included. Paragraph (h) requires the inclusion of details of every other area or site considered to be of local historic, archaeological or architectural interest by the local authority or the Welsh Ministers. Records under paragraph (h) might relate to unscheduled archaeological sites, unlisted historic buildings or structures, historic parks and gardens, battlefields or landscapes that do not appear on the relevant registers or inventories, or locations with important palaeo-environmental evidence. Such records might also include locations that do not have any visible physical evidence, but might be associated with a historical, cartographic or documentary reference, or the discovery of an archaeological artefact.
695. Paragraph (i) requires the incorporation in a historic environment record of information about the way in which the historic, archaeological or architectural development of an area has contributed to its present character. This information may be obtained from ongoing urban and rural characterisation programmes and processes such as conservation area appraisals. These area-based studies explain how the historic environment contributes to the distinctive local/regional character of an area and how this character can be conserved for the future.

696. Mae is-adran (8) yn cadarnhau y bydd ardal awdurdod lleol, os yw ardal yr awdurdod yn cynnwys rhan o arfordir, yn cynnwys unrhyw ran o'r môr sy'n gorwedd tua'r môr o'r rhan honno o'r lan ac sy'n ffurfio rhan o Gymru. O dan y diffiniad yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), mae Cymru yn cynnwys y môr sy'n gyfagos i Gymru o fewn terfyn atfor y môr tiriogaethol, hynny yw 12 o filltiroedd morol (o dan Ddeddf Môr Tiriogaethol 1987 (p. 49)). Os yw cofnod perthnasol o'r amgylchedd hanesyddol morol o fewn 12 o filltiroedd morol yn cael ei ddal gan un o'r categorïau yn is-adran (2), dylid ei gynnwys yn y cofnod amgylchedd hanesyddol. Er enghraifft, mae nifer o longdrylliadau hanesyddol yn nyfroedd Cymru y gellid eu cynnwys.

Adran 195 – Mynediad at gofnodion amgylchedd hanesyddol

697. Mae adran 195 yn ei gwneud yn ofynnol i gofnod amgylchedd hanesyddol fod yn adnodd sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae pob cofnod amgylchedd hanesyddol ar gael yn rhad ac am ddim ar-lein drwy Archwilio ac yn cael ei ategu gan ddeunydd cyfeirio cysylltiedig, a all fod ar ffurf ddigidol neu bapur, ac mae ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. Gall y deunydd hwn gynnwys ffotograffau o'r awyr, copiâu o fapiau cynnar ac adroddiadau hynafiaethol, astudiaethau cymeriadu ac adroddiadau nas cyhoeddwyd ("llynyddiaeth lwyd") yn ogystal â ffynonellau cyhoeddiedig a dogfennol eraill. Adnodd dynamig sy'n datblygu o hyd yw cofnodion amgylchedd hanesyddol, ac mae angen eu cynnal a'u gwella'n barhaus wrth i wybodaeth newydd am yr amgylchedd hanesyddol ddod i'r amlwg. Rhaid cynnig cyngor a chymorth proffesiynol hefyd er mwyn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i wybodaeth a geir mewn cofnod amgylchedd hanesyddol, neu y ceir mynediad ati drwy gofnod amgylchedd hanesyddol, ac i ddehongli'r wybodaeth honno.
698. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi copi o ran o gofnod amgylchedd hanesyddol i berson sy'n gofyn amdano, os bernir bod y cais yn rhesymol. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio dogfen sy'n cynnwys yr wybodaeth y gofynnwyd amdani ac a adalwyd o'r cofnod amgylchedd hanesyddol. Mae'n bosibl y bydd angen dehongli'r data yn y cofnod, neu wneud rhyw fath o waith dadansoddi neu ymchwil ychwanegol er mwyn llunio'r ddogfen hon.
699. Mae is-adran (5) yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i godi ffioedd er mwyn adennill costau darparu gwasanaethau penodol sy'n gysylltiedig â chofnodion amgylchedd hanesyddol, er enghraifft, llunio adroddiadau ar sail dadansoddiad o gynnwys cofnod amgylchedd hanesyddol. Ni fydd elw o'r ffioedd hyn, ac fe'u cyfyngir i dalu costau darparu'r gwasanaeth yn unig.

Adran 196 – Canllawiau i gyrff cyhoeddus penodol ynghylch cofnodion amgylchedd hanesyddol

700. Mae adran 196 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar y ffordd y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol, ac ar ddefnyddio cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer eu swyddogaethau. Ar adeg ysgrifennu'r nodiadau hyn, mae'r canllawiau, *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio* (2017), ar gael ar wefan Cadw.

696. Subsection (8) establishes that if a local authority's area includes a section of coastline, the authority's area will include any part of the sea that lies seaward from that part of the shore and forms part of Wales. Under the definition in the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4), Wales includes the sea adjacent to Wales within the seaward limit of the territorial sea, that is 12 nautical miles (under the Territorial Sea Act 1987 (c. 49)). If a relevant record from the marine historic environment within the 12 nautical mile limit is captured by one of the categories in subsection (2), it should be included in the historic environment record. For instance, there are many historic shipwrecks in Welsh waters that could be included.

Section 195 – Access to historic environment records

697. Section 195 requires a historic environment record to be a publicly available resource. Every historic environment record is freely available online through Archwilio and is supported by associated reference material, which may be digital or paper, and is publicly available at the offices of the Welsh archaeological trusts. This material can include aerial photographs, copies of early maps and antiquarian reports, characterisation studies, unpublished reports (“grey literature”), and other published and documentary sources. Historic environment records are dynamic and constantly evolving resources which require continuous maintenance and enhancement as new information about the historic environment comes to light. Professional advice and assistance must also be offered to help users locate and interpret information provided in or accessed by means of a historic environment record.
698. Subsection (2) requires the Welsh Ministers on request to provide a person with a copy of part of a historic environment record if the request is deemed reasonable. Subsection (3) requires the Welsh Ministers to compile a document with the requested information retrieved from the historic environment record. The compilation of this document may require interpretation of the data within the record, some form of analysis or additional research.
699. Subsection (5) gives the Welsh Ministers the power to impose charges to recover the costs of providing certain services associated with historic environment records, for example, the production of reports based on analysis of historic environment record content. No profit will be made from such charges, which will be limited to the costs of providing the service.

Section 196 – Guidance to certain public bodies about historic environment records

700. Section 196 requires the Welsh Ministers to issue guidance to local authorities, National Park authorities and Natural Resources Wales on how they may contribute to the compilation and maintenance of the historic environment records and on the use of the historic environment records in the exercise of their functions. The guidance at the time of writing these notes, *Historic Environment Records in Wales: Compilation and Use* (2017), is available on the website of Cadw.

701. Rhaid i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru roi sylw i'r canllawiau hyn. Mae gan y cyrff cyhoeddus hyn rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o reoli a diogelu'r amgylchedd hanesyddol, ac yn y ffordd y caiff ei hyrwyddo, ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan y cyhoedd. Mae eu llwyddiant yn dibynnu ar y gallu i ddefnyddio gwybodaeth awdurdodol, o ansawdd uchel am yr amgylchedd hanesyddol, megis yr wybodaeth a ddarperir gan y cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Rhan 7 – Cyffredinol

Adran 197 – Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol drwy hysbysiad

Adran 198 – Troseddau mewn cysylltiad ag adran 197

702. Mae adran 197 yn galluogi "awdurdod perthnasol" (a ddiffinnir yn is-adran (4) fel Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol) i gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i feddiannydd unrhyw dir neu i unrhyw un sy'n cael rhent mewn cysylltiad ag unrhyw dir. Mae'r hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu gwybodaeth am natur buddiant y person yn y tir ac enw a chyfeiriad unrhyw berson arall y gwyddys bod ganddo fuddiant yn y tir. Mae is-adran (2) yn darparu mai dim ond os yw'r wybodaeth yn ofynnol er mwyn galluogi'r awdurdod perthnasol i arfer swyddogaethau penodol o dan y Ddeddf y caniateir cyflwyno hysbysiad gwybodaeth. Er enghraifft, wrth ymchwilio i waith anawdurdodedig honedig i heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig, caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol ddefnyddio hysbysiad gwybodaeth fel cam cyntaf er mwyn canfod pwy yw'r meddianwyr a'r perchnogion cyn cysylltu â hwy. At ddibenion yr adran hon, mae i awdurdod lleol yr ystyr a roddir yn adran 157.
703. Mae adran 198 yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'r person, heb esgus rhesymol, yn methu â darparu gwybodaeth, neu'n darparu gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol, mewn ymateb i hysbysiad gwybodaeth a gyflwynir o dan adran 197.
704. Mae person sy'n euog o'r drosedd o fethu, heb esgus rhesymol, â darparu'r wybodaeth ofynnol yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Mae person sy'n euog o'r drosedd o ddarparu gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol yn agored ar euogfarn ddiannod neu ar euogfarn ar ddiad i ddirwy ddiderfyn.

Adran 199 – Gwybodaeth am fuddiannau yn nhir y Goron

705. Mae adran 199 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud ceisiadau mewn achosion penodol i awdurdod priodol y Goron am wybodaeth am natur ei fuddiant yn nhir y Goron ac enw a chyfeiriad unrhyw berson arall y gall fod ganddo fuddiant yn y tir. Ni chaiff y cais am wybodaeth ymwneud â buddiant preifat yn nhir y Goron, ac os felly bydd adran 197 yn gymwys. Dim ond am fuddiannau yn nhir y Goron y caiff Gweinidogion Cymru ofyn am wybodaeth at ddibenion penodol mewn cysylltiad â galluogi Gweinidogion Cymru, neu awdurdod lleol (fel y'i diffinnir yn adran 157) i arfer y swyddogaethau penodol o dan y Ddeddf a nodir yn adran 197(2). Diffinnir "awdurdod priodol y Goron" a "buddiant preifat" yn adran 207.

701. Local authorities, National Park authorities and Natural Resources Wales must have regard to this guidance. These public bodies have important roles in the management and conservation of the historic environment and in the way it is promoted, accessed and appreciated by the public. Their success depend on access to good-quality, authoritative information about the historic environment, such as that provided by the historic environment records.

Part 7 – General

Section 197 – Power to require information by notice

Section 198 – Offences in connection with section 197

702. Section 197 enables a “relevant authority” (defined in subsection (4) as the Welsh Ministers or a local authority) to serve an information notice on the occupier of any land or anyone who receives rent in respect of any land. The information notice requires the recipient to provide information about the nature of the person’s interest in the land and the name and address of any other person known to have an interest in the land. Subsection (2) provides that an information notice may only be served where the information is required to enable the relevant authority to undertake particular functions under the Act. For instance, when investigating alleged unauthorised works to a scheduled monument or listed building, the Welsh Ministers or a local authority may use an information notice as an initial step to identify occupiers and owners before making contact. For the purposes of this section, local authority has the meaning given in section 157.
703. Section 198 provides that a person commits an offence if the person, without a reasonable excuse, fails to provide information, or knowingly provides false or misleading information, in response to an information notice served under section 197.
704. A person guilty of the offence of failing, without a reasonable excuse, to provide the required information is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale. A person guilty of the offence of knowingly providing information which is false or misleading in a material respect is liable on summary conviction or on conviction on indictment to an unlimited fine.

Section 199 – Information about interests in Crown land

705. Section 199 allows the Welsh Ministers to make requests in certain cases to the appropriate Crown authority for information about the nature of its interest in Crown land and the name and address of any other person who may have an interest in the land. The request for information may not relate to a private interest in Crown land, in which case section 197 will apply. The Welsh Ministers may only request information about interests in Crown lands for certain purposes which relate to enabling the Welsh Ministers, or a local authority (as defined in section 157) to exercise the particular functions under the Act set out in section 197(2). “Appropriate Crown authority” and “private interest” are defined in section 207.

706. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod priodol y Goron gydymffurfio â chais o'r fath oni bai nad yw'n gwybod yr wybodaeth neu y byddai'n datgelu gwybodaeth am ddiogelwch cenedlaethol neu fesurau ar gyfer diogelwch tir neu eiddo arall.

Adran 201 – Sanctsiynau sifil

707. Mae adran 201 yn darparu ar gyfer cymhwyso sanctsiynau sifil i droseddau a gyflawnir o dan y ddeddfwriaeth hon.
708. Mae is-adran (1) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer sanctsiwn sifil mewn perthynas â throedd o dan y Ddeddf hon y gallent ei gwneud o dan Ran 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol 2008 pe byddent hwy, neu pe byddai unrhyw awdurdod arall gyda swyddogaeth orfodi, yn rheoleiddiwr mewn perthynas â throedd berthnasol. Gall sanctsiynau sifil gynnwys cosbau ariannol penodedig a gofynion amrywiol yn ôl disgrisiwn i'w pennu gan yr awdurdod gorfodi perthnasol. Caiff y gofynion yn ôl disgrisiwn gynnwys dirwyon ariannol i'w gosod gan reoleiddiwr; camau i'w cymryd i sicrhau na fydd y drosedd yn digwydd eto; neu gamau i'w cymryd i adfer y safle cyn comisiynu'r drosedd.
709. Mae is-adrannau (2) i (4) yn cymhwyso darpariaethau perthnasol o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol 2008 i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau o dan is-adran (1).

Adran 202 – Gwneud hawliadau am ddigollediad

Adran 203 – Penderfynu hawliadau digollediad gan yr Uwch Dribiwnlys

Adran 204 – Digollediad am ddibrisiant yng ngwerth tir

710. Mae adrannau 202 i 204 yn gwneud darpariaethau amrywiol ynghylch digolledu.
711. Mae adran 202 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am y ffordd y mae rhaid gwneud hawliadau am ddigollediad o dan y Ddeddf. Caiff y rheoliadau hefyd ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf sy'n pennu'r cyfnod y mae rhaid gwneud hawliad am ddigollediad ynddo.
712. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried bod rhesymau da dros wneud hynny, estyn y cyfnod ar gyfer gwneud hawliad am ddigollediad o dan y Ddeddf mewn achos penodol.
713. Mae adran 203 yn darparu bod rhaid i unrhyw anghydfod ynghylch digollediad sy'n daladwy o dan y Ddeddf gael ei atgyfeirio at yr Uwch Dribiwnlys a'i benderfynu ganddo. Mae is-adran (2) yn darparu ymhellach fod adran 4 o Ddeddf 1961 yn gymwys i unrhyw achos yn yr Uwch Dribiwnlys sy'n ymwneud â digollediad y mae anghydfod yn ei gylch o dan y Ddeddf. Mae adran 4 yn galluogi'r Uwch Dribiwnlys i'w gwneud yn ofynnol i un parti mewn unrhyw achos ger ei fron sy'n ymwneud â digollediad y mae anghydfod yn ei gylch i dalu'r costau y mae parti arall yn yr achos yn mynd iddynt.

706. Subsection (3) requires the appropriate Crown authority to comply with such a request unless it does not know the information or it would disclose information about national security or measures for the security of land or other property.

Section 201 – Civil sanctions

707. Section 201 provides for the application of civil sanctions to offences committed under this legislation.
708. Subsection (1) gives the Welsh Ministers regulation-making powers to make any provision for a civil sanction in relation to an offence under this Act that they could make under Part 3 of the 2008 Regulatory Enforcement Act if they or any other authority with an enforcement function were a regulator in relation to a relevant offence. Civil sanctions may include fixed monetary penalties and various discretionary requirements to be determined by the relevant enforcement authority. The discretionary requirements may include financial penalties to be set by a regulator; steps to be taken to ensure an offence will not reoccur; or steps to be taken to restore the position before the commission of the offence.
709. Subsections (2) to (4) apply relevant provisions of the 2008 Regulatory Enforcement Act to any provision that the Welsh Ministers make by regulations under subsection (1).

Section 202 – Making claims for compensation

Section 203 – Determination of compensation claims by Upper Tribunal

Section 204 – Compensation for depreciation of value of land

710. Sections 202 to 204 make various provisions relating to compensation.
711. Section 202 enables the Welsh Ministers to make regulations about how claims for compensation under the Act must be made. The regulations may also amend any provision of the Act which specifies the period within which a claim for compensation must be made.
712. Subsection (2) provides that, if they consider there to be good reasons for doing so, the Welsh Ministers may extend the period for claiming compensation under the Act in a particular case.
713. Section 203 provides that any dispute about compensation payable under the Act must be referred to and be determined by the Upper Tribunal. Subsection (2) further provides that section 4 of the 1961 Act applies to any Upper Tribunal proceedings about disputed compensation under the Act. Section 4 enables the Upper Tribunal to require one party in any proceedings before it about disputed compensation to pay the costs incurred by another party to those proceedings.

714. Mae adran 204 yn darparu bod adran 5 o Ddeddf 1961, sy'n nodi rheolau sylfaenol ar gyfer asesu digollediad ar gaffael tir yn orfodol, yn gymwys wrth gyfrifo digollediad am ddibrisiant yng ngwerth y tir. Gallai hyn fod yn gymwys, er enghraifft, pan fydd gwerth y tir wedi lleihau o ganlyniad i wrthod cydsyniad heneb gofrestredig (adran 21) neu ddirymu cydsyniad adeilad rhestredig (adran 108). Mae hefyd yn nodi'r rheolau ynghylch pwy gaiff hawlio a derbyn digollediad, ac ynghylch y sail y mae'r digollediad yn daladwy arni os bydd buddiant mewn tir yn ddarostyngedig i forgais.

Adran 205 – Cyflwyno hysbysiadau a dogfennau eraill: cyffredinol

Adran 206 – Darpariaeth ychwanegol ynghylch cyflwyno i bersonau sydd â buddiant mewn tir neu sy'n meddiannu tir

715. Mae adrannau 205 a 206 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiadau neu ddogfennau eraill i bersonau, gan gynnwys cyrff corfforedig, o dan y Ddeddf. At y dibenion hyn, mae "cyflwyno" yn cynnwys cyfeiriadau yn y Ddeddf at "cyflwyno", "rhoi" (ac unrhyw dermau tebyg).
716. Mae adran 205(2)(a) i (d) yn nodi'r gwahanol ffyrdd o gyflwyno y caniateir eu defnyddio o dan y Ddeddf, gan gynnwys cyfathrebiadau electronig. Ni chaniateir defnyddio cyfathrebiadau electronig oni bai bod y person y cyflwynir iddo wedi darparu cyfeiriad ar gyfer cyflwyno'n electronig, ac wrth ddefnyddio'r dull hwn – e-bost, er enghraifft – rhaid bodloni amodau penodol er mwyn sicrhau bod y derbynnydd yn gallu darllen a defnyddio'r ddogfen (adran 205(3)). Ni chaniateir cyflwyno hysbysiad i gorff corfforedig drwy ei anfon drwy'r post mewn amlen ragdaledig neu drwy ei roi â llaw i'r ysgrifennydd neu'r clerc yn y brif swyddfa neu'r swyddfa gofrestredig, neu drwy ddefnyddio cyfathrebiad electronig.
717. Mae adran 206 yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer cyflwyno hysbysiad neu ddogfen i berson sydd â buddiant mewn adeilad, heneb neu dir y gallai ei enw a/neu ei gyfeiriad fod yn anhysbys. Mae'r adran hefyd yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiad neu ddogfen i feddiannydd adeilad, heneb neu dir.
718. Os bydd enw person sydd â buddiant mewn adeilad, heneb neu dir yn anhysbys, ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, megis cysylltu â'r Gofrestrfa Tir, caniateir cyfeirio'r ddogfen at y person fel "y perchennog" (is-adran (2)). Caniateir cyfeirio dogfen sydd i'w chyflwyno i feddiannydd adeilad, heneb neu dir, at y person wrth ei enw neu fel "y meddiannydd".
719. Mae is-adrannau (4) a (5) yn nodi'r opsiynau ar gyfer cyflwyno dogfen yn briodol i berson sydd â buddiant mewn adeilad, heneb neu dir heb unrhyw gyfeiriad cyfredol i'w anfon neu i feddiannydd adeilad, heneb neu dir.

Adran 208 – Tir Eglwys Loegr

720. Mae adran 208 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymhwyso'r Ddeddf i dir sy'n perthyn i Eglwys Loegr. Mae Eglwys Loegr yn berchen ar nifer bach o eglwysi yng Nghymru. Ymhlith pethau eraill, pan fo hysbysiad neu ddogfen yn cael ei gyflwyno neu ei chyflwyno o dan y Ddeddf ar Eglwys Loegr fel perchennog tir, mae'r adran yn darparu bod rhaid cyflwyno hysbysiad cyfatebol neu ddogfen gyfatebol i'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol ar gyfer yr ardal dan sylw. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i unrhyw ddigollediad sy'n daladwy i Eglwys Loegr o dan y Ddeddf gael ei dalu i'r Bwrdd Cyllid priodol.

714. Section 204 provides that section 5 of the 1961 Act, which sets out basic rules for assessing compensation on the compulsory acquisition of land, applies when calculating compensation for depreciation of the value of land. This could be applicable, for example, when the value of the land has reduced as a result of the refusal of scheduled monument consent (section 21) or the revocation of listed building consent (section 108). It also sets out rules about who may claim and receive compensation, and about the basis on which compensation is payable, if the interest in land is subject to a mortgage.

Section 205 – Service of notices and other documents: general

Section 206 – Additional provision about service on persons interested in or occupying land

715. Sections 205 and 206 make provision for the service of notices or other documents on persons, including bodies corporate, under the Act. For these purposes, “served” includes references in the Act to “serve”, “give” (and any similar terms).
716. Section 205(2)(a) to (d) sets out the different methods of service that may be used under the Act, including electronic communications. Electronic communications may only be used where the person being served has provided an address for electronic service, and when using this method – email, for example – specific conditions need to be met to ensure that the recipient can read and access the document (section 205(3)). A notice can be served on a body corporate by sending it by post in a pre-paid letter or handing it to the secretary or clerk at its registered or principal office, or by using electronic communication.
717. Section 206 makes further provision for the service of a notice or document on a person with an interest in a building, monument or land whose name and/or address may be unknown. The section also provides for the service of a notice or document on an occupier of a building, monument or land.
718. If, after making reasonable inquiries, such as contacting the Land Registry, the name of a person with an interest in a building, monument or land is unknown, a document may be addressed to the person as “the owner” (subsection (2)). A document to be served on an occupier of a building, monument or land, may be addressed to the person by name or as an “occupier”.
719. Subsections (4) and (5) set out options for the proper service of a document on a person with an interest in a building, monument or land with no current address for delivery or on a occupier of a building, monument or land.

Section 208 – Church of England land

720. Section 208 makes provision for the application of the Act to land belonging to the Church of England. There are a small number of churches in Wales which are owned by the Church of England. Among other things, the section provides that where a notice or document is served under the Act on the Church of England as an owner of land, a corresponding notice or document must be served on the Diocesan Board of Finance for the area in question. Subsection (3) provides that any compensation payable to the Church of England under the Act must be paid to the appropriate Board of Finance.

Adran 209 – Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

721. Mae adran 209 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn arferadwy drwy offeryn statudol, ac mae is-adrannau (2) a (3) yn nodi'r darpariaethau y caniateir eu gwneud drwy reoliadau o'r fath.
722. Mae is-adran (5) yn nodi'r rheoliadau y mae rhaid eu gosod gerbron Senedd Cymru a'u cymeradwyo ganddi drwy benderfyniad cyn iddynt gael eu gwneud; yr enw ar hyn yw'r weithdrefn gadarnhaol. Mae paragraff (h) yn cymhwyso'r gofyniad hwn i unrhyw reoliadau sy'n diwygio neu'n diddymu deddfiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol.
723. O dan is-adran (6) mae pob rheoliad arall yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, pan gaiff offeryn statudol ei osod gerbron Senedd Cymru a'i wneud yn gyfraith oni bai y caiff ei ddiddymu o fewn cyfnod o 40 o ddiwrnodau.

Adran 211 – Darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.

Atodlen 13 – Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

Atodlen 14 – Darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed

724. Mae adran 211 yn cyflwyno Atodlenni 13 a 14 sydd, gyda'i gilydd, yn gwneud diwygiadau a darpariaethau trosiannol a fydd yn cymhwyso'r newidiadau i'r gyfraith sy'n deillio o ddeddfu'r Ddeddf.
725. Mae is-adrannau (3) a (4) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rhagor o ddarpariaethau deilliadol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol neu ddarpariaethau arbed drwy reoliadau.
726. Mae Atodlen 13 yn cynnwys gwahanol ddiwygiadau sy'n angenrheidiol o ganlyniad i gydgyrnhoi deddfwriaeth yn yDdeddf. Mae rhai newidiadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer enwi'r Ddeddf yn briodol mewn deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, ac mae nifer mawr o'r newidiadau eraill yn angenrheidiol er mwyn dileu Cymru o'r deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol a fydd yn parhau mewn grym yn Lloegr a'r Alban, yn arbennig Deddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990.
727. Mae paragraffau 35 i 37 o Atodlen 13 yn gwneud y newidiadau sy'n angenrheidiol i ddirymu Rhan II (ardaloedd archaeolegol) o Ddeddf 1979 yng Nghymru. Nid yw Rhan II erioed wedi ei defnyddio yng Nghymru, oherwydd bod polisïau cynllunio, yn ymarferol, yn gwarchod y dreftadaeth archaeolegol yn well. Mae hyn yn rhoi effaith i argymhellad 13.11 o adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* (Comisiwn y Gyfraith Rhif 383, 2018).
728. Mae paragraff 65 o Atodlen 13 yn mewnosod adran newydd 79A yn Neddf Adeiladu 1984 (p. 55) ("Deddf 1984"). Mae'r adran hon yn deillio o adran 56 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru ystyried cymryd camau penodol mewn perthynas ag adeiladau rhestredig ac adeiladau penodol eraill o dan y Ddeddf cyn cael gorchymyn o dan adran 77(1)(a) o Ddeddf 1984 (gwneud gorchymyn adeilad peryglus) neu gyflwyno hysbysiad o dan adran 79(1) o'r Ddeddf honno (cyflwyno hysbysiad mewn perthynas ag adeilad adfeiliedig sy'n niweidiol i amwynder).

Section 209 – Regulations under this Act

721. Section 209 contains general provisions regarding regulations made under this Act. The power to make regulations is exercisable by statutory instrument and subsections (2) and (3) set out what provisions may be made by such regulations.
722. Subsection (5) identifies the regulations that must be laid before and approved by resolution of the Senedd prior to being made; this is known as the affirmative procedure. Paragraph (h) applies this requirement to any regulations that amend or repeal enactments in primary legislation.
723. Under subsection (6) all other regulations are subject to the negative procedure, in which a statutory instrument is laid before the Senedd and it becomes law unless it is annulled within a period of 40 days.

Section 211 – Consequential and transitional provision etc.

Schedule 13 – Minor and consequential amendments and repeals

Schedule 14 – Transitional and saving provisions

724. Section 211 introduces Schedules 13 and 14 which together make amendments and transitional provisions that will accommodate the legal changes occasioned by the enactment of the Act.
725. Subsections (3) and (4) give the Welsh Ministers powers to make further incidental, consequential, transitional, transitory or saving provisions by regulations.
726. Schedule 13 contains various amendments that are necessary in consequence of consolidating the legislation in the Act. Some changes make provision for the appropriate citation of the Act in existing legislation, while many others are needed to extract Wales from the historic environment legislation that will remain in effect in England and Scotland, particularly the 1979 Act and 1990 Listed Buildings Act.
727. Paragraphs 35 to 37 of Schedule 13 make the changes that are necessary to revoke Part II (archaeological areas) of the 1979 Act in Wales. Part II has never been used in Wales, because in practice planning policy provides greater protection to the archaeological heritage. This gives effect to recommendation 13.11 of the Law Commission's report, *Planning Law in Wales* (Law Com No 383, 2018).
728. Paragraph 65 of Schedule 13 inserts a new section 79A into the Building Act 1984 (c. 55) ("the 1984 Act"). Derived from section 56 of the 1990 Listed Buildings Act, it requires a local authority in Wales to consider taking certain steps in relation to listed buildings and certain other buildings under the Act prior to obtaining an order under section 77(1)(a) of the 1984 Act (making a dangerous building order) or serving a notice under section 79(1) of that Act (serving a notice with regard to a ruinous or dilapidated building detrimental to amenity).

729. Os yw'r adeilad yn un rhestredig ac os yr awdurdod lleol yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer yr ardal y mae'r adeilad ynddi, dylai'r awdurdod ystyried pa un a ddylai arfer ei bwerau o dan adrannau 137 a 138 o'r Ddeddf i gyflwyno hysbysiad atgyweirio a chychwyn y broses ar gyfer caffael yn orfodol ai peidio.
730. Mae adran 79A(1)(b) yn darparu ymhellach, mewn unrhyw achos sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig, y dylai awdurdod lleol ystyried cyflawni gwaith diogelu brys o dan adran 144 o'r Ddeddf.
731. Mae adran 79A(2) yn darparu ymhellach y dylai'r awdurdod lleol, os yw adeilad yn ddarostyngedig i warchodaeth interim neu restru dros dro o dan y Ddeddf, neu os yw Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd mewn perthynas ag adeilad mewn ardal gadwraeth ar y sail ei fod yn bwysig ar gyfer cynnal cymeriad neu olwg yr ardal honno, ystyried cyflawni gwaith brys er mwyn diogelu'r adeilad o dan adran 144 o'r Ddeddf.
732. Mae paragraff 90 yn mewnosod adran newydd 314A yn Neddf Cynllunio 1990. Mae'r adran hon yn deillio o adran 66 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, ac mae'n darparu bod rhaid i awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried pa un a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad ai peidio, roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu'r adeilad rhestredig, ei leoliad ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
733. Mae adran 314A(4) o Ddeddf Cynllunio 1990 yn pennu bod "adeilad rhestredig" yn yr adran hon yn cyfeirio at adeiladau yng Nghymru a Lloegr. O ganlyniad, yn rhanbarthau Cymru ar hyd y ffin â Lloegr, gallai fod angen i awdurdod cynllunio yng Nghymru neu Weinidogion Cymru roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu adeiladau rhestredig a'u lleoliadau ar y ddwy ochr o'r ffin wrth ystyried pa un a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio. Gwneir diwygiad ategol i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 gan baragraff 136. Bydd hwn yn gosod dyletswydd gyfatebol ar awdurdodau cynllunio yn Lloegr a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag adeiladau rhestredig yng Nghymru.
734. Mae paragraff 127 yn diwygio adran 49 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 fel bod ei darpariaethau ar gyfer digollediad ar gaffael adeiladau rhestredig yn orfodol yn parhau i fod yn gymwys i Gymru a Lloegr. Mae darpariaethau eraill Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn peidio â bod yn gymwys i Gymru yn rhinwedd paragraff 93 i 160.
735. Mae paragraff 192 yn diddymu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn llwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau wedi cael eu hailddatgan yn y Ddeddf ar wahân i'r rheini ar gyfer y Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru, na roddwyd effaith iddynt erioed.
736. Mae Atodlen 14 yn cynnwys gwahanol ddarpariaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer pontio o ddeddfiadau cynharach i'r Ddeddf mewn modd didrafferth a di-dor. Mae Rhan 1 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol, tra bo Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion sy'n ymwneud â henebion sydd o dan warcheidiaeth, ac mae Rhan 3 yn ymdrin â nifer o achosion penodol y mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith flaenorol ynddynt.

729. If the building is listed and the local authority is the planning authority for the area in which the building is situated, it should consider whether it should exercise its powers under sections 137 and 138 of the Act to serve a repairs notice and initiate the process for compulsory acquisition.
730. Section 79A(1)(b) further provides that, in any case involving a listed building, a local authority should consider undertaking urgent preservation works under section 144 of the Act.
731. Section 79A(2) further provides that, if a building is subject to interim protection or temporary listing under the Act, or if the Welsh Ministers have given a direction in relation to a building in a conservation area on the ground that it is important for maintaining the character or appearance of that area, the local authority should consider undertaking urgent works for the preservation of the building under section 144 of the Act.
732. Paragraph 90 inserts a new section 314A into the 1990 Planning Act. Derived from section 66 of the 1990 Listed Buildings Act, it provides that, if considering whether to grant planning permission for development that affects a listed building or its setting, a local planning authority in Wales or the Welsh Ministers must have special regard to the desirability of preserving the listed building, its setting and any features of special architectural or historic interest.
733. Section 314A(4) of the 1990 Planning Act specifies that in this section “listed building” refers to buildings situated in both Wales and England. Consequently, in regions of Wales along the border with England, a Welsh planning authority or the Welsh Ministers might have to give special regard to the desirability of preserving listed buildings and their settings on both sides of the border when considering whether to grant planning permission. A complementary amendment to the 1990 Listed Buildings Act is made by paragraph 136. This will place a corresponding duty on English local planning authorities and the Secretary of State with regard to listed buildings in Wales.
734. Paragraph 127 amends section 49 of the 1990 Listed Buildings Act so that its provisions for compensation on the compulsory acquisition of listed buildings will continue to apply to England and Wales. The other provisions of the 1990 Listed Buildings Act cease to apply to Wales by virtue of paragraphs 93 to 160.
735. Paragraph 192 completely repeals the Historic Environment (Wales) Act 2016. The bulk of the provisions have been restated in the Act apart from those for the Advisory Panel for the Historic Environment, which have never been brought into effect.
736. Schedule 14 contains various provisions necessary for the smooth and uninterrupted transition from earlier enactments to the Act. While Part 1 contains general provisions, Part 2 makes provision for matters relating to monuments under guardianship, and Part 3 deals with a number of specific cases in which the Act makes changes to the previous law.

Adran 213 – Enw byr

737. Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Ddeddf, y gall dogfennau eraill ei ddefnyddio i gyfeirio ati, yw Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

738. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar: [Deddf Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\) 2023 \(senedd.cymru\)](#)

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	4 Gorffennaf 2022
Ystyriaeth Gychwynnol - Dadl	17 Ionawr 2023
Ystyriaeth Fanwl gan y Pwyllgor	13 Chwefror 2023
Cyfnod Terfynol	28 Mawrth 2023
Y Cydsyniad Brenhinol	14 Mehefin 2023

© Hawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

*These notes refer to the Historic Environment (Wales) Act 2023 (asc 3)
which received Royal Assent on 14 June 2023*

Section 213 – Short title

737. This section provides that the short title of the Act, by which other documents may refer to it, is the Historic Environment (Wales) Act 2023.

RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU

738. The following table sets out the dates for each stage of the Act’s passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passages of this Act can be found on the Senedd website at: [Historic Environment \(Wales\) Act 2023 \(senedd.wales\)](https://www.senedd.wales)

Stage	Date
Introduced	4 July 2022
Initial Consideration – Debate	17 January 2023
Detailed Committee Consideration	13 February 2023
Final Stage	28 March 2023
Royal Assent	14 June 2023

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer of Acts of Parliament.



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070


Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-11972-5



9 780348 119725